# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 4YDD RHAGFYR, 2025**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 27 Tachwedd 2025)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 26 TACHWEDD 2025**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 4 RHAGFYR 2025**

**FE’CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 4YDD RHAGFYR, 2025 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



<u>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth</u>

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i’r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 7 - 26

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2025 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o’r Cyfansoddiad.

**7. TRETH CYNGOR - HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM AR AIL-GARTREFI AC EIDDO GWAG HIR-DYMOR 2026-27** 27 - 188

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2026-27** 189 - 194

Cyflwyno adroddiad y Aelod Cabinet Cyllid.

**9. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD 2024/25** 195 - 280

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor.

**10. TREFNIADAU DATRYS MEWNOL** 281 - 285

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

**11. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Beca Brown yn cynnig fel a ganlyn:-

Hoffem groesawu cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant ar Dachwedd 4ydd, gan gofnodi ein diolch dwfn i'r cadeirydd Jan Pickles am ei gwaith gofalus, a felly hefyd i'r panel ac i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Hoffem nodi teitl yr adroddiad, Sef Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y teitl bob amser wrth drafod yr adroddiad hwn, gan ei fod yn talu teyrnged gwbwl haeddiannol i ddewrder plant – plant oedd i fod yn saff yn eu hysgolion, a phlant ddaeth â blynyddoedd o droseddu erchyll un o ddynion mwyaf grymus y sir yma i ben. Mae'n dyled iddynt yn enfawr. Mae'n meddyliau ni gyda nhw ac rydym yn diolch o waelod calon iddynt am eu penderfynoldeb a'u gwytnwch rhyfeddol.

Ymrwymwn fel cyngor i ddysgu pob gwers a ddaw yn sgil yr adroddiad, ond ymhellach na hynny, ymrwymwn i edrych ar unrhyw faterion perthnasol sydd wedi disgyn tu allan i gylch gorchwyl yr AYP, a oedd yn edrych ar achos y troseddwr hwn yn y cyfnod rhwng 2017 a Medi 2023.

Galwn felly ar y cabinet i ystyried pa ymchwiliadau annibynnol pellach sydd eu hangen er mwyn cyfrach yr hyn sydd yn mynd tu hwnt i ffiniau'r AYP. Rydym yn gwbwl effro i'r ffaith fod gwaith pellach i'w wneud, ac yn gofyn I'r Cabinet fynd ati yn ddiymdroi I adnabod yr hyn sydd eto i'w gyflawni.

Mynegwn unwaith eto ein ymddiheuriadau didwyll i'r plant sydd wedi dioddef niwed, a byddwn yn ymroi i droi pob carreg er mwyn sicrhau, hyd orau, ein gallu, fod 'byth eto' yn golygu 'byth eto'

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD NIA JEFFREYS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Nia Jeffreys yn cynnig fel a ganlyn:-

**Cynnig bod y Cyngor**

1. Yn nodi: bod ffigyrau hunanladdiad yng Nghymru sydd wedi eu cofrestru yn 2024 yn 15.7 mewn 100,000 person a'r ffigwr yma'n dangos cynnydd, gan mai 14.0 mewn 100,000 oedd y nifer yn 2023. Mae nifer o ffactorau yn gysylltiedig efo hunanladdiad, gan gynnwys: tlodi, diweithdra, problemau iechyd meddwl a chorfforol, galar, camdriniaeth, unigedd, problemau perthynas, camddefnyddio alcohol

a sylweddau ac ati.

Nodwn hefyd mai hunanladdiad yw prif achos marwolaeth pobl ifanc i fyny at 35 oed yn ol yr elusen Papyrus, oherwydd nad yw pobl ifanc yn marw o achosion eraill yn aml iawn.

Dynion canol oed rhwng 30-44 oed yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o ladd eu hunain. Roedd 76% o'r marwolaethau gan hunanladdiad yn ddynion. Mae perthynas rhwng tlodi a hunanladdiad, efo 15.8 mewn 100,000 o hunanladdiadau yn digwydd mewn ardaloedd difreintiedig, ac 8.6 mewn 100,000 yn yr ardaloedd lliaf difreintiedig.
Mae 126.7 mewn 100,000 yn ddiwaith.

Mae modd atal hunanladdiad, ac mae cefnogaeth ar gael.

2. Yn credu: Bod hawl gan bobl Cymru i fyw mewn cymunedau sy'n rhydd o ofn a stigma sy'n cael eu cysylltu ef hunanladdiad a hunan niwed. Credwn fod bod hawl gan bobl Cymru gael eu grymuso a'u cefnogi i gyrchu a chynnig cymorth pa le bynnag mae ei angen (Llywodraeth Cymru, 2025).

Mae gennym oll rol, bob un ohonom, yn unigolion a sefydliadau, i gefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad. Credwn fod rôl gan y Cyngor i gydweithio efo efo rhanddeiliaid eraill, i weithredu i atal hunanladdiad, gan leihau stigma, a chynnig cefnogaeth. Credwn fod rol gan y Cyngor i gymryd camau penodol i warchod ein pobl ifanc, gan eu grymuso i edrych ar ol eu hunain ac eraill.

*Egwyddorion - Strategaeth Atal hunanladdiad Llywodraeth Cymru (Dealltwriaeth: strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio):*

1. *Hunan-niweidio a hunanladdiad yw busnes pawb, ac mae pawb yn gallu gwneud gwahaniaeth gyda'r hyfforddiant a'r gefnogaeth gywir.*
2. *Rhaid bod yn glir pwy sy'n arwain ac yn gyfrifol am bob cam gweithredu yn y strategaeth.*
3. *Mae'r ffocws ar atal, gan nodi risgiau'n gynnar a chynnig cymorth priodol i gadw pobl yn ddiogel.*
4. *Dylai gwasanaethau fod yn deg ac yn hygyrch i bawb, gan ddileu rhwystrau sy'n effeithio ar wahanol grwpiau.*
5. *Mae angen canolbwyntio ar grwpiau sydd mewn perygl uwch, gan ddarparu cymorth cymesur a phriodol.*
6. *Dylai unrhyw un allu cael cymorth ar unwaith ('dim drws anghywir') heb orfod ailadrodd eu stori.*
7. *Rhaid gwrando ar leisiau pobl â phrofiad byw a chyd-gynllunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.*
8. *Dylai'r strategaeth gefnogi'r Gymraeg, gan sicrhau bod pobl yn cael gofal yn eu hiaith heb orfod gofyn.*
9. *Rhaid i'r camau gweithredu fod ar sail tystiolaeth ac yn glir eu canlyniadau.*
10. *Dylai'r gwaith fod yn ystyriol o drawma, gan ddarparu gofal tosturiol ac empathetig.*

11. *Mae'n bwysig mynd i'r afael â stigma, gan hyrwyddo dealltwriaeth a thosturi.*
12. *Dylid mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau, gan ddiogelu hawliau pob unigolyn.*
13. *Rhaid i'r strategaeth gwmpasu pob oedran, gan sicrhau bod cymorth ar gael i bawb o fabanod i bobl hŷn.*
14. *Dylid cydnabod y ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n dylanwadu ar iechyd a lles.*
15. *Dylid ystyried rôl technoleg ddigidol, lle y gall wella canlyniadau neu gynaliadwyedd.*
16. *Rhaid sicrhau bod cyllid ac adnoddau ar gael, gan brofi pa gamau sy'n realistig o fewn yr adnoddau presennol.*

3. galwaf ar fy nghyd Aelodau i gefnogi'r cynnig.

**(a) Bod y Cynor yma yn datgan cefnogaeth gadarn i egwyddorion Strategaeth Atal hunanladdiad Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi gwaith y Cabinet i sefydlu strategaeth ar gyfer Cyngor Gwynedd**

**(b) Dylai aelodau wneud popeth yn eu gallu i sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu polisiau sy'n cefnogi unigolion, yn atal hunanladdiad, gan rymuso strwythurau'r Cyngor,**

**(c) Mae'n cefnogi cyfleoedd yn yr ysgolion i drafod hunanladdiad fel agwedd ar drafodaeth iechyd meddwl, yng nghyd destun addysg bersonol, rhyng-berthnasol a chymdeithasol, gan arfogi ein disgyblion i edrych ar ôl eu hunain a phobl eraill mewn modd sensitif, gan athrawon sy'n cael y gefnogaeth, goruchwyliaeth a'r hyfforddiant briodol i ddarparu addysg o'r math.**

## 12. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL — 286 - 288

(1) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Gwynfor Owen I gyfarfod 3 Gorffennaf 2025 o'r Cyngor ynglŷn a datganoli Rheilffyrdd Cymru.
(2) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Rhys Tudur i gyfarfod 3 Gorffennaf 2025 o'r Cyngor ynglŷn a'r shifft iaith.

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2/10/2025**

**Presenoldeb:** Ioan Thomas (Cadeirydd)

Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Glyn Daniels, Anwen Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Geraint Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:**

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol) Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg), Dewi A Morgan (Pennaeth Cyllid), Aled Gibbard (Pennaeth Adran Blant Dros Dro), Sharron Carter Williams (Pennaeth Adran Blant dros Dro), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth A Roberts.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2025 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar William Tudor Owen – cyn Aelod a Chadeirydd y Cyngor hwn, a rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cyng. Dewi Jones.

Cydymdeimlwyd a theulu'r diweddar Ieuan Roberts, Porthmadog a fu yn Aelod o'r Cyngor hwn. Rhoddwyd teyrnged iddo gan Cyng. June Jones.

Nodwyd y bu farw'r gweinidog adnabyddus, y Parchedig Marcus Robinson yn ddiweddar, a chydymdeimlwyd â'i deulu yntau yno gystal.

Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd fod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd iddynt adferiad llwyr a buan.

Croesawyd y Cynghorydd Wendy Cleaver i'w chyfarfod cyntaf yn dilyn cael ei hethol yn Gynghorydd dros y Bermo yn ystod yr haf, a dymunwyd yn dda iddi yn ei rôl.

Croesawyd Catrin Thomas yn ôl i'r Cyngor wedi iddi gychwyn ar ei swydd fel Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Llongyfarchwyd y canlynol:

- Pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn ddiweddar, yn benodol Bryn Jones, Bangor ar ennill y Fedal Ryddiaith ac i Owain Rhys o Gaerdydd ond yn wreiddiol o Landwrog, mab y cyn Cynghorydd Richard Morris Jones, ar gipio'r Goron.
- Pwyllgor Trefnu Sir Gaernarfon fu'n noddi'r Sioe Frenhinol eleni
- Chris Williams o Fethesda sydd wedi bod yn rhedeg Ras Cefn y Ddraig er mwyn diolch i Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru am eu cymorth i'w wraig, sef y Cynghorydd Einir Williams.
- I'r nofwraig Ela Letton-Jones o'r Felinheli ar ennill medal arian i Brydain ym Mhencampwriaeth Para-Nofio y Byd yn Singapore
- Cedron Dafydd o Bentir ar ennill Medal Arian yng Nghystadleuaeth Rhwyfo'r Byd.
- Richard Eirig Rowlands ar ennill Pencampwriaeth Dartiau Cymru 2025.
- Nick Thomas ar ennill medal aur ym Mhencampwriaethau Para-Saethyddiaeth y Byd.
- Ymgynghoriaeth Gwynedd am ennill gwobr amrywiaeth gwobrau ICE Cymru am brosiect atal llifogydd Hirael Bangor.

Tynnwyd sylw ei bod yn 60 mlynedd ers i ar gael Llyn Celyn ei agor yn swyddogol a oedd yn groes i ddymuniad gwleidyddion a'r gymuned yn lleol. Mynegwyd ei bod yn holl bwysig cofio, ac atgoffa'r genedl o'r cam o foddi Cwm Celyn a llawer i gwm arall i ddyfrhau dinasoedd Lloegr. Nodwyd y byddwn yn cofio Tryweryn.

Bu i'r Cadeirydd wahodd y Prif Weithredwr i roi diweddariad i'r Cyngor Llawn ar yr Adolygiad Amddiffyn Plant. Mynegodd y Prif Weithredwr nad yw yn arferol i wneud datganiad o'r math hwn ond ei bod yn holl bwysig iddo gyfarch y mater. Wythnos yn ôl, eglurodd, fod trefniadau yn ei lle ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad holl bwysig hwn, gyda sesiwn briffio ar gyfer y Cynghorwyr wedi ei drefnu. Ond am 16:30 y noson cynt derbyniwyd neges i ohirio'r cyhoeddi. Pwysleisiwyd nad oedd y Cyngor yn rhan o'r penderfyniad na' unrhyw ymgynghoriad ar y mater.

Mynegwyd ei fod yn teimlo'r un siom a rhwystredigaeth gan fod 2 flynedd bellach wedi mynd heibio, a bod staff yn gweld penllanw a rhyddhad o gael y cyfle i drafod yn agored. Pwysleisiwyd ei fod am fod yn adroddiad poenus ac anodd ond fod y Cyngor yn barod i ymddiheuro i'r unigolion dewr ac ymrwymo i wella ei systemau.

Eglurwyd nad oes gwybodaeth bellach ar hyn o bryd, ond unwaith y bydd mi fydd yn cael ei rannu.

Pwysleisiwyd fod effaith gohirio wedi bod yn llawer mwy ar y dioddefwyr sydd yn parhau i gael eu cefnogi.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

Mynegwyd fod y cwestiynau wedi bod yn hwyr yn cyrraedd yr aelodau heddiw a gofynnwyd am esboniad dros eu derbyn mor hwyr. Ymddiheurwyd am hyn gan nodi fod nifer uchel o gwestiynau wedi eu cyflwyno a'u bod yn cymryd amser i ymateb iddynt. Nodwyd y byddant yn eu cyrraedd yn gynt i'r cyfarfod nesaf.

**1. Cwestiwn Y Cynghorydd Dawn Lynne Jones**

Rwy'n ymwybodol fod adolygiad llawn wedi ei gychwyn ar wasanaethau Derwen nôl yn 2024 oherwydd pryderon am y nifer cynyddol o blant yn aros am fynediad neu am wasanaeth Derwen. Tybed a all yr aelod cabinet roi diweddariad ar ganlyniadau'r adolygiad erbyn hyn, ac yn wir, ar sefyllfa Derwen.

**Ateb - Aelod Cabinet yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd, Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Fe wnaethpwyd penderfyniad i gynnal adolygiad o Wasanaeth Derwen yn y Bwrdd Rheoli ar 7fed o Dachwedd 2024. Gan ei fod yn Fwrdd Rheoli ar y cyd gydag Ynys Môn, a bod y Bwrdd Iechyd yn rhan integredig o'r gwasanaethau yn y naill awdurdod lleol a'r llall, mae'r adolygiad yn cyd-redeg ar draws y ddwy sir.

Yn dilyn y penderfyniad i gynnal yr adolygiad, fe wnaethpwyd cais am arian rhanbarthol er mwyn comisiynu cymorth allanol i arwain arno. Llwyddwyd i ddenu arian ar gyfer y pwrpas a dilynwyd proses o dendro ar gyfer comisiynu'r gwaith. Penodwyd ymgynghorydd allanol ddiwedd Chwefror 2025 gyda rhaglen waith i redeg o fis Mai tan Mis Medi 2025. Am resymau tu hwnt i reolaeth y ddau wasanaeth, mae'r rhaglen waith wedi llithro a bellach disgwylir i'r adolygiad fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2025.

Mae sgôp yr adolygiad yn cynnwys ystyried y meini prawf mynediad presennol, dadansoddi trefniadau presennol y gwasanaeth, deall anghenion plant a'u rhieni, deall disgwyliadau rhanddeiliaid ac ystyriaeth i ddyluniad y gwasanaeth i'r dyfodol.

Fe gyflwynir yr adroddiad terfynol i'r Bwrdd rheoli yn y lle cyntaf a bydd y gwaith yn cael ei gynnwys ar raglen y Pwyllgor Craffu Gofal.

Dylid nod yn ogystal bod gwaith ymchwil mewnol yn mynd rhagddo i edrych ar dueddiadau poblogaeth Gwynedd, yn cynnwys nifer y genedigaethau, poblogaeth bresennol plant, yn ogystal â nifer y plant anabl a niwroamrywiol. Pwrpas y gwaith hwn fydd canfod a yw nifer y plant a phobl ifanc anabl yn cynyddu, hyd yn oed wrth i nifer y genedigaethau yng Ngwynedd leihau ers 2012, a deall y rhesymau am hyn.

Bydd y gwaith hefyd yn ystyried gallu'r gwasanaethau cymdeithasol a'r Adran Addysg (Anghenion Dysgu Ychwanegol) i ddiwallu'r anghenion dros yr ugain mlynedd nesaf. Bydd y gwaith yn dilyn patrwm adroddiad Llechen Lân ar wasanaethau cymdeithasol pobl hŷn i'r dyfodol a gyhoeddwyd yn hydref 2024.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Dawn Lynne Jones**

Diolchwyd am yr ymateb ac am y cyfeiriad at wasanaeth Derwen yn adroddiad blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol, a'i bod yn ymwybodol fod amserlen wedi llithro. Oes posib cael eglurdeb ar feini prawf y gwasanaeth a sut mae modd cloriannu anghenion amrywiol plant y sir yn erbyn gofynion cynyddol ar wasanaeth, sut mae sicrhau meini prawf cadarn sydd ddigon hyblyg i sicrhau gwasanaeth i bob plentyn sydd ei angen ond hefyd yn gwarchod yr adnodd prin?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd, Y Cynghorydd Menna Trenholme.**

Diolchwyd am y cwestiwn atodol. Mae'r cwestiynau yma yn rhai sydd yn codi yn rhan o'r adolygiad a bydd yn rhannu'r adroddiad a'r Aelod wrth gael ei ryddhau.

**2. Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried fod y Cyngor yn ystod y flwyddyn hon wedi rhoi heibio'r drefn o rifo ardaloedd ar ffurflen geisiadau i fod ar y rhestr aros ac ein bod o ganlyniad wedi colli data pwysig, i ba raddau y gwnaed ymgynghoriadau, asesiadau effaith, hysbysiadau i gynghorwyr ac adroddiadau cyhoeddus i gyfiawnhau'r penderfyniad fel ei fod yn un tryloyw, cytbwys a democrataidd?

**Ateb – Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Hoffwn eich cyfeirio at yr atebion a roddais i'r cwestiynau tebyg a ofynnwyd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf a mis Mawrth pan esboniais nad ydym wedi colli data pwysig o gwbl. Ar yr hen ffurflen gais, gofynnid i ymgeiswyr ar gyfer tai cymdeithasol nodi'r ardaloedd lle yr hoffent fyw, gan eu gosod mewn trefn blaenoriaeth. Gan fod llawer o ymgeiswyr yn llenwi'r ffurflen heb flaenoriaethu'r ardaloedd a chan nad oedd y blaenoriaethu hwn yn cymryd unrhyw ran yn y broses ddyrannu tai, penderfynwyd nad oedd pwrpas parhau i ofyn i bobl flaenoriaethu ardaloedd. Addaswyd y ffurflen gais yn unol â hynny. Mater gweithredol yn unig oedd hyn, nid gwleidyddol, ac ni chafwyd unrhyw effaith ar y cyhoedd heblaw gwneud y broses yn symlach iddynt.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried y dylai'r Cyngor weithredu yn dryloyw a theg, ac ar sail tystiolaeth gadarn wrth wneud newidiadau, ac o ystyried y dylai'r Cyngor fod wedi ymgynghori'n briodol yn unol â'r gofynion Llywodraethu da ac nad oes mae'n debyg yr un adroddiad cyhoeddus i gyfiawnhau'r penderfyniad. Ac o ystyried y newidiad yn amharu ar ansawdd data ac yn ei wneud yn llai manwl a defnyddiol i asesu angen lleol a hefyd i roi tystiolaeth eglur ar gyfer dibenion cynllunio. Onid yw'n amlwg bod y newidiad yn annemocrataidd, yn anffafriol unigolion bregus sydd eisiau nodi lle maen nhw ddyheu i fyw ac yn achosi i ddatblygwyr tai elwa'n helaeth, drwy eu galluogi i ddefnyddio data amwys heb fanylder i gefnogi adeiladu nifer uchel o dai mewn lleoedd anaddas.

**Ateb – Yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

I ddechrau mi roedd 'na dystiolaeth gadarn sef fod pobl ddim yn llenwi'r ffurflen yn gywir, ac felly doedd dim angen ymgynghoriad gan nad oedd newid i'r broses tai. Nid oedd y newid yn amharu ar ddata o gwbl. Tydi newid ffurflen ddim yn newid sydd angen mewnbwn gwleidyddol, ac felly does dim angen yr holl ymgynghori y nodwch. O ran prosesau cynllunio, mae'r prosesau sydd yn cael ei defnyddio yn brosesau cydnabyddedig ar lefel genedlaethol, ac yr un rhai a welir mewn Cynghorau ar draws Cymru.

**3. Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Yn dilyn yr adran dai'n derbyn cyngor trwy law Cyfeillion Llyn gan Gomisiynydd yr Iaith yn nodi'r gallu i roi'r Gymraeg fel ystyriaeth polisi gosod ac yn dilyn ceisiadau i godi nifer uchel o dai cymdeithasol mewn ardaloedd Cymraeg fel Nefyn yn ddiweddar, pa mor frwd a chyflym y mae'r Cyngor hwn am fod yn rhoi'r Gymraeg fel un o ystyriaethau'r polisi gosod?

**Ateb – Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Mae Polisi Gosod Tai Cyffredin Cyngor Gwynedd a'n Cynllun Gweithredu Tai yn chwarae rhan bwysig yn y frwydr dros gadw'r iaith Gymraeg yn fyw yn ein cymunedau. Mae mewnfudiad gan bobl ddi-gymraeg ac allfudiad o bobl Gymraeg ill dau yn bygwth ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae pwyslais cryf yn y Polisi Gosod ar gysylltiad lleol yn sicrhau bod y rhan helaeth o'r cartrefi yn cael eu dyrannu i bobl leol.

Ond mae allfudiad o bobl Gymraeg yn fwy o fygythiad o lawer i'r iaith. Mae'n ffaith drist bod dros hanner ohonon ni yma yng Ngwynedd yn methu fforddio prynu tŷ, a mwy na hynny mewn rhai ardaloedd. Mae lefelau rhenti preifat hefyd yn uchel ac felly mae angen tai cymdeithasol i'r rhai sy'n methu prynu neu rentu yn y farchnad. Dwi'n credu yn gryf fod gennym hawl i fyw gartref. Mae hynny yn rhywbeth creiddiol i ni. Bydd rhai yn dewis mudo o yma ond ni ddylai neb gael ei orfodi i ymadael oherwydd nad yw'n methu fforddio byw yn ei gynefin. Ac mae dros 4,400 o bobl a theuluoedd (sydd dros 2,200 o geisiadau) ar y rhestr aros.

Felly, fel rydym ni i gyd yn gwybod, mae angen codi mwy o dai cymdeithasol ymhob cwr o Wynedd. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn gosod nod o godi 700 erbyn 2029, trwy ein partneriaid y cymdeithasau tai, ac rwy'n falch o ddweud ein bod ar drac i gyflawni hynny.

Mae'r Polisi Gosod yn rhoi pwyslais cryf (y cryfaf yng Nghymru) ar gysylltiad lleol, a hynny ar ddwy lefel – lefel Gwynedd a'r lefel gymunedol. O ganlyniad, mae 97% o'r cartrefi yn cael eu dyrannu i bobl leol gyda chysylltiad â Gwynedd a 60% i bobl yn yr un gymuned. Mae'r meini prawf yn y polisi yn diogelu unigolion sy'n lleol i Wynedd cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl.

Rydych chi'n gywir wrth nodi nad yw'r polisi gosod yn cynnwys yr iaith yn benodol fel un o'r ystyriaethau. Rydych chi'n cyfeirio at gyngor cyfreithiol a gomisiynwyd gan Gomisiynydd yr Iaith. Ond, mae angen i'r Cyngor a'i bartneriaid hefyd ddal sylw at faterion cyfreithiol ehangach ynglŷn â gweithredu ymarferol darpariaeth mewn modd sydd yn cyfarch gofynion a dyletswyddau eraill.

Mae Deddf Tai 1996 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i roi blaenoriaeth resymol i'r ymgeiswyr mwyaf anghenus ac mae'n diffinio'r rhain. Mae'n rhaid i ni hefyd roi "sylw dyladwy" i ganllawiau Gweinidogion Cymru. Mae un o'r Cyfarwyddyd (3.69) yn caniatáu "sustaining Welsh-speaking communities by giving priority to those in housing need with a local connection to the area." Dyna yn union beth rydym yn ei wneud ac mae'r pwyslais yr ydym yn ei roi ar gysylltiad lleol yn un o'r rhai mwyaf sydd i'w gweld yng Nghymru ac yn mynd mor bell â beth y gellir ei gynnwys.

Mae'r Polisi Gosod yn rhoi'r rhai sy'n gwneud cais am dŷ cymdeithasol mewn bandiau ac wedyn o fewn bob band mae blaenoriaeth yn cael ei roi i'r ymgeiswyr (neu aelodau'r teulu) sydd wedi byw am bum mlynedd neu fwy yn ardal Cyngor Cymuned yr eiddo dan sylw. Golyga hyn bod ymgeisydd sydd â'r un raddfa o angen tai ond hefyd gyda chysylltiad cymunedol yn uwch mewn blaenoriaeth nag ymgeisydd sydd heb y cysylltiad cymunedol. Petai unrhyw flaenoriaeth yn cael ei roi i allu'r ymgeisydd i siarad Cymraeg, byddai'n gorfod cael ei roi ar ôl y blaenoriaethau hyn, sef lefel yr angen, cysylltiad â Gwynedd a chysylltiad cymunedol. Oherwydd hynny, mae'n annhebygol o wneud llawer o wahaniaeth.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg sy'n byw ar stadau tai cymdeithasol yn uchel. Yn ddiweddar, rydym wedi gofyn i'r cymdeithasau tai wneud arolygon iaith yn eu datblygiadau tai cymdeithasol newydd. Gwelwyd bod 90% o'r preswylwyr hyn yn medru'r Gymraeg, mewn wardiau lle mae canran cyfartalog y siaradwyr yn 76%, sef 14% yn uwch. Mae tai cymdeithasol yn helpu i gryfhau'r iaith trwy ddarparu cartrefi fforddiadwy i bobl leol, y mae canran uchel ohonynt yn medru'r Gymraeg, a'u helpu i aros yn eu cynefin.

Ar ben hyn i gyd, mae nifer o resymau da dros beidio â newid ein polisi presennol.

Mae gennym ni fel Cyngor ddyletswydd i wasanaethu pawb yng Ngwynedd, y lleiafrif di-Gymraeg yn ogystal â'r mwyafrif Cymraeg. Buasai ffafrio siaradwyr Cymraeg yn peryglu dieithrio trigolion sydd wedi byw ar hyd eu hoes yng Ngwynedd ond sydd ddim yn siarad Cymraeg, a thrwy hynny greu 'ail ddosbarth' o drigolion yn seiliedig ar iaith yn unig.

Rydym wedi ymgynghori â'n partneriaid y cymdeithasau tai, y sefydliadau sy'n adeiladu a rheoli'r tai. Ac mae'r ateb yn glir: mae pob un yn cefnogi'r polisi fel y mae, polisi sy'n blaenoriaethu pobl Gwynedd ac yn gwrthwynebu'r egwyddor o wahaniaethu ar sail yr iaith y mae'r bobl yn ei siarad. Mae yna berygl y byddai rhai ohonynt yn gwrthod gweithredu mwyach yng Ngwynedd petaem yn gwneud hynny.

Mae angen i'r Cyngor weithredu'r polisi yn deg a chyson a nododd y cyngor cyfreithiol a gawsom y byddai ymarferoldeb ei gyflwyno yn hynod o gymhleth. Yn sicr byddai'n creu anawsterau o ran sut i ddiffinio ac asesu'n wrthrychol gallu iaith yr ymgeiswyr a'u teuluoedd a'i adolygu hyn bob blwyddyn fel sy'n ofynnol.

Dyna'r rhesymau pam rwy'n credu bod y Polisi Gosod Cyffredin yn addas i'w bwrpas ac nid oes angen ei newid ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, mae Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn gwneud ei ffordd trwy'r Senedd ar hyn o bryd. Os daw yn ddeddf, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau newydd a byddwn yn sicr yn adolygu ein polisi gosod bryd hynny.

**Cwestiwn atodol Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

O ystyried fy mhrofiad i yn Nefyn a phentrefi cyfagos, a siarad gyda fy nghyd-aelodau yn Nwyfor, mae niferoedd sy'n siarad Cymraeg mewn tai cymdeithasol newydd a hen wedi dirywio yn ofnadwy, gan fod trosiant cyson a helaeth mewn tenantiaeth tai cymdeithasol ac am nad oes ystyriaeth gosod i'r Gymraeg na galw lleol digonol. Onid nad yw'n amlwg bod agen i ni beidio bod mor annoeth ac ymwrthod i'r grym sydd ganddom ni yn ôl y Comisiynydd Iaith i roi'r Gymraeg fel ystyriaeth polisi gosod yn yr ardaloedd hynny.

**Ateb – Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Rwyf wedi rhoi ateb helaeth a chyfro'r pwyntiau. Byddai unrhyw newid o'r fath yn gorfod bod gyda'r ystyriaethau o'r Ddeddf Tai 1996, ac mae problemau ymarferol a mater o egwyddor hefyd a dyna pam na fydd diwygiad ar hyn o bryd.

**4. Cwestiwn Y Cynghorydd Huw Llwyd Rowlands**

Ydy Cyngor Gwynedd o'r farn fod diwylliant Ffordd Gwynedd, sef i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i drigolion Gwynedd, yn gweithredu'n effeithlon a llwyddiannus ym mhob rhan o'r Cyngor? Mae fy mhrofiadau i yn awgrymu nad ydyw.

**Ateb – Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Mae'r adroddiad blynyddol a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Cabinet ar 8 Gorffennaf, 2025 yn dangos bod Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod diwylliant Ffordd Gwynedd a'r "ffordd o weithio" yn symud i'r cyfeiriad cywir, gyda nifer o enghreifftiau lle mae adrannau'n cymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo amcanion y cynllun.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn onest am y ffaith bod y cynnydd a'r ymdrechion i wreiddio'r diwylliant yn parhau'n gymysg, ac mae amrywiaethau i'w gweld rhwng adrannau unigol ac ar draws y Cyngor fel sefydliad cyfan.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod rôl technoleg, hyfforddiant, a gwerthuso parhaus yn allweddol i lwyddiant y diwylliant hwn, ond bod rhai meysydd lle nad yw'r arferion gorau wedi gwreiddio'n llawn eto. Er enghraifft, mae angen ymestyn hyfforddiant sylfaenol ar y "ffordd o weithio", gwreiddio'r arfer o werthuso parhaus, a hyrwyddo perchnogaeth o berfformiad ymysg holl staff y Cyngor.

Mae cynllun penodol o fewn y rhaglen waith o ran gofal cwsmer a bu i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Gofal Cwsmer newydd hefyd yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf, 2025. Bydd rhaglen waith y Cynllun hwn yn rhoi pwyslais penodol ar ymateb i ymholiadau a gohebiaeth gan drigolion ac aelodau gyda'r nod o weld gwelliant ym mherfformiad y Cyngor.

Pe byddai unrhyw un yn derbyn gwasanaeth israddol anogir hwy i ddwyn ein sylw drwy'r prosesau perthnasol fel ein bod yn gallu adnabod ble yn union mae'r gwendidau hynny a rhoi sylw iddynt.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Huw Llwyd Rowlands**

O gofio bod diwylliant ffordd Gwynedd wedi bod ar waith ers dros 10 mlynedd, ydych chi yn hyderus bod Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu'r mater yma yn ddigonol, er mwyn sicrhau gwelliant a newid amlwg yn niwylliant y Cyngor o fewn cyfnod penodol e.e. 12 mis?

**Ateb yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Egwyddorion Ffordd Gwynedd ydi rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim, gwrando ar eu hanghenion, a sefydlu'r ffordd orau posib o ymateb a sicrhau fod hyn yn digwydd yn dda ac yn amserol. Mae ymrwymo'r diwylliant yma i'r Cyngor yn flaenoriaeth i mi ac i'r Cabinet, ac yn ddiflino yn eu hymrwymiad. Mae newid diwylliant yn cymryd amser a dros y 10 mlynedd diwethaf dwi'n grediniol fod y trwch helaeth staff y Cyngor yn prynu i mewn i'r diwylliant.

Mae'n anffodus fod y 10 mlynedd wedi bod yn 10 mlynedd o doriadau ariannol, a bod hyn wedi cael effaith ar y cynnydd. Ond methu cuddio tu ôl i doriadau ariannol yn unig, a does dim dadl fod rhai agweddau o'r diwylliant yn parhau angen eu gwella, ac mae ymateb i ymholiadau aelodau yn un o'r rheini. Dwi'n ymwybodol fod y Prif Weithredwr ac Aelodau'r Tîm Rheoli o'r un farn a bod cynlluniau eisoes ar waith i wella'r agwedd honno'n benodol, a bod cynlluniau i aelodau fod yn craffu a chynorthwyo gyda'r gwaith a'u bod mewn cyswllt a chi yn barod i gychwyn y sgwrs honno.

**5. Cwestiwn Y Cynghorydd Linda Morgan**

O ystyried penderfyniad Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i ohirio cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) yr wythnos diwethaf, a all yr Arweinydd ein diweddaru am y sefyllfa bresennol o ran y CPR, os gwelwch yn dda.

**Ateb – Yr Arweinydd, Cynghorydd Nia Jeffreys**

Diolch i'r Cynghorydd am ei chwestiwn amserol ac am roi'r cyfle i mi gael rhannu'r wybodaeth sydd ar gael gyda'r Cyngor.

Roedd hi'n siom i mi nad oedd hi'n bosib i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fynd yn eu blaen i gyhoeddi'r adroddiad ar 24 Medi, fel yr oeddem wedi ei obeithio a'i ddisgwyl. Roedd y siom a'r boen wrth gwrs yn fwy i'r dioddefwyr a'r goroeswyr. Alla i ddim dychmygu pa mor heriol fyddai y disgwyl am y cyhoeddi wedi bod i'r dioddefwyr a'r goroeswyr ac

mae'n wirioneddol ddrwg gen i fod yr oedi yma wedi ymestyn y boen a'r pryder iddyn nhw.

Rydym wedi cysylltu'n ffurfiol gyda'r Bwrdd Diogelu i ofyn am esboniad ond yn anffodus hyd yma does gennym ddim gwybodaeth am y rhesymau am yr oedi. Mi alla i roi sicrwydd i'r Cyngor nad oedd gan Gyngor Gwynedd unrhyw ran i'w chwarae yn y penderfyniad ac rydym yn awyddus i weld yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosib.

Rydw i'n rhagweld y bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at fethiannau i atal y pedoffeil, Neil Foden, a bod nifer o'r rhain yn gyfrifoldeb ar y Cyngor hwn. Mae'n loes calon i mi feddwl bod ein systemau diogelu ni ar y pryd wedi methu diogelu ac amddiffyn plant a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol.

Bydd derbyn yr adroddiad yn rhoi cyfle i ni ddeall yn iawn beth ddigwyddodd; pa wersi sydd i'w dysgu a pha systemau sydd angen eu cryfhau er mwyn sicrhau bod ein plant mor ddiogel ag sydd bosibl yng Ngwynedd a gweddill Cymru. Bydd yn rhoi'r cyfle i ni gydnabod ein ffaeleddau ac i ymddiheuro eto i'r dioddefwyr, i'r niferoedd mawr o bobl eraill sydd wedi eu heffeithio gan hyn, ac i bobl Gwynedd am eu gadael i lawr.

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Ymateb dechrau'r flwyddyn sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb er mwyn monitro a mesur cynnydd y Cynllun a gwireddu argymhellion. Bellach mae saith prif amcan ar gyfer y Cynllun hwn sef 'Cydnabod', 'Ymddiheuro', 'Cefnogi', 'Sefydlu', 'Dysgu', 'Gwella' ac 'Atebolrwydd'.

Mae'r Bwrdd Cynllun Ymateb yn cael ei gadeirio gan yr Athro Sally Holland gyda chynrychiolwyr o nifer o asiantaethau allanol sy'n gweithredu fel sylwedyddion er mwyn sicrhau her annibynnol i waith y Bwrdd. Mae pedwar Aelod Cabinet yn eistedd ar y Bwrdd yn ogystal â swyddogion y Cyngor a chynrychiolaeth o Ysgol Friars a'r sector Uwchradd yng Ngwynedd.

Rhaid i mi bwysleisio nad mabwysiadu'r Cynllun Ymateb a'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb oedd cychwyn y gwaith. Roedd nifer o bethau wedi digwydd cyn hynny ac mae llawer mwy i'w wneud.

Adroddodd yr Athro Sally Holland yn ei hadroddiad chwarterol i'r Cabinet ym mis Gorffennaf bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud ar draws y ffrydiau gwaith. Wedi dweud hynny mae llawer mwy i'w wneud a rhagwelir nifer o argymhellion pellach yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) - byddwn yn eu derbyn i gyd ac yn eu rhoi ar waith yn syth. Ni fyddwn yn cuddio o'n cyfrifoldeb; rhaid sicrhau y bydd popeth yn cael ei wneud er mwyn diogelu plant Gwynedd.

Mae fy meddwl i yn parhau gyda'r dioddefwyr, eu teuluoedd a'r gymuned gyfan sydd wedi aros yn hir i weld yr adroddiad holl bwysig yma.

**6. Cwestiwn Y Cynghorydd Louise Hughes**

Yn dilyn y cyhoeddiad yr wythnos ddiwethaf na fyddai'r adroddiad ar ymddygiad ffiaidd, rheibus Foden yn cael ei ryddhau eto, mae'n codi cwestiwn ynghylch pa mor effeithiol yw gweithdrefnau canu'r gloch y Cyngor hwn. Rydym i gyd dan gwmwl yn sgil y sefyllfa ofnadwy hon. Mae rhieni sy'n anfon eu plant i'n hysgolion yn ymddiried yng Nghyngor Gwynedd i wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel. Mae dal canfyddiadau'r adroddiad yn ôl yn atal hawliau'r dioddefwyr, eu rhieni a'r bobl gyffredin sydd, yn gwbl ddealladwy, yn ddig am sut y caniatawyd i hyn ddigwydd dros gyfnod mor hir o amser.

Pam na chafodd y pryderon a godwyd yn y gorffennol eu dilyn i fyny a'u hymchwilio o dan Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer Diogelu Plant mewn Addysg - pa sicrwydd y gall Cyngor

Gwynedd ei roi yr ymdrinnir o ddifri â phryderon diogelu yn y dyfodol, a'u gweithredu'n gadarn?

**Ateb – Yr Aelod Cabinet Addysg, Cynghorydd Dewi Jones**

Diolch i chi am godi'r mater difrifol hwn. Yn gyntaf oll, hoffwn ymddiheuro'n ddiffuant i bawb sydd wedi dioddef yn sgil gweithredoedd erchyll y pedoffeil, Neil Foden, a phwysleisio bod diogelwch a lles pob plentyn yng Ngwynedd yn brif flaenoriaeth i ni bob amser.

Rydych yn gofyn yn benodol pam na chafodd pryderon a godwyd yn y gorffennol eu dilyn i fyny o dan Ddeddf Addysg 2002. Comisiynwyd ymchwiliad annibynnol gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru i archwilio nid yn unig pam nad oedd prosesau diogelu ddylai fod wedi amddiffyn plant heb weithio fel y dylent ond hefyd y diwylliant a'r trefniadau a ganiataodd i ymddygiad o'r fath barhau heb ei herio. Fel sawl un, rydw i hefyd yn siomedig gyda phenderfyniad y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad. Yn ôl y Bwrdd, mae angen iddynt ystyried eu "rhwymedigaethau cyfreithiol". Rydw i'n siŵr bod hwn wedi bod yn brofiad ofnadwy i'r plant a ddioddefodd dan law'r troseddwr. Dydw i heb dderbyn unrhyw wybodaeth bellach ers cael gwybod hyn ddiwedd y dydd ddydd Mawrth diwethaf.

O ran sicrhau hyder yn y dyfodol:

- Mae staff ysgolion Gwynedd yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu, gyda llwybrau clir i rannu pryderon yn rhan allweddol ohono. Mae'r Adran Addysg wedi sefydlu Tîm Diogelu a Llesiant newydd sydd wedi ychwanegu at ein gallu i ymateb yn amserol i bryderon diogelu.
- Mae gan yr Adran Addysg drefniadau newydd i gofnodi ac olrhain achosion sydd y cael eu dwyn i'w sylw. Mae ein polisi Canu'r Gloch wedi'i ddiweddaru a'r gweithdrefnau wedi'u cryfhau fel bod staff, rhieni a disgyblion eu hunain yn gallu codi pryderon yn gyfrinachol.
- Mae llywodraethwyr a phenaethiaid yn atebol drwy archwiliadau diogelu blynyddol; yr arferiad cenedlaethol yw bob tair blynedd. Mae'r ymweliadau yma yn cynnwys: gwirio polisïau diogelu, gwirio dyddiadau a lefelau hyfforddiant, gwirio trefniadau ymarferol diogelu, holi'r person dynodedig diogelu, aelodau o staff a disgyblion am lefel hyder a gwybodaeth yn ymwneud â diogelu, gwirio cynnwys Awdit Blynyddol Trefniadau Diogelu'r ysgol a chynnig cefnogaeth ac arweiniad cyffredinol.

Fel Aelod Cabinet Addysg, ac aelod o'r Bwrdd Ymateb, fy rôl i ydi sicrhau fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n briodol, ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw argymhellion sy'n cael eu gwneud yn ystod y broses hon, a bod gwersi yn cael eu dysgu fel bod trefniadau diogelu yn cael eu cryfhau. Cadeirir y Bwrdd Cynllun Ymateb gan yr Athro Sally Holland, a chynrychiolwyr o wahanol asiantaethau allanol sy'n gweithredu fel sylwedyddion. Yn ogystal, mae pedwar Aelod Cabinet, swyddogion y Cyngor, a chynrychiolwyr o Ysgol Friars a'r sector uwchradd yng Ngwynedd yn cymryd rhan yn y Bwrdd. Mewn adroddiad ym mis Gorffennaf dywedodd yr Athro Holland bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud hyd yma gyda 32 o'r 63 tasg gwaith wedi'u cwblhau gydag awydd y Cyngor i gyflawni'r gweddill yn glir.

Hoffwn sicrhau rhieni a gofalwyr bod unrhyw bryderon diogelu a godir heddiw yn cael eu trin gyda'r difrifoldeb mwyaf, eu hymchwilio'n brydlon, a gweithredu cadarn yn dilyn hynny. Ni fyddwn yn goddef dim llai.

Rhaid i wersi'r gorffennol lunio diwylliant y presennol. Dim ond drwy wynebu'r gwersi hynny yn onest, a thrwy gryfhau ein systemau yn ddi-ildio, y gallwn anrhydeddu'r ymddiriedaeth y mae teuluoedd yn ei roi ynom bob dydd.

**Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Louise Hughes**

Diolch am eich ymateb, er rydym yn anwybyddu'r ffaith fod Foden yn fwli, bod bwlio yn y gweithle yn annerbyniol, ac mi ddylai hyn fod wedi'i fflagio yn gynharach. Felly mae'r tawelwch llwyr am y mater hwn yn golygu nad ydym ni fel Aelodau Etholedig wedi derbyn unrhyw eglurhad ar fethiannau rhieniol gweithdrefnol, ac mae'n codi nifer o gwestiynau pellach. Pa mor aml wnaeth corff llywodraethu Ysgol Friars gyfarfod? A beth oedd mewnbwn y llywodraethwr diogelu plant. Mae nifer o bobl wedi gofyn i mi a fydd Foden yn derbyn ei bensiwn?

**Yr Ateb – Aelod Cabinet dros Addysg Y Cynghorydd Dewi Jones**

Fel nodwyd yn yr ateb gwreiddiol, mae diwylliant yn rhywbeth mae'r Ymchwiliad Annibynnol yn edrych i mewn iddo, dwi'n cytuno efo chi fod bwlio yn y gweithle yn annerbyniol ac yn rhywbeth mae Cyngor Gwynedd ym mhob adran yn trio cael gwared ohono. Ond yn amlwg mi roedd Foden yn dangos tueddiadau bwlio ac mi roedd y Barnwr yn y Llys wedi cyfeirio ato fel bwli.

Mae 'na awgrymiadau yn eich araith yn awgrymu fod Gwynedd mewn rhyw ffordd yn ceisio tawelu pobl, ond dydi hyn ddim yn wir. Nid penderfyniad Cyngor Gwynedd oedd peidio cyhoeddi'r adroddiad wythnos ddiwethaf, penderfyniad y bwrdd diogelu rhanbarthol. Nid ni sydd yn ymchwilio i mewn i fethiannau'r Cyngor, ond y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sydd ar wahân. Felly gobeithio beth fydd hwn yn rhoi wrth symud ymlaen ydi hyder i bobl fod yr ymchwiliadau wedi eu gwneud yn annibynnol, yn drylwyr ac yn cryfhau ein systemau ni. Dwi'n hynod falch o allu deud ein bod yn croesawu unrhyw argymhellion ac yn barod yn gweithredu nifer o'r argymhellion, wedi dysgu gwersi ac yn parhau i ddysgu gwersi. Mae gan bawb yn yr ystafell yma gyfrifoldeb dros hyn. Oes mae gennym ni Gabinet sydd yn arwain y Cyngor ond mi rydan ni i gyd yn ein rolau fel Llywodraethwyr, fel aelodau'r Pwyllgorau Craffu i sicrhau fod gwersi yn cael eu dysgu, a bod ein systemau ni yn cael ei gryfhau. Oherwydd mi rydym ni yn gweld beth sydd yn mynd o'i le pan nad yw systemau yn ddigon cryf. Allai ddim deud na wnaiff hyn ddim digwydd eto, ond mi allwn ni wneud ein gorau i sicrhau fod gennym ni'r trefniadau gorau posib.

Dyma pam fy mod yn aelod o'r Cyngor hwn, a dyma pam dwi'n ymddiddori mewn addysg, oherwydd mae dyfodol ein plant ni sydd ar y lein. Mi fyddai'n gwneud pob peth o fewn fy ngallu i sicrhau hyn yn digwydd. Dwi'n siarad yn angerddol am hyn oherwydd dwi wedi teimlo i'r byw, a dwi ddim yn gwybod sut mae rhieni, teuluoedd y plant sydd wedi eu cam-drin yn teimlo, a'r plant eu hunain.

Mae'r sylwadau am y pensiwn, nid Cyngor Gwynedd sydd yn gweithredu pensiwn y Prifathro, mae hwn yn fater i Lywodraeth Prydain. Dwi ar ddeall fod yr Aelod Seneddol Lleol wedi codi hyn gyda'r Gweinidog yn San Steffan.

**7. Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O ystyried:

1. Bod yr aelod cabinet dros gyllid, yn gynharach eleni, wedi datgan bod yr Adran Gyllid yn gweithio ar bolisi ar ddefnyddio pwerau disgresiwn i leihau atebolrwydd y dreth gyngor mewn perthynas â'r premiwm (yn achos eiddo a ddefnyddir ar gyfer llety hunan darpar nad yw'n destun amod cynllunio sy'n cyfyngu ar ei ddefnyddio i bwrpas annedd cyffredin) a bod cydnabyddiaeth felly fod yna fusnesau llety hunan darpar yng Ngwynedd a fyddai'n teilyngu ystyriaeth dan bolisi o'r fath;
2. Bod yr awdurdod yn dal i weithredu heb bolisi eithrio, a hynny'n groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru; a
3. Bod yr oedi ynglŷn â chyflwyno polisi eithrio i'w briodoli, meddir, i gonsyrn ynghylch creu *loopholes* a bod awgrym yn ymhlyg yn hynny bod dal i godi premiwm ar eiddo sy'n teilyngu cael ei eithrio rywsut yn well na'r *posibilrwydd* y gallai rhai manteisio ar bolisi eithrio i osgoi talu;

Sut mae'r Adran Gyllid, yn absenoldeb polisi, yn ymdrin â phob achos yn ôl ei rinwedd ei hun (yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru) ac yn ymgyrraedd at weithredu'n deg ac yn gyson a chyda'r mesur dyladwy o gymesuroldeb rhag i'r Awdurdod orfod wynebu her gyfreithiol yn y mater hwn yn y man.

**Ateb – Aelod Cabinet Cyllid, Cynghorydd Huw Wyn Jones**

Diolch am y cwestiwn

Yn gyntaf dwi'n credu fod angen cywiro cam syniad. Does dim canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn mynnu fod gan y Cyngor bolisi eithrio - yr hyn mae'n ei ddweud yw bod anogaeth i ystyried os oes lle i gynghorau ddefnyddio *defnyddio eu pwerau disgresiwn i deilwra penderfyniad neu i leihau atebolrwydd y dreth gyngor*. Mae'r ddeddfwriaeth ei hun yn gosod allan eithriadau statudol a does dim rhaid i unrhyw Gyngor gael polisi eithrio ychwanegol.

Wedi dweud hyn mae trafodaethau wedi cychwyn dros yr haf i drafod os oes angen creu polisi eithriadau Premiwm Treth Cyngor i Gyngor Gwynedd, ac o dan pa amgylchiadau bydda eithrio yn addas. Mae nifer o ystyriaethau cymhleth a thechnegol i'w trafod, ac rydym hefyd angen deall yn llawn be fyddai effaith unrhyw bolisi er sicrhau na fyddwn yn creu canlyniadau nad ydym yn eu dymuno.

Y gwir annhegwch fan hyn ydi bod ein pobol ifanc yn methu cael to uwch eu pennau mewn rhannau helaeth o'r Sir. Nid yw'n glir o'r cwestiwn pa eiddo sydd yn "teilyngu" eithriad, ac ar ba sail.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O ystyried

1. Bod yr Aelod Cabinet dros Gyllid yn dal nad ydi canllawiau Llywodraeth Cymru yn mynnu fod gan Awdurdodau Lleol bolisi eithrio yn y mater hwn,
2. Bod canllawiau Llywodraeth Cymru ar dreth cyngor ar dai gwag ac ail gartrefi fersiwn Mawrth 2023 yn dweud yn blaen "er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder dylai fod gan bob Awdurdod Lleol bolisi" gan nodi amgylchiadau posib lle gellid ystyried eithrio eiddo rhag y premiwm
3. Fod yna Gymry lleol sydd yn gosod ymwelwyr, yn cael slap o £15,000 o fil Treth Cyngor o unlle heb fod trefn amlwg i feithrin eithriad

Dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar y mater fod yn fwy cyfarwydd â union eiriad y canllawiau, mi allaf anfon copi i chi?

**Ateb – Aelod Cabinet Cyllid, Y Cynghorydd Huw Wyn Jones**

Mae'r defnydd o'r "rhaid" sydd ar dudalen 18 o'r canllawiau, ac yr hyn y byddwn yn nodi ydi mai dehongliad y Cyngor, o ddechrau'r paragraff mai mater dewisol yw i Awdurdodau i ddefnyddio pwerau yn 13A i ostwng y dreth, neu osod polisi eithrio. Dydw i ddim yn gyfreithiwr ac felly yn dilyn y cyngor dwi yn ei gael ar y mater yma. Mae trafodaethau dros yr haf wedi bod er mwyn adnabod ffordd i gael polisi dewisiol sydd yn sicrhau tegwch a thryloywder a pheidio ein gadael yn agored i gyhoeddiadau o wahaniaethu nac ein gadael mewn sefyllfa ble gorfod rhoi eithriad i bob eiddo gwag ac ail gartref yn y sir. Mi fyddwn ni yn cyflwyno polisi adran 13a dros y misoedd nesaf, ond bydd hwn yn ehangach na materion premiwm yn unig.

**8. Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Brown**

Roedd hi'n Ddiwrnod Rhyngwladol Heddwch ar Fedi'r 21ain – diwrnod sy'n rhoi'r cyfle i bobl y byd ymrwymo i greu byd heddychlon ac i fyfyrio ar sut y gallem i gyd gyfrannu tuag at greu diwylliant o heddwch.

Gyda hynny mewn golwg, nodaf fod gwaith profi a datblygu drôns wedi bod yn digwydd ar faes awyr Llanbedr yng Ngwynedd ers dros ddegawd, a hynny i bwrpasau amrywiol. O ystyried effeithiau erchyll drôns ar sifiliaid mewn rhyfeloedd, ac o gofio'n bod yn byw mewn byd sy'n teimlo'n gynyddol ansefydlog, a allem fod yn sicr nad yw'r drôns sy'n cael eu datblygu yn Llanbedr yn cael eu defnyddio i bwrpasau milwrol?

**Ateb – Aelod Cabinet dros Economi, Cynghorydd Medwyn Hughes**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio gyda lesddalwyr Canolfan Awyrofod Eryri ers i'r Safle ddod yn rhan o Ardal Fenter Eryri yn 2011. Mae'r Ganolfan yn cynnig gofod datblygu a phrofi i gwmnïau gwahanol yn y maes cerbydau di-beilot, lloerennau a thechnoleg gofod ehangach. Mae'r Cyngor wedi eu cynorthwyo gyda phrosiectau allasai arwain at ddiogelu a chreu cyfleoedd gwaith newydd yn Llanbedr. Maent yn ddiweddar wedi derbyn grant o £820,000 gan Asiantaeth Gofod y DG i ymestyn eu cyfleusterau ymchwil a phrofi. Nid ydi Cyngor Gwynedd yn cynorthwyo gydag unrhyw brosiect na gweithgaredd ar y safle ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor wedi cysylltu gyda Chwmni Snowdonia Aerospace LLP, lesddalwyr y Safle, er mwyn derbyn sicrwydd nad ydi eu cwsmeriaid yn datblygu dronau at bwrpasau milwrol. Derbyniwyd cadarnhad gan y Cwmni mai cwmnïau masnachol sydd yn gwneud defnydd o'r safle yn unig, ond gan eu bod wedi cytuno i gytundeb peidio-a-datgelu (NDA) gyda'u cwsmeriaid, nid ydynt mewn sefyllfa i fedru darparu manylion gweithrediadau'r cwmnïau hyn. Serch hynny, mae'r Cwmni wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw weithrediadau drôn milwrol wedi'u cynllunio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar safle yn Llanbedr.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Beca Brown**

Diolch, dwi'n nodi o'r ateb nad oes cynlluniau ar y funud i ddatblygu na phrofi dronau ar gyfer pwrpasau militaraidd ond o gofio bod dronau yn hawdd i'w trosglwyddo o un defnydd i'r llall, sut all trigolion Gwynedd fod yn sicr na fydd y dronau sydd yn cael eu datblygu yn Llanbedr byth yn cael eu rhoi at ddefnydd rhyfel?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Economi, Y Cynghorydd Medwyn Hughes**

Er mai dim hyn yw gweledigaeth y cwmni ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfyngiadau a fyddai'n atal dronau milwrol rhag gweithredu o'r safle yn y dyfodol. Mae gan y cwmni dystysgrif defnydd cyfreithlon, sydd yn caniatáu gweithrediadau cerbydau di-beilot ar y stad, ond nid yw hyn yn gwahaniaethu technoleg a all gael ei ddefnyddio at bwrpasau masnachol neu filwrol. Nid yw trwyddedau diogelwch na chaniatâd cynllunio yn gwahaniaethu rhwng pa fath o ddrôn gall weithredu ar y safle. A gallwn ddatgan yn glir i'r cwmni fod pryderon gyda chytundebau a chwmnïau a fyddai'n datblygu dronau ar gyfer pwrpas milwrol yn y dyfodol.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024-25

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan nodi ei fod yn grynodeb o'r gwaith sydd wedi ei wneud yn ystod 2024/25. Eglurwyd fod yr adroddiad nid yn unig yn bodloni'r gofynion statudol ond ychwanegu gwerth i drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan sicrhau gwydnwch mewn cyfnodau anodd.

Ategwyd fod yr heriau ariannol yn parhau, a'u bod yn craffu cyllidebau i wneud yn siŵr fod eu bod yn gwneud y defnydd gorau o arian. Diolchwyd i'r staff ac aelodau'r pwyllgor am y cyd-weithio amhrisiadwy. Talwyd teyrnged i'r diweddar Sharron Warnes a'r Cyng Rob Triggs a fu farw dros y misoedd diwethaf.

Diolchwyd i’r Cadeirydd a’r aelodau am eu gwaith, a diolchwyd am y teyrngedau arbennig i’r ddau gyn-aelod.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad.**

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024/25**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod wedi bod yn flwyddyn a hanner i Wasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd gyda’r gweithlu wedi wynebu heriau. Amlygwyd fod dros ddwy flynedd wedi mynd heibio ers arestio Foden, a fod y gwaith wedi bod yn drwm ar bawb gan gynnwys Cynghorwyr.

Eglurwyd fod yr adroddiad hwn yn un statudol er mwyn adrodd ar y gwaith sydd yn cael ei wneud a diolchwyd i’r holl staff am eu gwaith. Pwysleisiwyd fod gwaith yr Adroddiad Adolygiad Plant wedi bod yn heriol dros ben dros y flwyddyn ddiwethaf gyda’r ddwy adran wedi cael ei ysgwyd yn llwyr. Er gwaethaf y pethau ofnadwy rhaid pwysleisio fod gwaith da yn cael ei wneud ac ymfalchïo yn y gweithlu sy’n gweithio mor galed. Mynegwyd fod y dathliad yn cael ei liniaru gan effaith beth sydd wedi digwydd ac mae angen cydnabod hyn.

Amlygwyd 6 egwyddor wreiddiol sy’n sail ddiogelu'r Cyngor sef grymuso, atal, diogelu, cymesuredd, diogelu, gweithio mewn partneriaeth ac atebolrwydd.

Pwysleisiwyd nad oes “ni” a “nhw” pan yn son am ofal cymdeithasol oherwydd gall unrhyw un fod angen y gwasanaeth. Eglurwyd fod cynnydd aruthrol wedi bod yn y galw ac mae hyn yn cael ei amlygu yn y data ac yr amlycaf yw nifer y cyfeiriadau i’r adran blant. Wrth edrych ar ddiogelu nodwyd fod maint y gwaith bron yn 8,000 o gyfeiriadau sydd yn amlygu’r pwysau ychwanegol sydd ar y staff i ymateb i’w galw sydd ei angen. Pwysleisiwyd mai dim ond un dihiryn sydd ei angen i wneud llanast o’r holl system.

Tynnwyd sylw at y cynnydd sydd wedi ei wneud mewn taliadau uniongyrchol, gan nodi y gobeithir y bydd cynnydd eto dros y blynyddoedd i ddod. Drwy’r cynnydd hyn nodwyd y bydd mwy o bobl yn byw yn eu cymuned, ond yr ochor arall y geiniog yw bod pobl yn gyson yn aros am ofal cartref.

Amlygwyd y cynlluniau anhygoel sydd wedi ei chyflawni dros y flwyddyn gyda phrosiectau newydd yn ddiddiwedd. Nodwyd fod y Cyngor wedi derbyn Achrediad Gwynedd Oed Gyfeillgar a'u bod wedi derbyn arian ar gyfer parhau gyda’r gwaith. Mynegwyd fod Academi Gofal Newydd wedi ei lansio, gyda llwyddiant gyda recriwtio a rhai degau wedi manteisio ar yr hyfforddiant. Eglurwyd fod gwaith ymchwil Llechen Lan sydd yn edrych ar ddemograffig Gwynedd gan edrych sut y gall hyn ymateb i heriau i’r dyfodol. Pwysleisiwyd y bydd rhaglen waith yn cael ei drafod yn fuan. Nodwyd fod nifer o bobl gydag anableddau sydd mewn gwaith wedi dyblu sydd yn galluogi pobl i gael cyflog ac urddas a gobeithio y bydd modd parhau i ddyblu. Eglurwyd fod cynnydd wedi ei wneud mewn defnydd o dechnoleg (Technology Enabled Care/TEC). O ganlyniad, nodwyd fod nifer o bethau i ymfalchïo ynddynt.

. Mynegwyd fod problemau yn parhau gyda Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) gyda rhestrau aros yn hirfaith. Er hyn, yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Craffu Gofal, nodwyd fod yr adran wedi cyflogi staff newydd a gobeithir y bydd hyn yn arwain at wella’r sefyllfa. Eglurwyd fod cael gofalwyr yn parhau yn heriol gyda 11% o swyddi cartrefi gofal ar hyn yn wag.

Pwysleisiwyd ei fod wedi gobeithio y buasai’r adroddiad Amddiffyn Pant wedi ei gyhoeddi erbyn y cyfarfod hwn ond nid oedd hyn yn bosib. Esboniwyd er hyn fod y gwaith yn parhau ac wedi dechrau mynd i’r afael a’r materion maent yn rhagweld bydd yn yr adroddiad, ond yn amlwg mynegwyd bydd mwy i’w wneud.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd am yr adroddiad a'r gwaith sydd yn cael ei wneud yn y maes gofal, ond holwyd pan saff yn gadael y maes gofal neu yn mynd yn wael pa effaith mae hyn yn ei gael at staff. Atebwyd drwy nodi ei fod yn ddibynnol ar y sefyllfa ond ei fod yn gallu bod yn heriol oherwydd prinder gofalwyr ac yn benodol os yw'r achos mewn lleoliad gwledig. Mynegwyd fod Llechen Lan wedi amglygu fod camau i'w wneud i wella'r sefylla er mwyn gwneud gwahaniaeth megis tai gofal ychwanegol.

Gofynnwyd a chytunwyd y bydd Protocol Cwympo yn cael ei thrafod flwyddyn nesaf.

Diolchwyd i'r staff am eu gwaith mewn blwyddyn mor anodd, ac am eu hymrwymiad i wasanaethau Gwynedd. Diolchwyd i'r gofalwyr di-dâl am eu gwaith a holwyd os oes angen sylw pellach i'w cefnogi a pa gynlluniau sydd ar gael i ddarparu i'r dyfodol. Pwysleisiwyd fod gofalwyd di-dâl yn hanfodol i'n cymunedau a bod oddeutu 10% o bobl Gwynedd yn ofalwyr di-dâl. Er hyn nodwyd nad yw'r gwasanaeth er o safon uchel yn ddigon da gan nad ydynt yn dod yn agos i weld 10% o'r boblogaeth. Amlygwyd fod nifer yr asesiadau i ofalwyr wedi dyblu, a bod cefnogaeth well i bobl ifanc. Nodwyd fod angen trefniadau wrth gefn mewn lle ar gyfer gofalwyr di-dâl fel bod modd adnabod beth fyddai unigolion ei angen os gofalwr yn mynd i'r ysbyty er enghraifft. Pwysleisiwyd ei fod yn hapus i ddod i'r Pwyllgor Craffu Gofal i gael trafodaeth bellach.

Pwysleisiwyd mai diogelu plant yw gwraidd gwaith y gwasanaethau cymdeithasol a gofynnwyd a yw ein systemau'r gorau y gallant fod. Ymatebwyd drwy nodi ei bod yn amhosib rhoi gwarant fod pob system yn ddi-ffael, ond fod yr adran yn byw mewn system ble mae lle i wella, gwersi i'w dysgu sy'n datblygu yn gyson. Pwysleisiwyd fod newidiadau wedi ei wneud i'r system a bod angen sicrhau fod llais y plentyn yn ganolog i hyn. Amlygwyd fod polisi diogelu newydd wedi ei mabwysiadu ac amlygwyd fod camau bellach mewn lle i groes gyfeirio achosion yn benodol pan fo mwy nac un cyfeiriad yn dod i mewn i weld os oes patrymau neu resymau. Nodwyd balchder mai nifer isel iawn sydd a mwy nac un cyfeiriad a llai fyth yn ymchwiliadau heddlu byw. Eglurwyd fod trefn yn ei le i sicrhau nad yw penderfyniad yn cael ei wneud gan un person, ond ei fod ar y cyd neu yn aml asiantaeth gyda thrafodaeth gyda'r heddlu am bob achos. Pwysleisiwyd pwysigrwydd mynychu'r hyfforddiant i staff ac i Gynghorwyr, gan fod angen ymwybyddiaeth ar y lefel uchaf i bawb.

Holwyd faint o wlâu gwag sydd yng Nghartrefi Preswyl Gwynedd ar hyn o bryd gan ei fod yn effeithio ar unigolion yn gadael yr ysbyty. Gofynnwyd yn ogystal fod yr adroddiad yn nodi nifer o lefydd gwag yng Nghartrefi'r Sir, a holwyd os oedd hyn oherwydd prinder mewn staff. O ganlyniad i hyn mae unigolion yn aros yn yr ysbyty ac yn cadw gwely yn llawn. Mynegwyd fod rhestr aros hir am ofal cartref, a bod cyhoeddiad gan Ddyfed Edwards wedi amlygu fod £30m o arian ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn darparu gofal cartref - a yw Cyngor Gwynedd wedi ei dderbyn, gan fod angen gwneud beth y gallwn i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i leihau amser aros yn yr Uned Gwasanaeth Brys. Atebwyd y cwestiynau drwy nodi fod cartrefi gofal oddeutu 84% llawn - a bod yr adran yn anelu am oddeutu 90% i fod yn hyfyw. Eglurwyd fod rhesymau dros y nifer yn isel - fel gwaith yn cael ei wneud ac felly yn gorfod cau rhai ystafelloedd am gyfnod o amser. Amlygwyd fod 11% o swyddi mewn cartrefi gofal yn wag ar hyn o bryd, ac felly ydi ei bod yn anodd darparu'r gofal sydd angen ei wneud. O ganlyniad i hyn nodwyd fod effaith ar Ysbytai oherwydd bod gweithredu'r llwybrau gofal yn gallu bod yn herio, ond y bydd yr arian ychwanegol yn cynorthwyo gyda'r gwaith. Mynegwyd fod angen defnyddio gofal cartref a thaliadau uniongyrchol er mwyn lleihau yr angen i fynd i'r ysbyty i sicrhau fod Gwynedd yn sir oed gyfeillgar ble mae modd i bobl barhau i fyw yn eu cartrefi mor hir â phosib.

Gofynwyd o ystyried fod systemau diogelu wedi methu dros y blynyddoedd a chynnydd wedi bod mewn trais tuag at ferched, gofynnwyd a oes angen rolau megis Swyddog Eiriolaeth Trais gan Bartner Agos (IPVA) neu Swyddog Eiriolaeth Trais i Bobl Ifanc o fewn y Cyngor. Atebwyd drwy nodi fod y swyddi yma i'w gweld gan yr Heddlu, a bod y Cyngor yn dueddol o

brynu gwasanaethauo'r math yma i mewn i sicrhau safon uchel, ond yn sicr mae'n awgrym i'w ystyried.

Amlygwyd pryder sy'n codi'n flynyddol am y diffyg cartrefi nyrsio yn ardal Dwyfor, ac yr angen i fynd ar ôl y Llywodraeth i gael dechrau'r gwaith yn y lleoliad ym Mhenrhos. Amlygwyd pryder am DoLs a gofynnwyd a oes modd cael hyfforddiant i Gynghorwyr unwaith eto. Ymatebwyd gan nodi ei fod yn cytuno 100% nad yw'r prinder gwlâu nyrsio yn ddigon da. Eglurwyd mai'r ateb amlwg yw Penrhos a'i fod yn hyderus y bydd yn digwydd ond ei fod am gymryd 3 blynedd i'w ddatblygu yn dilyn cael cadarnhad gan y Llywodraeth. Felly er bod cynllun yno nid yw'n mynd i gael ei sortio dros nos. O ran DoLs, mynegwyd ei fod yn sefyllfa heriol ond fod hyn yn wir yn genedlaethol. Eglurwyd gan fod angen asesiad blynyddol, mae hyn ac unigolion angen asesiadau yn arwain at broblemau adnoddau.

Mynegwyd o ran yr Adolygiad Amddiffyn Pant nodwyd yr angen i ofyn am Adolygiad Cyhoeddus gan ei bod yn teimlo nad oes gan yr adroddiad fel ac y mai ddigon o ddannedd. Ymatebwyd drwy nodi fod yr adroddiad yn un trwyadl ac gyda nifer uchel o'r unigolion wedi bod yn rhan ohono. Mynegwyd na fydd yn ddarlleniad pleserus a'i fod yn go heriol, a bod hyn yn amlygu pa mor drwyadl maent wedi bod, ond fod angen edrych arno ac wedyn gwneud penderfyniad yn dilyn hyn.

Nodwyd balchder fod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar recriwtio a chadw staff, yn benodol gan fod gwaith gofal yn gallu bod yn anodd a heriol ar gyflog mor isel. Gyda thaliadau uniongyrchol, amlygwyd nad oes llawer o bobl yn ei ddeall ac efallai fod angen dangos yn well sut mae'n gweithio. Amlygwyd gwymp yn y niferoedd sydd yn derbyn gofal Teleofal - a holwyd os oedd hyn oherwydd newid i systemau digidol. Atebwyd gan nodi fod lleihad wedi bod oherwydd effaith digideiddio gan eu bod yn canfod nad oedd unigolion yn gwneud defnydd ohono. Adroddwyd fod cynnydd wedi bod ers mis Ebrill.

Holwyd am gynlluniau ar gyfer Cartref Fron Deg yng Nghaernarfon, gan fod cynlluniau flynyddoedd yn ôl i'r ddymchwel ac adeiladau cartrefi gofal ychwanegol yno, a gofynnwyd a oedd diweddariad. Nodwyd fod y cynllun hwn yn un sydd yn dal i gael ei drafod ond fod y gwaith yn cymryd amser ac nad oedd derbyn grantiau yn hawdd. Mynegwyd ei fod yn hapus i ddod yn ôl at y Cynghorydd gyda gwybodaeth bellach.

**PENDERFYNWYD**

**Nodwyd cynnwys yr adroddiad sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwyr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Menna Trenholme, Cadeirydd y Panel Strategol Diogelu yn ystod 2024/25.

Diolchwyd am y cyfle i rannu'r adroddiad sydd yn amlygu sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau diogelu statudol sy'n cynnwys plant, oedolion bregus, trais difrifol a gwrthderfysgaeth. Eglurwyd fod y Grŵp Gweithredol ynghyd ag archwiliad allanol, yn sicrhau fod trefniadau diogelu yn gadarn ar draws y Cyngor.

Nodwyd yn ystod 2024/25 fod cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau plant gydag achosion cymhleth sydd wedi rhoi pwysau sylweddol ar y gweithlu.

Mynegwyd fod digwyddiad difrifol yn Ysgol Friars ym mis Medi 2023 wedi arwain ar weithredu brys gydag adolygiad pen-desg a chomisiynau Adroddiad Adolygiad Plant gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Comisiynwyd bargyfreithiwr arbenigol yn y maes diogelu plant i edrych ân benodol ar yr hyn a godwyd yn yr achos llys.

Yn y maes Oedolion eglurwyd fod nifer y cyfeiriadau'n cynyddu'n raddol gyda chymhlethdod achosion wedi dwysau. Amlygwyd fod gwasanaeth DOLS yn parhau yn heriol ond fod buddsoddiad ac anodau ychwanegol bellach ar waith.

Esboniwyd fod camau sylweddol wedi'u cymryd i gryfhau diogelu mewn Ysgolion, gyda phob ysgol bellach yn wedi derbyn ymweliad o fewn 18mis. Ychwanegwyd fod canrannau uchel ymhlith staff a llywodraethwyr bellach wedi cwblhau hyfforddiant penodol a sylfaenol. Tynnwyd sylw at nifer gynyddol o blant yn derbyn addysg adref.

O ran trais yn y cartref amlygwyd fod y Cyngor yn pahrau i godi ymwybyddiaeth a gweithredu'n rhagweithiol drwy hyfforddiant, partneriaethau amlasiantaethol ac adolygiadau achos. Nodwyd fod cynnydd mewn achosion o ystelcian ac aflonyddu wedi arwain ar waith partneriaeth gyda'r Heddlu. Amlygwyd fod lleihad wedi bod mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ond fod caethwasiaeth fodern yn parhau i fod yn fater o bryder.

Wrth edrych ymlaen, nodwyd mai blaenoriaeth y Panel yw bod y gweithlu yn deall systemau diogelu ac wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol, dan ddysgu yn barhaus. Ategwyd fod trefniadau diogelu yn parhau i ddatblygu mewn ymateb i ddeddfwriaeth, partneriaethau rhanbarthol a phrofiadau, a drwy hyn sicrhau diogelwch trigolion Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd am yr adroddiad a gofynnwyd am gadarnhad os yw'r adolygiadau o fewn yr ysgolion yn cael ei wneud gan staff tu hwnt i'r ysgol. Cadarnhawyd fod tîm o fewn yr Adran Addysg yn mynd i'r ysgolion i wneud yr adolygiadau diogelwch.

Amlygwyd yn y Cylch Gorchwyl nad oedd staff Iechyd a Diogelwch yn rhan o'r grŵp monitro.

Tynnwyd sylw at y cynnydd mewn nifer y plant sydd yn cael ei haddysgu adref, gan holi sut mae'r adran yn mynd i ddiogelu'r plant yma. Nodwyd fod yr adran yn ceisio dod i wraidd y rhesymau, gan eu bod yn awyddus cael y plant yn yr ysgol er mwyn monitro eu diogelwch. Er hyn nodwyd fod camau penodol i gadw golwg ar ddiogelwch y plant.

Mynegwyd gyda 2 flynedd ers i Bennaeth Ysgol Friars gael ei arestio, a bod cyhoeddi'r Adolygiad Amddiffyn Plant wedi ei ohirio holwyd os oes modd i'r Cyngor wneud camau datblygu a gwella heb i'r adroddiad ei gyhoeddi. Mynegwyd fod gwaith wedi cyc hwyn a'u bod yn rhagdybio beth fydd yn yr adolygiad ac yn ceisio gweithredu ar hyn yn barod.

Codwyd pryder am les plant ar fysus Ysgol ynghyd a pwy sy'n gneued penderfyniadau am fysus plant. Derbyniwyd y pwynt o ran diogelwch a chytunwyd i edrych ar y mater a chael sgwrs ehangach ar y mater.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr Adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2024/25.**

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2024/25**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu yn ystod 2024/25.

Nodwyd fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaethpwyd yn ystod 2024-25 gan amlygu'r rheswm dros graffu ac effaith y gwaith craffu. Amlygwyd fod 41 o eitemau wedi'u craffu. Tynnwyd sylw at nifer o'r gwaith sydd wedi ei wneud a oedd yn cynnwys sefydlu Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion a fydd yn adrodd ar y gwaith yn

2025/26. Enghraifft arall fod y Pwyllgor Craffu Gofal wedi gwahodd partneriaid allanol ar dri achlysur a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi blaen graffu'r bwriad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli defnydd ail-gartrefu a llety gwyliau.

Mynegwyd fod addasiadau ymarferol wedi'i wneud i drefniadau craffu er mwyn gwneud defnydd effeithiol o amser drwy gynnal cyfarfodydd anffurfiol. Nodwyd fod cyfarfodydd briffio yn cael ei gynnal i roi ffocws ar y strategaeth gwestiynu yn y cyfarfod. Nodwyd fod gwneud argymhellion clir a phwrpasol yn greiddiol i graffu da, ac eglurwyd eu bod yn parhau i ddatblygu'r elfen yma a fydd yn ei dro yn galluogi adnabod effaith craffu.

Diolchwyd i'r swyddogion ac aelodau am ei gwaith, ac i aelodau'r Fforwm am y cydweithio a'r trafodaethau sydd wedi cyfrannu at wella trefniadau craffu.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd o ran adroddiad ei bod yn anodd gweld beth yw'r diwedd y daith ac nad oedd gwir effaith craffu ddim yn amlwg. Atebwyd drwy nodi fod hyn wedi ei adnabod ond rhai mynegi eu bod yn symud i'r cyfeiriad cywir er mwyn cael system sydd yn gweithio yn well.

Diolchwyd am waith y Pwyllgor Craffu gan yr aelodau Cabinet, a'i fod yn gysur yn cynnig argymhellion ac yn amlygu os yw'r gwaith yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr Adroddiad.**

**11. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y nodi o bryd i'w gilydd mae adroddiadau yn dod gyda newid i'r cyfansoddiad. Mae hwn yn un ohonynt. Mynegwyd fod y gwaith hwn yn ffrwyth llafur ar y cydrhwng yr adran Gyfreithiol a'r Adran Dai ac Eiddo i addasu rhiniogau ar gyfer prynu, gwerthu a llesu tir. Eglurwyd fod hyn oherwydd newid mewn costau tir dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad i hyn roedd angen ail edrych ar y cynllun dirprwy.

Manylwyd fod y drefn gyfredol ar hyn o bryd yn anodd ei ddeall gyda geiriad annelwig, a bod wedi bod yn destun penbleth o ran hawliau swyddogion. Esboniwyd fod y cynllun dirwyo newydd gyda gwerthoedd uwch, gan fod trwch helaeth o'r penderfyniadau ar hyn o bryd yn mynd yn ddieithriad bron drwy daflen penderfyniad Aelod Cabinet. Mynegwyd fod y trefniadau newydd yn hwyluso effeithlonrwydd yr adran. Pwysleisiwyd yn amlwg fel Cynlluniau Dirprwyo eraill y bydd amodau yn ddarostyngedig i elfennau megis polisïau'r Cyngor, rheolau sefydlog ac ymgynghori gydag aelodau lleol wrth waredu tir. Nodwyd fod y Cynllun diweddaraf yn rhoi mwy o hyblygrwydd ond yn sicrhau cyfathrebu cyson gyda'r Aelod Cabinet.

Nodwyd fod y Cynllun wedi bod o flaen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd wedi ei gefnogi. Pwysleisiwyd fod y cynllun hwn yn symud o sefyllfa aneglur i drefn fodern. Esboniwyd fod yr Adran Gyfreithiol wedi edrych ar gynlluniau cyffelyb ar draws y Gogledd, a bod y Cyngor yn mynd am gynllun tir canol o'i gymharu.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Bu i un aelod ddatgan ei wrthwynebiad i'r Cynllun gan fod achosion ble mae'r Cyngor yn prynu tai gydag amod 106 arno, a drwy wneud hyn yn lleihau'r stoc o dai fforddiadwy prin sydd ar gael yn y sir. Tynnwyd sylw at achos ble y bu i'r Cyngor gynnig pris llawer yn uwch na'r pris gofynnol gan atal unigolyn lleol rhag prynu'r tŷ. Mynegwyd mai dyma'r risg o roi'r penderfyniad i swyddogion a mynegwyd yr angen i Aelodau Cabinet barhau i wneud y penderfyniad, gan y credai'r Aelod mai corff democrataidd a ddylai wneud y penderfyniad.

Ymatebodd swyddogion gan nodi nad yw'r Cynllun yn newid yw hawliau yn hytrach yn newid y rhicyn ariannol. Eglurwyd fod bron i ugain mlynedd wedi mynd heibio ers iddynt gael ei gosod, ac nad ydynt yn adlewyrchu hawliau heddiw. Mynegwyd yn yr achos a nodwyd fod hyn wedi digwydd ar ddechrau'r cynllun prynnu tai a bod datrysiad wedi ei wneud yn syth. Nodwyd nad yw'r Cyngor ddim eisiau cystadlu ac unigolion i brynu tai ond yn hytrach i brynu tai nad ydynt yn gwerthu neu a risg o gael eu prynnu tu hwnt i'r sir. Pwysleisiwyd mai dim ond mewn achosion penodol iawn mae penderfyniad o'r math hwn yn mynd i'r Cabinet, a gan amlaf ei fod yn benderfyniad Aelod Cabinet.

**PENDERFYNIAD**

**Mabwysiadu'r diwygiadau o'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ynglŷn â chaffael a gwaredu eiddo**

**12. AROLYGON CYMUNEDOL O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

Nodwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno cynigion terfynol yr Arolygon Cymunedol am gymeradwyaeth. Eglurwyd fod dau fath o arolwg wedi ei gynnal. Y Cyntaf yn arolwg o ffiniau cymunedau ble roedd materion wedi dod i sylw, ac yr ail arolwg o'r trefniadau etholiadol ym mhob cymuned, gan edrych os dylid rhannu cymunedau i wardiau at bwrpas etholiadau i'r cyngor cymuned.

Yn ôl ym mis Mawrth 2024, cytunodd y Cyngor i gynnal yr arolygon a cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y bwriad a'r cylchoedd gorchwyl. Yn dilyn hyn ddyblygwyd cynlluniau drafft a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth, ac yn dilyn hynny cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynigion drafft.

Ystyriwyd yr ymatebion a dderbyniwyd ac fe addaswyd lle yn briodol i greu'r cynigion terfynol. Esboniwyd os yn cymeradwyo bydd y rhai sy'n ymwneud a newid ffiniau yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Ffiniau i benderfynu os am wneud gorchymyn i'w gweithredu. Pwysleisiwyd mai'r Cyngor sydd a'r hawl i wneud gorchymyn i ddod â'r newidiadau i wardiau cymunedol i rym ond bydd angen yn gyntaf cyhoeddi adroddiad yn cynnwys y Cynigion Terfynol a'i anfon at y cyrff a'r bobl a ragnodir yn y Ddeddf. Wrth wneud y gorchymyn bydd rhaid rhoi ystyriaeth i unrhyw gynrychioliadau sy'n cael eu derbyn gan y Cyngor yn ystod y cyfnod o 6 wythnos ar ôl ei gyhoeddi.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gofynwyd am gadarnhad o bryd y bu i'r ail ymgynghoriad statudol ei gynnal. Cadarnhawyd iddo gael ei gynnal ym mis Mawrth tan fis Mai.

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwywyd:**

1. **y Cynigion Terfynol dan adrannau 25 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013 a chyhoeddi'r Adroddiadau Terfynol**

2. **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol wneud a selio'r Gorchymyn ar gyfer Adolygiad Adran 31**

3. **Cyflwyno argymhellion ar gyfer newid dan Arolwg Adran 25 i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

**13. RHYBUDD O GYNNIG**

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Beca Roberts o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd:-

1. Gan gydnabod fod y Pwyllgor Pensiynau wedi ac am roi sylw i'r materion yma fel rhan o adolygiad o'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor a Phartneriaeth Pensiwn Cymru i ystyried i ba raddau y gellir symud i gefnogi tanfuddsoddi mewn tanwydd ffosil cyn gynted â phosib fel rhan o'r dyhead i fod yn garbon sero net, mewn modd tryloyw ac atebol ac yn unol â'i dyletswyddau cyfreithiol at y gronfa.
2. Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sefydlu cynhadledd flynyddol ar fuddsoddi moesegol a chynaliadwy gyda golwg ar hyrwyddo'r defnydd gorau o'r cronfeydd sydd ar gael.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Fod Cymru yn wlad unigryw ble mae addewid yn y gyfraith, drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i feddwl am y genhedlaeth nesaf.
- Amlygwyd dyletswydd i fuddsoddi yn ddoeth yn nyfodol ariannol a dyfodol amgylcheddol y sir.
- Nodwyd fod gofalu am bensiynau yn golygu sicrhau buddsoddiadau cadarn sydd yn edrych tua'r dyfodol.
- Amlygwyd nad oes synnwyr na sicrwydd hirdymor i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil wrth i'r byd symud tuag at ynni adnewyddadwy.
- Byddai buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, tai fforddiadwy ac isadeiledd lleol yn cynnig dyfodol mwy llewyrchus, diogel a dibynadwy.
- Mynegwyd mai dim ond 2.5% o'r Gronfa Bensiwn sydd wedi'i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil, ond beth am ei fuddsoddi mewn pethau fydd yn dod â budd uniongyrchol i gymunedau fel tai fforddiadwy, amaethyddiaeth adfywiol a chronfeydd i Fentrau Cymdeithasol.
- Os Gwynedd yn dangos arweinyddiaeth yma mae'n rhoi enghraifft glir o ymarfer da ar gymhwyso deddf Llesiant Cenadaethau'r Dyfodol i sicrhau canlyniadau gorau.

Mynegwyd cefnogaeth i'r gwelliant.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

1. **Gan gydnabod fod y Pwyllgor Pensiynau wedi ac am roi sylw i'r materion yma fel rhan o adolygiad o'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor a Phartneriaeth Pensiwn Cymru i ystyried i ba raddau y gellir symud i gefnogi tanfuddsoddi mewn tanwydd ffosil cyn gynted â phosib fel rhan o'r dyhead i fod yn garbon sero net, mewn modd tryloyw ac atebol ac yn unol â'i dyletswyddau cyfreithiol at y gronfa.**
2. **Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sefydlu cynhadledd flynyddol ar fuddsoddi moesegol a chynaliadwy gyda golwg ar hyrwyddo'r defnydd gorau o'r cronfeydd sydd ar gael.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 5.30yp.

____________________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **4 Rhagfyr 2025** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd Huw Wyn Jones**<br>**Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** |

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27:**

- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. yn cynyddu'r premiwm o 100% i 150%).**

## 1. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CYNGOR WNEUD Y PENDERFYNIAD:

1.1 Yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad blynyddol os yw am godi Premiwm ar Dreth Cyngor eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi ("anheddau wedi eu meddiannu'n gyfnodol). Heb benderfyniad, byddai'n rhaid cynnig disgownt o 50% ar Dreth Cyngor eiddo o'r fath.

1.2 Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26, mae'r Cyngor wedi codi Premiwm Treth Cyngor o 150% ar ail gartrefi a 100% ar eiddo gwag hirdymor, ond mae deddfwriaeth yn rhoi caniatâd i'r Cyngor godi Premiwm o hyd at 300%.

1.3 Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn cynyddu'r gyfradd Premiwm, bydd yn rhaid iddo ystyried a fyddai penderfyniad o'r fath yn rhesymol ar ôl ystyried y canllawiau statudol, canlyniad ymchwil a chyngor cyfreithiol y mae'r awdurdod wedi'i gael.

1.4 Mae copi o'r Canllawiau Statudol diweddaraf yn Atodiad 2.

## 2. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

**<u>Cefndir/ Cyflwyniad</u>**

2.1 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

2.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

2.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

2.4 Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B)

2.5 Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ac ar 2 Rhagfyr 2021 penderfynodd gadw lefel y Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23.

2.6 Mae *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)* wedi addasu Adrannau 12A a 12B Deddf 1992 sy'n rhoi grym i awdurdodau bilio godi premiwm o hyd ar 300% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a blynyddoedd ariannol dilynol.

2.7 Mewn ymateb i'r newid deddfwriaethol yma, ar 1 Rhagfyr 2022 penderfynodd y Cyngor gynyddu'r Premiwm ar ail gartrefi i 150% a chadw'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd hyn yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr yn ystod hydref 2022. Ar 7 Rhagfyr 2023 penderfynodd y Cyngor gadw'r Premiwm ar yr un lefel yn 2024/25 ac ar y 5 Rhagfyr 2024 penderfynodd y Cyngor gadw'r Premiwm ar yr un lefel yn 2025/26.

**2.8 Mae adroddiad y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2022, pan osodwyd lefel presennol y Premiwm am y tro cyntaf, wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r holl resymeg dros osod y lefelau hynny.**

2.9 Yn 2022 daethpwyd i'r casgliad:

> *"12.6. Mae'r Cabinet wedi gwneud ei argymhelliad gan ddod i'r casgliad nad oes modd sefydlu cyfiawnhad cyffelyb i gynyddu'r premiwm uwchlaw cyfradd o 150%. Nid yw nifer o'r camau pellach hyn megis newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio na threth busnes wedi dod yn weithredol eto a felly nid ydym wedi cael cyfle i asesu ardrawiad y polisïau hyn yng ngwyneb newid sylweddol iawn yn y Premiwm, na'r oblygiadau ymarferol."*

2.10 Roedd hyn yn dilyn proses ymgynghori eang yn ystyried yr ystod o gynnydd oedd yn agored hyd at 300%. Bellach mae sawl newid wedi dod yn weithredol a dechrau cael effaith ar y farchnad. Mae'r system trethi busnes wedi newid ers 1 Ebrill 2023 gan gynyddu y gofynion i ganiatáu trosglwyddo eiddo gwyliau i dreth busnes i osod am 182 diwrnod ac argaeledd o 282 diwrnod.

2.11 Er mwyn gallu amddiffyn penderfyniad i godi Premiwm ar gyfradd uwch nag y mae ar hyn o bryd, mae angen sail a rhesymeg i adolygu.

2.12 Byddai'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ac yn ddatblygiad o'r penderfyniad yn 2022 gan ddefnyddio y canfyddiadau o'r ymgynghoriad i ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ardrawiadau.

2.13 Yn ôl y canllawiau statudol:

> Rhaid cadarnhau unrhyw fwriad i amrywio neu ddirymu penderfyniad i gymhwyso premiwm cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.
>
> Hefyd, anogir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori cyn penderfynu cynyddu premiwm uwchlaw 100% gan wneud hynny o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynnydd arfaethedig i'r premiwm yn berthnasol iddi.
>
> Bydd hyn yn golygu y bydd modd ystyried y premiwm wrth bennu lefelau'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf a bydd yn rhoi digon o amser i drethdalwyr ystyried effaith premiwm uwch ar eu hamgylchiadau ariannol personol a gwneud dewisiadau ynghylch eu heiddo

2.14 Er bod y Canllawiau newydd felly yn rhoi’r argraff y dylai Cynghorau gynnal ymgynghoriad cyn penderfynu codi premiwm ac yn enwedig cyn penderfynu codi premiwm uwchlaw 100%, does dim gofyniad i wneud hyn bob tro mae Cyngor yn penderfynu codi’r premiwm yn uwch. Mae’r penderfyniad a geisir yn cynnig cadw graddfa’r premiwm ar ail gartrefi fel ag y mae a codi’r graddfa premiwm ar eiddo gwag.

2.15 Wrth i’r Cabinet ystyried diwygio’r graddfeydd rhoddwyd sylw penodol at ganlyniadau yr ymgynghoriad yn 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn eang, wedi derbyn ymateb sylweddol ac yn seiliedig ar geisio barn ar gynnydd hyd at 300% (atodir yr adroddiad penderfyniad 2022). Ond, yn briodol a gan adlewyrchu ar y penderfyniad yn Rhagfyr 2022, dylid ystyried canfyddiadau y gwaith ymchwil ynghyd â’r wybodaeth ehangach ac asesiadau wrth ystyried y cyd destun a chyfiawnhad ar gyfer penderfyniad. Mae'r argymhelliad ynghylch eiddo gwag hirdymor yn seiliedig ar ystadegau a gwybodaeth sy'n tynnu sylw at effaith y premiwm ar eiddo y math penodol hwn. Nodir bod lefel yr eiddo gwag hirdymor wedi aros yn ddigyfnewid ers y penderfyniad yn 2022. Y rhagdybiaeth a gymerwyd ar y pryd o ganlyniad i'r ymgynghoriad oedd gosod lefel benodol i gyflawni bwriad y premiwm. Mae'r ystadegau cyfredol yn arwain at y casgliad bod angen adolygu'r lefel. O ganlyniad, mae sail i barhau i ddibynnu ar yr ymgynghoriad a'r canlyniad wrth ystyried y wybodaeth ddiweddaraf i adolygu'r lefel premiwm eiddo gwag hirdymor.

2.16 Ystyrir bod y llwybr penderfynu hwn yn briodol. Gall y Gwaith Ymchwil a gyflwynir yng ngweddill yr adroddiad hwn ac yn Atodiad 3 gefnogi'r safbwynt hwn a'r sail dros symud ymlaen yn y modd hwn Mae bob amser risg o her i benderfyniadau o'r natur a'r cymhlethdod yma  ond credir bod yr adroddiad yn mynd i'r afael â hyn yn gywir.

## 3. GWAITH YMCHWIL

3.1 Comisiynwyd gwaith ymchwil penodol yn 2024 gan y Cyngor llawn er mwyn dadansoddi'r effaith yr oedd y Premiwm yn ei gael ar gymunedau Gwynedd.

3.2 Cyhoeddwyd canlyniad y gwaith ymchwil hwnnw ym mis Tachwedd 2024, ac fe'u defnyddiwyd ar gyfer gwneud penderfyniad ar gyfradd y premiwm ar gyfer 2025/26.

3.3 Dengys y gwaith ymchwil hwnnw, (er bod rhaid cofio y gallai ffactorau eraill hefyd fod yn dylanwadu ar y sefyllfa) fod y premiwm wedi gwneud cyfraniad at ddod ag ail gartrefi yn ôl i ddefnydd fel prif breswylfeydd.

3.4 Ymddengys hefyd bod y newid rheoliadau llety gwyliau wedi, ac yn parhau i, ddylanwadu – gan arwain at lif o eiddo o lety gwyliau i ail gartrefi, gan wrthbwyso rhywfaint ar effaith y duedd (uchod) i ail gartrefi newid i fod yn brif breswylfeydd.

3.5 O ran effaith y premiwm ar <u>eiddo gwag hirdymor</u>, mae'n anodd canfod unrhyw batrwm pendant. Roedd nifer uwch wedi trosglwyddo ar ôl cynnydd premiwm yn 2021, ond yn dilyn hynny mae'r niferoedd wedi bod yn amrywiol iawn. Nodir "does dim effaith hirhoedlog amlwg", a hynny dros gyfnod ble bu i'r gyfradd aros ar 100% ers 2021.

3.6 Ers y gwaith ymchwil manwl hwnnw, rydym wedi diweddaru'r data a dadansoddi unrhyw batrymau neu newidiadau pellach ers Tachwedd 2024. Mae canlyniad y diweddariad i'r Gwaith Ymchwil yn Atodiadau 3(a) a 3(b).

3.7 Fel yn y Gwaith Ymchwil blaenorol nid oes unrhyw batrwm pendant i'w weld. Mae niferoedd yr eiddo gwag hirdymor yn parhau heb newid nodweddiadol.

**<u>Ystyriaethau eraill</u>**

3.8 Mae'r gwaith ymchwil yn dangos fod nifer yr ail gartrefi wedi cynyddu ers 2024/25 ar ôl sawl blwyddyn o ostwng, gyda'r newid yn fwy amlwg nag oedd yng ngwaith ymchwil Tachwedd 2024.  Mae'r newid hwn o ganlyniad i newid deddfwriaethol lle bellach rhaid gosod eiddo am 182 diwrnod y flwyddyn i fod yn gymwys i fod ar y rhestr ardrethi annomestig (gweler paragraff 3.10 uchod).

3.9 Fel canlyniad i'r newid hwn mae Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi trosglwyddo nifer o eiddo o fewn Gwynedd o'r gyfundrefn ardrethi annomestig i fand Treth Cyngor a gan nad oes trigolyn yn yr eiddo mae'r anheddau hyn hefyd yn destun Premiwm.

3.10 Serch hynny, deallwn fod nifer fawr o apeliadau wedi cael eu cyflwyno i Swyddfa'r Prisiwr yn erbyn y penderfyniad i drosglwyddo eiddo o un gyfundrefn i'r llall sy'n golygu fod y sefyllfa o safbwynt nifer yr ail gartrefi yn parhau yn gyfnewidiol ar hyn o bryd. Hynny yw, er fod y tueddiad o ostyngiad yn nifer yr ail gartrefi wedi dod i ben, mae hynny o ganlyniad i newid deddfwriaethol a ni welir fod hyn yn gyfiawnhad i newid y raddfa Premiwm ar ail gartrefi (Adran 12B Deddf 1992) ar gyfer 2026/27.

3.11 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar fireinio dosbarthiad eiddo hunan-ddarpar at ddibenion trethi lleol, a all arwain at newidiadau i'r rheolau "182 diwrnod" a gall hyn newid y sefyllfa yn y flwyddyn nesaf. Mae'r ansicrwydd yma hefyd yn fater i'w ystyried ac yn awgrymu y byddai'n gynamserol newid y gyfradd premiwm i ail gartrefi ar hyn o bryd.

## 4. CASGLIADAU

4.1 Mae ystadegau a gwaith ymchwil dros sawl blwyddyn yn awgrymu fod y Premiwm ar ail gartrefi yn gwireddu ei fwriad, ac fod y cynnydd diweddar mewn niferoedd yn ganlyniad i ffactorau deddfwriaethol eraill fel sydd wedi eu hamlygu uchod. Wrth ystyried yr holl faterion sydd wedi eu hamlygu uchod, ni welir fod cyfiawnhad dros gynyddu'r Premiwm ar ail gartrefi ar gyfer 2026/27.

4.2 Ar y llaw arall, mae'r gwaith ymchwil wedi dangos nad yw cadw graddfa'r Premiwm ar gyfer eiddo gwag hirdymor ar lefel is na'r Premiwm ar ail gartrefi wedi cael effaith ar leihau nifer yr eiddo gwag. Mae gan y Cyngor Gynllun Tai Gwag yn ei le sydd yn anelu i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd, ond serch hynny mae nifer yr anheddau sydd wedi bod yn wag yng ers nifer o flynyddoedd yn parhau'n bryder ac fel mae'r gwaith ymchwil yn nodi (Rhan 4 uchod) nid yw lefel Premiwm o 100% i weld fod wedi cael effaith ar hyn.

4.3 Mae'n briodol, felly, fod lefel y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei adolygu.

4.4 Mae’r Canllawiau Statudol yn datgan:

> Mae ystod o ffactorau a allai helpu awdurdodau lleol i benderfynu a ddylid codi premiwm ai peidio. Bydd rhai ffactorau yn benodol i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi, ond bydd ffactorau eraill yn berthnasol i'r ddau. Mae'r ffactorau hyn wedi'u rhestru isod er mwyn helpu awdurdodau lleol. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.
>
> - Nifer a chanrannau'r eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi yn yr ardal leol.
> - Dosbarthiad eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd penodol.
> - Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth.
> - Patrymau o ran y galw am gartrefi fforddiadwy a faint ohonynt sydd ar gael.
> - Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol.
> - Yr effaith bosibl ar y gymuned leol.
> - Yr effaith bosibl ar y Gymraeg.
> - Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn cynyddu'r cyflenwad tai a nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael.
> - Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn helpu i sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto.

4.5 Gall unrhyw gynnydd yng ngraddfa’r Premiwm fod yn destun her gyfreithiol ac yn hynny o beth rhaid ystyried beth sydd wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf ers i’r Cyngor benderfynu yn Rhagfyr 2024 fod 100% yn lefel briodol ar gyfer y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor.

4.6 Ym Mehefin 2025 roedd 1,121 eiddo gwag hirdymor yn y sir fel a ganlyn:

| yn wag am rhwng 1 a 3 blynedd | yn wag am rhwng 3 a 5 mlynedd | yn wag am fwy na 5 mlynedd. |
|---|---|---|
| 574 | 231 | 316 |

4.7 Gwelir fod dros 500 annedd wedi bod yn wag yng Ngwynedd ers dros 3 blynedd, a hynny yng nghyd-destun sefyllfa lle mae argyfwng tai wedi cael ei adnabod. Mae Tîm Tai Gwag o fewn yr Adran Tai ac Eiddo yn mynd i'r afael â'r sefyllfa yn wyneb adnoddau cyfyngedig, a bu hyn yn destun adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 25 Medi 2025: Adroddiad. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael sicrwydd fod cynlluniau addas yn eu lle i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ymhellach i hynny, mae Grŵp o swyddogion o ystod o adrannau yn ystyried camau i'w cymryd gydag eiddo gwag problemus. Yn ngŵydd hyn, felly, mae'r gwaith ymchwil a chraffu diweddaraf yn amlygu ei bod yn gynyddol anodd cyfiawnhau graddfeydd gwahanol ar gyfer Premiwm eiddo gwag hirdymor o'i gymharu ag ail gartrefi.

4.8 Petai awydd i gynyddu lefel y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor tu hwnt i 150%, byddai angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus o'r newydd.

## 5. DEFNYDD Y PREMIWM

5.1 Ers cyflwyno'r Premiwm ar gychwyn blwyddyn ariannol 2018/19, mae arian sy'n cael ei gasglu trwy'r Premiwm wedi cyfrannu at ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Ers blwyddyn ariannol 2023/24 mae £3m yn cael ei ddefnyddio yn y gyllideb refeniw tuag at ariannu gwasanaethau i bobl digartref.

5.2 Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn anelu i adeiladu, prynu neu adnewyddu dros 2,000 o unedau fydd yn helpu dros 15,000 o bobl Gwynedd dros oes y Cynllun.

5.3 Yn dilyn newidiadau i sefyllfa dai, anghenion pobl Gwynedd a ffynonellau ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn sgil pandemig Covid-19 a Brexit, cymerwyd y cyfle i adolygu'r Cynllun yn ddiweddar a'i ymestyn hyd at 2028/29, gan gymryd mantais o gyfleoedd newydd i ehangu a helpu hyd yn oed mwy o drigolion y sir gyda'u sefyllfa dai.

5.4 Bydd y Cynllun Gweithredu Tai yn buddsoddi dros £190m dros oes y Cynllun, a hynny trwy dynnu ar sawl ffynhonnell ariannol, megis Grant Cymorth Tai a Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ac wrth gwrs y Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi a Thai Gwag.

5.5 Mae’r cyllid a dderbynnir o’r gronfa Premiwm Treth Cygnor (gyfwerth ag oddeutu 26% o holl werth y Cynllun) wedi’i glustnodi’n llawn yn erbyn sawl prosiect yn y Cynllun Gweithredu Tai, megis cynlluniau llety â chefnogaeth, codi ein tai ein hunain, cyfrannu at elfennau trigiannol mewn cynlluniau cymunedol, dod â thai gwag y sir yn ôl i ddefnydd, a sicrhau bod pobl anabl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi presennol.

5.6 Mae gallu cynnwys y Premiwm fel ffynhonnell ariannol wedi galluogi i’r Adran ddenu sawl grant ychwanegol. Rhoddwyd blaenoriaeth i wario’r grantiau hynny’n gyntaf gan fod terfyn amser arnynt, ac mae hynny yn ei dro wedi caniatáu i ni flaenoriaethu gwariant o’r premiwm a sicrhau bod hynny’n dod â’r budd mwyaf i bobl Gwynedd.

5.7 O holl wariant/ymrwymiadau ariannol y Cynllun hyd yma, mae oddeutu £15.5m wedi dod o gronfa’r Premiwm (hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 24/25).

5.8 Mae’r arian hwn wedi’i wario ar sawl maes a chynllun, sydd wedi arwain ar helpu 11,385 o bobl Gwynedd. Mae rhai o’r uchafbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- **Cynlluniau Tai â Chefnogaeth (Cynllun 1a):** Mae gwaith yn parhau ar baratoi ac addasu hen Adeilad y Goron, Penrallt, Caernarfon, i’w drosi’n llety â chefnogaeth i’r rheiny mewn angen tai. Yn ddiweddar cwblhaodd pryniant Tŷ Glyn, Bangor er mwyn ei drosi i gyfarch anghenion tai ym Mangor.
- **Cynllun Prynu i Osod (Cynllun 2c):** Llwyddid i brynu 51 o dai dan faner y Cynllun Prynu i Osod hyd yma, ac mae 20 o’r rheiny wedi’u gosod i bobl leol mewn angen tai, gyda disgwyl i 6 arall gael eu gosod yn yr wythnosau nesaf a gwaith adnewyddu gwblhau ar 13 ohonynt cyn diwedd Rhagfyr. Trwy’r Cynllun hwn, mae’r Cygnor yn gallu cynnig cartref addas i’n trigolion, megis i Ffion a Rhodri a symudodd i mewn i’w tŷ newydd ym Mhorthmadog yn ddiweddar – gellir darllen eu stori yma: Cynllun Prynu i Osod Cyngor Gwynedd yn cynnig allwedd i'r dyfodol i gwpl ifanc
- **Tŷ Gwynedd (cynllun 3a):** Mae gwaith ar safle yn Llanberis a Choed Mawr ac yn gwneud cynnydd da. Disgwylir i'r gwaith adeiladu yn Llanberis gwblhau yn y misoedd nesaf, ac mae'r broses o farchnata'r tai ar gyfer darpar ymgeiswyr wedi dechrau. Disgwylir i'r contractwyr drosglwyddo'r tai i ni ym mis Tachwedd, a byddant yn cael eu gwerthu yn fuan iawn wedyn. Mae’r gwaith ar safle Coed Mawr hefyd yn gwneud cynnydd da, gyda’r gwaith strwythurol bron â chwblhau.
- **Ymgysylltu a chyfathrebu gyda chymunedau (Cynllun 3c):** Yn ystod mis Ebrill, Mai a Mehefin eleni, cynhaliwyd ail gyfres Tai ar Daith - cyfres o ddigwyddiadau sy'n mynd â swyddogion tai a meysydd cysylltiedig allan i'r gymuned i siarad gyda thrigolion Gwynedd. Ymwelwyd y tro yma â Bethesda (lle daeth 43 o aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau i'n gweld), Porthmadog (40),

Tywyn (38) a Nefyn (37). Bwriedir cynnal 3edd gyfres yn 2026 gyda thrafodaethau wedi dechrau ar leoliadau a threfniadau.

- **Grant Cartrefi Gwag Gwynedd (Cynllun 3dd):** Fis Awst eleni, cyhoeddodd y Cyngor addasiad i feini prawf y Grant Cartref Gwag sy'n golygu bod mwy o bobl bellach yn gymwys amdano. Mae'r trothwy incwm wedi codi i £60,000, ac mae grant o hyd at £25,000 bellach ar gael. Mae'r dull o gymhwyso eiddo hefyd wedi newid, a defnyddir bandiau treth Cyngor bellach. Gellir darllen mwy yma: Mwy o drigolion Gwynedd bellach yn gymwys am grant i adnewyddu tai gwag. Hyd yma mae cyfanswm o 331 o dai gwag wedi'u hadfer trwy gefnogaeth y Cyngor, a 136 o'r rheiny wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth Grant Cartrefi Gwag Gwynedd.
- **Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag (Cynllun 3e):** Mae cynllun 3e yn cynnig eithriad am hyd at flwyddyn ar dreth Cyngor ar dai gwag i berchnogion sydd angen cwblhau gwaith angenrheidiol ar eu cartref. Hyd yma mae 142 o aelwydydd wedi elwa o'r gefnogaeth yma, a hynny wedi cyfrannu felly at ddod â 142 o dai gwag yn ôl i ddefnydd yng Ngwynedd.
- **Siop un Stop i faterion tai (Cynllun 6)**: Ar 15 Medi, 2025, lansiodd y Siop un Stop, sef drws ffrynt i holl ymholiadau tai Gwynedd. Nod y gwasanaeth yw hwyluso a symleiddio mynediad i drigolion y sir at wybodaeth a chyngor ar faterion tai, ac mae'r adborth hyd yma'n gadarnhaol ac mae 83 o bobl wedi cael eu helpu (15-30 Medi). Yn y cyfnod yn arwain at y lansiad, cynhaliwyd sesiynau galw-i-mewn i Aelodau Etholedig a hyrwyddwyd y drefn newydd ar ein cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r wasg (cliciwch yma i weld y datganiad i'r wasg).

5.9 Os bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu cynyddu lefel y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor o 100% i 150% ar gyfer 2026/27 bydd penderfyniad ffurfiol ar ddefnydd yr incwm ychwanegol yn cael ei wneud wrth osod Cyllideb 2026/27 ar 5 Mawrth 2026, gan ystyried gofynion y Canllawiau Statudol (Atodiad 2).

## 6. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

6.1 Mae’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd yn Atodiad 1c yn adlewyrchu gofynion a datblygiadau diweddar, amgylchiadau newidiol, a chanlyniadau’r ymgynghoriad cynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022.

6.2 Canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd yn 2022 wrth osod lefel gyfredol y Premiwm yw fod ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu’r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai’r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o’r anfanteision maent yn eu hachosi.

6.3 Roedd asesiad 2022 hefyd yn dod i gasgliad y byddai’r Premiwm yn cael effaith bositif ar y cyfan ar yr iaith Gymraeg a chydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu’r Cynllun Gweithredu Tai sy’n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. Fodd bynnag, nodir fod hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau positif a negyddol sy’n effeithio ar yr Iaith, sy’n cael sylw mewn nifer o fannau yn yr adroddiad yma a’r atodiadau.

6.4 Mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru ym mis Hydref 2025, ac yn dod i’r un casgliadau a nodwyd yn yr un blaenorol.

## 7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015

7.1 Mae dyletswydd i weithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â’r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i’r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu’r cynnig gerbron.

7.2 Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy’n ffynnu ac yn llewyrchus i’r hir-dymor
- Trigolion sy’n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

7.3 Mae’r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy’n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

7.4 Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o “Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy’n fforddiadwy ac sy’n gwella eu hansawdd bywyd”.

7.5 Mae’r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni’r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

7.6 Mae’r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda’i gilydd, yn mynd ati i wireddu’r amcanion hyn.

## 8. ARGYMHELLIAD Y CABINET

8.1 Ar ôl ystyried yr opsiynau uchod yn nghyd-destun y wybodaeth yn yr adroddiad hwn, yr atodiadau a'r astudiaethau y cyfeirir atynt, mae angen i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar lefel y Premiwm i'w osod ar gyfer 2026/27. Mae Cabinet y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd, wedi penderfynu:

**Argymellwyd i'r Cyngor llawn ar 4 Rhagfyr 2025 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27:**

- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. yn cynyddu'r premiwm o 100% i 150%).**

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cael cyfle i gynghori ar yr adroddiad. Mae'r drefn ar gyfer penderfynu a'r camau i wneud yr argymhelliad yn cyd fynd a'r arweiniad cyfreithiol sydd wedi ei ddarparu.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**DOGFENNAU CEFNDIR**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **1 Rhagfyr 2022** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd Ioan Thomas**<br>**Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhad ffurfiol am 2022/23 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 150% neu 100% ar eiddo perthnasol o'r fath.** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** |

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

1.2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

1.3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

1.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" ychwanegol o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi perthnasol (Adran 12B).

1.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Penderfynodd y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2021 y byddai'n cadw'r lefel heb ei newid ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

**ARGYMHELLIAD**

**Argymhellir ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fod Cyngor Gwynedd yn:**

- **Caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid o 2022/23).**
- **Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).**
- **Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid o 2022/23).**

## 2. CYFLWYNIAD

2.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

2.2. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

2.3. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

2.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi “Premiwm” o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B)

2.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai’n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai’n cynyddu’r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ac ar 2 Rhagfyr 2021 penderfynodd gadw lefel y Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23.

2.6. Mae *Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)* wedi addasu Adrannau 12A a 12B Deddf 1992 sy’n rhoi grym i awdurdodau bilio godi premiwm o hyd ar 300% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a blynyddoedd ariannol dilynol.

2.7. Er mwyn ei alluogi i wneud argymhelliad yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2022, penderfynodd y Cabinet ar 27 Medi 2022 y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn derbyn barn y cyhoedd sut dylid ymateb i'r newid yn y Ddeddf. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, a phwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad, yn ogystal ag ystyriaethau perthnasol eraill, fel bod modd i'r Cabinet bwyso a mesur yr adborth sydd wedi ei dderbyn cyn penderfynu ar argymhelliad i'w gynnig i'r Cyngor llawn.

2.8. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu cynnwys yn Rhan 4 yr adroddiad yma.

## 3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

<u>Cyd-destun</u>

3.1. Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "anheddau gyda preswylio o bryd i'w gilydd (*dwellings occupied periodically*)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "***there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished***". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.

3.2. Yn *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105)* mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- **Dosbarth B** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
- **Dosbarth C** – Annedd sydd yn ddiddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

3.3. Diffinnir "trigolyn" mewn perthynas ag unrhyw annedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda'u prif neu unig breswylfa yn yr annedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).

3.4. Fel canlyniad i'r newidiadau a daeth i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyriwyd y mater gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016, a penderfynodd godi Premiwm o 50% yn 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth B ac ar eiddo gwag hir dymor dosbarth C (gwag am 12 mis neu fwy).

3.5. Mae'r holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad cyntaf i godi Premiwm i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1656&ver=4

3.6. Ar 4 Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu lefel y Premiwm i 100% ar eiddo perthnasol. Mae holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad hwn i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4215&ver=4&

3.7. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu fod rhaid gwneud penderfyniad yn unol ag Adrannau 12, 12A a 12B yn flynyddol, a hynny gan y Cyngor llawn.

3.8. Mae strategaeth ariannol 2022/23, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2022/23.

3.9. Mae'r rheoliadau ar gyfer gosod sylfaen y dreth wedi eu llunio fel nad yw penderfyniad i godi Premiwm yn effeithio ar setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

3.10. Ar 9 Tachwedd 2022 roedd:

- **4,564** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
- **229** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau a amlinellir yn Rhan 8 isod.
- **753** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

3.11. Ar yr un adeg, roedd **1,099** eiddo yn destun y Premiwm ar annedd gwag hirdymor.

3.12. Gellir gweld sut mae'r niferoedd wedi newid yn y tabl isod:

| | Gorffennaf 2016 | Tachwedd 2020 | Tachwedd 2022 |
|---|---|---|---|
| Ail-gartrefi Dosbarth B* | 4,841 | 4,718 | 4,564 |
| Annedd gwag hirdymor | 1,115 | 1,130 | 1,099 |

** eithriad ddim yn berthnasol*

Gofynion Statudol

3.13. Wrth roi'r grym i gynghorau i godi Premiwm (yn wreiddiol hyd at 100% ac yna hyd at 300%) ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweinyddu'r Premiwm, sef *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*. Mae copi o'r Canllawiau Statudol i'w gael yn Atodiad 1.

3.14. Mae paragraffau 20 i 22 o'r Canllawiau yn amlinellu'r hyn sydd angen i awdurdod lleol ei ystyried pan yn bwriad cyflwyno Premiwm. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i rhain yn 2016 pan benderfynodd Cyngor Gwynedd gyflwyno Premiwm o 50% ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, ac yna bob blwyddyn pan yn dod i benderfyniad ar y Premiwm ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Os bydd y Cabinet yn penderfynu argymell cynyddu lefel y Premiwm bydd angen iddo ystyried y canlynol eto, a sut mae'r dystiolaeth sydd i law yn cyflawni'r isod.

**20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:**

- **adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a**
- **chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.**

**21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.**

**22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.**

- **Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;**
- **Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;**
- **Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;**
- **Patrymau'r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;**

- **Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;**
- **Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;**
- **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;**
- **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.**

3.15. Wrth gyflwyno'r Premiwm o 50%, rhoddwyd sylw penodol i ddau astudiaeth. Yn gyntaf, dadansoddiad manwl a gynhaliwyd yn 2013 oedd yn cefnogi cyflwyno premiwm, gan hefyd bwyso am gamau i reoli / rhwystro trosglwyddiad ail gartrefi i dai gwyliau masnachol a'r gyfundrefn treth busnes. Roedd y ddogfen yn cynnwys dadansoddiad fanwl yn cefnogi safbwynt y Cyngor y dylid rhoi'r hawl i ganiatáu premiwm ar ail gartrefi. Rhannwyd canlyniad y dadansoddiad yma gydag aelodau ar y pryd, a bu'n ystyriaeth allweddol wrth wneud y penderfyniad i godi Premiwm ar ail gartrefi.

3.16. Yn yr un modd, roedd Strategaeth Dai 2013-17 yn rhoi sylw i eiddo gwag o fewn Gwynedd, a datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag oedd: "Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".

3.17. Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Tai newydd (Cyngor llawn, 18 Gorffennaf 2019), ac mae tri adroddiad allweddol wedi cael sylw gan y Cabinet yn Rhagfyr 2020 a Mehefin 2021:

<u>15 Rhagfyr 2020</u>

Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau

Cynllun Gweithredu Tai.

<u>15 Mehefin 2021</u>

Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru

3.18. Mae'r uchod yn dystiolaeth allweddol er mwyn ystyried os oes cyfiawnhad dros newid lefel bresennol y Premiwm.

**Ail Gartrefi**

Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau

3.19. Mae canlyniad y Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn rhoi cefndir o'r sefyllfa yng Ngwynedd o safbwynt "cartrefi gwyliau", ac effaith gyfunol ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar ar gymdeithas Gwynedd:

Adroddiad Cabinet:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Atodiad – Ymchwil:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27959/Eitem%207%20-%20Atodiad%20-%20Ymchwil.pdf?LLL=1

3.20. Cymeradwywyd y gwaith ymchwil hwn gan y Cabinet i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd y penderfyniad "yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar dai sydd yn cael eu tynnu allan o'r cyflenwad sydd ar gael i bobl leol, a thrwy hynny i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf".

3.21. Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried "cartrefi gwyliau" fel cyfuniad o ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar. Roedd yr astudiaeth yn amlygu'r nifer uchel o anheddau a ddefnyddir o fewn Gwynedd at bwrpasau gwyliau, gyda dros 4,800 o ail-gartrefi ac oddeutu 2,000 o unedau gwyliau hunan-ddarpar (Tachwedd 2020):

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer o unedau preswyl | 61,645 | 988,418 |
| Nifer o ail-gartrefi | 4,873 | 18,547 |
| Nifer o lety gwyliau hunan-ddarpar (uned busnes annomestig) | 1,976 | 6,906 |
| Cyfanswm cyfunol | 6,849 | 25453 |
| Canran cyfunol o lety gwyliau | 10.76% | 2.56% |

*Ffynhonnell: Adroddiad Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau, Rhagfyr 2020*

3.22. Casgliadau’r adroddiad oedd fod y gwaith ymchwil wedi yn adnabod fod yna rai ardaloedd yn y DU a gwledydd/dinasoedd ar y cyfandir sydd wedi gweithredu neu yn y broses o gyflwyno mesurau er mwyn ceisio rheoli llety gwyliau tymor byr. Mae’r dulliau rheolaeth yn amrywio ac yn aml yn ddibynnol ar ffactorau cyd-destunol o ran effaith cartrefi gwyliau ar yr ardal leol ac yn ehangach. Mae’r gwaith ymchwil yn dangos heb unrhyw amheuaeth fod cyfraddau uchel o gartrefi gwyliau yn cael effaith andwyol yn economaidd, gymdeithasol a diwylliannol ar gymunedau.

3.23. Mae dros 1 o bob 10 uned preswyl yng Ngwynedd yn lety gwyliau gydag 8% yn ail gartrefi. Nid yw’r unedau gwyliau hunan-ddarpar yn ddarostyngedig i’r gyfundrefn Treth Cyngor gan eu bod wedi trosglwyddo i’r rhestr ardrethi annomestig, a rhoddir mwy o sylw i’r eiddo hyn yn Rhan 6 yr adroddiad yma.

3.24. Fel mae’r Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn nodi, ers cyflwyno premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn 2018 a chyflwyno'r cynllun rhyddhad treth i unedau llety gwyliau hunanarlwyo cymwys sy'n talu'r cyfraddau trethi annomestig, mae nifer yr ail gartrefi wedi lleihau'n raddol gyda nifer yr eiddo sy'n talu cyfraddau treth annomestig yn cynyddu'n raddol.

3.25. Fodd bynnag, disgwylir bydd newidiadau deddfwriaethol a ddaw yn weithredol rym yn Ebrill 2023 yn debygol o arafu’r trosglwyddiad yma. Ceir mwy o fanylion am hyn yn Rhan 6 isod.

Ail Gartrefi: Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru

3.26. Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr o dan y teitl “Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru” (awdur Dr Simon Brooks) mewn ymateb i gomisiwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:

Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru

3.27. Mae’r adroddiad yn un cynhwysfawr, ond un o’r pwyntiau sy’n cael eu nodi ynddo yw fod y “*disgwrs presennol ynghylch ail gartrefi a’u heffaith ar gynaliadwyedd cymunedau yng Nghymru a’r iaith Gymraeg yn aml yn anecdotaidd ac nid yw wedi’i wreiddio mewn ymchwil drylwyr. Mae’n 19 o flynyddoedd ers cyhoeddi’r astudiaeth gynhwysfawr ddiwethaf o’r maes. O ganlyniad, ceir nifer helaeth o dybiaethau a honiadau am ail gartrefi mewn trafodaethau cyhoeddus yng Nghymru heddiw sy’n haeddu ystyriaeth bellach*”. Mae’r adroddiad yn mynd yn ei flaen i restru pedair tybiaeth cyffredin, sef:

- Tybiaeth 1: Ail gartrefi sy’n gyfrifol am y cynnydd mewn prisiau tai mewn cymunedau penodol
- Tybiaeth 2: Pe bai llai o ail gartrefi, byddai pobl leol yn symud i’r cymunedau hyn i fyw
- Tybiaeth 3: Mae gostwng prisiau tai’n ddymunol
- Tybiaeth 4: Mae ail gartrefi yn niweidio’r iaith Gymraeg

3.28. Â’r adroddiad ymlaen i ystyried y bedair dybiaeth yma yn eu tro, ac mae’n dod i’r casgliad canlynol.

3.29. “*Nid gwaredu ail gartrefi yn gyfan gwbl yw’r ateb gorau mewn cymunedau lle maent yn ffurfio rhan sylweddol o’r stoc dai. Am y rhesymau a nodwyd, byddai troi ail gartrefi yn brif breswylfeydd mewn modd sydyn fwy na thebyg yn arwain at gynnydd sylweddol mewn mewnlifiad parhaol i gefn gwlad Cymru a allai gael effaith niweidiol ar y Gymraeg.*

3.30. *“Mewn cymunedau Cymraeg glan môr mewn ardal fel Dwyfor lle ceir 20% a mwy o’r stoc dai yn ail gartrefi, gallai trosi ail gartrefi yn brif breswylfeydd mewn modd nad oedd wedi ei gynllunio’n ofalus fod yn gatastroffig.*

3.31. *“Ond byddai cynyddu canran yr ail gartrefi yn y cymunedau hyn hefyd yn niweidiol gan y byddai’n lleihau niferoedd absoliwt siaradwyr Cymraeg yn lleol. Creulondeb y sefyllfa o safbwynt y gymuned Gymraeg yw fod trosi rhagor o dai annedd yn ail gartrefi yn niweidiol i’r Gymraeg, ond byddai gostyngiad mawr neu sydyn yn niferoedd yr ail gartrefi hefyd yn niweidiol. Mae’r ddau beth yn wir am eu bod yn gysylltiedig â’r un ffenomen, sef anallu pobl leol i gystadlu yn y farchnad dai yn erbyn prynwyr o’r tu allan i’r gymuned.*

3.32. *“Mae dadl felly dros lunio polisi cyhoeddus sy’n ceisio sefydlogrwydd o ran nifer yr ail gartrefi mewn cymunedau a effeithir ganddynt, neu sy’n ceisio lleihau nifer yr ail gartrefi mewn modd graddol dros nifer o flynyddoedd*”.

3.33. Mae adroddiad Dr Brooks yn cynnwys 12 argymhelliad ac ar 15 Mehefin 2021 trafododd y Cabinet ymateb y Cyngor i'r adroddiad:

Ymateb Cyngor Gwynedd i'r adroddiad "Ail Gartrefi - Datblygu Polisiau Newydd Yng Nghymru"

3.34. Roedd penderfyniad y Cabinet fel a ganlyn:

"Cytunwyd ar ymateb y Cyngor i'r adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" fel y nodir yn rhan 9 o'r adroddiad gan amlygu'n benodol yr angen i addasu argymhelliad rhif 7 – Llety Gwyliau Tymor Byr a Threthi Busnes.

Cytunodd yr Arweinydd i gyfleu'r ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru gan alw arnynt i'w fabwysiadau a gweithredu'r argymhellion mwyaf effeithiol ar fyrder er mwyn ymateb i'r argyfwng tai sy'n wynebu cymunedau Gwynedd".

**Anheddau Gwag**

3.35. Ers cyflwyno'r Premiwm am y tro cyntaf yn 2018 mae Cyngor Gwynedd wedi codi'r un gyfarfod ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Un o'r rhesymau am hyn oedd ymarferoldeb cadw trosolwg o'r eiddo oedd wedi eu dodrefnu a'r rhai sydd ddim (sef y gwahaniaeth ymarferol rhwng y ddau fath o eiddo).

3.36. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau bilio yng Nghymru yn codi cyfradd wahanol o Premiwm ar eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi, ac mae hyn yn bosibilrwydd yng Ngwynedd hefyd.

3.37. Dylid nodi hefyd fod cyfanswm o 1,099 eiddo gwag hir-dymor, tra'n gymharol isel o'i gymharu â nifer yr ail gartrefi o fewn Gwynedd, yn ffigwr uchel pan yn ystyried y galw am gartrefi fforddiadwy o fewn y sir ac mae hyn wedi ei gydnabod yn y Strategaeth Tai. Yn ôl Ystadegau Cymru, mae amcangyfrifon yn awgrymu fod Gwynedd yn 5$^{ed}$ allan o 22 awdurdod lleol Cymru o ran nifer o eiddo gwag hirdymor.

3.38. Mewn cymhariaeth â'r ail gartrefi ac eiddo sydd wedi trosglwyddo, gwelir fod yr eiddo gwag hirdymor o fewn Gwynedd yn dueddol o fod mewn bandiau Treth Cyngor is nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol; gwelir yn arbennig fod dros 20% ohonynt ym Mand A, o'i gymharu â llai na 15% o'r stoc cyffredinol.

Strategaeth Tai 2019-2024

3.39. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu ei Strategaeth Tai 2019-2024, “Cartrefi i Bobl Gwynedd” yng Ngorffennaf 2019:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Tai/Strategaeth-Tai-v29-Terf-Cymraeg.pdf

3.40. Mae’r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth o “Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy’n fforddiadwy ac sy’n gwella eu hansawdd bywyd”. Mae’r Strategaeth yn nodi’r canlynol am dai gwag: *“Rydym wedi adnabod oddeutu 1,300 o dai gwag ar draws y Sir. Mae’r rhain yn dai sydd wedi bod yn wag ers peth amser a gall eu cyflwr fod yn wael iawn. Mae hyn yn wastraff adnodd wrth ystyried bod agos i 2,000 o bobl ar restr aros y Cyngor. Credwn nad yw’r rhestr tai gwag yn gyflawn, a bod angen cynyddu’r ymdrech i’w canfod a’u dychwelyd i ddefnydd fel cartrefi i’n trigolion”.*

## 4. CYNLLUN GWEITHREDU TAI

4.1. Mae’r Cynllun Gweithredu Tai yn trosi’r Strategaeth Dai i mewn i brosiectau penodol er mwyn mynd i’r afael â’r sefyllfa.

4.2. Yn 2019 fe sefydlodd y Cyngor yr Adran Tai ac Eiddo newydd oherwydd ei fod wedi adnabod yr angen i fod yn cyflawni mwy yn y maes tai. Roedd trigolion Gwynedd yn wynebu nifer o heriau ar y pryd sy’n golygu ei bod yn eithriadol o heriol cael mynediad at gartrefi addas o fewn ein cymunedau. Mae’r Cyngor wedi datgan yn glir nad yw hyn yn sefyllfa gynaliadwy a bod angen iddo fod yn ymateb ym mhob ffordd posib.

Adroddiad Cabinet:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27956/Eitem%206%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai%20TERFYNOL.pdf?LLL=1

Mae dolen i’r Cynllun Gweithredu Tai i’w gael yma:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1

4.3. Wrth fabwysiadu'r Cynllun, roedd y Cyngor yn gwybod y byddai angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hynny ac yn caniatáu i'r Cyngor anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol.

4.4. Er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cymryd pob cyfle o fewn ei reolaeth uniongyrchol yn y maes tai, mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys 33 o brosiectau gwahanol wedi eu teilwra i geisio ymateb i bob un o'i amcanion yn y maes hwn, sef:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

## 5. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

5.1. Eglurwyd i'r Cabinet ym Medi 2022 fod y Canllawiau Statudol, *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*, hefyd yn nodi

**23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio.**

5.2. Defnyddiwyd y meddalwedd *LimeSurvey* a ddefnyddir yn arferol gan y Cyngor er mwyn llunio holiadur. Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 30 Medi 2022, ac roedd yn agored am 28 diwrnod tan 28 Hydref 2022. Rhyddhawyd datganiadau i'r wasg a arweiniodd at nifer o erthyglau ac eitemau yn y wasg a'r cyfryngau. Dechreuwyd cyhoeddi negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol yr un pryd er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd ail ddatganiad i'r wasg ym mis Hydref mewn da bryd cyn y dyddiad cau, a bu sawl neges atgoffa ar gyfrifon Facebook a Trydar y Cyngor.

Cyfryngau Cymdeithasol a Llythyru

5.3. Er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad mor eang â phosib, ar 29 Medi anfonwyd llythyr at bob perchennog ail gartref ac eiddo gwag hirdymor yn eu hysbysu am yr ymgynghoriad; lle roedd cyfeiriad gohebu ar y system Treth Cyngor oedd yn wahanol i gyfeiriad yr eiddo dan sylw, defnyddiwyd y cyfeiriad gohebu.

5.4. Rydym yn hyderus felly bod ymdrech resymol wedi cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl Gwynedd a perchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor i'w hysbysu o'r ymgynghoriad fel bod modd iddynt ymateb, ac fod hyn yn dystiolaeth fod ymdrech glir wedi ei wneud i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

5.5. Nid oes modd cael cyfleuster gwirio a fyddai'n sicrhau mai unwaith yn unig y gallai unigolyn fynegi barn, ond mae'n bwysig nodi nad pleidlais neu refferendwm cyhoeddus yw'r ymarfer hwn ond yn hytrach ymarfer ymgynghori a gynlluniwyd i gasglu barn trigolion llawn amser Gwynedd yn ogystal â pherchnogion anheddau sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd ac anheddau gwag hirdymor ar faterion parhaus. Hynny yw, nid cyfrif amrwd o'r atebion o blaid ac yn erbyn cynyddu'r Premiwm fydd y prif ffactor fydd angen ei ystyried, ond serch hynny mae'r ffigyrau isod yn rhoi ymdeimlad i aelodau'r Cabinet am nifer a chyfeiriad yr ymatebion.

5.6. Mae'n egwyddor sylfaenol fod unrhyw ymgynghoriad yn cael ei gynnal pan mae'r cynigion yn cael eu ffurfio a fod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael ystyriaeth cydwybodol wrth ddod i safbwynt. Felly, wrth wneud ei argymhelliad, bydd angen i'r Cabinet roi ystyriaeth briodol i'r materion a'r pryderon sydd wedi eu cynnwys yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fel bod darlun llawn o'r materion sydd wedi cael eu tynnu i'w sylw.

5.7. Mae'r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth wedi gwneud ymdrech sylweddol ers dyddiad cau'r ymgynghoriad ar 28 Hydref ddadansoddi'r canlyniadau. Mae canlyniad llawn eu gwaith i'w gael yn Atodiad 2.

Nifer Ymatebion

5.8. Derbyniwyd **7,330** o ymatebion i'r holiadur. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf.

5.9. Roedd 3,518 (48.0%) o'r rhai a atebodd yn datgan fod eu prif gartref yng Ngwynedd, a 2,690 (36.7%) yn datgan fod eu prif gartref y tu allan i Wynedd

5.10. O’r ymatebwyr:

- Roedd 3,646 (49.7%) yn dweud nad oeddynt yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hir dymor
- Roedd 3,447 (47.0%) yn dweud eu bod yn berchen ar ail gartref
- Roedd 201 (2.7%) yn dweud eu bod yn berchen ar annedd gwag hir dymor
- Roedd 36 (0.5%) yn dweud eu bod yn berchennog ar ail gartref ac annedd gwag hir dymor


5.11. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr felly (50.3%) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu’r ddau).

<u>Dadansoddi’r Canlyniadau – Ail Gartrefi</u>

5.12. Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (58.7%) yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 27.7% o’r farn eu bod yn cael effaith negyddol, gydag 8.2% yn meddwl eu bod yn cael dim effaith. Nid oedd gan 5.4% o’r ymatebwyr farn ar hyn.

5.13. Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy’n berchen ar ail gartref a’r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn a gwelir bod 80.5% o’r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, ond roedd oddeutu 40% o’r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor hefyd o’r farn yma.

5.14. Cwestiwn allweddol yn yr ymgynghoriad oedd ***Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn 100%. Mae’r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?***



5.15. Mewn cyfanswm roedd 75% o’r ymatebwyr o’r farn nad yw’n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% heb farn.

5.16. Fodd bynnag drwy wahanu’r atebion rhwng ymatebwyr sy’n berchen ar ail gartref a’r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy’n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda’r mwyafrif yma hefyd (54.1%) o’r farn na fyddai’n briodol cynyddu’r premiwm.

5.17. O’r 24% oedd o blaid cynyddu’r Premiwm, roedd 66% ohonynt eisiau ei gynyddu i 300% a hynny ar unwaith.

5.18. Tra’n pwysleisio eto nad refferendwm oedd y broses, ond ymgynghoriad sy’n chwilio am farn a sylwadau i gynorthwyo’r awdurdod i ddod at benderfyniad, mae’r ymatebion yn rhoi ymdeimlad o’r farn gyhoeddus am y cynnig.

5.19. Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (59.0%) o’r farn na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 73.9% o’r ymatebwyr sy’n berchen ar ail gartref yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 18.7% yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae’r farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.6% o’r farn na fyddai’n cael effaith ar y Gymraeg, 36.4% yn credu byddai’n cael effaith gadarnhaol ac 13.8% yn credu byddai’n cael effaith negyddol.

5.20. Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62.3%) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 23.0% yn credu byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol a 12.3% yn meddwl na fyddai’n cael effaith.

5.21. Fodd bynnag, roedd mwyafrif llethol (81.4%) o’r ymatebwyr sy’n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 13.7% yn credu na fyddai cynyddu’r premiwm yn cael unrhyw effaith.

5.22. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae’r farn yn rhanedig iawn gyda 44.8% yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, 42.4% yn credu byddai’n cael effaith gadarnhaol a 10.6% o’r farn na fyddai yna effaith.


5.23. Un o’r dadleuon cyffredin iawn yn y sylwadau gan berchnogion ail gartrefi oedd y budd economaidd roeddynt yn ddweud maent yn ei gyfrannu i Wynedd, gan roi gwaith i adeiladwyr a masnachwyr lleol eraill, yn ogystal â’r gefnogaeth sy’n cael ei roi i siopau lleol. Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (70.9%) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 16.4% yn credu byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a 9.6% yn meddwl na fyddai’n cael effaith.

5.24. Roedd mwyafrif llethol (90.8%) yr ymatebwyr sy’n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 52.6% yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, 30.7% yn credu byddai’n cael effaith gadarnhaol a 12.9% o’r farn na fyddai yna effaith.

<u>Dadansoddi’r Canlyniadau – Anheddau Gwag Hir-dymor</u>

5.25. Mewn cyfanswm roedd 72.9% o’r ymatebwyr yn meddwl fod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 16.2% o’r farn nad ydynt yn cael effaith ac 1.3% yn meddwl eu bod yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd gan 9.6% o’r ymatebwyr farn ar y mater. Roedd ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i fod o’r farn nad yw yn cael effaith ar gymunedau lleol.

5.26. At ei gilydd roedd barn yr ymatebwyr os dylid cynyddu’r Premiwm ar eiddo gwag hir-dymor yn rhanedig iawn, gyda 43.8% yn meddwl na fyddai cynyddu’r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, a 43.4% yn credu y byddai yn briodol. Nid oedd gan 12.8% o’r ymatebwyr farn ar hyn. Roedd mwyafrif llethol (84.1%) yr ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar yr eiddo yma, tra ymhlith yr ymatebwyr nad oedd yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd mwyafrif (55.8%) o blaid cynyddu’r Premiwm.




5.27. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%) yn meddwl na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 21.7% yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 10.2% yn meddwl y byddai yna effaith negyddol.

5.28. O ran effaith ar y gymuned leol, roedd y farn yn eithaf rhanedig gyda 40.0% o'r ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 26.0% yn credu na fyddai effaith a 22.1% o'r farn y byddai yna effaith negyddol.  Nid oedd gan 11.9% o'r ymatebwyr farn ar hyn.

5.29. At ei gilydd 'roedd cryn wahaniaeth barn yr effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr economi leol. Roedd 37.5% o'r holl ymatebwyr yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Roedd 26.8% o'r farn na fyddai unrhyw effaith, a 23.7% yn credu y byddai effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% o'r ymatebwyr farn ar hyn.

5.30. Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn.  Roedd 48.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

Gohebiaeth arall

5.31. Yn ogystal â'r 7,330 o ymatebion i'r holiadur ffurfiol, mae'r swyddogion ac aelodau'r Cyngor wedi derbyn sawl llythyr gan aelodau'r cyhoedd yn mynegi eu barn ar y Premiwm Treth Cyngor. Yn y tabl isod ceir crynodeb o'r pwyntiau oedd yn cael eu codi yn y llythyrau ac sy'n briodol eu hystyried pan fel rhan o'r broses hwn.

| | |
|---|---|
| Mae'r eiddo mewn ystâd sydd wedi cael ei adeiladu'n bwrpasol fel cartrefi gwyliau ac yn anaddas fel cartrefi | 25 |
| Dylid eithrio "brodorion" / rhai sydd wedi magu'n lleol / Cymry Cymraeg / Rhai sydd wedi etifeddu / Eiddo sydd wedi bod yn y teulu ers blynyddoedd | 11 |
| Byddai'n rhaid gwerthu'r eiddo | 8 |
| Gwrthwynebu'r Premiwm yn gyffredinol | 8 |
| Bydd effaith negyddol ar yr economi lleol | 7 |
| Perchnogion yn cael eu targedu oherwydd blynyddoedd o ddiffyg tai addas | 2 |
| Dylid eithrio'r rhai sydd wedi prynu'r eiddo cyn i'r Premiwm ddod i mewn | 2 |
| Ni fydd posib parhau i ddod i'r ardal (rhai wedi dod ers dros 60 mlynedd) | 2 |
| Ceisiadau am eithriad oherwydd amgylchiadau personol | 1 |
| Dylid eithrio tai gwerth llai na £200,000 | 1 |
| Bydd lleihad mewn twristiaeth | 1 |
| Mae'r Cyngor yn dwyn pensiynau'r henoed | 1 |
| Gwrthwynebu cwestiynau'r ymgynghoriad | 1 |
| Wedi gorfod gadael yr eiddo i roi gofal | 1 |
| Pobl mwy cyfoethog fyddai'n prynu'r eiddo petai rhaid gwerthu | 1 |
| Cymar wedi ei chladdu yn yr ardal | 1 |
| Mae'r Cyngor yn targedu'r bobl anghywir | 1 |
| Pam targedu pobl sydd wedi dod i'r ardal ers blynyddoedd? | 1 |
| Dylid eithrio Fairbourne oherwydd yr amgylchiadau yno | 1 |

5.32. Dylid nodi fod perchnogion cartrefi gwyliau mewn un datblygiad yn benodol wedi cydweithio i ohebu i fynegi nad ddylid codi Premiwm ar eiddo mewn ystâd a adeiladwyd yn wreiddiol ac a farchnatwyd fel unedau gwyliau; mae'r perchnogion yn dweud nad yw eiddo fel hyn yn addas fel cartrefi.

5.33. Gwelir hefyd fod unigolion wedi gohebu i nodi y Premiwm yn targedu Cymry Cymraeg sydd wedi symud i fyw tu allan i Wynedd oherwydd gwaith ond yn cadw eiddo o fewn y sir gan eu bod eisiau dychwelyd i ymweld ag ardal eu magwraeth mor aml â phosib. Maent wedi nodi y byddai eu gorfodi i werthu yn golygu dirywiad yn y Gymraeg yn y pentrefi hyn, nid ei gryfhau.

## 6. TROSGLWYDDIADAU UNEDAU GWYLIAU HUNAN-DDARPAR

6.1. Pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o gyflymiad yn y nifer o eiddo sy'n trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig. Byddai hyn oherwydd fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi dyfarnu eu bod yn cwrdd â'r trothwy i allu gwneud hynny.

6.2. Mae'r Cyngor ers sawl blwyddyn wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig, a'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn ryddhad ardrethi busnesau bychain. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi fod y Cyngor yn bwriadu parhau i gynnal ein pwyso yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd.

6.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newid deddfwriaethol fydd yn cael effaith ar 1 Ebrill ymlaen ar unedau gwyliau hunan-ddarpar. Effaith *Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 (SI 2022/563 (Cy. 129))* yw fod Adran 66 Deddf 1988 wedi cael ei addasu fel y bydd angen i annedd fod wedi bod ar gael i'w osod am 252 diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf, fod bwriad ei osod am 252 diwrnod yn y flwyddyn nesaf, ac fod eiddo wedi cael ei wir osod am 182 diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf (o'i gymharu â 70 diwrnod ar hyn o bryd).

6.4. Wrth ddod i benderfyniad ar y Premiwm mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd ystyriaeth i'r risg y byddai cynyddu'r Premiwm yn cymell mwy o berchnogion ail gartrefi i osod eu heiddo a'i drosglwyddo i'r rhestr ardrethi annomestig. Er fod y risg yma yn parhau i fodoli, mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer o ddyddiau lle mae'n rhaid gosod eiddo yn debygol o arwain at arafu arwyddocaol yn y gyfradd drosglwyddo.

6.5. Mae’r ffigyrau diweddaraf (hyd at ddiwedd Hydref 2022) yn dangos fod cyfanswm o 2,908 eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o’r rhestr Treth Cyngor i’r rhestr Ardrethi Annomestig, wedi i Asiantaeth Swyddfa’r Prisiwr ddynodi’r eiddo yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn unol ag Adran 66(2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae oddeutu 90% o’r eiddo sy’n trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, sy’n golygu nad oes unrhyw drethiant lleol yn daladwy arnynt:

| Blwyddyn ariannol | Nifer eiddo’n trosglwyddo |
|---|---:|
| 2022-23 (hyd at 31/10/2022) | 246 |
| 2021-22 | 469 |
| 2020-21 | 506 |
| 2019-20 | 397 |
| 2018-19 | 454 |
| 2017-18 | 282 |
| 2016-17 | 199 |
| 2015-16 | 167 |
| 2014-15 | 188 |
| **Cyfanswm** | **2,908** |

6.6. Mae profiadau dros y dair blynedd diwethaf, e.e. wrth weinyddu grantiau busnes Covid-19 y Llywodraeth, wedi dangos fod nifer o unigolion a chwmnïau yn prynu eiddo yng Ngwynedd erbyn hyn yn benodol gyda’r bwriad o’u trosi i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn hytrach na’u defnyddio fel ail gartref. Fel rhan o’r buddsoddiad yma maent yn ymdrechu i gadw’r eiddo o fewn y gyfundrefn Treth Cyngor am cyn lleied â phosib cyn gallu trosglwyddo.

## 7. EITHRIADAU

7.1. Mae Deddf 1992 yn cynnwys darpariaeth sy’n rhoi’r hawl i Weinidogion Cymru osod eithriadau penodol (mewn dosbarthiadau) lle na ellir gosod premiwm Treth Cyngor. Gwnaethant hynny trwy Mae’r tabl isod yn crynhoi’r eithriadau lle na allwn godi’r premiwm yn unol â Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068). Mae’r tabl isod yn amlinellu’r eithriadau lle na ellir codi Premiwm:

| **Dosbarthiadau o Anheddau** | **Diffiniad** | **Y math o eiddo sy’n gymwys i’r eithriad rhag talu’r premiwm** |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un | Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi |
| Dosbarth 2 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn | |
| Dosbarth 3 | Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o’r brif annedd | |
| Dosbarth 4 | Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog | |
| Dosbarth 5 | Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod. | Ail Gartrefi |
| Dosbarth 6 | Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn | |
| Dosbarth 7 | Anheddau cysylltiedig â gwaith | |

7.2. Tynnir sylw’r Cabinet i ddau fater yn benodol wrth ymdrin ag eithriadau. Yn gyntaf, ar 11 Tachwedd 2022 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar addasiadau i Reoliadau 2015. Mae’r rheoliadau drafft yn argymell addasu Dosbarth 6 yn y tabl uchod fel bod yr eiddo canlynol wedi eu heithrio o dalu’r Premiwm lle mae cyfyngiadau cynllunio:

(a) yn atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 o ddiwrnodau o leiaf mewn unrhyw gyfnod o un flwyddyn;
(b) yn pennu na chaniateir defnyddio’r annedd ond ar gyfer llety gwyliau tymor byr; neu
(c) yn atal meddiannaeth fel unig neu brif breswylfa person.

7.3. Mae manylion am yr ymgynghoriad cyhoeddus, fydd yn cau ar 22 Rhagfyr 2022, i'w cael yma: [Rheoliadau drafft y Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU]

7.4. Yr ail fater sydd angen ei ystyried yw y byddai angen defnyddio Adran 13A o Ddeddf 1992 i gyflwyno unrhyw eithriadau lleol, dewisol. Mater i'r Cabinet yw defnydd Adran 13A, nid yw'n fater sy'n rhaid cael penderfyniad Cyngor llawn.

7.5. Felly, gellir ymdrin ag eithriadau fel mewn adroddiad Cabinet ar wahân cyn diwedd Mawrth 2023.

## 8. DEFNYDD Y PREMIWM

8.1. Ers cyflwyno'r Premiwm ar gychwyn blwyddyn ariannol 2018/19, mae'r arian sy'n cael ei gasglu trwy'r Premiwm wedi cael ei osod mewn cronfa benodol, a hynny er mwyn ariannu prosiectau penodol sydd wedi cael eu hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu Tai.

8.2. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'n glir pa gynlluniau unigol sydd i gael eu hariannu gydag arian y Premiwm.

8.3. Mae hyn yn gyson gyda dyhead aelodau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, sy'n nodi disgwyliad, ond nid gorfodaeth, fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y maes tai.

8.4. Mae nifer o'r prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai yn rhai gellir eu ehangu petai mwy o adnoddau ar gael iddynt. Ar y llaw arall, mae chwyddiant yn golygu fod costau prosiectau adeiladu wedi cynyddu yn sylweddol ers mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Tai yn 2020.

8.5. Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn y pandemig Covid-19, dod â'r Grant Caledi Llywodraeth Cymru i ben, y pwysau ar deuluoedd yn sgil yr argyfwng costau byw a penderfyniad landlordiaid i ddod â thenantiaethau i ben, mae'r pwysau ar Wasanaeth Digartrefedd y Cyngor wedi cynyddu'n aruthrol.

8.6. Byddai pob 50% o gynnydd yn y Premiwm yn cyfrannu oddeutu £3m i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

8.7. Adroddwyd i'r Cabinet ar 25 Hydref bod disgwyl i wariant yn y maes Digartrefedd fod yn uwch na'r gyllideb o oddeutu £3.2 miliwn eleni. Ffigwr net oedd hwn, ar ôl trosglwyddo rhai cyllidebau am y flwyddyn. Mae'r gorwariant gros oddeutu £4.7m yn 2022/23, ac amcangyfrifir y bydd yn £6m yn 2023/24. Credwn fod ffactorau dros dro yn atebol am gyfran o'r gorwariant, ond mae oddeutu £3m o fwlch tymor hir yn y gyllideb yma hefyd.

8.8. Wrth ystyried lefel y Premiwm ar gyfer 2023/24 gofynnir i aelodau ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio unrhyw gynnyrch Premiwm ychwanegol i gynorthwyo i ymdrin â'r gorwariant sylweddol yn y maes digartrefedd, neu i ddargyfeirio peth o'r cynnyrch presennol at y pwrpasau hyn. Byddai modd dargyfeirio peth o arian y Premiwm at y pwrpas yma, gan ei fod yn amlwg o fewn y maes Tai, ond byddai hynny'n arian fyddai ddim wedyn ar gael i ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai.

8.9. Nid y nifer o ail gartrefi yng Ngwynedd sydd i gyfrif yn llwyr at y cynnydd sylweddol yng nghostau digartrefedd wrth gwrs, ond maent yn cyfrannu at y broblem. Os nad oes modd i bobl lleol brynu tai, nid ydynt yn gallu gadael tenantiaethau ac mae hynny yn ei dro yn achosi pwysau ar wasanaethau digartrefedd pan mae galw am denantiaethau newydd yn codi ond nid oes stoc dai ar gael i ddiwallu'r galw.

8.10. Nid oes rhaid gosod yr un gyfradd Premiwm ar ail gartrefi ag sydd ar eiddo gwag hir-dymor, ac er fod Gwynedd wedi codi'r un gyfradd ers cyflwyno'r Premiwm yn 2018, rydym yn cydnabod fod y dadleuon yn wahanol rhwng y ddau, yn enwedig o ran eiddo sy'n wag ac sy'n anaddas i'w osod heb waith atgyweirio pellach arno. Mae premiwm o 100% ar eiddo gwag hir-dymor ar hyn o bryd, a pwrpas y Premiwm hwn yw rhoi pwysau i adnewyddu'r eiddo pan fydd y cyfnod o ryddhad treth ar gyfer adfer wedi dod i ben. Mae perygl y byddai ei gynyddu'n uwch yn debygol o orfodi gwerthiant a'r eiddo wedyn yn dod yn ail gartrefi yn hytrach na dod yn ôl i'r stoc dai lleol.

8.11. Ar adeg ei fabwysiadu yn 2020, roedd cyfanswm amcangyfrif gost yr holl gynlluniau yn y Cynllun Gweithredu Tai (am y cyfnod 2020/21 – 2026/27) yn £77.1m, gyda £22.9m o hwn yn cael ei ariannu allan o'r Premiwm Treth Cyngor. Ers cymeradwyo'r Cynllun, mae chwyddiant uchel wedi cynyddu amcan bris nifer o'r prosiectau hyn.

8.12. Erbyn Tachwedd 2022, mae'r Cyngor wedi gwario £15m ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai, o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y Premiwm Treth Cyngor a grantiau.

- Premiwm Treth Cyngor - £1.5m
- Grantiau – £6.8m
- Cynllun Rheoli Asedau – £6.5m

8.13. Cynllun 6 blynedd ydi'r Cynllun Gweithredu Tai ac mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o grantiau sydd wedi rhoi gwarchodaeth i'r Premiwm a fydd yn galluogi i ni gyflawni mwy yn y pen draw.

8.14. Noder felly bod gwariant y premiwm yn isel hyd yma oherwydd bod y Cyngor wedi gorfod blaenoriaethu gwario'r grantiau hyn sydd â therfyn amser i'w gwario. Noder hefyd mai 2021/22 oedd blwyddyn ariannol lawn gyntaf y Cynllun Gweithredu Tai, ac roedd gwaith ymchwil a sgopio yn digwydd bryd hynny, felly bydd y gwariant yn cynyddu yn ystod 2022/23.

8.15. Ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai:

- Mae o leiaf 350 o unedau naill wedi'u prynu, eu datblygu, neu eu haddasu i roi cartref addas i bobl
- Mae o leiaf 2700 o bobl wedi'u helpu trwy'r cynlluniau.

## 9. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

9.1. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

9.2. Gwnaed y penderfyniad cyntaf i gyflwyno Premiwm yn Rhagfyr 2016, yn dilyn ystyriaeth o Asesiad Effaith Cydraddoldeb oedd wedi ei gynnal yn unol â'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor.

9.3. Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr wrth ystyried cynyddu'r Premiwm ym Mawrth 2021. Ers hynny, daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, sy'n berthnasol i Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu fod rhaid i'r Cyngor, wrth wneud "penderfyniadau strategol" megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai ei benderfyniadau helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Ymddengys y byddai graddfa'r Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hir-dymor yn "benderfyniad strategol" yn unol â'r ddyletswydd yma.

9.4. Fel nodir yn "Cefndir Deddfwriaethol" uchod, cyflwynwyd y grym i godi premiwm gan y Ddeddf Tai, gyda'r disgwyliad sylfaenol fod y rhai sy'n gallu fforddio mwy nag un eiddo yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn ariannol i ymdrin â phroblemau tai yn eu hardaloedd, yn arbennig y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartref o gwbl.

9.5. Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.

9.6. Credwn mai nod greiddiol y Premiwm, felly, ydi lleihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

9.7. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu gofynion a datblygiadau diweddar, amgylchiadau newidiol, a chanlyniadau'r ymgynghoriad diweddar. Mae'r asesiad addasedig wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

9.8. Canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yw fod ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

9.9. Mae honiad wedi ei wneud fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wynedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu materion yn y maes Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

9.10. Mae'r asesiad hefyd yn dod i gasgliad y byddai'r Premiwm yn cael effaith bositif ar y cyfan ar yr iaith Gymraeg a chydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. Fodd bynnag, nodir fod hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau positif a negyddol sy'n effeithio ar yr Iaith, sy'n cael sylw mewn nifer o fannau yn yr adroddiad yma a'r atodiadau.

## 10. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

10.1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

10.2. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

10.3. Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

10.4. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

10.5. Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

10.6. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

## 11. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

11.1. Mae’r adroddiad yn disgrifio canlyniadau’r ymgynghoriad cyhoeddus.

11.2. Mae’r mater hwn wedi cael ei flaen-graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Tachwedd cyn i’r mater gael ei ystyried gan y Cabinet ar 22 Tachwedd. Nid rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd rhoi barn ar lefel y Premiwm ar gyfer 2023/24 ond yn hytrach roi ystyriaeth i'r tystiolaeth sydd wedi gasglu a dod i gasgliad os yw’n ddigonol i alluogi’r Cabinet wneud argymhelliad a’r Cyngor llawn ddod i benderfyniad rhesymegol.

11.3. Penderfyniad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd i dderbyn bod y wybodaeth yn yr adroddiad a’r atodiadau yn cydymffurfio gyda'r canllawiau statudol a gofynion deddfwriaethol.

11.4. Penderfynwyd hefyd cynnig y sylwadau isod i’r Cabinet eu hystyried wrth benderfynu ar argymhelliad i’r Cyngor Llawn wneud penderfyniad terfynol ar y lefelau premiwm:

- Bod angen cwblhau asesiad ieithyddol cynhwysfawr yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor
- Bod angen ystyried effaith y premiwm ar allu ‘brodorion’ i wneud bywoliaeth
- Bod angen gweld ystadegau sydd yn dangos effaith y premiwm ar adfer tai gwag
- Bod angen tystiolaeth am lwyddiant y premiwm. Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?
- Bod angen ymgynghori pellach ar ddefnydd y premiwm.
- Beth yw’r cyfiawnhad o ddefnyddio premiwm ail gartref i gyllido digartrefedd? Derbyn bod yr egwyddor yn dderbyniol, ond beth yw’r dystiolaeth tu cefn i’r penderfyniad?
- Bod angen cydblethu ystyriaethau’r premiwm gyda deddfwriaethau a mesurau Llywodraeth Cymru o reoli ail dai.

11.5. Adroddwyd ar y pwyntiau hyn ar lafar i’r Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd. Mae’r sylwadau hefyd wedi cael eu hystyried pan yn paratoi’r adroddiad hwn i’r Cyngor llawn.

## 12. OPSIYNAU

12.1. Mae angen i'r Cyngor roi ystyriaeth benodol i ffactorau lleol sy'n effeithio ar y farchnad dai ac argaeledd cartrefi, ac yn benodol yr astudiaethau a darganfyddiadau y cyfeirir atynt yn Rhan 4 yr adroddiad hwn. Dylid rhoi sylw hefyd i ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r wybodaeth a chasgliadau yn deillio o'r elfennau yma o'r adroddiad.

12.2. Gellir crynhoi'r prif gasgliadau fel a ganlyn.

12.3. O gadw'r premiwm ar ei lefel bresennol bydd modd parhau i glustnodi swm blynyddol oddeutu £6m i'r gronfa sy'n cyllido'r amrediad eang o brosiectau yng Nghynllun Gweithredu Tai y Cyngor. Ers sefydlu'r cynllun hwnnw, mae chwyddiant wedi cael effaith ar hyfywdra achos busnes sawl prosiect unigol gyda chostau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal â hynny mae prisiau tai wedi cynyddu yn yr un modd hefyd wrth gwrs. Ond, gan fod costau'n Cynllun wedi eu seilio ar yr adeg lle roedd y premiwm ar gyfradd o 50%, dylai'r incwm ychwanegol o bremiwm 100% fod yn ddigonol i ymdopi gyda'r cynnydd prisiau.

12.4. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlinellu, mae'r sefyllfa ail gartrefi (ymysg ffactorau eraill) hefyd yn cael effaith ar ddigartrefedd erbyn hyn gan greu pwysau ariannol tebygol oddeutu £6m y flwyddyn. Ni allwn osgoi cyfarch y gost yma ac nid oes gennym adnoddau ar gael o fewn cyllidebau sylfaenol y Cyngor ar ei gyfer. Ni fyddai cadw'r premiwm ar gyfradd o 100% yn cynnig unrhyw gymorth tuag at ymdopi gyda'r pwysau ariannol hwnnw heb i ni leihau'r cyllid sydd ar gael i gyfarch elfennau eraill ein Cynllun Gweithredu Tai, ac felly cyflawni llai o gynlluniau.

12.5. Ar y llaw arall, byddai cynyddu'r premiwm i gyfradd o 150% yn ychwanegu oddeutu £3m o incwm blynyddol ychwanegol a byddai hynny'n gyfraniad tuag at ariannu'r pwysau ariannol sy'n ein hwynebu yn y maes digartrefedd. Golyga hynny y byddai modd parhau i glustnodi'r incwm a gesglir ar hyn o bryd ar gyfer cyllido'r Cynllun Gweithredu Tai a chyflawni popeth sydd ynddo heb orfod cwtogi uchelgais y Cyngor yn y maes hwn.

12.6. Mae'r Cabinet wedi gwneud ei argymhelliad gan ddod i'r casgliad nad oes modd sefydlu cyfiawnhad cyffelyb i gynyddu'r premiwm uwchlaw cyfradd o 150%. Nid yw nifer o'r camau pellach hyn megis newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio na threth busnes wedi dod yn weithredol eto a felly nid ydym wedi cael cyfle i asesu ardrawiad y polisïau hyn yng ngwyneb newid sylweddol iawn yn y Premiwm, na'r oblygiadau ymarferol.

12.7. Nodir ym mharagraff 8.10 uchod fod cyfiawnhad rhesymegol yn bodoli dros gadw'r dreth ar eiddo gwag hir-dymor heb ein newid (h.y. ar 100%) er mwyn galluogi perchnogion i atgyweirio eu heiddo petai angen a dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd.

12.8. Ar ôl ystyried yr opsiynau uchod yn nghyd-destun y wybodaeth yn yr adroddiad hwn, yr atodiadau a'r astudiaethau y cyfeirir atynt, mae angen i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar lefel y Premiwm i'w osod ar gyfer 2023/24. Mae Cabinet y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd, wedi penderfynu:

**Argymell i'r Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24:**

- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**

**DOGFENNAU CEFNDIR**

1. Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau (Rhagfyr 2020)
2. Strategaeth Tai
3. Cynllun Gweithredu Tai
4. Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru (Dr Simon Brooks)
5. Ymateb y Cyngor i adroddiad Brooks
6. Ymatebion i'r Ymgynghoriad (gan eithrio dogfennau sydd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am unigolion)

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Fel yr esbonnir ac amlygir yn yr adroddiad mae ystod o ffactorau sydd angen eu cloriannu wrth ddod at argymhelliad y Cabinet. Fe nodir yn gywir yn yr adroddiad fod y grym statudol ar gyfer gosod premiwm treth cyngor ar “ail gartrefi” ac eiddo gwag tymor hir wedi ei gynyddu i hyd at 300% drwy addasiadau i Ddeddf Cyllid Lywodraeth Leol 1992 ddaeth yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2022. Wrth ystyried adolygu y premiwm a chynnydd posib o’r uchafswm statudol blaenorol (100%) mae’n bwysig fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth llawn i’r cyd destun a heriau yng Ngwynedd, canlyniadau yr ymgynghoriad a’r wybodaeth a barn sydd wedi ei dderbyn a chanlyniadau yr Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb. Mae’r adroddiad yn esbonio y materion sydd yn berthnasol i’r penderfyniad a chanlyniadau y prosesau ac mae argymhelliad y Cabinet yn seiliedig ar asesu ac chloriannu y ffactorau yma.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda’r Aelod Cabinet i baratoi’r adroddiad yma ac yn cadarnhau’r cynnwys.

ATODIAD 1B

# Canlyniadau Ymgynghoriad Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor – Hydref 2022

**Dyddiad Cyflwyno:** 2022-11-04
**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad | 4 |
| 3. Ymatebion ar Ail Gartrefi | 5 |
| 4. Ymatebion ar Eiddo Gwag Hirdymor | 22 |
| 5. Atodiad : Cwestiynau Cydraddoldeb | 40 |

# 1. Cyflwyniad

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 30ain Medi ac roedd yn agored tan 28ain Hydref. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor gyda llythyrau wedi cael eu gyrru i holl berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor, a negeseuon atgoffa yn cael eu rhoi ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Derbyniwyd 7,330 o ymatebion i'r holiadur. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf.

Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu yn ddwy ran, sef rhan ar gyfer ail gartrefi a rhan ar gyfer eiddo gwag hirdymor.

# 2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd 7,330 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 2.1 Eich sefyllfa chi?

Roedd cwestiwn cyntaf yr holiadur yn gofyn i ymatebwyr ddewis un neu fwy o ddatganiadau oedd yn disgrifio'u sefyllfa hwy. Dyma'r nifer, a'r canran, o ymatebwyr a ddewisodd y gwahanol ddatganiadau:

| Sefyllfa | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Mae fy mhrif gartref yng Ngwynedd | 3,518 | 48.0% |
| Mae fy mhrif gartref y tu allan i Wynedd | 2,690 | 36.7% |
| | | |
| Mae gen i ail gartref yng Ngwynedd | 3,483 | 47.5% |
| Mae gen i eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd | 237 | 3.2% |

Gan y byddai modd i ymatebwyr unigol fod mewn mwy nag un o'r sefyllfaoedd uchod, mae'n haws categoreiddio'r ymatebwyr fel â ganlyn:

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Heb ail gartref na eiddo gwag yng Ngwynedd* | 3,646 | 49.7% |
| Perchen ail gartref yng Ngwynedd (ond dim eiddo gwag hirdymor) | 3,447 | 47.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd (ond dim ail gartref) | 201 | 2.7% |
| Perchen ail gartref ac eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd | 36 | 0.5% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

**Mae'r categori yma yn gallu cynnwys ymatebwyr sydd yn byw yng Ngwynedd a thu allan i Wynedd, sydd heb ail gartref na eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd*

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr felly (50.3%, N=3,684) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

O fewn y ffigwr yma roedd 47.0% yn berchen ar ail gartref, 2.7% yn berchen ar annedd gwag hirdymor, a 0.5% yn berchen ar y ddau (h.y. annedd gwag hirdymor ac ail gartref yng Ngwynedd).

Doedd 49.7% o'r ymatebwyr ddim yn berchen ar ail gartref nag annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd. O fewn y ffigwr yma, roedd 8.5% (N=625) wedi nodi hefyd bod eu prif gartref y tu allan i Wynedd.


# 3. Canlyniadau ar gyfer Ail Gartrefi

Mae'r rhan yma yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn ag ail gartrefi.

## 3.1 Pa effaith mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol yng Gwynedd ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (58.7%, N=4,304) yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 27.7% (N=2,030) o'r farn eu bod yn cael effaith negyddol, gydag 8.2% (N=603) yn meddwl eu bod yn cael dim effaith. Nid oedd gan 5.4% (N=393) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod 80.5% o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai llai na hanner (39.4%) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor sydd o'r farn yma. Mae 48.7% o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor yn meddwl bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai dim ond 5.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref sydd o'r farn yma.

Gwelir fod ymatebion y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn eithaf cyfartal, gyda ychydig mwy ohonynt (35.3%) yn teimlo fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref mae'r farn eto yn fwy rhanedig ond gyda'r mwyafrif (55.6%) o'r farn fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar hyn o bryd.

| | **Effaith gadarnhaol** | | **Dim effaith** | | **Effaith negyddol** | | **Dim barn** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,437 | 39.4% | 275 | 7.5% | 1,776 | 48.7% | 158 | 4.3% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 2,776 | 80.5% | 298 | 8.6% | 184 | 5.3% | 189 | 5.5% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 71 | 35.3% | 27 | 13.4% | 64 | 31.8% | 39 | 19.4% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 20 | 55.6% | 3 | 8.3% | 6 | 16.7% | 7 | 19.4% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **4,304** | **58.7%** | **603** | **8.2%** | **2,030** | **27.7%** | **393** | **5.4%** | **7,330** | **100.0%** |

## 3.2 Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

Mewn cyfanswm roedd tri-chwarter yr ymatebwyr (75.0%, N=5,497) o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% (N=1,764) yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% (N=69) heb farn.

Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim (siart isod), gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (96.9%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi, gyda mwyafrif llai (54.1%) o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor yn rhannu'r un farn. Roedd 44.6% o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor o'r farn y byddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefin yn briodol, ond dim ond 2.7% o berchnogion ail gartrefi oedd o'r un farn.


Roedd mwyafrif (76.1%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor hefyd yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi. Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 88.9% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi.

| | **Ydi** | | **Nac Ydi** | | **Dim barn** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,626 | 44.6% | 1,973 | 54.1% | 47 | 1.3% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 94 | 2.7% | 3,339 | 96.9% | 14 | 0.4% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 42 | 20.9% | 153 | 76.1% | 6 | 3.0% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 2 | 5.6% | 32 | 88.9% | 2 | 5.6% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,764** | **24.1%** | **5,497** | **75.0%** | **69** | **0.9%** | **7,330** | **100.0%** |

## 3.3 Ar ba lefel rydych chi'n credu dylai'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei osod?

Roedd cyfle i'r 1,764 o ymatebwyr oedd o'r farn y byddai'n briodol cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar ail gartrefi, roi eu barn wedyn ar y lefel y dylid ei osod.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua dau-draean (66.1%, N=1,166) yn credu dylid cynyddu'r premiwm hyd at 300% gydag 16.6% arall (N=292) yn credu y dylid ei osod hyd at 200% (siart isod).




Dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr yn y tabl isod ond dylid nodi, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen ail gartref / eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau yn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


| | Hyd at 150% | | Hyd at 200% | | Hyd at 250% | | Hyd at 300% | | Dim barn | | C'swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 124 | 7.6% | 268 | 16.5% | 82 | 5.0% | 1,119 | 68.8% | 33 | 2.0% | 1,626 |
| Perchen ail gartref | 44 | 46.8% | 19 | 20.2% | 1 | 1.1% | 20 | 21.3% | 10 | 10.6% | 94 |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 3 | 7.1% | 5 | 11.9% | 2 | 4.8% | 26 | 61.9% | 6 | 14.3% | 42 |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | - | - | - | - | - | - | 1 | 50.0% | 1 | 50.0% | 2 |
| **Cyfanswm** | **171** | **9.7%** | **292** | **16.6%** | **85** | **4.8%** | **1,166** | **66.1%** | **50** | **2.8%** | **1,764** |

***Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi***

## 3.4 Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei gyflwyno?

Roedd hefyd cyfle i'r 1,764 o ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar ail gartrefi roi eu barn ar sut ddylai'r cynnydd gael ei gyflwyno.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua tri-chwarter (74.1%, N=1,308) yn credu dylid cynyddu'r premiwm ar unwaith mewn un cam, gyda 22.5% (N=397) yn credu dylid ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (siart isod).




Unwaith eto dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr isod ond gan nodi eto, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen ail gartref / eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau o fewn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


| | **Ar unwaith mewn un cam** | | **Yn raddol, dros sawl blwyddyn** | | **Dim barn** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,256 | 77.2% | 320 | 19.7% | 50 | 3.1% | 1,626 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 26 | 27.7% | 61 | 64.9% | 7 | 7.4% | 94 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 25 | 59.5% | 15 | 35.7% | 2 | 4.8% | 42 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 1 | 50.0% | 1 | 50.0% | - | - | 2 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,308** | **74.1%** | **397** | **22.5%** | **59** | **3.3%** | **1,764** | **100.0%** |

***Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi***

## 3.5 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (59.0%, N=4,327) o'r farn na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd gweddill yr ymatebion yn eithaf cyfartal gyda 19.5% (N=1,432) yn meddwl byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a 16.5% (N=1,207) o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol.

Fodd bynnag o edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir tipyn o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 73.9% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 18.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.6% o'r farn na fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol ac 13.8% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (52.2%) yn teimlo na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith ar y Gymraeg.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd eu hanner (50.0%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg a thraean (33.3%) yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

| | **Effaith gadarnhaol** | | **Dim effaith** | | **Effaith negyddol** | | **Dim barn** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,328 | 36.4% | 1,661 | 45.6% | 502 | 13.8% | 155 | 4.3% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 68 | 2.0% | 2,549 | 73.9% | 646 | 18.7% | 184 | 5.3% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 33 | 16.4% | 105 | 52.2% | 41 | 20.4% | 22 | 10.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 3 | 8.3% | 12 | 33.3% | 18 | 50.0% | 3 | 8.3% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,432** | **19.5%** | **4,327** | **59.0%** | **1,207** | **16.5%** | **364** | **5.0%** | **7,330** | **100.0%** |

## 3.6 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar y gymuned leol?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62.3%, N=4,566) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 23.0% (N=1,685) yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol a 12.3% (N=902) yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir peth gwahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod y mwyafrif llethol (81.4%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 13.7% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn yn rhanedig iawn gyda 44.8% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, 42.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 10.6% o'r farn na fyddai yna effaith.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (51.2%) yn teimlo y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd y mwyafrif (63.9%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,547 | 42.4% | 386 | 10.6% | 1,634 | 44.8% | 79 | 2.2% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 96 | 2.8% | 472 | 13.7% | 2,806 | 81.4% | 73 | 2.1% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 39 | 19.4% | 37 | 18.4% | 103 | 51.2% | 22 | 10.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 3 | 8.3% | 7 | 19.4% | 23 | 63.9% | 3 | 8.3% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,685** | **23.0%** | **902** | **12.3%** | **4,566** | **62.3%** | **177** | **2.4%** | **7,330** | **100.0%** |

## 3.7 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar yr economi leol?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (70.9%, N=5,200) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 16.4% (N=1,203) yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a 9.6% (N=703) yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

Drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (90.8%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 5.8% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 52.6% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, 30.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 12.9% o'r farn na fyddai yna effaith.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (61.7%) yn teimlo y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd y mwyafrif (75.0%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,119 | 30.7% | 469 | 12.9% | 1,918 | 52.6% | 140 | 3.8% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 59 | 1.7% | 201 | 5.8% | 3,131 | 90.8% | 56 | 1.6% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 24 | 11.9% | 29 | 14.4% | 124 | 61.7% | 24 | 11.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 1 | 2.8% | 4 | 11.1% | 27 | 75.0% | 4 | 11.1% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,203** | **16.4%** | **703** | **9.6%** | **5,200** | **70.9%** | **224** | **3.1%** | **7,330** | **100.0%** |


## 3.8 Oes yna ail gartrefi eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor?

Mae'r ail gartrefi canlynol wedi eu heithrio'n statudol rhag bod yn destun y Premiwm:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog
- Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod
- Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn
- Anheddau cysylltiedig â gwaith

Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ystyried a oedd angen ychwanegu unrhyw fath o ail gartref arall ar y rhestr. Bu i 43.6% (N=3,195) o'r ymatebwyr nodi bod angen gwneud hyn, gyda 32.4% (N=2,375) yn nodi nad oedd angen ychwanegu at y rhestr a 24.0% (N=1,760) heb farn.

Fel ddangosir yn y siart isod roedd ymatebwyr sy'n berchen ail gartref yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o awgrymu eithriadau i'r premiwm, gyda 57.2% (N=1,994) o holl berchnogion ail gartrefi yn nodi hyn o'i gymharu â 31.2% (N=1,201) o'r holl ymatebwyr eraill.




*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

## 3.9 Nodwch unrhyw ail gartrefi eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor

Roedd gan y rhai nododd bod angen ychwanegu at y rhestr eithrio gyfle i fanylu ar hyn. O'r 3,195 nododd "Oes" bu i 97.7% (N=3,122) fanylu ar hynny mewn sylwadau.

| Sylwad | Nifer sylwadau | % o'r nifer roddodd sylwadau |
|---|---|---|
| Ail gartrefi sy'n cael eu gosod ar gyfer gwyliau neu fusnesau neu at ddibenion twristiaeth | 523 | 16.8% |
| Ail gartrefi sydd yn cael eu defnyddio yn aml | 373 | 11.9% |
| Pob ail gartref | 366 | 11.7% |
| Cartrefi wedi eu hetifeddu a nawr yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi / etifeddu ac yn bwriadu cadw / cartrefi sydd wedi bod 'yn y teulu' am gyfnod | 268 | 8.6% |
| Ail gartref sydd wedi cael eu perchnogi am gyfnod penodol o amser neu a brynwyd cyn dyddiad penodedig | 191 | 6.1% |

| | | |
|---|---|---|
| Eiddo adeiladwyd fel Cartrefi Gwyliau neu lle gwaherddir preswylfa barhaol | 152 | 4.9% |
| Ail gartrefi unigolion gyda cysylltiad lleol (ee teulu, wedi byw yng Ngwynedd neu Cymru ac ati) neu y mae eu prif gartref yn lleol | 146 | 4.7% |
| Anheddau ar yr un safle â phreswylfa barhaol ee anecs, adeiladau fferm | 108 | 3.5% |
| Lleoliad annymunol / Anheddau anghysbell / Mynediad cyfyngedig / Cyfleusterau cyfyngedig / Defnydd cyfyngedig o gyfleusterau'r Cyngor | 105 | 3.4% |
| Defnydd personol yn unig neu ddim yn cynhyrchu incwm | 101 | 3.2% |
| Yn cael ei adnewyddu neu yn aros am ganiatâd cynllunio | 92 | 2.9% |
| Eiddo sydd ddim yn addas i fyw ynddo drwy'r flwyddyn oherwydd maint neu cyflwr y tŷ, neu ei fod yn gartref tymhorol, carafán, cabanau gwyliau ac ati | 88 | 2.8% |
| Yn dibynnu ar amgylchiadau'r perchennog ee pensiynwyr, salwch, lle mae'r perchennog mewn cartref gofal neu berson sengl | 85 | 2.7% |
| Cysylltiedig â swydd neu prifysgol - gweithio yn rhywle arall neu byw yn rhywle arall a gweithio yng Ngwynedd | 76 | 2.4% |
| Eiddo a brynwyd cyn y premiwm | 70 | 2.2% |
| Cartrefi anaddas i bobl leol neu brynwyr tro cyntaf | 63 | 2.0% |
| Eiddo sydd wedi neu am gael eu osod ar gyfer rent tymor hir | 59 | 1.9% |
| Bydd yr ail gartref yn dod yn brif breswylfa yn y dyfodol | 58 | 1.9% |
| Cyfnod i feddwl ar ôl colled ag etifeddu cartref | 55 | 1.8% |
| Defnydd elusennol, cymdeithasol ddefnyddiol neu galluogi gwaith elusennol ee Wcrain, gwirfoddoli tra yna, cartefu gweithwyr allweddol ac ati | 53 | 1.7% |
| Cartrefi gwyliau | 42 | 1.3% |
| Eiddo sydd ar werth neu am gael ei werthu | 41 | 1.3% |
| Ail gartref sydd wedi neu sydd am gael ei adeiladu, datblygu neu gwella gan y perchennog | 25 | 0.8% |
| Ail gartrefi o dan brydles sy'n gwahardd gosod neu isosod eiddo neu gyfyngu ar gyfer defnydd personol yn unig | 22 | 0.7% |
| Lleoliad - Cartrefi mewn ardaloedd lle nad oes galw mawr neu mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ail gartrefi | 22 | 0.7% |
| Adeiladau mewn cyflwr gwael | 18 | 0.6% |
| Ail dai sydd o fudd i'r economi neu leol (ag eithrio twristiaeth neu categori arall) ee cyflogi staff | 17 | 0.5% |
| Adeiladau rhestredig | 12 | 0.4% |
| Ail gartref sydd yn ran o fusnes arall (dim yn gysylltiedig a twristiaeth) ee fferm | 9 | 0.3% |
| Cartrefi gwerth uchel | 7 | 0.2% |
| Ail gartrefi sydd ddim yn cael eu defnyddio yn aml | 7 | 0.2% |
| Cartrefi gwerth isel | 6 | 0.2% |
| Eiddo gwag | 6 | 0.2% |
| Wedi cofrestru i bleidleisio yn eu ail dai | 5 | 0.2% |

| | | |
|---|---|---|
| Ail dai yn eu unig eiddo yn y DU | 2 | 0.1% |
| Eiddo prydles | 1 | 0.0% |
| Yn eiddo i unigolyn nid cwmni eiddo | 1 | 0.0% |
| Lle mae un cartref o'r ddau gartref yn cael ei rentu gan yr unigolyn | 1 | 0.0% |
| Eiddo sydd ddim yn wag am gyfnod hir | 1 | 0.0% |

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

## 3.10 Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am ail gartrefi

Bu i 72.7% (N=5,329) o'r ymatebwyr wneud sylw pellach am ail gartrefi.

| Sylwad | Nifer sylwadau | % o'r nifer roddodd sylwadau |
|---|---|---|
| Perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu i'r economi leol / cymuned leol. Byddai cyfyngu ar ail gartrefi yn niweidio'r economi | 2731 | 51.2% |
| Byddai premiwm TC uwch yn targedu pobl sydd ag ail gartref, yn annheg / afresymol | 892 | 16.7% |
| Mae ail gartrefi yn rhwystr i farchnad dai fforddiadwy i bobl leol / i gymunedau hyfyw | 548 | 10.3% |
| Annheg ar deuluoedd sydd wedi etifeddu cartref (yn cynnwys pobl lleol) / Annheg ar deuluoedd sydd wedi buddsoddi yng Ngwynedd am ddegawdau / Annheg ar pob sydd wedi cynilo am flynyddoedd i brynu ail dŷ | 508 | 9.5% |
| Pobl lleol ddim eisiau prynu'r tai / Y tŷ yn anaddas i deulu (cyflwr/lleoliad) / Y tŷ wedi bod ar y farchnad ers sbel cyn iddyn nhw ei brynu / Wedi gwario miloedd yn gwneud tŷ anaddas i fyny | 459 | 8.6% |
| Dylai'r Cyngor wneud mwy i ddarparu a hybu tai fforddiadwy | 426 | 8.0% |
| Byddwn i / pobl rwy'n eu hadnabod yn gwerthu eu ail gartref pe bai'r premiwm yn cynyddu | 384 | 7.2% |
| Ni fyddai cynnydd yn y premiwm yn helpu gwneud tai yn fforddiadwy | 371 | 7.0% |
| Pobl lleol hefyd yn berchen ar ail dŷ / Cosbi pobl lleol sydd wedi buddsoddi oherwydd twristiaeth | 235 | 4.4% |
| Creu swyddi / economi hyfyw ydi'r ateb yn hytrach na chodi premiwm | 216 | 4.1% |
| Angen cynyddu premiwm TC ar ail gartrefi cyn gynted â phosib | 206 | 3.9% |
| Dim ond codi premiwm ar berchnogion ail dai sydd efo'i prif dŷ y tu allan i Wynedd / Gogledd Cymru / Cymru - dim cosbi trigolion Gwynedd | 160 | 3.0% |
| Angen cau unrhyw 'loopholes' o ran trethiant (gan gynnwys trethiant llety gwyliau) | 157 | 2.9% |

| | | |
|---|---|---|
| Dylid delio efo problem tai fforddiadwy mewn ffyrdd eraill, e.e. rheoliadau cynllunio / cyfyngiadau ar brynu | 156 | 2.9% |
| Byddai cynnydd yn y premiwm yn targedu pobl o Loegr / yn hiliol / yn erbyn hawliau dynol | 131 | 2.5% |
| Dylid dim ond cyflwyno newidiadau Treth Cyngor mewn rhai ardaloedd, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol | 122 | 2.3% |
| Ddim yn deg talu mwy o dreth, pan yn defnyddio llai o wasanaethau na thrigolion lleol | 121 | 2.3% |
| Angen cyfyngiadau ar, a rheoli'n well, y farchnad llety gwyliau tymor-byr | 118 | 2.2% |
| Y rheol '182 dydd' i lety gwyliau gael eu cyfrif fel busnes yn afrealistig / annheg ac yn golygu bydd mwy yn gorfod talu y premiwm | 110 | 2.1% |
| Byddai cynnydd mewn premiwm yn achosi cynnydd yn nifer y llety gwyliau | 98 | 1.8% |
| Ddim yn eglur sut byddai'r arian o unrhyw gynnydd (a / neu y cynnydd blaenorol) yn cael ei ddefnyddio | 77 | 1.4% |
| Byddai cynyddu'r premiwm yn arwain at newid yn natur perchnogaeth ail gartrefi, gyda buddsoddwyr a phobl gyfoethog yn unig yn gallu eu fforddio | 71 | 1.3% |
| Dylai unrhyw bremiwm gael ei gyfyngu i bryniannau newydd, nid i bobl oedd wedi prynu tai cyn hyn | 57 | 1.1% |
| Byddai cynyddu premiwm yn achosi cwymp ym mhrisiau tai yn lleol, efo canlyniadau sylweddol / niweidiol | 44 | 0.8% |
| Ail gartrefi ddim yn cael effaith ar y iaith Gymraeg (neu'n llai niweidiol na pe baent yn mynd i drigolion parhaol nad ydynt yn siarad Cymraeg) | 27 | 0.5% |
| Mae ail gartrefi yn broblem gymhleth, ac angen cymryd unrhyw gamau gyda gofal / ar sail tystiolaeth fanwl | 26 | 0.5% |
| Dylai tai sydd yn y broses o gael eu atgyweirio gael eu eithrio / Tai sydd ddim mewn cyflwr i gael eu gwerthu neu rhentu | 23 | 0.4% |
| Rhai tai wedi cael eu hadeiladu yn benodol fel ail gartrefi a /neu cyfyngiadau ar faint o amser ellir bod yno | 19 | 0.4% |
| Ni fyddai'n 'edrych yn dda' i Wynedd fod yn cynyddu premiwm TC - delwedd anghroesawgar / mewnblyg | 18 | 0.3% |
| Ddim yn adeg da i wneud unrhyw newid, oherwydd cyflwr yr economi | 8 | 0.2% |
| Ni fyddai cynyddu'r premiwm ddim ond yn symud y broblem i ran arall o Gymru | 7 | 0.1% |
| Dylid eithrio mentrau cymdeithasol nid er elw sy'n rhedeg unedau gwyliau | 1 | 0.0% |

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*


# 4. Canlyniadau ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor

Mae'r rhan yma yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn ag eiddo gwag hirdymor.

## 4.1 Pa effaith mae eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol yng Gwynedd ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (72.9%, N=5,342) yn meddwl fod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 16.2% (N=1,191) o'r farn nad ydynt yn cael effaith ac 1.3% (N=96) yn meddwl eu bod yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd gan 9.6% (N=701) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*


Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori o ymatebwyr. Y prif wahaniaeth amlwg ydi bod ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i fod o'r farn nad yw yn cael effaith ar gymunedau lleol: roedd 37.3% o'r rhai sydd ag eiddo gwag hirdymor, a 30.6% o'r rhai sydd ag eiddo gwag hirdymor ac ailgartref, yn meddwl nad oes effaith. Mae hyn yn cymharu ag 13.4% o'r ymatebwyr oedd heb eiddo gwag hirdymor nag ail gartref, ac 17.9% o ymatebwyr sydd ag ail gartref.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 45 | 1.2% | 487 | 13.4% | 2,886 | 79.2% | 228 | 6.3% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 48 | 1.4% | 618 | 17.9% | 2,341 | 67.9% | 440 | 12.8% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 3 | 1.5% | 75 | 37.3% | 95 | 47.3% | 28 | 13.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | - | - | 11 | 30.6% | 20 | 55.6% | 5 | 13.9% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **96** | **1.3%** | **1,191** | **16.2%** | **5,342** | **72.9%** | **701** | **9.6%** | **7,330** | **100.0%** |

## 4.2 Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

At ei gilydd roedd barn yr ymatebwyr yn rhanedig iawn gyda 43.8% (N=3,210) yn meddwl na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, a 43.4% (N=3,181) yn credu y byddai yn briodol. Nid oedd gan 12.8% (N=939) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag o edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (84.1%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar yr eiddo yma, tra ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (55.8%) o blaid cynyddu'r premiwm.


Ymhlith perchnogion ail gartrefi roedd yr ymateb yn fwy cymysg gyda 48.9% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor a 32.4% o blaid ei gynyddu. O ran y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref, roedd 69.4% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor.

| | Ydi | | Nac Ydi | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 2,035 | 55.8% | 1,330 | 36.5% | 281 | 7.7% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 1,116 | 32.4% | 1,686 | 48.9% | 645 | 18.7% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 23 | 11.4% | 169 | 84.1% | 9 | 4.5% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 7 | 19.4% | 25 | 69.4% | 4 | 11.1% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **3,181** | **43.4%** | **3,210** | **43.8%** | **939** | **12.8%** | **7,330** | **100.0%** |

## 4.3 Ar ba lefel rydych chi'n credu dylai'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei osod?

Roedd cyfle i'r 3,181 o ymatebwyr oedd o'r farn bod cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, roi eu barn wedyn ar y lefel dylid ei osod.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd 42.4% (N=1,350) yn credu dylid cynyddu'r premiwm hyd at 300%, gyda 25.4% arall (N=808) yn credu y dylid ei gynyddu hyd at 200% a 20.3% (N=645) am ei gynyddu hyd at 150% (siart isod).



Dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr yn y tabl isod ond gan nodi, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau yn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


| | Hyd at 150% | | Hyd at 200% | | Hyd at 250% | | Hyd at 300% | | Dim barn | | C'swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 320 | 15.7% | 462 | 22.7% | 70 | 3.44% | 1,083 | 53.2% | 100 | 4.9% | 2,035 |
| Perchen ail gartref | 317 | 28.4% | 338 | 30.3% | 25 | 2.2% | 259 | 23.2% | 177 | 15.9% | 1,116 |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 6 | 26.1% | 8 | 34.8% | - | - | 7 | 30.4% | 2 | 8.7% | 23 |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 2 | 28.6% | - | - | - | - | 1 | 14.3% | 4 | 57.1% | 7 |
| **Cyfanswm** | **645** | **20.3%** | **808** | **25.4%** | **95** | **3.0%** | **1,350** | **42.4%** | **283** | **8.9%** | **3,181** |

***Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor***

## 4.4 Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei gyflwyno?

Roedd hefyd cyfle i'r 3,181 o ymatebwyr oedd o'r farn bod cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, roi eu barn ar sut dylai'r cynnydd gael ei gyflwyno.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua'u hanner (52.9%, N=1,684) yn credu dylid cynyddu'r premiwm ar unwaith mewn un cam, gyda 40.6% (N=1,290) yn credu dylid ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (siart isod).




Unwaith eto dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr isod ond gan nodi eto, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau o fewn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


| | Ar unwaith mewn un cam | | Yn raddol, dros sawl blwyddyn | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,313 | 64.5% | 645 | 31.7% | 77 | 3.8% | 2,035 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 365 | 32.7% | 623 | 55.8% | 128 | 11.5% | 1,116 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 5 | 21.7% | 17 | 73.9% | 1 | 4.3% | 23 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 1 | 14.3% | 5 | 71.4% | 1 | 14.2% | 7 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,684** | **52.9%** | **1,290** | **40.6%** | **207** | **6.5%** | **3,181** | **100.0%** |

***Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor***

## 4.5 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mewn cyfanswm roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%, N=3,433) yn meddwl na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 21.7% (N=1,588) yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 10.2% (N=748) yn meddwl y byddai yna effaith negyddol.

O edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, fe welir (siart isod) bod perchnogion eiddo gwag hirdymor rywfaint yn fwy tueddol i gredu y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg pe cynyddid y premiwm (a llai tueddol i gredu y byddai yna effaith gadarnhaol).




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 58.7% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 21.4% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol.

Roedd mwyafrif perchnogion ail gartrefi (67.3%) o'r farn na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Ond ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor, roedd y farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.3% o'r farn na


fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 9.5% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,339 | 36.7% | 1,650 | 45.3% | 346 | 9.5% | 311 | 8.5% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 234 | 6.8% | 2,321 | 67.3% | 349 | 10.1% | 543 | 15.8% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 14 | 7.0% | 118 | 58.7% | 43 | 21.4% | 26 | 12.9% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 1 | 2.8% | 18 | 50.0% | 10 | 27.8% | 7 | 19.4% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **1,588** | **21.7%** | **4,107** | **56.0%** | **748** | **10.2%** | **887** | **12.1%** | **7,330** | **100.0%** |

## 4.6 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar y gymuned leol?

Mewn cyfanswm roedd y farn ar y cwestiwn yma yn eithaf rhanedig gyda 40.0% (N=2,935) o'r ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 26.0% (N=1,905) yn credu na fyddai effaith a 22.1% (N=1,619) o'r farn y byddai yna effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% (N=871) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahân ar ymatebion y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 42.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, gyda 34.8% yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (53.6%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 21.5% o'r farn na fyddai yna unrhyw effaith, ac 17.7% yn credu y byddai yna effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar ail gartref roedd y farn yn rhanedig iawn gyda 30.1% o'r farn na fyddai unrhyw effaith, 27.6% o'r farn y byddai effaith gadarnhaol a 25.4% yn credu y byddai effaith negyddol.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 38.9% yn meddwl na fyddai effaith ar y gymuned leol, a 33.3% yn credu y byddai effaith negyddol.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,954 | 53.6% | 783 | 21.5% | 645 | 17.7% | 264 | 7.2% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 952 | 27.6% | 1,038 | 30.1% | 877 | 25.4% | 580 | 16.8% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 27 | 13.4% | 70 | 34.8% | 85 | 42.3% | 19 | 9.5% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 2 | 5.6% | 14 | 38.9% | 12 | 33.3% | 8 | 22.2% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **2,935** | **40.0%** | **1,905** | **26.0%** | **1,619** | **22.1%** | **871** | **11.9%** | **7,330** | **100.0%** |

## 4.7 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr economi leol?

At ei gilydd ‘roedd cryn wahaniaeth barn ar y cwestiwn yma hefyd gyda 37.5% (N=2,752) o'r holl ymatebwyr yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Roedd 26.8% (N=1,964) o'r farn na fyddai unrhyw effaith, a 23.7% (N=1,740) yn credu y byddai effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% (N=874) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 48.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 29.4% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 49.3% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, 23.4% yn credu byddai'n cael unrhyw effaith ac 19.6% o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar ail gartref roedd y farn yn rhanedig gyda 30.2% yn teimlo na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr economi leol, 26.8% yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 26.5% yn credu y byddai yna effaith negyddol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 41.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, a 25.0% yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

| | Effaith gadarnhaol | | Dim effaith | | Effaith negyddol | | Dim barn | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor | 1,799 | 49.3% | 854 | 23.4% | 714 | 19.6% | 279 | 7.7% | 3,646 | 100.0% |
| Perchen ail gartref | 924 | 26.8% | 1,042 | 30.2% | 914 | 26.5% | 567 | 16.4% | 3,447 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor | 24 | 11.9% | 59 | 29.4% | 97 | 48.3% | 21 | 10.4% | 201 | 100.0% |
| Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref | 5 | 13.9% | 9 | 25.0% | 15 | 41.7% | 7 | 19.4% | 36 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **2,752** | **37.5%** | **1,964** | **26.8%** | **1,740** | **23.7%** | **874** | **11.9%** | **7,330** | **100.0%** |


## 4.8 Oes yna eiddo gwag hirdymor eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor?

Mae'r eiddo gwag hirdymor canlynol wedi eu heithrio'n statudol rhag bod yn destun y Premiwm:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog

Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ystyried a oedd angen ychwanegu unrhyw fath o eiddo gwag hirdymor arall ar y rhestr. Bu i 16.3% (N=1,196) o'r ymatebwyr nodi bod angen gwneud hyn, gyda 45.4% (N=3,329) yn nodi nad oedd angen ychwanegu at y rhestr a 38.3% (N=2,805) heb farn.

Fel ddangosir yn y siart isod roedd ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i awgrymu eithriadau i'r premiwm, gyda 65.8% (N=156) o holl berchnogion eiddo gwag hirdymor yn nodi hyn o'i gymharu ag 14.7% (N=1,040) o'r holl ymatebwyr eraill.




*"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio*

## 4.9 Nodwch unrhyw eiddo gwag hirdymor eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor

Roedd gan y rhai nododd bod angen ychwanegu at y restr eithrio gyfle i fanylu ar hyn. O'r 1,196 nododd "Oes" bu i 92.7% (N=1,109) fanylu ar hynny mewn sylwadau.

| Sylwad | Nifer sylwadau | % o'r nifer roddodd sylwadau |
|---|---|---|
| Eiddo sydd yn cael gwaith adnewyddu sylweddol (anodd cael gweithwyr) | 230 | 20.7% |
| Eiddo wedi eu hetifeddu/"probate" | 188 | 17.0% |
| Gwag oherwydd wedi gorfod mynd i ofal/ysbyty | 111 | 10.0% |
| Eiddo sydd wedi bod ar werth/i'w rentu am gyfnod hir | 95 | 8.6% |
| Angen cynyddu'r cyfnod eithriad i fwy na 12mis | 89 | 8.0% |
| Eiddo sydd ddim ffit i fyw ynddynt | 79 | 7.1% |
| Pob eiddo gwag hirdymor | 78 | 7.0% |
| Llety gwyliau | 49 | 4.4% |
| Ail gartrefi sydd yn cael eu defnyddio | 48 | 4.3% |
| Cytuno gyda'r rhestr | 39 | 3.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Eiddo gwag sydd yn rhan o'r prif gartref ac yn anodd ei wahanu i'w werthu/rhentu e.e. eiddo ar ffermydd | 36 | 3.2% |
| Eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu ers cenedlaethau | 34 | 3.1% |
| Eiddo yn aros am ganiatad cynllunio/newid defnydd / trwy'r llysoedd | 32 | 2.9% |
| Eiddo mewn perchnogaeth Cymry Cymraeg/person lleol | 30 | 2.7% |
| Eiddo ble mae'r perchennog wedi gorfod mynd i ffwrdd i weithio ond yn bwriadu dychwelyd yn y dyfodol | 26 | 2.3% |
| Eiddo gyda gwerth hanesyddol/rhestredig | 26 | 2.3% |
| Eiddo gwag gyda busnes yn rhan ohono | 16 | 1.4% |
| Eiddo sydd ddim yn derbyn gwasanaethau gan y Cyngor | 15 | 1.4% |
| Ni ddylid codi mwy o dreth ar unrhyw eiddo boed yn wag neu beidio | 14 | 1.3% |
| Angen gwell diffiniad o "hirdymor" | 12 | 1.1% |
| Eiddo gwag ble mae'r perchennog yn bwriadu dod i fyw yn barhaol iddo yn y dyfodol | 12 | 1.1% |
| Eiddo gwag yn berchen elusen/y gymuned | 10 | 0.9% |
| Pwerau i'r Cyngor i orfodi rhywun werthu yr eiddo iddynt os ydi o wedi bod yn wag am gyfnod penodol | 9 | 0.8% |
| Eiddo gyda cyfyngiadau neu weithredoedd cyfamod | 9 | 0.8% |
| Eiddo gwag yn berchen i bensiynwyr | 8 | 0.7% |
| Eiddo ble mai cartref gwyliau oedd y pwrpas gwreiddiol | 7 | 0.6% |
| Carafanau statig / chalet / annex | 5 | 0.5% |
| Eiddo gwag oherwydd bod y perchenog yn y carchar | 3 | 0.3% |
| Tai amlfeddiannaeth (HMO) gwag | 3 | 0.3% |
| Angen edrych ar pob cais yn unigol | 3 | 0.3% |
| Eiddo sydd wedi bod yn wag am llai na 5 mlynedd | 2 | 0.2% |
| Eiddo ble mae pobl yn berchen arnynt ers blynyddoedd e.e. 10 mlynedd | 2 | 0.2% |
| Perchenog eiddo hefo anabledd neu yn sâl hirdymor | 1 | 0.1% |
| Eiddo masnachol | 1 | 0.1% |
| Angen codi premiwm ar adeiladau masnachol gwag | 1 | 0.1% |
| Ddim yn cytuno hefo'r rhestr - ddylai annex ddim cael eu heithrio | 1 | 0.1% |

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

## 4.10 Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am eiddo gwag hirdymor

Bu i 32.9% (N=2,415) o'r ymatebwyr wneud sylw pellach am eiddo gwag hirdymor.

| Sylwad | Nifer sylwadau | % o'r nifer roddodd sylwadau |
|---|---|---|
| Gyda gymaint o brinder tai yn yr ardal angen annog/cymhell perchnogion eiddo gwag hirdymor i'w gwerthu/rhentu i bobl leol | 477 | 19.8% |
| Prynu Gorfodol gan y Cyngor ar ôl cyfnod penodol o eiddo fod yn wag - datblygu i fod yn gartrefi i bobl leol | 306 | 12.7% |
| Ydi'r Cyngor wedi siarad efo perchnogion eiddo gwag i ddeall pam ei fod yn wag yn hytrach na chodi y premiwm - angen penderfynu lefel premiwm achos wrth achos | 274 | 11.3% |
| Eiddo gwag hirdymor yn gallu bod yn fler a chael effaith ar eiddo cyfagos/delwedd yr ardal/fandaliaeth | 260 | 10.8% |
| Eiddo gwag hirdymor yn llawer mwy o broblem i gymunedau na ail gartrefi | 259 | 10.7% |
| Premiwm yn syniad da ond rhaid cael eithriadau e.e. pan mae rhywun yn gorfod mynd i gartref gofal/mynd drwy "probate"/gwaith adnewyddu sylweddol | 238 | 9.9% |
| Eiddo gwag hirdymor yn ddim help i'r economi leol | 200 | 8.3% |
| Dylai'r premiwm orfodi perchnogion wneud rhywbeth efo nhw | 152 | 6.3% |
| Angen cynyddu'r cyfnod eithrio - mwy na 12 mis | 127 | 5.3% |
| Grantiau i bobl leol ddatblygu eiddo gwag | 122 | 5.1% |
| Ffordd ddiog gan y Cyngor i godi arian yn lle edrych ar eu gwariant | 98 | 4.1% |
| Angen gwell diffiniad o "hirdymor" a'r gwahaniaeth rhwng ail gartref/llety gwyliau ac eiddo gwag | 97 | 4.0% |
| Eiddo gwag hirdymor yn cael effaith ar y gymuned leol a'r iaith Gymraeg | 93 | 3.9% |
| Byddai ffigyrau am nifer yr eiddo gwag sydd yng Ngwynedd wedi bod yn ddefnyddiol wrth ateb yr ymgynghoriad | 80 | 3.3% |
| Bydd hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag gael eu rhoi ar y farchnad | 78 | 3.2% |
| Nid dyma'r amser i godi treth cyngor - costau byw ddigon uchel yn barod | 77 | 3.2% |
| Eiddo gwag yn mynd yn anoddach i'w gwerthu/rhentu oherwydd sefyllfa'r economi | 71 | 2.9% |
| Fe gaiff effaith negyddol ar dwristiaeth | 69 | 2.9% |
| Caiff codi y premiwm o bosib yr effaith groes i'r hyn mae'n bwriadu ei gael | 64 | 2.7% |
| Byddai premiwm yn rwystr i fuddsoddiad/gwariant yn yr ardal | 59 | 2.4% |
| Nifer o'r eiddo gwag yma ddim yn mynd i fod yn addas ar gyfer anghenion tai yn y gymuned, gan gynnwys teuluoedd ifanc | 56 | 2.3% |

| | | |
|---|---|---|
| Angen sicrhau nad oes rhai yn cymryd mantais o'r eithriadau i osgoi talu treth ychwanegol | 49 | 2.0% |
| Angen i Gyngor Gwynedd ganolbwyntio ar greu mwy o swyddi yn yr ardal | 46 | 1.9% |
| Dylai eiddo gwag hirdymor ble nad oes unrhyw fwriad gwella neu werthu dalu y premiwm | 45 | 1.9% |
| Dylai'r Cyngor fod wedi adeiladu llawer iawn mwy o dai fforddiadwy nac maent wedi ei wneud | 42 | 1.7% |
| Oes tystiolaeth fod y premiwm 100% yn cael ei fuddsoddi yn y cymunedau? | 41 | 1.7% |
| Angen edrych ar reolau cynllunio - gwneud hi yn haws dod a eiddo gwag yn ôl i ddefnydd / rheoliadau sydd ddim ond caniatau pobl leol | 40 | 1.7% |
| Dylai'r premiwm aros yn 100% | 39 | 1.6% |
| Holiadur yn rhagfarnllyd a chul a ddim yn ddiduedd | 34 | 1.4% |
| Angen deddfwriaethau pellach i warchod eiddo er lles cymunedau ac unigolion lleol ac nid eu cosbi | 33 | 1.4% |
| Rhai eiddo gwag wedi bod ym mherchnogaeth y teulu ers canrifoedd | 31 | 1.3% |
| Y premiwm yn mynd yn erbyn hawliau dynol/hiliol | 31 | 1.3% |
| Dylid helpu pobl i adnewyddu adfeilion | 29 | 1.2% |
| Angen canolbwyntio ar eiddo masnachol gwag yn gyntaf | 27 | 1.1% |
| Rhai eiddo gwag wedi eu prynu er mwyn dod i fyw iddynt yn y dyfodol | 26 | 1.1% |
| Dylai eiddo gwag dalu llai o dreth cyngor ac nid mwy - ddim yn derbyn dim gwasanaethau | 20 | 0.8% |
| Dylai'r Cyngor helpu perchnogion i ddod ag eiddo i ddefnydd yn hytrach na'u cosbi: cydweithredu | 20 | 0.8% |
| Ni ellid rhoi bai ar eiddo gwag am ddirywiad yn yr iaith Gymraeg | 17 | 0.7% |
| Premiwm ddim yn deg os nad ydi o yn cael ei ddefnyddio yr un fath drwy'r wlad | 16 | 0.7% |
| Angen gwneud yn glir/digon o rybudd pryd fydd y newidiadau yn digwydd | 15 | 0.6% |
| Dylai premiwm fod yn daladwy gan bobl leol yn union yr un fath | 13 | 0.5% |
| Rheolau llym ar gyfer landlordiaid yn stopio nhw rentu y tai i bobl | 12 | 0.5% |
| Ni ddylid cynnwys eiddo sydd wedi eu dodrefnu er nad oes neb yn byw ynddynt | 11 | 0.5% |
| Byddai codi'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi | 10 | 0.4% |
| Dylid codi treth cyngor ar garafanau sydd yn ail-gartrefi | 7 | 0.3% |
| Bydd hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag droi yn lety gwyliau | 7 | 0.3% |
| Ni fyddai codi'r premiwm yn cael llawer o effaith ynddo'i hun ar y defnydd o eiddo gwag | 6 | 0.2% |
| Bydd codi y premiwm yn creu mwy o waith i staff y Cyngor e.e. mynd ar ôl rhai sydd ddim yn talu | 4 | 0.2% |
| Eiddo gwag ddim yn broblem anferth yn yr ardal | 4 | 0.2% |
| Cynnig canran premiwm gwahanol | 2 | 0.1% |

| | | |
|---|---|---|
| Ni ddylai neb o du allan i Wynedd gael ymgynghori ar y polisi Treth Cyngor | 1 | 0.0% |
| Ni ddylid caniatau newid enwau eiddo i enwau Saesneg | 1 | 0.0% |
| Dylai'r premiwm fod yn ddibynnol ar brofi incwm | 1 | 0.0% |

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

# Atodiad : Cwestiynau Cydraddoldeb

## 1. Rhyw

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 3,162 | 43.1% |
| Dyn / Gwryw | 3,491 | 47.6% |
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 25 | 0.3% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 652 | 8.9% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 2. Oedran

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 15 oed neu'n iau | 1 | 0.0% |
| 16 - 24 oed | 106 | 1.4% |
| 25 - 34 oed | 428 | 5.8% |
| 35 - 44 oed | 772 | 10.5% |
| 45 - 54 oed | 1,474 | 20.1% |
| 55 - 64 oed | 1,806 | 24.6% |
| 65 - 74 oed | 1,405 | 19.2% |
| 75 - 84 oed | 626 | 8.5% |
| 85 + oed | 101 | 1.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 611 | 8.3% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 3. Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Albanaidd | 41 | 0.6% |
| Cymreig | 2,556 | 34.9% |
| Gwyddelig o Ogledd Iwerddon | 20 | 0.3% |
| Prydeinig | 2,111 | 28.8% |
| Seisnig | 1,702 | 23.2% |
| Arall | 249 | 3.4% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 651 | 8.9% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 4. Hil

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Asiaidd | 15 | 0.2% |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 50 | 0.7% |
| Du / Affricanaidd / Caribiaidd | 7 | 0.1% |
| Gwyn | 6,319 | 86.2% |
| Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig | 1 | 0.0% |
| Arall | 52 | 0.7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 886 | 12.1% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 5. Crefydd

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Bwdhaidd | 15 | 0.2% |
| Cristion | 3,744 | 51.1% |
| Hindw | 3 | 0.0% |
| Iddewig | 9 | 0.1% |
| Mwslim | 8 | 0.1% |
| Sîc | 2 | 0.0% |
| Dim crefydd | 2,249 | 30.7% |
| Arall | 115 | 1.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,185 | 16.2% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 6. Rhywioldeb

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Deurywiol | 49 | 0.7% |
| Dyn hoyw | 61 | 0.8% |
| Dynes hoyw / lesbiaidd | 28 | 0.4% |
| Heterorywiol / Strêt | 5,660 | 77.2% |
| Arall | 109 | 1.5% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,377 | 18.8% |
| Heb ateb | 46 | 0.6% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 7. Hunaniaeth rhywedd wedi newid?

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Nac ydi | 6,086 | 83.0% |
| Ydi | 89 | 1.2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,076 | 14.7% |
| Heb ateb | 79 | 1.1% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 8. Anabledd

| Categori | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Nac ydw | 5,989 | 81.7% |
| Ydw | 366 | 5.0% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 975 | 13.3% |
| **Cyfanswm Ymatebwyr** | **7,330** | **100.0%** |

## 9. Sgiliau Cymraeg

| Categori* | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Siarad Cymraeg | 2,593 | 35.4% |
| Deall Cymraeg ar lafar | 2,591 | 35.3% |
| Darllen Cymraeg | 2,024 | 27.6% |
| Ysgrifennu'n Gymraeg | 1,670 | 22.8% |
| Ddim yn deall Cymraeg | 1,741 | 23.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 1,580 | 21.6% |
| Arall | 229 | 3.1% |

**modd dewis mwy nac un categori*

## Paratowyd yr adroddiad yma gan

**Tîm Ymchwil**
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

E-bost: ymchwil@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 01286 679619
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil



YMCHWIL a DADANSODDEG
www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail Gartrefi

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021 roedd y Cyngor wedi bod yn codi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor, ac ers 1 Ebrill 2021 cynyddwyd lefel y Premiwm i 100%. O 1 Ebrill 2023 bydd y ddeddfwriaeth wedi newid a bydd gan y Cyngor yr hawl i gynyddu lefel y Premiwm i 300%

Bydd angen i'r Cyngor llawn wneud ei benderfyniad ar y lefel Premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2022 a hynny ar sail argymhelliad sydd i'w benderfynu gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd.

Yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022, cytunodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar sut dylai ymateb i'r newid deddfwriaeth sy'n galluogi'r Cyngor i gynyddu lefel y Premiwm y tu hwnt i'r 100% presennol.

Pwrpas y polisi yw disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

1. adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
2. chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.

Yn ei gyfarfod Rhagfyr 2024 penderfynodd y Cyngor i godi premiwm o 150% ar ail gartrefi a 100% ar eiddo gwag hirdymor.

Bydd yn ofynnol I'r Cyngor yn ei gyfarfod 4 Rhagfyr2025 benderfynu ar y gyfradd premiwm ar gyfer 2026/27. Mae'r Cyngor yn ystyried cadw'r premiwm ail gartrefi ar 150% ond cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

15 Rhagfyr 2020. Dechreuodd yr asesiad hwn ar ôl i'r Cabinet benderfynu y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn darganfod barn y cyhoedd ar y cynnig i newid graddfa'r Premiwm.

Mae'r asesiad wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn Tachwedd 2021 er mwyn cymryd ystyriaeth o'r Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

Mae wedi cael ei addasu a'i ddiweddaru ymhellach yn Hydref / Tachwedd 2022 er mwyn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd ym Medi 2022

Diweddarwyd yr asesiad Hydref 2025.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae gan y Cyngor y grym o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) i addasu lefel y Premiwm hyd at 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen, wedi i'r Ddeddf gael ei addasu gan *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90).* Yr uchafswm blaenorol oedd 100%. Fodd bynnag, mae'n ddisgwyliad echblyg i ni ymgynghori hefo'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gyda sylw wedi ei roi yn y wasg lleol ac ar wefannau cymdeithasol, ac ysgrifennodd y Cyngor at berchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm.

Y partneriaid a rhanddeiliaid allweddol oedd:

Trigolion Gwynedd
Trethdalwyr ar eiddo gwag ac ail gartrefi

Bu cydweithio gyda nifer o bartneriaid mewnol, e.e.:
Adran Cyllid
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd
Y Cyngor Llawn
Adran Tai ac Eiddo

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rydym wedi ymdrechu i adnabod unigolion gyda nodweddion gwarchodedig gan fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i'r ymatebwyr ein hysbysu o unrhyw nodweddion gwarchodedig fel bod modd ystyried rhain wrth ddatblygu'r polisi.

Roedd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac roedd yr holiadur ar gael i unrhyw un i'w lenwi ar-lein. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg yn codi ymwybyddiaeth ohono, a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Ysgrifennodd y Cyngor at bob aelwyd oedd yn destun y Premiwm gyda llythyr yn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Lle roedd y cyfeiriad gohebiaeth gwahanol wedi ei gofnodi yn y system Treth Cyngor, defnyddiwyd hwnnw. Roedd y llythyr yn cyfeirio at wefan y Cyngor a'r cyfle i lenwi'r holiadur yno, ond roedd gwefan y Cyngor yn nodi y gallai unrhyw un gysylltu gyda'r Cyngor os oeddynt yn dymuno derbyn copi papur o'r ymgynghoriad.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Medi a 28 Hydref 2022. Derbyniwyd 7,330 o ymatebion ar yr holiadur ffurfiol, yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (50.3%, N=3,684) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

Mewn cyfanswm roedd tri-chwarter yr ymatebwyr (75.0%, N=5,497) o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% (N=1,764) yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% (N=69) heb farn. Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm

Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Roedd nifer o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nodi eu bod yn berchen ar eu heiddo yng Ngwynedd ers sawl blwyddyn, ac yn hoff iawn o'r ardal. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rhai oedd yn ymateb yn honni fod cymhelliad hiliol tu ôl i'r bwriad i godi Premiwm gan fod y Cyngor yn erbyn pobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma.

Mae dau gategori gwahanol o eiddo sy'n destun y Premiwm, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Ychydig iawn o bobl sydd eisiau talu mwy o dreth, ac roedd gwrthwynebiad chwyrn gan berchnogion ail gartrefi yn arbennig. Mae'n sefyll i reswm byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith ariannol ar yr unigolion yma, ond ni welwyd tystiolaeth y byddai unrhyw grŵp gwarchodedig yn cael eu heffeithio. Serch hynny, mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i'r ymholiad yn honni fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol, gwrth-Seisnig, er nad oes unrhyw wahaniaethu yn bodoli pan yn gosod y premiwm.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur cydraddoldeb. Roedd hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o berchnogion ail gartrefi na'r boblogaeth gyffredinol yn bobl hŷn.

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (72.9%, N=5,342) yn meddwl fod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 16.2% (N=1,191) o'r farn nad ydynt yn cael effaith ac 1.3% (N=96) yn meddwl eu bod yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd gan 9.6% (N=701) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i'r Cyngor weithredu'n bositif tuag at rhai carfannau os oes tystiolaeth o angen ("cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill"). Mae sawl astudiaeth gan y Cyngor wedi adnabod fod problem yn bodoli gyda argaeledd tai i deuluoedd ifanc Gwynedd, felly rydym wedi adnabod problem ac yn cymryd camau i ddelio gyda hynny. Mae pobl ifanc wedi ei prisio allan o'r farchnad dai leol.

Ar 9 Tachwedd 2022 roedd:
**4,564** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
**229** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau a amlinellir yn Rhan 8 isod.
**753** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

Ar yr un adeg, roedd **1,099** eiddo yn destun y Premiwm ar annedd gwag hirdymor.

Ym Mehefin 2025 roedd 1,121 eiddo gwag hirdymor (gwag ers dros 12 mis) yn y sir fel a ganlyn

| yn wag am rhwng 1 a 3 blynedd | yn wag am rhwng 3 a 5 mlynedd | yn wag am fwy na 5 mlynedd. |
|---|---|---|
| 574 | 231 | 316 |

Astudiaeth Effaith Tai Gwyliau

Ystyriaeth allweddol gan y Cyngor wrth pan yn gosod Premiwm 2023/24 fydd yr adroddiad manwl Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a gyflwynwyd i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2020:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Mae hyn yn dilyn astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn 2013.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod cyfanswm nifer y cartrefi gwyliau (ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar) o fewn Gwynedd yn parhau i gynyddu, ac yn gofyn am ymrwymiad y Cabinet i gymryd camau pendant i ymdrin â'r sefyllfa.

Mae'r astudiaeth yn ganlyniad gwaith ymchwil manwl sydd wedi cael ei gynnal dros y misoedd diwethaf, ac mae'n amlygu fod nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar stoc dai Gwynedd. Mae'n adeiladu ar astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal yn y gorffennol ac yn amlygu fod materion dybryd sy'n parhau angen sylw, a fod y sefyllfa o fewn cymunedau Gwynedd, yn enwedig y rhai sy'n denu ymwelwyr, yn dwysau.

Tra fod sgôp yr astudiaeth yn ymestyn i faterion cynllunio hefyd, rhoddir sylw blaenllaw i'r cymhelliad ariannol sydd yn bodoli o fod yn berchennog tŷ gwyliau yn ogystal â'r fantais trethiannol sy'n bodoli o fod yn cwrdd â'r trothwyon cyfreithiol ar gyfer trosglwyddo eiddo i'r gyfundrefn ardrethi annomestig (nid yw'r eiddo hyn yn destun y Premiwm).

Gwerth eiddo

Mae bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn gyffredinol uwch nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Yn Hydref 2022, roedd 32.1% o ail gartrefi Gwynedd ym Mand Treth Cyngor E neu uwch, o'i gymharu â 22.1% o eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae bandiau eiddo gwag hir dymor yn is. Dim ond 17.6% o'r eiddo yma sydd yn mand E neu uwch.

Un o'r themâu oedd yn dod o'r ymgynghoriad oedd fod nifer o ail gartrefi yn gartref teuluol oedd wedi cael eu hetifeddu a'u cadw gan y teulu, neu fod yr eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu fel ail gartref ers nifer o flynyddoedd.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Ar wahân i ymdeimlad rhai ymatebwyr fod Cyngor Gwynedd yn gyffredinol hiliol am ystyried codi'r Premiwm ac yna ei gynyddu, nid oes tystiolaeth wedi ei dderbyn i gefnogi hynny gan fod astudiaethau wedi cael eu cynnal sy'n awgrymu fod angen cymryd camau i weithredu i fynd i'r afael â phroblemau tai mewn ardaloedd gwledig o Wynedd. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif<br><br>Negyddol | Bwriad y polisi o godi premiwm yw i fynd i'r afael â'r sefyllfa nad oes tai ar gael i bobl leol, ac mae'r effaith yn bositif ar y garfan yma.<br><br>Bydd y polisi yn effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.<br><br>Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg y bydd y polisi yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Serch hynny, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol, sy'n ddeilliant positif. |
| **Anabledd** | Ansylweddol | Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd o oes rhywun anabl yn cadw eiddo sydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael gwyliau mewn man arall. |
| **Rhyw** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Oedran** | Positif | Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hŷn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynaladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.<br><br>Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (*Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England*) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn. Mae ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol wedi awgrymu yr un peth.<br><br>Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hŷn, ond disgwylir y bydd y bobl hŷn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy.<br><br>Serch hynny, mae tystiolaeth gryf fod darparwyr gofal yn wynebu trafferthion recriwtio dybryd. Mae sicrhau cydbwysedd cymunedol yn hollbwysig er mwyn cael digon o bobl ieuengach i warchod a rhoi gofal i bobl hŷn, a bwriad y polisi o godi Premiwm ydi helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal leol trwy allu darparu cartrefi lleol iddynt. Ar y cyfan, felly, bydd y polisi yn cael effaith bositif gan ei fod yn helpu teuluoedd ifanc i gael cartref. Bydd hyn wedyn yn rhoi effaith mwy bositif na negyddol ar gydbwysedd cymunedol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Bydd effaith anuniongyrchol ar yr iaith gan mai pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Mae cynnyrch y Premiwm hyd yma wedi ei ddefnyddio i diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma.<br><br>Yn benodol, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.<br><br>Mae'r y grym i godi premiwm wedi ei gyflwyno trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r canllawiau statudol yn nodi:<br><br>*Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:*<br>• *adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a*<br>• *chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.* |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Bydd hyn yn rhoi cyfle cyfartal i bobl leol sy'n methu fforddio cartref ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa tai ar hyn o bryd yn anghyfartal a bwriad y penderfyniad ydi sefydlogi ac unioni'r sefyllfa yma. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Gall y polisi o godi Premiwm hyrwyddo perthnasau da gyda pobl o fewn cymunedau Gwynedd os ydi'r Polisi yn rhoi cyfle iddynt cael gwell cartref, neu gartref cyntaf, gan fod nifer y tai gwyliau ac anheddau gwag yn cael ei ganfod fel cael effaith andwyol ar allu pobl lleol i gael lle i fyw. Gall polisi o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag wella'r perthnasau os ydi trigolion Gwynedd yn teimlo fod y polisi'n gymorth iddynt fod â gwell cyfle i gael cartref yn eu hardal leol.<br><br>Mae rhai perchnogion ail gartrefi wedi honni yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y bydd cynyddu lefel y Premiwm yn achosi drwg-deimlad cymunedol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i law gefnogi'r honiad yma. Mae'r anghyfartaledd presennol yn fwy tebygol o greu drwgdeimlad. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Fel nodir yn 3.1 uchod, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi trethiant yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai yn Rhagfyr 2020 sy'n cynnwys ystod o brosiectau yn eu lle i wneud y defnydd o gynnyrch y Premiwm er mwyn mynd i'r afael ag achosion o anfantais economaidd-gymdeithasol. Yr egwyddor sylfaenol yw fod y rhai sy'n gallu fforddio sawl eiddo yn cynorthwyo'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartrefi o gwbl. Y prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai sy'n gwneud defnydd o arian y Premiwm yw:

- Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref
- Llety â chefnogaeth i ieuenctid digartref
- Unedau hunan-gynhaliol ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys
- Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat
- Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon
- Adeiladu mwy o dai cymdeithasol na'r hyn y gellir ei ariannu drwy'r grant tai cymdeithasol
- Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai.
- Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai

- Plotiau hunan adeiladu
- Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag
- Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf
- Cynllun cymorth prynu
- Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol
- Elfen trigiannol mewn cynlluniau adfywio cymunedol
- Sefydlu gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai er mwyn cyfrannu tuag at ein dyhead i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd
- Cynllun peilot Tai Arloesol
- Ariannu'r diffyg ariannol yn achosion busnes tai arloesol
- Tai gyda chefnogaeth – ieuenctid
- Tai gofal estynedig – henoed
- Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anghenion dwys
- Cartrefi addas i blant gyda anghenion corfforol dwys
- Frondeg, Caernarfon
- Benthyciadau di log i wella cyflwr tai
- Siop un stop i faterion Tai

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Credwn fod y polisi eisoes yn dangos ymrwymiad llwyr i roi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol ac nad oes angen mesurau neu newidiadau eraill.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Un o prif ganlyniadau'r Premiwm ydi ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol o fewn Gwynedd. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'r camau positif iawn fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun, gyda chymorth ariannol y Premiwm:

Microsoft Word - 0.2Asesiad_Effaith_Cydraddoldeb_CGT.doc (llyw.cymru)

Bwriad y Premiwm yw anelu i leihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd, ac mae'n cyfrannu at hynny drwy ariannu prosiectau penodol.

Mae manylion am asesiad o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gael yng nghorff yr adroddiad i'r Cabinet.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor.

Dylid nodi fod ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf fod perchnogion ail gartrefi yn dueddol o fod yn bobl hŷn. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod rhai o'r perchnogion hŷn yma yn "asset rich / cash poor". Hynny yw, maent wedi prynu'r eiddo ers sawl blwyddyn neu wedi ei etifeddu, ond nid yw eu hincwm o reidrwydd yn uchel. Mae hyn yn y pen draw yn codi gronyn o amheuaeth os yw'r Cyngor yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol, ond rhaid pwyso hynny yn erbyn y tlodi, diweithdra a digartrefedd sydd yng nghefn gwlad Gwynedd. Yn ôl y Cynllun Gweithredu Tai, mae 59% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd.

Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi datgan fod y Polisi yma yn un hiliol gan ei fod yn targedu unigolion sydd yn byw y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Premiwm yn cael ei godi ar bob eiddo sy'n ail gartref neu'n eiddo gwag hirdymor heb ystyried y perchnogaeth. Mae cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson, a byddai cynyddu'r Premiwm yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma.

Mae cyfraith achos wedi sefydlu y bydd gwahaniaethu anuniongyrchol yn cael ei gymryd fel bod wedi digwydd pan fyddai darpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n ymddangos yn niwtral, yn rhoi personau o darddiad hiliol neu ethnig o dan anfantais benodol o'i gymharu â phersonau eraill, oni bai bod darpariaeth, maen prawf neu arfer yn cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol gan nod cyfreithlon a'r modd o gyflawni'r nod hwnnw yn briodol ac angenrheidiol.

Wrth wneud penderfyniad ar y Premiwm, felly, rhaid bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd fod gwahaniaethu anuniongyrchol yn bodoli. Er mai defnydd eiddo sy'n golygu os yw Premiwm yn daladwy arno neu beidio, nid ei berchnogaeth, mae canlyniad yr ymgynghoriad yn awgrymu fod perchnogion eiddo o'r fath yn dueddol o fod yn Saeson ac yn bobl hŷn ac mae angen bod yn ymwybodol o'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn y carfannau hyn.
Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod hyn yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o wireddu gweithrediad gadarnhaol, sef mynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | ✓ |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

Mae honiad fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wynedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu Cynllun Gweithredu Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Mater gwleidyddol yn y pen draw yw lefel y Premiwm, wedi ei gymryd ar sail y dystiolaeth sydd i law. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng y gost ychwanegol i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor a'r cymhelliant cysylltiedig o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, yn erbyn y lles cymdeithasol fyddai'n deillio o'r gallu i wireddu cynlluniau penodol i fynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol.

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar gyfer gosod lefel y Premiwm. Bydd yr Adran Gyllid yn parhau i gadw golwg ar newidiadau ar statws eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac yn gweithredu fel bo'r angen i asesu os oes materion cydraddoldeb tu ôl i'r trosglwyddo i ardrethi annomestig.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi

Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Rhagymadrodd

Rhan 1: gweithredu premiwm y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol yng Nghymru

Rhan 2: gweinyddu a Gorfodi

Rhan 3: monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor

Rhan 4: apeliadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Rhagymadrodd

Ers 1 Ebrill 2017, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gallu codi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol (y cyfeirir atynt yn fwy cyffredin fel ail gartrefi) yn eu hardaloedd. O 1 Ebrill 2023, bydd y premiymau uchaf y gall awdurdodau lleol eu pennu ar gyfer y dreth gyngor yn cynyddu i 300%. Pwerau disgresiwn yw'r pwerau a roddir i awdurdodau lleol, felly mater i bob awdurdod lleol fydd penderfynu a fydd yn codi premiwm ar eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau).

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod dull teg a chyson yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru a helpu awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- penderfynu a ddylid codi premiwm neu ddiwygio premiwm yn eu hardal leol
- gweinyddu a gorfodi premiymau
- cymhwyso'r eithriadau
- monitro ac adrodd ar y defnydd a wneir o bremiymau

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar bremiwm ar gyfradd safonol y dreth gyngor fel y nodir yn adrannau 12A (3) a 12B (4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (‘Deddf 1992’) fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (‘Deddf 2014’).

Ni ddylid trin y canllawiau hyn fel dehongliad o'r ddeddfwriaeth. Mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf yw dehongli'r ddeddfwriaeth, a'r llysoedd sy'n gyfrifol am roi dehongliad diffiniol.

# Rhan 1: gweithredu premiwm y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## feddiennir yn gyfnodol yng Nghymru

## Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer premiymau'r dreth gyngor

Mae’r adran hon yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i'r premiwm ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol. Caiff gofynion penodol ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn Adran 12a, a chaiff gofynion penodol ar gyfer anheddau a feddiennir yn gyfnodol yn Adran 12b.

Adrannau 12A a 12B i alluogi awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).

Diwygiodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (‘Rheoliadau 2022’) adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 gan gynyddu'r swm uwch o dreth gyngor y gall awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) ei gymhwyso i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol i 300% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 i 2024 a blynyddoedd dilynol.

Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu codi premiwm, rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.

Yn ogystal, os bydd awdurdod bilio yn penderfynu codi premiwm, bydd hyn yn datgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd o dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 ar gyfer anheddau lle nad oes preswylwyr.

Gall awdurdod bilio wneud, amrywio, neu ddirymu penderfyniad a wnaed o dan adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddi. Drwy arfer y pwerau hyn, gall

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

awdurdod bilio hefyd benderfynu ar y mathau neu’r dosbarthiadau o eiddo yn y categorïau anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi y byddant yn cymhwyso premiwm iddynt. Mae hyn yn galluogi pob awdurdod i deilwra ei benderfyniadau at amgylchiadau lleol.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd o dan adran 12A(4) a 12A(5), a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i ragnodi, drwy reoliadau, ddosbarthiadau penodol o anheddau na ellir codi premiwm arnynt. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) 2015 yn rhagnodi'r eithriadau ac fe'u nodir yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

Mae system y dreth gyngor eisoes yn darparu sawl eithriad penodol rhag y dreth gyngor. Mae'r grwpiau esempt wedi'u nodi yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (fel y'i diwygiwyd). Mae sawl esemptiad ar gyfer anheddau sydd heb eu meddiannu, er enghraifft:

- pan fo'r preswylydd yn yr ysbyty neu mewn lleoliad gofal preswyl hirdymor
- pan fo adeiladwaith annedd yn cael ei atgyweirio (am hyd at flwyddyn)
- pan fo'r preswylydd wedi marw (am hyd at chwe mis ar ôl y grant profiant neu lythyrau gweinyddu)

Ni ellir codi premiwm ar annedd sy'n esempt rhag y dreth gyngor. Fodd bynnag, os nad yw annedd yn gymwys i gael esemptiad mwyach, ac nid oes neb yn ei meddiannu o hyd, gellir codi premiwm arni os oes un yn gymwys. Yn achos annedd wag, gellir codi premiwm arni ar ôl iddi fod yn wag am gyfnod parhaus o flwyddyn, a bydd hyn yn cynnwys y cyfnod y bydd unrhyw esemptiad wedi cael ei gymhwyso ar ei gyfer.

## Adran 12A: swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor

At ddiben yr adran hon, caiff annedd wag hirdymor ei diffinio fel annedd nad yw'n cael ei meddiannu ac sydd heb fawr o ddodrefn am gyfnod parhaus o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

flwyddyn o leiaf.

Os caiff annedd ei dodrefnu neu'i meddiannu am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn, ni fydd hyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor. Hynny yw, ni all person newid statws annedd fel annedd wag hirdymor drwy feddiannu neu ddodrefnu'r annedd am gyfnod byr.

Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu codi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, gall bennu canrannau gwahanol ar gyfer anheddau gwahanol yn seiliedig ar y cyfnod y maent wedi bod yn wag. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu fesul cam, gan gynyddu premiymau yn raddol dros amser.

## Adran 12B: swm uwch ar gyfer anheddau a feddiennir yn gyfnodol

At ddiben yr adran hon, caiff ail gartref ei ddiffinio fel annedd nad yw'n unig neu brif gartref person ac sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol. Mae Deddf 1992 yn cyfeirio at yr anheddau hyn fel anheddau a feddiennir yn gyfnodol ond cyfeirir atynt yn gyffredin fel ‘ail gartrefi’.

Er mwyn i bremiwm fod yn gymwys i anheddau a feddiennir yn gyfnodol, rhaid i awdurdod bilio wneud ei benderfyniad cyntaf o dan adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn berthnasol iddi.

O hyn ymlaen, bydd y canllawiau yn cyfeirio at eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

## Penderfynu codi premiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi

Bwriedir i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol godi premiwm fod yn adnodd i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

helpu i wneud y canlynol:

- sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy
- helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy

Gall awdurdodau lleol gymhwyso premiymau i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi neu'r ddau, a gallant bennu premiymau gwahanol i bob dosbarth.

Cafodd y pwerau eu dylunio'n benodol i fod yn bwerau disgresiwn er mwyn galluogi awdurdodau lleol i'w defnyddio yn eu ffyrdd eu hunain i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ac adlewyrchu'r patrymau gwahanol o ran argaeledd tai a'r angen am dai sydd i'w gweld ledled Cymru.

Mae ystod o ffactorau a allai helpu awdurdodau lleol i benderfynu a ddylid codi premiwm ai peidio. Bydd rhai ffactorau yn benodol i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi, ond bydd ffactorau eraill yn berthnasol i'r ddau. Mae'r ffactorau hyn wedi'u rhestru isod er mwyn helpu awdurdodau lleol. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

- Nifer a chanrannau'r eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi yn yr ardal leol.
- Dosbarthiad eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd penodol.
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth.
- Patrymau o ran y galw am gartrefi fforddiadwy a faint ohonynt sydd ar gael.
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol.
- Yr effaith bosibl ar y Gymraeg.
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn cynyddu'r cyflenwad tai a nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael.
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn helpu i sicrhau bod eiddo

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto.

Fel arfer, bydd penderfyniad awdurdod lleol i godi premiwm o dan adran 12A neu 12B o Ddeddf 1992 yn rhan o broses pennu'r gyllideb gan ei fod yn debygol o effeithio ar benderfyniadau ynghylch gwariant a phennu trethi. Felly, caiff y penderfyniad ei wneud gan y Cyngor llawn fel rheol. Cyn gwneud hynny, rhaid i awdurdod lleol roi ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru a ddaeth i rym yn 2011, yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.  Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut mae ei bolisi yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cyfrannu'n benodol at yr amcanion o greu Cymru lewyrchus; Cymru sy'n fwy cyfartal; a Chymru o gymunedau cydlynus.

Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried amseriad unrhyw benderfyniadau i gyflwyno neu amrywio premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol. Bydd unrhyw newid i bremiwm yn newid cynlluniau refeniw awdurdod a dylai’r awdurdod gadw hyn mewn cof wrth bennu’r gyllideb. Fel rheol, disgwylir i awdurdod lleol adlewyrchu ei sylfaen drethu arfaethedig, gan gynnwys pob disgownt a phremiwm, erbyn diwedd mis Rhagfyr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, felly mae unrhyw benderfyniadau a wneir ar ôl hyn yn peryglu hygrededd data cyhoeddedig a gallant arwain at feirniadaeth.

Dylai awdurdod lleol ystyried sut mae'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol a pherchnogion ail gartrefi, cyn penderfynu codi premiwm.

Anogir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori cyn gwneud penderfyniad cyntaf i godi premiwm. Ar gyfer ail gartrefi, rhaid gwneud y penderfyniad cyntaf i godi premiwm o leiaf 12 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm arfaethedig yn berthnasol iddi. Nid yw hyn yn berthnasol i eiddo gwag ond, gan fod yn rhaid i annedd wag fod yn wag am o leiaf 12 mis cyn y gellir cymhwyso premiwm iddi, awgryma Llywodraeth Cymru y dylid gwneud penderfyniad cyntaf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i gymhwyso premiwm i anheddau gwag hirdymor o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn berthnasol iddi. Dylai awdurdod lleol gynnal asesiad llawn o'r effeithiau posibl, gan gynnwys ar y boblogaeth leol, ei gymunedau, a'r economi leol.

Rhaid cadarnhau unrhyw fwriad i amrywio neu ddirymu penderfyniad i gymhwyso premiwm cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Hefyd, anogir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori cyn penderfynu cynyddu premiwm uwchlaw 100% gan wneud hynny o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynnydd arfaethedig i'r premiwm yn berthnasol iddi. Bydd hyn yn golygu y bydd modd ystyried y premiwm wrth bennu lefelau'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf a bydd yn rhoi digon o amser i drethdalwyr ystyried effaith premiwm uwch ar eu hamgylchiadau ariannol personol a gwneud dewisiadau ynghylch eu heiddo.

Ar ôl penderfynu cyflwyno neu amrywio premiwm, yn ychwanegol at y gofyniad i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod, dylai awdurdod lleol ystyried sut y bydd yn rhannu gwybodaeth am ei benderfyniad yn ehangach, yn enwedig i'r rhai y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt. Gellir gwneud hyn drwy gyhoeddi datganiadau i'r wasg, darparu gwybodaeth ar dudalennau gwe neu drwy lwybrau eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth, er enghraifft, cyfathrebu'n uniongyrchol â'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor ac y mae'n debygol y bydd y premiwm yn gymwys iddynt. Dylai awdurdod lleol hefyd ystyried sut y mae'n hysbysu'r rhai nad ydynt yn byw yn yr ardal leol o bosibl ond y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt.

## Eithriadau i bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi

Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi un dosbarth neu fwy o anheddau na chaiff awdurdod bilio benderfynu cymhwyso premiwm iddynt. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 wedi'u gwneud o dan y pwerau hyn ni ellir codi premiwm ar annedd sy'n dod o dan eithriad. Rhaid i awdurdod lleol ystyried yr eithriadau hyn cyn penderfynu rhoi premiwm ar waith.

Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau esempt. Mae dosbarthiadau 1, 2, 3 a 4 yn gymwys i eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae dosbarthiadau 5, 6 a 7 yn gymwys i ail gartrefi yn unig. Amlinellir y dosbarthiadau anheddau yn y tabl canlynol a cheir rhagor o fanylion isod.

## Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu neu lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn gyda therfyn amser o flwyddyn

### Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

## Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod neu lle mae cynnig i rentu'r annedd wedi cael ei dderbyn gyda therfyn amser o flwyddyn

### Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dosbarth 3: anecsau sy'n rhan o'r brif annedd neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd

### Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

## Dosbarth 4: anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun pe na bai'n byw mewn llety i'r lluoedd arfog

### Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

## Dosbarth 5: lleiniau carafanau ac angorfeydd cychod a feddiennir

### Cymhwyso

Ail gartrefi.

## Dosbarth 6: anheddau lle mae amod cynllunio yn nodi na ellir eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn neu'n barhaol, neu'n nodi'n benodol mai dim ond fel llety gwyliau y gellir eu defnyddio, neu'n atal person rhag eu defnyddio fel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## unig neu brif breswylfa

### Cymhwyso

Ail gartrefi.

## Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

### Cymhwyso

Ail gartrefi.

## Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar werth am bris sy'n rhesymol i'r annedd honno. Wrth ystyried a yw pris yn rhesymol ai peidio, dylid ystyried prisiau gwerthu anheddau tebyg yn yr ardal. Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gwerthu yn gymwys i gael eithriad arall oni bai ei bod wedi cael ei gwerthu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes hawl gan y tenant feddiannu'r eiddo eto am nad yw'r denantiaeth wedi dechrau.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar y farchnad i'w gosod am rent rhesymol, hynny yw, y rhent y byddai disgwyl i'r eiddo ei sicrhau o ystyried y rhent a godir ar anheddau tebyg. Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gosod yn gymwys i gael eithriad arall oni bai bod tenantiaeth wedi cael ei rhoi am gyfnod o chwe mis neu fwy ar gyfer yr annedd honno.

## Dosbarth 3: anecsau sy'n rhan o'r brif annedd neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi.

Mae'r eithriad hwn yn gymwys pan fydd perchennog wedi addasu ei annedd i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r brif annedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dosbarth 4: anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun pe na bai'n byw mewn llety i'r lluoedd arfog

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi.

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa person ond nad yw'n cael ei meddiannu am fod y person hwnnw yn byw mewn llety i'r lluoedd arfog.

Bwriedir bod yr eithriad hwn yn cynnwys aelodau o'r lluoedd arfog nad yw eu cartrefi yn cael eu meddiannu am eu bod yn byw mewn llety i'r lluoedd arfog dramor.

## Dosbarth 5: lleiniau carafanau ac angorfeydd cychod a feddiennir

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n cwmpasu anheddau sy'n cynnwys llain a feddiennir gan garafán neu angorfa a feddiennir gan gwch lle nad oes preswylydd yn byw yn y garafán neu'r cwch ar hyn o bryd, ond y bydd y garafán neu'r cwch yn unig neu'n brif breswylfa person y tro nesaf y cânt eu defnyddio.

## Dosbarth 6: cartrefi tymhorol neu lety gwyliau nad oes modd eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn neu'n barhaol

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n gymwys i anheddau sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n golygu na allant gael eu meddiannu am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf yn ystod unrhyw gyfnod o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

12 mis.

Caiff yr eithriad hwn ei gymhwyso'n aml i gartrefi gwyliau neu gabanau gwyliau a adeiladwyd at y diben sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n cyfyngu ar feddiannaeth drwy gydol y flwyddyn neu sy'n gwarchod nodweddion lleol, er enghraifft, pan fo safle gerllaw cynefin dan fygythiad y mae angen ei warchod ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae'r eithriad hwn yn seiliedig ar y diffiniad o'r disgownt disgresiwn presennol ar gyfer cartrefi tymhorol (Dosbarth A) yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998.

O 1 Ebrill 2023, caiff Dosbarth 6 ei ymestyn i gynnwys pob annedd a gyfyngir gan amod cynllunio sy'n:

- atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o o leiaf 28 diwrnod yn ystod unrhyw gyfnod o flwyddyn
- nodi mai dim ond fel llety gwyliau y dylid ei defnyddio
- atal person rhag meddiannu'r annedd fel ei unig neu brif breswylfa

## Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Mae'r eithriad hwn ond yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi yn unig ac mae'n gymwys i anheddau a feddiennir gan berson sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- person cymhwysol mewn perthynas â'r annedd ond sy'n preswylio mewn annedd arall sy'n gysylltiedig â'i swydd (fel y diffinnir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau)
- person cymhwysol mewn perthynas ag annedd sy'n gysylltiedig â swydd

Caiff person cymhwysol ei ddiffinio fel a ganlyn:

- person sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddiwrnod penodol, boed hynny ar y cyd â pherson arall ai peidio
- person a fyddai'n atebol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd ar ddiwrnod penodol, boed hynny ar y cyd â pherson arall ai peidio os nad oedd yr annedd honno yn perthyn i'r canlynol (i) Dosbarth O o Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (ii) Dosbarth E o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) 1992

Mae'r eithriad hwn yn gymwys pan fo'n ofynnol i berson breswylio mewn annedd sy'n gysylltiedig â'i swydd. Mae'n gymwys i ail gartref a feddiennir yn gyfnodol am ei bod yn ofynnol i berson fyw mewn llety sy'n gysylltiedig â'i swydd rywle arall. Mae'n gymwys hefyd pan fo'r llety sy'n gysylltiedig â'r swydd yn ail gartref person.

Mae'r diffiniad o annedd sy'n gysylltiedig â swydd i'w weld yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Er bod yr eithriad hwn yn debyg i'r disgownt sy'n gysylltiedig â swyddi o dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, mae'n wahanol am fod y disgownt ond yn gymwys os yw'r annedd sy'n gysylltiedig â swydd yn unig neu'n brif breswylfa person.

Ffordd arall y mae'n wahanol i'r disgownt ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi yw nad yw'n ofynnol i'r trethdalwr dalu'r dreth gyngor ar gyfer dwy annedd, sy'n golygu y gall person sydd â phrif gartref dramor neu annedd sy'n gysylltiedig â swydd dramor gael budd o'r eithriad hefyd.

Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

## Lleihau atebolrwydd am bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi

Wrth arfer y pŵer o dan adran 12A a 12B o Ddeddf 1992, gall awdurdod bilio bennu'r mathau neu ddosbarthiadau penodol o eiddo o fewn y categorïau o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eiddo gwag tymor hir neu ail gartrefi y bydd yn defnyddio premiwm iddynt neu na fydd yn cymhwyso premiwm. At hynny, o dan adran 13A o Ddeddf 1992, mae gan awdurdodau bilio bwerau disgresiwn i leihau atebolrwydd y dreth gyngor fel y gwêl yr awdurdod bilio yn dda. Gellir arfer y pŵer hwn mewn achosion penodol neu wrth benderfynu ar ddosbarth o achosion. Gellir defnyddio'r pŵer i gyflwyno unrhyw lefel o leihad i atebolrwydd y dreth gyngor, gan gynnwys mewn amgylchiadau lle gall awdurdod lleol godi premiwm fel arall. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau hyn, er enghraifft, i leihau neu ddatgymhwyso premiwm ac, o bosibl, fel ffordd o dargedu'r modd y maent yn defnyddio premiymau.

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gall awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn:

- pan fo rhesymau pam nad oes modd byw yn yr annedd fel preswylfa barhaol
- pan fo rhesymau pam na ellir gwerthu neu osod annedd
- pan fo cynnig wedi cael ei dderbyn ar eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto ac mae cyfnod yr eithriad wedi dod i ben
- pan fo defnydd y perchennog o eiddo yn cael ei gyfyngu gan amgylchiadau nas cwmpesir  gan eithriad rhag y premiwm
- lle gallai codi premiwm achosi caledi

Nid yw’r rhestr uchod yn gynhwysfawr a bydd awdurdodau bilio am ystyried pob ffactor sy'n berthnasol yn eu barn nhw wrth benderfynu lleihau atebolrwydd y dreth gyngor ar gyfer eiddo penodol neu ddosbarth o eiddo ac asesu'r effaith bosibl.

## Llety hunanddarpar

O 1 Ebrill 2023, os na fydd llety hunanddarpar yn cyrraedd y trothwyon gosod newydd a sefydlwyd gan Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022, caiff ei gyfrif fel eiddo domestig a bydd yn atebol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i dalu'r dreth gyngor. Os bydd yr awdurdod lleol wedi penderfynu cymhwyso premiwm i ail gartrefi, bydd y perchennog yn atebol i dalu'r ffi ychwanegol hefyd oni bai bod eithriad yn gymwys i'w eiddo, neu bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â chodi premiwm ar gyfer y math hwnnw neu'r dosbarth hwnnw o eiddo.

Gall rhai achosion godi lle byddai eiddo hunanddarpar yr ystyrir ei fod yn anaddas i fyw ynddo'n barhaol yn dod yn ddarostyngedig i'r dreth gyngor a phremiwm am nad oes eithriad yn gymwys iddo. Yn yr achosion hyn, anogir awdurdodau lleol i ystyried defnyddio eu pwerau disgresiwn i deilwra penderfyniad neu i leihau atebolrwydd y dreth gyngor er mwyn cymedroli'r effaith gan leihau'r premiwm i bob pwrpas. Byddai cadw'r atebolrwydd i dalu cyfradd safonol y dreth gyngor ar gyfer eiddo nad yw'n bodloni'r meini prawf gosod yn cyd-fynd â'r nod o sicrhau bod pawb sy'n berchen ar eiddo yn 'gwneud cyfraniad teg' i'w cymunedau lleol. Dyma rai enghreifftiau lle gall awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn:

- tai allan neu ysguboriau a gaiff eu haddasu a'u troi yn llety gwyliau fel rhan o ymdrechion i arallgyfeirio ffermydd
- anecsau neu garejis wedi'u haddasu sy'n rhan o brif breswylfa perchennog
- carafannau neu gabanau gwyliau

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu a fydd yn defnyddio'r pwerau disgresiwn yn adrannau 12A, 12B neu 13A i leihau atebolrwydd y dreth gyngor mewn perthynas â phremiwm neu i leihau rhwymedigaeth safonol y dreth gyngor, neu'r ddau, fel y bo'n briodol. Dylai'r polisi hwn gwmpasu amrywiaeth o sefyllfaoedd lle byddai awdurdod lleol yn ystyried defnyddio ei bwerau dewisol, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu fel rhai annomestig. Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ynghylch a gaiff y pwerau hyn eu defnyddio a sut. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod ystyried pob achos yn unigol ar ôl pwyso a mesur amgylchiadau'r achos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dylid nodi bod ystyriaethau ynghylch defnyddio pwerau disgresiwn adran 13A yn debygol o fod yn wahanol os ystyrir eu bod yn lleihau atebolrwydd y dreth gyngor sy'n deillio o bremiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd o gyfradd safonol y dreth gyngor. Y rheswm am hyn yw bod anheddau sy'n atebol i dalu premiwm eisoes yn atebol i dalu cyfradd safonol y dreth gyngor.

## Defnyddio refeniw ychwanegol sy'n deillio o bremiymau'r dreth gyngor

Gall awdurdod lleol gadw unrhyw arian ychwanegol sy'n dod i law drwy weithredu'r premiymau ac mae diwygiadau wedi cael eu gwneud i sylfaen drethu'r dreth gyngor er mwyn hwyluso hyn. Caiff addasiadau eu gwneud er mwyn cynyddu'r premiwm uchaf y gellir ei godi o 1 Ebrill 2023. Gall awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, ond fe'u hanogir i'w ddefnyddio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

Caiff gofynion penodol mewn perthynas ag adrodd ar unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir a'r defnydd a wneir ohono wedyn eu cynnwys yn Rhan 3 Monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor.

# Rhan 2: gweinyddu a Gorfodi

## Pennu atebolrwydd ar gyfer premiymau'r dreth gyngor a chymhwystra ar gyfer eithriadau

Wrth benderfynu codi premiwm, bydd angen i awdurdod lleol nodi a yw annedd yn eiddo gwag hirdymor neu'n ail gartref ac a fyddai, felly, yn atebol i dalu premiwm.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'n rhesymol i awdurdod lleol ofyn am dystiolaeth fel biliau cyfleustodau sy'n dangos y defnydd a wneir o wasanaethau, trwydded yrru fel prawf o gyfeiriad, neu dderbynebau neu dystiolaeth arall o gostau symud os dywedir bod eiddo wedi'i feddiannu (nad yw'n wag) neu wedi'i feddiannu fel unig neu brif gartref (nad yw'n ail gartref). Bydd y broses yn debyg i'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i asesu cymhwystra ar gyfer eithriadau a disgowntiau'r dreth gyngor.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhagnodi eithriadau penodol o ran premiymau'r dreth gyngor a chyfrifoldeb person atebol fydd gwneud cais i awdurdod lleol am eithriad os yw'n credu ei fod yn gymwys, a darparu tystiolaeth i gefnogi ei gais. Dylai pob awdurdod lleol nodi'n glir ac egluro'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn bod yn dryloyw ac yn deg.

Yn yr un modd â threfniadau i fonitro a gorfodi eithriadau a disgowntiau presennol y dreth gyngor, disgwylir i awdurdodau lleol gymryd camau i gadarnhau'r dystiolaeth a ddarperir i gefnogi cais am eithriad. Gall awdurdod lleol hefyd gynnal arolygiadau neu ymweliadau rheolaidd â'r safle i gadarnhau bod eiddo yn parhau i fod yn gymwys.

Bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol y gellir rhoi cosbau sifil i berson sy'n cyflenwi gwybodaeth anghywir yn fwriadol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Mae'r adrannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau yn benodol ar gyfer:

- anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu
- anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod
- anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar werth am bris sy'n rhesymol i'r annedd honno. Rhaid i berchennog atebol fodloni awdurdod lleol fod ei eiddo ar werth am bris rhesymol, h.y., pris y byddai'n rhesymol disgwyl iddo ei sicrhau ar y farchnad agored.

Wrth ystyried cais am eithriad, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried amrywiaeth o ffactorau'n ymwneud â gwerthu anheddau, fel y canlynol:

- am ba hyd y mae gwahanol eiddo yn yr ardal wedi bod ar werth
- pris cyfartalog eiddo tebyg yn yr ardal leol a'r cyfnod cyfartalog y bu'r eiddo ar y farchnad
- a oes amodau cyfyngol afresymol, fel y pris, yn cael eu gosod ar yr annedd i'w hatal rhag cael ei gwerthu
- unrhyw ffactorau rhesymol eraill

Er mwyn penderfynu a yw annedd ar y farchnad i'w gwerthu go iawn, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried gwahanol fathau o dystiolaeth a allai gynnwys y canlynol:

- hysbyseb ar wefannau, er enghraifft gwefannau asiantiaid eiddo, Rightmove a Zoopla, neu dystiolaeth o ffyrdd eraill y mae'r eiddo yn cael ei farchnata
- contract ag asiant eiddo
- rhestrau asiant eiddo neu fanylion gwerthu os caiff yr eiddo ei farchnata'n breifat
- tystysgrif Perfformiad Ynni (sy'n ofynnol pan gaiff eiddo ei adeiladu neu'i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

werthu)

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi ond gellir ei ymestyn os bydd cynnig wedi cael ei dderbyn ar yr eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau fwy na blwyddyn ar ôl i'r eithriad ddod i rym. Byddai'r eithriad yn dod i rym ar ddyddiad gwerthu'r eiddo. Ar ôl i eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gwerthu yn gymwys i gael eithriad arall oni bai ei bod wedi cael ei gwerthu.

## Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod

Mae'r eithriad hwn hefyd yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes hawl gan y tenant feddiannu'r eiddo eto am nad yw'r denantiaeth wedi dechrau.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid i berchennog atebol fodloni awdurdod lleol bod yr eiddo ar y farchnad i'w osod am bris rhesymol, h.y., y rhent y byddai'n rhesymol disgwyl i'r eiddo ei sicrhau o ystyried y rhent a godir ar anheddau tebyg.

Wrth ystyried a yw'r eithriad yn gymwys, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried amrywiaeth o ffactorau sy'n ymwneud â gosod anheddau, fel y canlynol:

- am ba hyd y mae gwahanol eiddo yn ei ardal wedi bod ar gael i'w rentu
- rhent cyfartalog eiddo rhent tebyg yn yr ardal leol a'r cyfnod cyfartalog y bu'r eiddo ar y farchnad
- a oes amodau cyfyngol afresymol, fel y rhent, yn cael eu gosod ar yr eiddo i'w atal rhag cael ei osod
- unrhyw ffactorau rhesymol eraill

Er mwyn i awdurdod lleol benderfynu a yw perchennog atebol yn marchnata ei

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eiddo i'w rentu go iawn, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried gwahanol fathau o dystiolaeth a allai gynnwys y canlynol:

- contract ag asiantaeth gosod eiddo
- rhestrau asiantiaid eiddo neu lyfrynnau asiantiaid gosod eiddo
- cofrestru a thrwyddedu landlord ac asiant ar gyfer annedd sydd ar y farchnad i'w gosod, drwy Rhentu Doeth Cymru
- rhestrau o eiddo a gynigir i'w rhentu a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- tystysgrif Perfformiad Ynni (sy'n ofynnol pan gaiff eiddo ei adeiladu neu'i osod)
- tystysgrif diogelwch nwy ddilys sy'n ofynnol ar gyfer cartrefi a gaiff eu gosod

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gosod yn gymwys i gael eithriad arall oni bai bod tenantiaeth wedi cael ei rhoi am gyfnod o chwe mis neu fwy ar gyfer yr annedd honno.

Mae eithriadau 3 i 6 yn ddosbarthiadau mwy penodol ac ni chânt eu trafod ymhellach yn y rhan hon o'r canllawiau.

## Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Mae'r eithriad hwn ond yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi yn unig ac mae'n gymwys i anheddau a feddiennir gan berson cymhwysol. Mae'r meini prawf ar gyfer person cymhwysol wedi eu nodi o dan Dosbarth 7 yn Rhan 1.

Wrth ystyried cymhwystra ar gyfer yr eithriad hwn, gall awdurdod lleol ofyn am fathau penodol o dystiolaeth i brofi ei bod yn ofynnol i berson atebol fyw mewn annedd sy'n gysylltiedig â'i swydd. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- contract cyflogaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- hysbysiad galw am dalu'r dreth gyngor (i ddangos atebolrwydd mewn perthynas ag eiddo arall os yw'r prif gartref neu'r ail gartref yn y DU)
- ffurflenni treth neu ddatganiadau talu
- llythyr enwadol (mewn perthynas â Gweinidog Crefyddol)
- llythyr neu gontract ysgrifenedig gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (mewn perthynas â'r lluoedd arfog)

# Rhan 3: monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor

Yn ystod haf 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar. Ystyriwyd effeithiolrwydd y pwerau disgresiwn a roddwyd i awdurdodau lleol gymhwyso premiymau'r dreth gyngor i ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Galwodd llawer o ymatebion ar i awdurdodau lleol fod yn fwy tryloyw ynghylch sut maent yn gwario'r arian sy'n cael ei godi drwy'r premiwm.

Er mwyn asesu effeithiolrwydd y premiymau a sicrhau bod gwybodaeth ynghylch sut y cânt eu defnyddio ar gael yn glir i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn lleol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol adrodd ar y modd y caiff y premiymau eu gweithredu a'r refeniw ychwanegol a gynhyrchir.

Wrth ystyried y canllawiau hyn, dylai awdurdodau lleol hefyd roi ystyriaeth ddyledus i gyhoeddi gwybodaeth i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a rhaid iddynt roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar gais.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn cyflwyno'r wybodaeth ganlynol am bremiymau drwy ffurflen statudol CT1 (Anheddau'r Dreth Gyngor). Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i lunio'r datganiadau ystadegol blynyddol ar gasglu'r dreth gyngor.

- nifer yr eiddo sy'n atebol i dalu'r premiymau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- canran y premiwm a gymhwysir i gartrefi gwag hirdymor
- canran y premiwm a gymhwysir i ail gartrefi

O 1 Ebrill 2023, anogir awdurdodau lleol i gyhoeddi manylion am yr incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ar eu gwefannau.

Dylid cynnwys y canlynol o leiaf:

- cyfanswm nifer yr (i) Eiddo gwag hirdymor a (ii) ail gartrefi
- nifer yr eiddo a oedd yn atebol i dalu pob premiwm (i) Eiddo gwag hirdymor a (ii) ail gartrefi
- faint o incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar eiddo gwag hirdymor
- faint o incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar ail gartrefi
- sut mae'r incwm ychwanegol a godwyd wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r problemau a gaiff eu hachosi gan eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, neu fynd i'r afael â phroblemau tai lleol eraill

# Rhan 4: apeliadau

Os bydd person yn anfodlon â'i awdurdod lleol o ganlyniad i benderfyniad a wnaed ynghylch cyfrifo ei dreth gyngor, gan gynnwys ei atebolrwydd i dalu premiwm, dylai gysylltu â'r awdurdod lleol yn gyntaf i drafod y penderfyniad.

Os bydd person yn anfodlon o hyd ar ôl trafod â'i awdurdod lleol, gall gyflwyno apêl i'w awdurdod lleol.

Os bydd person yn anghytuno â chanlyniad proses apêl yr awdurdod lleol neu os na fydd yr awdurdod lleol yn darparu penderfyniad o fewn yr amserlenni gofynnol, gall y person gyflwyno apêl i Dribiwnlys Prisio Cymru. Ni chaiff person wneud hyn oni bai ei fod wedi dilyn proses apêl yr awdurdod lleol ac wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cydymffurfio ag unrhyw brosesau sy'n ofynnol gan y Tribiwnlys cyn y gellir cyflwyno apêl.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Tystiolaeth am effaith y premiwm treth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd**

**Diweddariad Tachwedd 2025**

**Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth, Cyngor Gwynedd**

## Cynnwys

1.0 Cyflwyniad .... 5
1.1 Pwrpas yr adroddiad .... 5
1.2 Dyddiadau allweddol .... 6
1.3 Sgôp yr adroddiad .... 7
2.0 Methodoleg .... 8
3.0 Diffiniadau .... 9
4.0 Niferoedd a dosbarthiad ail gartrefi, unedau gwyliau ac eiddo gwag hirdymor .... 10
5.0 Trosolwg o'r niferoedd fesul categori o Hydref 2019 ymlaen .... 14
6.0 Ail gartrefi: Tracio symudiadau eiddo dros y cyfnod .... 16
6.1 Crynhoi'r canlyniadau - tracio ail gartrefi .... 24
7.0 Eiddo gwag hirdymor .... 26
8.0 Casgliadau .... 29

# Tabl Ffigyrau

Ffigwr 1: Dyddiadau / cyfnodau ble mae gennym ddata ar gyfer tracio newidiadau categori (union ddyddiad oedd 1af o'r misoedd perthnasol heblaw am Hydref 2020 (2/10/20), Rhagfyr 2023 (18/12/23), Awst 2024 (7/8/24) a Rhagfyr 2024 (3/12/25)) .... 8
Ffigwr 2: Map o cyfran ail gartrefi fesul ward, Hydref 2025 .... 10
Ffigwr 3: Map o cyfran llety gwyliau fesul ward, Hydref 2025 .... 11
Ffigwr 4: Map o cyfran eiddo gwag hirdymor fesul ward, Hydref 2025 .... 12
Ffigwr 5: Map o cyfran cyfansawdd (cyfanswm ail gartrefi, eiddo gwag hirdymor ac unedau gwyliau) fesul ward, Hydref 2025 .... 13
Ffigwr 6: Niferoedd ail gartrefi, eiddo gwag hir-dymor ac unedau gwyliau yng Ngwynedd, Hydref 2019 – Hydref 2025 .... 14
Ffigwr 7: Newid mewn nifer ail gartrefi oherwydd eiddo yn trosglwyddo o fod yn neu i fod yn brif breswylfa neu ail gartref yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025, gan ddangos symudiadau o brif breswylfa i ail gartref, o ail gartref i brif breswylfa a'r cyfanswm symud net. .... 17
Ffigwr 8: Newid mewn nifer ail gartrefi oherwydd eiddo yn trosglwyddo o fod yn neu i fod yn unedau gwyliau neu ail gartref yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025, gan ddangos symudiadau o unedau gwyliau i ail gartref, o ail gartref i unedau gwyliau a'r cyfanswm symud net. .... 19
Ffigwr 9: Newid mewn nifer ail gartrefi oherwydd eiddo yn trosglwyddo o fod yn neu i fod yn gategorïau eraill yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025, gan ddangos symudiadau o gategorïau eraill i ail gartref, o ail gartref i gategorïau eraill a'r cyfanswm symud net. .... 20
Ffigwr 10: Newid mewn nifer ail gartrefi yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025 fel cyfanswm symud net fesul categori (newid o/i prif breswylfa, newid o/i unedau gwyliau, newidiadau eraill). .... 21
Ffigwr 11: Newid mewn nifer ail gartrefi yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025 gan ddangos symudiadau i mewn ac allan o fod yn ail gartref a'r cyfanswm symud net. .... 23
Ffigwr 12: Niferoedd eiddo gwag hirdymor (12+ mis) yng Ngwynedd rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025 .... 26
Ffigwr 13: Newid mewn nifer eiddo gwag hirdymor yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025 fel crynodeb o symudiadau net fesul categori a mewn cyfanswm. .... 27

## Mynegai i'r Tablau

Tabl 1: Dyddiadau allweddol o ran cyflwyno a chynyddu lefel y premiwm yng Ngwynedd dros y blynyddoedd ........ 6
Tabl 2: Newid o eiddo gwag hirdymor i brif breswylfa ........ 28

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas yr adroddiad

Ers Ebrill 2018 mae'r Cyngor wedi codi premiwm treth gyngor ar fwyafrif yr ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn y sir. Dros y blynyddoedd dilynol, cafodd lefel y premiwm ei gynyddu (gweler 'Dyddiadau allweddol' isod am fanylion y penderfyniadau / dyddiadau perthnasol).

Yn y trafodaethau ynglŷn â'r premiwm, fe godwyd yr angen i gasglu tystiolaeth am ei effaith ac fel rhan o hyn fe gawsom ein comisiynu gan y Tîm Arweinyddiaeth i ymchwilio i'r wybodaeth sydd ar gael fel rhan o'r sylfaen tystiolaeth i helpu'r Cyngor wrth benderfynu ar lefel briodol y premiwm ar ail gartrefi ac ar eiddo gwag hirdymor i'r dyfodol.

Fe gyhoeddwyd ein adroddiad ymchwil blaenorol[1] ar hyn fis Tachwedd 2024 (oedd yn edrych ar y cyfnod Hydref 2019 – Ebrill 2024). Mae'r adroddiad yma yn diweddaru canfyddiadau'r adroddiad hwnnw, gan gynnwys data hyd at Hydref 2025.

Yn yr un modd â'r adroddiad blaenorol felly, bydd yr adroddiad yma yn amcanu at ateb y cwestiynau canlynol:

- Ydi cynyddu'r premiwm wedi arwain at lai o ail gartrefi yng Ngwynedd?
- Beth ddigwyddodd i'r eiddo oedd gynt yn ail gartrefi – h.y. ydyn nhw wedi mynd o dalu'r dreth gyngor efo premiwm (ail gartref), i dalu treth gyngor sylfaenol (prif gartref), neu i'r gyfundrefn treth fusnes (llety gwyliau), neu unrhyw gategori arall
- Ydi'r cynnydd premiwm wedi arwain at ddod â thai gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd?

Nid yw'r diweddariad hwn yn cynnwys elfen arall oedd yn yr adroddiad blaenorol, sef ceisio darganfod mwy am y bobl sy'n byw mewn tai oedd gynt yn ail gartrefi ond bellach yn brif gartref, drwy ddadansoddi canlyniadau holiaduron anfonwyd i drigolion y tai hynny. Oherwydd amserlen cyhoeddi'r diweddariad hwn, maint y gwaith fyddai ei angen a chwestiwn am pa mor ddefnyddiol oedd canlyniadau'r elfen yma y tro o'r blaen (oherwydd cyfradd ymateb isel) ni fu'n bosibl diweddaru'r elfen yma ond mae modd cyfeirio at ganlyniadau'r ymarferiad blaenorol yn yr adroddiad diwethaf.

[1] 'Tystiolaeth am effaith y premiwm treth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd', Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd, Tachwedd 2024

## 1.2 Dyddiadau allweddol

Mae'n ddefnyddiol crynhoi'r dyddiadau allweddol o ran cyflwyno, a chynyddu lefel, y premiwm yng Ngwynedd dros y blynyddoedd (nodir y tri dyddiad pryd daeth y premiwm, neu gynnydd ynddo, yn weithredol mewn print bras).

*Tabl 1: Dyddiadau allweddol o ran cyflwyno a chynyddu lefel y premiwm yng Ngwynedd dros y blynyddoedd*

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| Hydref 2013 | Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hawl i awdurdodau godi premiwm |
| Medi 2014 | Deddf Tai (Cymru) yn caniatáu codi premiwm o hyd at 100% o Ebrill 2017 |
| Hydref 2016 | Cyngor yn ymgynghori ar yr egwyddor o godi premiwm, a'i lefel |
| Rhagfyr 2016 | Cyngor yn penderfynu codi premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor o Ebrill 2018 |
| **Ebrill 2018** | **Premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn weithredol yng Ngwynedd** |
| Rhagfyr 2020 | Cyngor yn ymgynghori ar y posibilrwydd o gynyddu'r premiwm i 100% |
| Mawrth 2021 | Cyngor yn penderfynu cynyddu'r premiwm i 100% |
| **Ebrill 2021** | **Cynnydd i 100% yn weithredol yng Ngwynedd, ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor** |
| Awst 2021 | Llywodraeth Cymru yn ymgynghori am ehangu'r pwerau i godi premiwm |
| Mawrth 2022 | Rheoliadau yn caniatáu codi premiwm o hyd at 300% ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor o Ebrill 2023 |
| Medi 2022 | Cyngor yn cychwyn ymgynghoriad ar sut dylid ymateb i'r newid yn y rheoliadau |
| Rhagfyr 2022 | Cyngor yn penderfynu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 150% (ond cadw'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn 100%) |
| **Ebrill 2023** | **Cynnydd i 150% ar gyfer ail gartrefi yn weithredol yng Ngwynedd (cadw yn 100% ar gyfer eiddo gwag hirdymor)** |
| Rhagfyr 2023, a Rhagfyr 2024 | Cyngor yn penderfynu cadw'r premiwm ar yr un lefel ond nodwyd y bwriad i barhau i edrych ar dystiolaeth ynghylch effaith y premiwm |

Yn ogystal â'r uchod, mae Ebrill 2023 hefyd yn arwyddocaol gan mai dyma pryd y daeth y newid i'r maen prawf ar gyfer diffinio llety hunan-ddarpar (ar gyfer eu trethu fel busnes yn hytrach na drwy'r dreth gyngor) yn weithredol ar draws Cymru – sef, yn fras, bod angen iddynt fod wedi'u gosod am isafswm 182 dydd yn hytrach na 70, ac ar gael i'w gosod am 252 dydd yn lle 140. Roedd yr amserlen ar gyfer gweithredu hyn yn debyg i'r amserlen ar gyfer ymestyn y pŵer i godi premiwm o hyd at 300% (h.y. Llywodraeth Cymru yn cychwyn ymgynghori yn Awst 2021, cyhoeddi eu bwriad i dynhau'r diffiniad ym Mawrth 2022, gweithredol o Ebrill 2023).

Wrth ddehongli canlyniadau'r ymchwil isod, bydd angen cofio y gallai unrhyw effaith ddigwydd dros gyfnod o boptu'r dyddiadau yma, yn hytrach nag ar yr union adeg honno. Er enghraifft – pe bai cynnydd yn y premiwm yn ysgogi rhai perchnogion ail gartrefi i werthu'u heiddo, mae'n bosib y byddent yn gwerthu wrth i'r cynnydd ddechrau gael ei drafod neu pryd penderfynwyd ei gynyddu, yn hytrach nag aros tan i'r newid ddod i rym. Ar y llaw arall, mae'n bosib na fyddent yn penderfynu gwerthu tan ar ôl i'r premiwm ddod i rym ac fe allai gwerthiant hefyd gymryd rhai misoedd i'w gwblhau, felly ni fyddai'r effaith yma yn amlwg am gryn amser wedi'r cynnydd yn y premiwm efallai.

Wrth gwrs mae yna hefyd lu o ffactorau eraill – y tu allan i'r gyfundrefn drethi lleol – allai fod wedi effeithio'r maes yma yn y cyfnod dan sylw, er enghraifft:

- Cyfnod Covid ac effaith ddilynol hynny ar y farchnad dai yn lleol;
- Newidiadau ym maint, a natur, y galw am lety gwyliau yng Ngwynedd (eto, yn cynnwys effeithiau yn dilyn o gyfnod Covid);
- Datganoli, a newid cyfraddau, trethi ar brynu tai gan arwain at newid y dreth taladwy wrth brynu ail gartref, a gwahaniaethau yn hyn o beth rhwng Cymru a Lloegr;
- Natur yr economi a chyflogaeth yng Ngwynedd ac yn gyffredinol, yn cynnwys yr argyfwng costau byw;
- Trafodaeth ar Gyfarwyddyd Erthygl 4, a chyflwyno hyn yn 2024.

Yn anorfod felly, mae angen dehongli canlyniadau'r ymchwil gyda gofal, gan gofio na ellir bob tro gymryd yn ganiataol bod newidiadau ddigwyddodd ar adeg codi'r premiwm, o reidrwydd wedi digwydd oherwydd y premiwm.

## 1.3 Sgôp yr adroddiad

Mae'r ymchwil yma yn canolbwyntio ar ddefnydd eiddo (tai yn newid i / o fod yn ail gartref neu yn wag hirdymor, ac unrhyw dueddiadau gwahanol yn y patrwm yma oddeutu, neu yn dilyn, adeg cynnydd yn y premiwm). I'r perwyl yma, fe wnaethom ddadansoddi manylion categorïau eiddo yn y system dreth gyngor, ac edrych am batrymau yn hyn yn enwedig o gwmpas adegau cynyddu'r premiwm. Mae mwy o fanylion am hyn yn y Methodoleg isod.

Wrth gwrs, mae yna agweddau posibl eraill o 'effaith y premiwm' nad yw'r adroddiad yma yn gallu ei ystyried (economaidd, ieithyddol, cymunedol ehangach, ac ati); mae'n bosib bod yna ffynonellau eraill o wybodaeth ar gael fyddai o help efo hyn.

## 2.0 Methodoleg

Fel eglurwyd uchod mae'r ymchwil yma yn seiliedig ar dracio symudiadau eiddo unigol yng Ngwynedd rhwng un categori a'r llall, ac o un cyfnod i'r nesaf. Mae hyn yn golygu, felly, bod angen setiau data cynhwysfawr, mewn ffurf cwbl gyson a chymaradwy â'i gilydd, i allu dilyn y newidiadau'n gywir dros amser.

Mae premiwm treth gyngor yn bodoli yng Ngwynedd ers Ebrill 2018; fodd bynnag nid ydym wedi gallu canfod data manwl, cyflawn a chyson yn mynd yn ôl mor bell â hynny (mae'n debyg nad oedd yr angen i gadw'r fath wybodaeth i bwrpas ymchwil wedi cael ei adnabod yr adeg honno chwaith). Nid oedd yn bosib, felly, i ni ddefnyddio adeg cyn i'r premiwm ddod i rym (neu, yn ddelfrydol, adeg cyn bod unrhyw sôn am gyflwyno premiwm o gwbl) fel pwynt cychwyn yr ymchwil.

Wedi trafod ffynonellau data posibl efo'r adran Gyllid, y ffynhonnell orau a adnabuwyd oedd data yn y ffurf adroddir ar gyfer ymarferiad paru data y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Mae hwn yn cynnwys manylion categori treth gyngor pob eiddo unigol yng Ngwynedd.


Mae'r data yma ar gael ar gyfer gwahanol ddyddiadau, yn mynd nôl i Hydref 2019. Mae hwnnw yn bwynt cychwyn synhwyrol p'run bynnag gan ei fod yn ein galluogi i gymharu'r patrwm "arferol" (dros tua blwyddyn cyn bod sôn am gynnydd yn y premiwm) gydag unrhyw batrymau gwahanol o amgylch:

- y cynnydd i 100% ar gyfer ail gartrefi ac ar gyfer eiddo gwag hirdymor (Ebrill 2021); ac
- y cynnydd i 150% ar gyfer ail gartrefi (Ebrill 2023).

Mae hyn hefyd yn cadw'r gwaith dadansoddi o fewn terfynau ymarferol bosibl, gan ei fod yn rhoi 14 set o ddata i ni ar wahanol ddyddiadau rhwng 1 Hydref 2019 ac 1 Hydref 2025. Gan fod dros 60,000 o eiddo yng Ngwynedd mae hyn yn golygu cymharu data a thracio newidiadau ar draws cyfanswm o dros 800,000 o eitemau data.

Gan y caiff data NFI ei adrodd ar sail dyddiadau penodol a bod y bylchau rhwng y dyddiadau yma yn gallu amrywio, mae'r dadansoddiad y gallwn ei wneud ar gyfer y blynyddoedd cyn 2024 yn seiliedig ar gyfnodau penodol, gyda rhai yn hwy na'i gilydd. Fodd bynnag yn dilyn y gwaith ymchwil wnaed llynedd rydym ni a'r adran Gyllid bellach wedi sefydlu trefn fel bod y data perthnasol yn cael ei redeg yn rheolaidd, yn chwarterol (h.y. p'run ai oes angen y data i bwrpas yr NFI yr adeg honno ai peidio) sy'n rhoi sail mwy cyson ar gyfer dadansoddi newidiadau dros amser. Dangosir hyn yn y diagram isod:




*Ffigwr 1: Dyddiadau / cyfnodau ble mae gennym ddata ar gyfer tracio newidiadau categori (union ddyddiad oedd 1af o'r misoedd perthnasol heblaw am Hydref 2020 (2/10/20), Rhagfyr 2023 (18/12/23), Awst 2024 (7/8/24) a Rhagfyr 2024 (3/12/25))*

## 3.0 Diffiniadau


Yng ngweddill yr adroddiad yma, oni nodir fel arall:

- Mae **'ail gartref'** yn golygu eiddo yn y gyfundrefn treth gyngor sydd wedi'i ddodrefnu, sydd heb fod yn brif breswylfa a heb waharddiad cynllunio rhag meddiannu yn llawn-amser. Mae mwyafrif y rhain yn talu'r premiwm treth gyngor ond mae yna rai eithriadau, e.e. (am gyfnod) eiddo sy'n cael ei farchnata ar werth / ar osod, neu eiddo gysylltiedig â gwaith;
- Mae **'eiddo gwag hirdymor'** yn golygu eiddo yn y gyfundrefn treth gyngor, sy'n wag a diddodrefn ers dros 12 mis ac felly premiwm treth gyngor yn daladwy arnynt;
- Mae **'tai eraill'** yn golygu yr holl eiddo yn y gyfundrefn treth gyngor heblaw am y 2 gategori uchod, a gan eithrio hefyd eiddo sydd â gwaharddiad cynllunio rhag eu meddiannu yn llawn-amser. Mae mwyafrif llethol y rhain, felly, yn brif breswylfannau (ond yn cynnwys hefyd eiddo sy'n wag ers llai na 12 mis);
- Mae **'uned gwyliau'** yn golygu uned llety gwyliau hunan-gynhaliol, sy'n cael ei drethu drwy'r gyfundrefn treth fusnes yn hytrach na drwy'r dreth gyngor;
- Mae **'cyfanswm tai'** yn gyfanswm y 4 categori uchod, h.y. yr holl eiddo yn y gyfundrefn treth gyngor heblaw am ail gartrefi sydd â gwaharddiad cynllunio rhag meddiannu yn llawn-amser, a gan ychwanegu hefyd unedau gwyliau hunan-gynhaliol sydd yn y gyfundrefn treth fusnes.

Er eglurder, nid ydym yn cynnwys yn yr ymarferiad hwn ail gartrefi sydd â gwaharddiad cynllunio rhag eu meddiannu yn llawn-amser ('chalets' ac ati, elwir yn 'Dosbarth A' mewn rheoliadau treth cyngor). Ystyrir bod rhain i bob pwrpas y tu allan i'r stoc tai defnyddiadwy 'arferol' ac ni fyddwn felly yn eu cynnwys yn y dadansoddiad yma.


## 4.0 Niferoedd a dosbarthiad ail gartrefi, unedau gwyliau ac eiddo gwag hirdymor

- Yn Hydref 2025 roedd yna 4,847 o ail gartrefi yng Ngwynedd (yn unol â'r categori yn y system treth gyngor). Mae hyn yn cynrychioli 7.6% o'r cyfanswm tai yng Ngwynedd. Roedd 4,442 (91.6%) o'r ail gartrefi yn talu'r premiwm.
- Mae'r map isod yn dangos cyfran yr ail gartrefi fesul ward ac yn dangos bod dosbarthiad ail gartrefi ar draws y sir yn anwastad iawn, yn amrywio o ddim ail gartrefi yn ward Hendre i 46.6% yn ward Abersoch gyda Llanengan. Yn gyffredinol mae'r canrannau uchaf yn ardaloedd arfordirol Llŷn, Eifionydd a Meirionnydd.




*Ffigwr 2: Map o cyfran ail gartrefi fesul ward, Hydref 2025*


- Er nad yw'r ymchwil yma yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw – mae unedau gwyliau (gaiff eu trethu fel busnes) hefyd yn ystyriaeth berthnasol gan fod nifer o eiddo wedi bod yn symud rhwng y gyfundrefn treth gyngor (fel ail gartref) a'r gyfundrefn treth fusnes (fel llety gwyliau), gyda'r patrwm a'r niferoedd yma yn gallu gwahaniaethu ar wahanol adegau. Yn Hydref 2025 roedd yna 1,900 o unedau gwyliau yn y gyfundrefn trethi busnes yng Ngwynedd; mae hyn yn cynrychioli 3.0% o'r cyfanswm tai. Mae dosbarthiad y rhain ar draws Gwynedd eto yn anwastad, fel ddangosir yn y map isod (yn amrywio o ddim llety gwyliau yn ward Hendre i 8.6% yn ward Abersoch gyda Llanengan).




*Ffigwr 3: Map o cyfran llety gwyliau fesul ward, Hydref 2025*


- Yn Hydref 2025 roedd yna 1,070 o eiddo gwag hirdymor yn y gyfundrefn treth gyngor yng Ngwynedd, sy'n cynrychioli 1.7% o'r cyfanswm tai. Mae'r map isod yn dangos cyfran y rhain fesul ward ac yn dangos bod dosbarthiad eiddo gwag hirdymor ar draws y sir yn anwastad iawn, gan amrywio o 0.2% yn ward Hendre i 5.7% yn ward Llanbedrog gyda Mynytho. Wrth ei natur, mae'r patrwm yma yn debygol o amrywio dros amser hefyd

(e.e. y cyn-Gartref Pwylaidd ym Mhenrhos sy'n gyfrifol am fwyafrif yr unedau gwag cyfredol yn ward Llanbedrog gyda Mynytho).




*Ffigwr 4: Map o cyfran eiddo gwag hirdymor fesul ward, Hydref 2025*

- Dangosir yn y map isod y canran cyfansawdd (cyfanswm ail gartrefi, eiddo gwag hirdymor ac unedau gwyliau, fel canran o'r cyfanswm tai) fesul ward; Abersoch gyda Llanengan (57.8%), Aberdyfi (42.0%) a Llanbedrog gyda Mynytho (32.8%) yw'r uchaf o dan y mesur yma.





*Ffigwr 5: Map o cyfran cyfansawdd (cyfanswm ail gartrefi, eiddo gwag hirdymor ac unedau gwyliau) fesul ward, Hydref 2025*

Dangosir y canrannau manwl fesul ward sy'n sail i'r mapiau uchod yn **Atodiad 1**.

## 5.0 Trosolwg o'r niferoedd fesul categori o Hydref 2019 ymlaen

Mae'r siart isod yn dangos y niferoedd ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor (yn y gyfundrefn treth gyngor) ac unedau gwyliau (yn y gyfundrefn treth fusnes) ar wahanol ddyddiadau o Hydref 2019 ymlaen.

(data NFI, ond hefyd gan mai cyfansymiau ar draws Gwynedd sydd dan sylw yma rydym wedi gallu canfod data arall er mwyn i'r dadansoddiad gynnwys mwy o ddyddiadau)




*Ffigwr 6: Niferoedd ail gartrefi, eiddo gwag hir-dymor ac unedau gwyliau yng Ngwynedd, Hydref 2019 – Hydref 2025*

O'r siart yma, gallwn weld rhai patrymau cyffredinol:

- **Hyd at tua Ionawr 2024, fe fu'r nifer ail gartrefi yng Ngwynedd yn gostwng**. Yn 2019 a 2020 roedd y nifer yn eithaf sefydlog, oddeutu 4,900 i 5,000, ond fe ostyngodd wedyn i tua 4,200 erbyn Ionawr 2024, gyda **mwyafrif y gostyngiad yma wedi digwydd mewn dau gyfnod penodol** (rhwng tua Ionawr 2021 a Hydref 2021, a wedyn gostyngiad cyflymach rhwng Rhagfyr 2022 a Ionawr 2024).

- **O Ionawr 2024 ymlaen** fodd bynnag, mae'r **nifer ail gartrefi** (yn unol â'r categori yn y system treth gyngor) **wedi bod yn cynyddu'n gyflym** gan gyrraedd, erbyn hyn, yn agos i'r lefel oedd yna tua dechrau 2021 (oddeutu 4,850). Mae awgrym yn y data diweddaraf y gallai'r cynnydd fod yn arafu ychydig ond mae'r cynnydd yn parhau i raddau.

- **Hyd at tua Ebrill 2023 fe fu nifer yr unedau gwyliau'n cynyddu**, gan fynd o tua 1,800 (Hydref 2019) i tua 2,900 (Ebrill 2023). Ond ers hynny, ac yn enwedig **o Awst 2024 ymlaen, mae'r niferoedd unedau gwyliau wedi gostwng yn gyson** gan gyrraedd yn ôl i tua 1,900 erbyn hyn.

- Mae'r **niferoedd eiddo gwag hirdymor wedi amrywio ychydig** (rhwng tua 1,000 a 1,200 ar draws Gwynedd); ar yr wyneb 'does **dim llawer o batrwm amlwg** yn yr amrywiadau yma.

Er bod y ffigyrau moel yma yn rhoi syniad o'r prif symudiadau dros y cyfnod dan sylw, nid ydynt yn rhoi llawer o wybodaeth am beth ddigwyddodd i'r eiddo yn y gwahanol gategorïau (e.e. beth ydi defnydd y tai oedd gynt yn ail gartrefi). I gael gwell syniad am yr hyn sy'n mynd ymlaen felly, rydym wedi tracio sefyllfa eiddo unigol ar hyd y cyfnod fel ddangosir yn rhannau nesaf yr adroddiad.

## 6.0 Ail gartrefi: Tracio symudiadau eiddo dros y cyfnod


O dracio a dadansoddi categorïau eiddo unigol yn y system gweinyddu treth gyngor (data NFI ar 14 dyddiad penodol rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025, fel eglurwyd yn y Methodoleg uchod), gellir edrych yn fanylach ar batrwm symudiadau rhwng un categori a'r llall ac edrych am batrymau yn hyn yn enwedig o gwmpas adegau cynyddu'r premiwm.


Mae'r siartiau dilynol yn dadansoddi symudiadau eiddo i, ac o, y categori Ail Gartrefi yn y gyfundrefn treth gyngor fesul 3 gwahanol fath o symudiadau, sef (i) symud rhwng ail gartref a phrif breswylfa (ii) symud rhwng ail gartref ac uned wyliau (iii) newid rhwng ail gartref a chategorïau eraill.

Yn yr holl siartiau isod, dangosir y symudiadau 'gros' (nifer eiddo yn symud i fod yn ail gartref, a nifer eiddo yn symud o fod yn ail gartref), a wedyn y symudiad 'net' (h.y. y gwahaniaeth rhwng y ddau ffigwr uchod), ym mhob un o'r cyfnodau. Mae hyn yn dangos hefyd y gall y sefyllfa net fod yn cuddio trosiant sylweddol (i mewn ac allan o'r categori ail gartrefi) o fewn y ffigyrau, ac yn amlygu'r angen i gymryd gofal wrth ddehongli y sefyllfa net, h.y. hyd yn oed mewn amgylchiadau 'arferol', sefydlog fe geir symudiadau sylweddol o eiddo i, ac o, fod yn ail gartrefi.

Ym mhob achos fe atgynhyrchir y siart o'r adroddiad blaenorol (yn dadansoddi Hydref 2019 – Ebrill 2024) a wedyn fe gynhwysir y siart newydd (yn dadansoddi Ebrill 2024 – Hydref 2025). Mae'r data llawn tu ôl i'r siartiau diweddaraf (gan gynnwys dadansoddiad manylach o fewn y 'categorïau eraill') yn **Atodiad 2**.


***Newid rhwng Ail Gartrefi a Phrif Breswylfa***







*Ffigwr 7: Newid mewn nifer ail gartrefi oherwydd eiddo yn trosglwyddo o fod yn neu i fod yn brif breswylfa neu ail gartref yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025, gan ddangos symudiadau o brif breswylfa i ail gartref, o ail gartref i brif breswylfa a'r cyfanswm symud net.*


***Newid rhwng Ail Gartrefi ac Unedau Gwyliau***




*Ffigwr 8: Newid mewn nifer ail gartrefi oherwydd eiddo yn trosglwyddo o fod yn neu i fod yn unedau gwyliau neu ail gartref yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025, gan ddangos symudiadau o unedau gwyliau i ail gartref, o ail gartref i unedau gwyliau a'r cyfanswm symud net.*

### *Newid rhwng Ail Gartrefi a Chategorïau Eraill*








*Ffigwr 9: Newid mewn nifer ail gartrefi oherwydd eiddo yn trosglwyddo o fod yn neu i fod yn gategorïau eraill yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025, gan ddangos symudiadau o gategorïau eraill i ail gartref, o ail gartref i gategorïau eraill a'r cyfanswm symud net.*

***Crynhoi'r symudiadau net***


Gallwn wedyn ddod â'r prif ffigyrau o'r 3 set o siartiau uchod at ei gilydd, i ddangos y symudiad net ym mhob cyfnod fesul y tri phrif gategori, yn y siartiau isod. Mae hyn yn dangos yn eglur y prif dueddiadau net ar y gwahanol adegau yn ystod y cyfnod.





*Ffigwr 10: Newid mewn nifer ail gartrefi yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025 fel cyfanswm symud net fesul categori (newid o/i prif breswylfa, newid o/i unedau gwyliau, newidiadau eraill).*

Mae'r siartiau isod yn dod â'r cyfan uchod at ei gilydd i ddangos y cyfanswm symudiadau i mewn i, ac allan o'r, categori ail gartrefi ym mhob cyfnod. Dangosir y symudiadau gros (i mewn / allan o'r categori ail gartref) yn ogystal â'r newid net (y gwahaniaeth rhwng y symudiadau i mewn ac allan), gan amlygu eto bod yna drosiant sylweddol o ran sefyllfa eiddo unigol hyd yn oed ar adegau pan mae'r ffigwr cyfanswm yn weddol sefydlog.






*Ffigwr 11: Newid mewn nifer ail gartrefi yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025 gan ddangos symudiadau i mewn ac allan o fod yn ail gartref a'r cyfanswm symud net.*

## 6.1 Crynhoi'r canlyniadau - tracio ail gartrefi

Wrth edrych ar lif eiddo **rhwng ail gartrefi a phrif breswylfeydd** (sef y bariau gwyrdd yn y siartiau yn Ffigwr 10 uchod):

- **Yn hanesyddol** (sef cyn Hydref 2020; cyn bod sôn am gynyddu lefel y premiwm i 100%) ymddengys mai'r duedd "naturiol" oedd bod yna lif cyson (net) o eiddo o fod yn brif breswylfeydd i fod yn ail gartrefi.

- **Adeg y cynnydd premiwm i 100%** yn Ebrill 2021, fe gafodd y llif yma ei wrthdroi yn y cyfnod yn union cyn y cynnydd (llif net o ail gartref i brif breswylfa, rhwng Hydref 2020 ac Ebrill 2021). Ond ymddengys mai bychan a byrhoedlog fu unrhyw effaith, gyda'r llif wedi dychwelyd i'r patrwm hanesyddol (h.y. o brif breswylfeydd i ail gartrefi) wedi Ebrill 2021.

- **Adeg y cynnydd premiwm i 150%** yn Ebrill 2023, fe welwyd y patrwm yn gwrthdroi unwaith eto, efo symudiad net o ail gartrefi i brif breswylfeydd o Rhagfyr 2022 ymlaen (sef tua'r adeg y trafodwyd / ymgynghorwyd ar y cynnydd premiwm cyn iddo ddod i rym).

- Yn wahanol i'r tro cynt, fodd bynnag, mae'r **newid yma wedi profi'n llawer mwy hirhoedlog** efo'r symudiad net o ail gartrefi i brif breswylfeydd wedi parhau ym mhob cyfnod ers hynny (gydag un eithriad sef y cyfnod Ebrill 2024 – Awst 2024).

Wrth edrych ar lif eiddo **rhwng ail gartrefi ac unedau gwyliau** (sef y bariau oren yn y siartiau yn Ffigwr 10 uchod):

- **Yn hanesyddol** (sef cyn Ebrill 2023) y duedd bendant fu i eiddo symud o fod yn ail gartrefi i fod yn unedau gwyliau.

- **O Ebrill 2023 ymlaen** fodd bynnag (sy'n cyd-daro â'r adeg y newidiwyd y meini prawf ar gyfer trethu llety hunan-ddarpar) mae'r patrwm yma wedi gwrthdroi, gyda symudiad net bellach o unedau gwyliau (yn y gyfundrefn treth fusnes) i gael eu trethu fel ail gartref (yn y gyfundrefn treth gyngor). Mae hyn wedi digwydd ym mhob cyfnod o Ebrill 2023 ymlaen, ac eithrio un sef Ebrill 2024 – Awst 2024.

- Mae hyn yn **arbennig o wir yn y cyfnod mwyaf diweddar**, gyda tua 550 eiddo (net) wedi trosglwyddo o uned wyliau i ail gartref rhwng Awst 2024 a Hydref 2025.

O ran yr effaith ar gyfanswm nifer yr ail gartrefi yn y gyfundrefn treth gyngor, felly:

- **Yn hanesyddol**, ymddengys fod y ddau brif symudiad yn fwy neu lai wrthbwyso'i gilydd, fel bod y cyfanswm nifer ail gartrefi yn aros yn weddol gyson (h.y. roedd y llif o brif breswylfeydd i ail gartrefi, tua'r un faint â'r llif o ail gartrefi i unedau gwyliau).


- **Am gyfnodau o gwmpas y ddau gynnydd yn y premiwm** (sef cyn y cynnydd i 100% yn Ebrill 2021, ac wedyn yn fwy pendant cyn ac ar ôl y cynnydd i 150% yn Ebrill 2023) fe fu'r newid

yng nghyfeiriad y llif rhwng ail gartrefi a phrif breswylfeydd yn ddigon i beri bod cyfanswm nifer yr ail gartrefi yn disgyn yn y cyfnodau yma.

- **O Awst 2024 ymlaen** fodd bynnag, mae'r llif eiddo o unedau gwyliau i ail gartrefi wedi bod yn llawer uwch na'r llif (sy'n parhau i raddau) o ail gartrefi i brif breswylfeydd. Golyga hyn bod cyfanswm nifer yr ail gartrefi (a drethir drwy'r gyfundrefn dreth gyngor) yn cynyddu erbyn hyn.

## 7.0 Eiddo gwag hirdymor

Dangosir yn y siart isod y nifer eiddo gwag hirdymor (h.y. yn wag dros 12 mis ac felly yn talu premiwm) yn y system gweinyddu treth gyngor rhwng Hydref 2019 a Hydref 2025. Mae hyn yn cynnwys yr adeg y cynyddodd y premiwm ddiwethaf (o 50% i 100%, yn Ebrill 2021).






*Ffigwr 12: Niferoedd eiddo gwag hirdymor (12+ mis) yng Ngwynedd rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025*

Fe welir felly bod y cyfanswm wedi amrywio rhywfaint (rhwng tua 1,000 a 1,200) dros y cyfnod ond heb lawer o batrwm amlwg i'r newid, heblaw efallai am:

- Gostyngiad net o -121 yn Ebrill – Rhagfyr 2021 (sef yn dilyn y cynnydd premiwm diwethaf, ac ar ôl cyfnod pan fu'r nifer yn cynyddu'n raddol). Ond fe gafodd hyn fwy neu lai ei wrthbwyso wedyn gan gynnydd net o +95 yn y cyfnod dilynol Rhagfyr 2021 – Rhagfyr 2022.
- Rhywfaint o ostyngiad yn y cyfnod diweddar (o 1,154 yn Ionawr 2024 i 1,033 yng Ngorffennaf 2025) ond mae'r nifer wedi cynyddu yn ôl rywfaint (i 1,070) erbyn Hydref 2025.

Yn yr un modd ag a wnaed efo ail gartrefi (uchod), rydym wedi tracio a dadansoddi newidiadau categori eiddo unigol i, ac o, y categori eiddo gwag hirdymor (er mwyn gwybod i le, ac o le, roedd yr eiddo yma'n cyrraedd y categori hwnnw o fewn y system gweinyddu treth gyngor) ac fe grynhoir canlyniadau hyn yn y siartiau isod (y data llawn yn **Atodiad 3**).




*Ffigwr 13: Newid mewn nifer eiddo gwag hirdymor yn y gyfundrefn Treth Gyngor fesul cyfnod rhwng Hydref 2019 – Hydref 2025 fel crynodeb o symudiadau net fesul categori a mewn cyfanswm.*

O edrych yn fwy penodol ar eiddo yn newid o eiddo gwag hirdymor i brif breswylfan, fe welir y patrwm canlynol:

*Tabl 2: Newid o eiddo gwag hirdymor i brif breswylfa*

| Cyfnod | Nifer misoedd | Nifer eiddo yn trosglwyddo o eiddo gwag hirdymor i brif breswylfa | Cyfartaledd nifer eiddo yn trosglwyddo fesul mis |
|---|---|---|---|
| 1/10/19 – 1/4/20 | 6 | 184 | 31 |
| 1/4/20 – 2/10/20 | 6 | 203 | 34 |
| 2/10/20 – 1/4/21 | 6 | 165 | 28 |
| 1/4/21 – 1/12/21 | 8 | 296 | 37 |
| 1/12/21 – 1/12/22 | 12 | 249 | 21 |
| 1/12/22 – 1/4/23 | 4 | 126 | 32 |
| 1/4/23 – 18/12/23 | 9 | 275 | 31 |
| 18/12/23 – 1/4/24 | 3 | 150 | 50 |
| 1/4/24 – 7/8/24 | 4 | 189 | 47 |
| 7/8/24 – 3/12/24 | 4 | 136 | 34 |
| 3/12/24 – 1/4/25 | 4 | 139 | 35 |
| 1/4/25 – 1/7/25 | 3 | 165 | 55 |
| 1/7/25 – 1/10/25 | 3 | 104 | 35 |

Mae'n anodd gweld llawer o batrwm pendant yn y ffigyrau yma – fe drosglwyddodd nifer ychydig uwch na'r arfer yn y cyfnod yn union wedi'r cynnydd premiwm yn Ebrill 2021, ond fe aeth y ffigyrau yn ôl i lawr wedyn. Mae yna awgrym hefyd o ffigyrau rywfaint uwch yn newid ar rai adegau (e.e. tua dechrau 2024 a rhwng Ebrill-Mehefin 2025) ond fel arall 'does yna ddim llawer o batrwm amlwg i'w weld yma.

At ei gilydd, felly, mae'n anodd gweld y bu i'r cynnydd diwethaf yn y premiwm treth gyngor ar eiddo gwag hirdymor (i 100%, yn Ebrill 2021) arwain at unrhyw newid hirhoedlog ym mhatrymau / niferoedd yr eiddo yma.

Yn y blynyddoedd dilynol, er bod yna niferoedd o eiddo gwag wedi trosglwyddo allan o'r categori hwnnw – yn bennaf yn dychwelyd i fod yn brif breswylfeydd (mae'n debygol bod tipyn o'r rhain yn deillio o brosiectau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd) mae yna hefyd nifer o eiddo wedi dod yn wag hirdymor o'r newydd. O ran niferoedd, mae effaith y ddau beth yma wedi fwy neu lai canslo'i gilydd allan – fel nad oes llawer o newid wedi bod yng nghyfanswm nifer yr eiddo gwag hirdymor ar draws y sir yn y blynyddoedd diwethaf.

## 8.0 Casgliadau

***Ail gartrefi***

Fe fu yna lif net o eiddo o ail gartrefi i brif breswylfeydd cyn y cynnydd premiwm i 100% yn Ebrill 2021, ac (yn fwy pendant) cyn ac ar ôl y cynnydd i 150% yn Ebrill 2023. Mae hyn yn groes i'r patrwm arferol blaenorol lle gwelid llif y ffordd arall, o brif breswylfeydd i ail gartrefi. Mae'n ymddangos bod effaith y newid olaf yma yn fwy hirhoedlog, gan bod llif net o eiddo o ail gartrefi i brif breswylfeydd yn parhau i fodoli, ddwy flynedd a hanner ar ôl y newid diwethaf yng nghyfradd y premiwm.

Mae'n ymddangos felly (er rhaid cofio am gyfyngiadau'r wybodaeth, a ffactorau eraill allai fod wedi dylanwadu ar y sefyllfa) fod y premiwm wedi gwneud cyfraniad at ddod ag ail gartrefi yn ôl i ddefnydd fel prif breswylfeydd.

Y llif arall pwysig, fodd bynnag, ydi'r symudiad rhwng ail gartrefi ac unedau gwyliau, ac mae'n ymddangos bod cyfeiriad y llif yma wedi gwrthdroi yn llwyr o Ebrill 2023 ymlaen – sef y dyddiad daeth y newid meini prawf o ran trethu llety gwyliau hunan-ddarpar i rym. Bellach mae'r llif yn golygu symudiad (net) o unedau gwyliau (yn y gyfundrefn treth fusnes) i ail gartrefi (yn y gyfundrefn treth gyngor).

Yn y cyfnod mwy diweddar, ers Awst 2024, mae'r llif yma (o unedau gwyliau i ail gartrefi) wedi cyflymu – i'r graddau ei fod yn fwy erbyn hyn na'r llif arall (o ail gartrefi i brif breswylfeydd) gan olygu felly bod cyfanswm nifer yr eiddo drethir fel ail gartrefi yn cynyddu.

***Eiddo gwag hirdymor***

Nid yw'n ymddangos fod y cynnydd diwethaf yn y premiwm treth gyngor ar eiddo gwag hirdymor (i 100%, yn Ebrill 2021) wedi arwain at unrhyw newid hirhoedlog ym mhatrymau / niferoedd yr eiddo yma yng Ngwynedd.

Yn y blynyddoedd ers 2021, er bod yna niferoedd o eiddo gwag wedi trosglwyddo allan o'r categori hwnnw – yn bennaf yn dychwelyd i fod yn brif breswylfeydd (gyda nifer o'r trosglwyddiadau yma yn debygol o fod wedi deillio o gynlluniau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd) – mae yna hefyd nifer o eiddo wedi dod yn wag hirdymor o'r newydd. O ran niferoedd, mae maint y ddwy elfen yma wedi bod yn eithaf tebyg i'w gilydd, gan olygu felly nad oes llawer o newid wedi bod yng nghyfanswm nifer yr eiddo gwag hirdymor ar draws y sir yn y blynyddoedd diwethaf.

***Parhau i fonitro'r sefyllfa***

Mae'r tîm Ymchwil wedi bod yn cydweithio â thimau eraill yn y Cyngor er mwyn sicrhau bod adroddiadau yn cael eu rhedeg, a data yn cael ei gadw, yn rheolaidd i hwyluso gallu dadansoddi ac adrodd ar y tueddiadau yma i'r dyfodol. 'Rydym hefyd yn cydweithio ar ffordd o allu cyfatebu eiddo rhwng y ddwy gyfundrefn fel bod gwybodaeth am eiddo'n trosglwyddo rhwng y gwahanol gategorïau ar gael yn haws heb gymaint o waith dadansoddi llafurus; bydd hyn yn galluogi i ddadansoddiad fod ar gael yn chwarterol, ar ffurf dashfwrdd, i wahanol adrannau perthnasol y Cyngor.

# Atodiadau

**Atodiad 1:** Canrannau ail gartrefi, eiddo gwag hirdymor, ac unedau gwyliau o’r cyfanswm tai fesul ward etholiadol, Hydref 2025

*(wedi’u trefnu o uchaf i isaf yn ôl cyfran yr ail gartrefi)*

| Ward | Ail Gartrefi fel canran o Gyfanswm Tai | Ranc (1=uchaf, 65=isaf) | Eiddo Gwag Hirdymor fel canran o Gyfanswm Tai | Ranc (1=uchaf, 65=isaf) | Unedau Gwyliau fel canran o Gyfanswm Tai | Ranc (1=uchaf, 65=isaf) | Cyfran gyfansawdd (Ail Gartrefi + Eiddo Gwag Hirdymor + Unedau Gwyliau fel % o Gyfanswm Tai) | Ranc (1=uchaf, 65=isaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abersoch gyda Llanengan | 46.6 | 1 | 2.6 | 5 | 8.6 | 1 | 57.8 | 1 |
| Aberdyfi | 32.3 | 2 | 2.1 | 18 | 7.6 | 3 | 42.0 | 2 |
| Llanbedrog gyda Mynytho | 23.6 | 3 | 5.7 | 1 | 3.5 | 25 | 32.8 | 3 |
| Gorllewin Porthmadog | 20.9 | 4 | 1.4 | 39 | 8.4 | 2 | 30.7 | 4 |
| Morfa Nefyn a Thudweiliog | 18.3 | 5 | 2.4 | 6 | 5.2 | 9 | 25.9 | 5 |
| Pen draw Llyn | 14.5 | 6 | 2.4 | 7 | 7.3 | 6 | 24.2 | 6 |
| Harlech a Llanbedr | 14.2 | 7 | 2.2 | 14 | 4.4 | 18 | 20.8 | 7 |
| Nefyn | 13.7 | 8 | 1.5 | 37 | 4.3 | 19 | 19.5 | 12 |
| Arthog a Llangelynnin | 13.3 | 9 | 2.3 | 11 | 4.8 | 16 | 20.4 | 8 |
| Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd | 12.6 | 10 | 1.9 | 25 | 5.3 | 8 | 19.8 | 10 |
| Abermaw | 11.9 | 11 | 1.9 | 26 | 5.8 | 7 | 19.6 | 11 |
| Glaslyn | 10.7 | 12 | 2.1 | 17 | 7.4 | 5 | 20.2 | 9 |
| Gorllewin Tywyn | 10.7 | 13 | 1.6 | 36 | 1.1 | 48 | 13.3 | 21 |
| Yr Eifl | 10.2 | 14 | 2.3 | 9 | 2.7 | 30 | 15.2 | 17 |
| Bro Dysynni | 10.1 | 15 | 1.7 | 31 | 3.3 | 29 | 15.1 | 18 |
| Morfa Tywyn | 9.8 | 16 | 0.7 | 62 | 2.4 | 36 | 12.8 | 23 |
| Criccieth | 9.5 | 17 | 1.2 | 48 | 7.5 | 4 | 18.2 | 13 |
| Gogledd Dolgellau | 8.6 | 18 | 1.9 | 24 | 5.1 | 12 | 15.6 | 15 |
| Trawsfynydd | 8.5 | 19 | 2.1 | 15 | 4.9 | 13 | 15.5 | 16 |
| Llandderfel | 8.0 | 20 | 2.2 | 12 | 3.8 | 23 | 14.0 | 20 |
| Dyffryn Ardudwy | 7.9 | 21 | 2.9 | 3 | 5.1 | 10 | 16.0 | 14 |
| Efailnewydd a Buan | 7.8 | 22 | 1.4 | 42 | 2.5 | 34 | 11.7 | 28 |
| Corris a Mawddwy | 7.7 | 23 | 3.1 | 2 | 4.1 | 21 | 15.0 | 19 |
| Llanuwchllyn | 7.3 | 24 | 1.6 | 34 | 3.5 | 26 | 12.4 | 24 |
| Teigl | 7.0 | 25 | 2.0 | 20 | 3.3 | 28 | 12.4 | 25 |
| Dolbenmaen | 6.4 | 26 | 1.8 | 30 | 4.8 | 14 | 13.0 | 22 |
| Clynnog | 5.9 | 27 | 2.0 | 22 | 4.4 | 17 | 12.2 | 26 |
| Llanystumdwy | 5.8 | 28 | 2.1 | 16 | 3.9 | 22 | 11.8 | 27 |
| De Pwllheli | 5.3 | 29 | 1.4 | 41 | 1.2 | 42 | 8.0 | 35 |
| De Dolgellau | 5.0 | 30 | 1.7 | 33 | 2.5 | 33 | 9.1 | 33 |
| Waunfawr | 4.9 | 31 | 2.4 | 8 | 3.4 | 27 | 10.6 | 30 |
| Bowydd a'r Rhiw | 4.7 | 32 | 2.3 | 10 | 3.8 | 24 | 10.7 | 29 |
| Llanberis | 4.6 | 33 | 1.1 | 50 | 4.1 | 20 | 9.8 | 31 |
| Penrhyndeudraeth | 4.3 | 34 | 1.7 | 32 | 0.6 | 55 | 3.5 | 54 |
| Llanllyfni | 4.1 | 35 | 1.5 | 38 | 1.2 | 45 | 6.9 | 41 |
| Bethel a'r Felinheli | 3.7 | 36 | 1.0 | 53 | 2.3 | 37 | 7.0 | 39 |
| Diffwys a Maenofferen | 3.6 | 37 | 2.8 | 4 | 2.6 | 32 | 9.0 | 34 |
| Canol Tref Caernarfon | 3.5 | 38 | 1.9 | 28 | 1.7 | 41 | 7.1 | 38 |
| Y Groeslon | 3.4 | 39 | 1.8 | 29 | 2.4 | 35 | 7.6 | 37 |
| Abererch | 3.0 | 40 | 1.1 | 49 | 2.2 | 38 | 6.3 | 44 |
| Arllechwedd | 2.9 | 41 | 1.6 | 35 | 0.9 | 52 | 5.4 | 46 |
| Y Bala | 2.9 | 42 | 1.9 | 27 | 2.1 | 39 | 6.9 | 42 |
| Tryfan | 2.9 | 43 | 1.9 | 23 | 0.8 | 53 | 5.7 | 45 |
| Gogledd Pwllheli | 2.9 | 44 | 2.0 | 21 | 1.7 | 40 | 6.6 | 43 |
| Y Bontnewydd | 2.5 | 45 | 2.2 | 13 | 4.8 | 15 | 9.5 | 32 |
| Dwyrain Porthmadog | 2.5 | 46 | 1.2 | 47 | 1.2 | 44 | 4.9 | 47 |
| Gerlan | 2.4 | 47 | 1.0 | 52 | 1.0 | 49 | 4.5 | 50 |
| Tre-garth a Mynydd Llandygai | 2.3 | 48 | 0.5 | 63 | 1.2 | 43 | 4.0 | 52 |
| Deiniolen | 2.2 | 49 | 1.2 | 46 | 0.9 | 50 | 4.4 | 51 |
| Y Faenol | 2.0 | 50 | 0.8 | 58 | 0.8 | 54 | 3.7 | 53 |
| Canol Bangor | 2.0 | 51 | 1.1 | 51 | 0.3 | 60 | 3.3 | 55 |
| Cwm-y-glo | 1.5 | 52 | 1.4 | 45 | 5.1 | 11 | 7.9 | 36 |
| Llanwnda | 1.4 | 53 | 0.8 | 60 | 2.7 | 31 | 4.8 | 48 |
| Penisa'r-waun | 1.4 | 54 | 1.4 | 40 | 1.2 | 46 | 6.9 | 40 |
| Canol Bethesda | 1.4 | 55 | 1.4 | 43 | 0.4 | 59 | 3.1 | 56 |
| Dwyrain Bangor | 1.3 | 56 | 0.9 | 55 | 0.2 | 63 | 2.4 | 59 |
| Pen-y-groes | 1.2 | 57 | 2.0 | 19 | 1.1 | 47 | 4.5 | 49 |
| Rachub | 1.0 | 58 | 0.9 | 57 | 0.9 | 51 | 2.8 | 57 |
| Menai | 1.0 | 59 | 0.9 | 56 | 0.4 | 58 | 2.3 | 60 |
| Glyder | 1.0 | 60 | 0.8 | 59 | 0.3 | 61 | 2.0 | 61 |
| Llanrug | 0.9 | 61 | 1.4 | 44 | 0.5 | 57 | 2.7 | 58 |
| Peblig | 0.5 | 62 | 0.9 | 54 | 0.2 | 64 | 1.6 | 63 |
| Cadnant | 0.5 | 63 | 0.8 | 61 | 0.5 | 56 | 1.8 | 62 |
| Dewi | 0.4 | 64 | 0.4 | 64 | 0.2 | 62 | 0.9 | 64 |
| Hendre | 0.0 | 65 | 0.2 | 65 | 0.0 | 65 | 0.2 | 65 |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth ar sail data o'r system treth gyngor, dyddiedig 1/10/25

**Atodiad 2:** Symudiadau niferoedd i ac o'r categori Ail Gartrefi o Ebrill 2024

| **Symudiadau niferoedd 2il gartrefi - Gwynedd gyfan** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | **Rhwng 01/04/24 a 07/08/24** | **Rhwng 07/08/24 a 03/12/24** | **Rhwng 03/12/24 a 01/04/25** | **Rhwng 01/04/25 a 01/07/25** | **Rhwng 01/07/25 a 01/10/25** |
| | | | | | |
| **Nifer cychwynnol** | **4,296** | **4,450** | **4,604** | **4,720** | **4,824** |
| | | | | | |
| Newid rhwng Prif Breswylfan ac 2il gartref: | | | | | |
| O Prif Breswylfan i 2il gartref | 386 | 278 | 153 | 173 | 146 |
| O 2il gartref i Brif Breswylfan | -287 | -301 | -258 | -200 | -197 |
| **Cynnydd net mewn 2il gartrefi oherwydd newid o / (i) prif breswylfan** | **99** | **-23** | **-105** | **-27** | **-51** |
| | | | | | |
| | | | | | |
| Newid rhwng Llety Gwyliau ac 2il gartref: | | | | | |
| O Lety Gwyliau i 2il gartref (h.y. Cyrraedd y gyfundrefn TC, a hynny fel 2il gartref) | 33 | 194 | 278 | 150 | 77 |
| O 2il gartref i Lety Gwyliau (h.y. Gadael y gyfundrefn TC) | -53 | -58 | -32 | -34 | -26 |
| **Cynnydd net mewn 2il gartrefi oherwydd newid o / (i) lety gwyliau** | **-20** | **136** | **246** | **116** | **51** |
| | | | | | |
| Newidiadau eraill: | | | | | |
| | | | | | |
| Cyrraedd y gyfundrefn TC, fel 2il gartref (yn cynnwys e.e. tai newydd) | 64 | 26 | 5 | 30 | 38 |
| Gadael y gyfundrefn TC, a ddim yn mynd i'r dreth fusnes fel llety gwyliau | -30 | -25 | -20 | -13 | -17 |
| | | | | | |
| O Eiddo gwag hirdymor (12+ mis) i 2il gartref | 50 | 54 | 17 | 26 | 12 |
| O 2il gartref i Eiddo gwag (12+ mis) | -11 | -13 | -11 | -11 | -6 |
| | | | | | |
| O Eiddo gwag 6-12 mis i 2il gartref | 17 | 19 | 13 | 4 | 15 |
| O 2il gartref i Eiddo gwag 6-12 mis | -13 | -15 | -25 | -18 | -15 |
| | | | | | |
| Amrywiol eraill: Cyrraedd categori 2il gartref | 0 | 0 | 1 | 3 | 2 |
| Amrywiol eraill: Allan o gategori 2il gartref | -2 | -5 | -5 | -6 | -6 |
| | | | | | |
| **Cynnydd net mewn 2il gartrefi oherwydd newidiadau eraill** | **75** | **41** | **-25** | **15** | **23** |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr holl newidiadau uchod** | **154** | **154** | **116** | **104** | **23** |
| | | | | | |
| **Nifer ar ddiwedd y cyfnod** | **4,450** | **4,604** | **4,720** | **4,824** | **4,847** |

**Atodiad 3:** Symudiadau niferoedd i ac o'r categori Eiddo Gwag Hirdymor o Ebrill 2024

| Symudiadau niferoedd eiddo gwag hir-dymor - Gwynedd gyfan | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhwng 01/04/24 a 07/08/24** | **Rhwng 07/08/24 a 03/12/24** | **Rhwng 03/12/24 a 01/04/25** | **Rhwng 01/04/25 a 01/07/25** | **Rhwng 01/07/25 a 01/10/25** |
| **Nifer ar gychwyn y cyfnod** | **1,143** | **1,093** | **1,091** | **1,099** | **1,033** |
| **Eiddo sy'n dod yn wag (hir-dymor) o'r newydd** | **214** | **213** | **177** | **135** | **159** |
| **Eiddo sy'n peidio bod yn wag hir-dymor:** | | | | | |
| Newid i Brif Breswylfan | -189 | -136 | -139 | -165 | -104 |
| Trosglwyddo allan o'r gyfundrefn treth gyngor (cynnwys newid i lety gwyliau) | -25 | -25 | -13 | -10 | -6 |
| Newid i Ail Gartref | -50 | -54 | -17 | -26 | -12 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **-264** | **-215** | **-169** | **-201** | **-122** |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net yn nifer eiddo gwag hir-dymor** | **-50** | **-2** | **8** | **-66** | **37** |
| **Nifer ar ddiwedd y cyfnod** | **1,093** | **1,091** | **1,099** | **1,033** | **1,070** |
| Newid rhwng Prif Breswylfan ac Eiddo Gwag Hir-dymor: | | | | | |
| O Prif Breswylfan i Eiddo Gwag Hir-dymor | 90 | 67 | 55 | 50 | 54 |
| O Eiddo Gwag Hir-dymor i Brif Breswylfan | -189 | -136 | -139 | -165 | -104 |
| **Cynnydd net mewn Eiddo Gwag Hir-dymor oherwydd newid o / (i) prif breswylfan** | **-99** | **-69** | **-84** | **-115** | **-50** |
| Mynd mewn / allan o'r gyfundrefn Treth Gyngor: | | | | | |
| *Allan o'r gyfundrefn Treth Gyngor:* | | | | | |
| Cyfanswm | -25 | -25 | -13 | -10 | -6 |
| | -25 | -25 | -13 | -10 | -6 |
| *Cyrraedd y gyfundrefn Treth Gyngor:* | | | | | |
| Cyfanswm | 3 | 7 | 3 | 2 | |
| | 3 | 7 | 3 | 2 | 0 |
| **Cynnydd net mewn Eiddo Gwag Hir-dymor oherwydd eiddo yn cyrraedd / gadael y g** | **-22** | **-18** | **-10** | **-8** | **-6** |
| Newidiadau eraill: | | | | | |
| Eiddo oedd yn wag (6+ mis) bellach yn wag ers 12+ mis | 110 | 126 | 108 | 72 | 99 |
| *Newid rhwng eiddo gwag hir-dymor ac ail gartref:* | | | | | |
| O Eiddo gwag i 2il gartref | -50 | -54 | -17 | -26 | -12 |
| O 2il gartref i Eiddo gwag | 11 | 13 | 11 | 11 | 6 |
| Cynnydd net mewn Eiddo Gwag Hir-dymor oherwydd newid o / (i) ail gartrefi | -39 | -41 | -6 | -15 | -6 |
| *Amrywiol eraill* | | | | | |
| Cyrraedd categori Eiddo gwag hir-dymor | | | | | |
| Allan o gategori Eiddo gwag hir-dymor | | | | | |
| | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cynnydd net mewn Eiddo Gwag Hir-dymor oherwydd newidiadau eraill** | **71** | **85** | **102** | **57** | **93** |
| **Cyfanswm yr holl newidiadau uchod** | **-50** | **-2** | **8** | **-66** | **37** |
| **Nifer ar ddiwedd y cyfnod** | **1,093** | **1,091** | **1,099** | **1,033** | **1,070** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **4 Rhagfyr 2025** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Huw Wyn Jones,<br>Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2026/27** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2026** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** |

**PENDERFYNIAD A GEISIR**

**1. Fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2026 yn parhau fel ag yr oedd yn ystod 2025/26. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**2. Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2026/27, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cygnor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2026/27.

1.2 Mae gofyn statudol i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn yn flynyddol, hyd yn oed os nad oes newid yn y cynllun ers y flwyddyn flaenorol. Dyna'r achos eleni – argymhellir dim newid i'r cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 5 Rhagfyr 2024.

1.3 **Gofynnir i aelodau nodi fod yr adroddiad hwn yn berthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor YN UNIG, sef cynllun cymorth sydd yn seiliedig ar brawf modd mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol amdano gan y Gwasanaeth Budd-dal. NID YW'R CYNLLUN HWN, NA'R ADRODDIAD YMA, yn berthnasol i unrhyw gynllun disgownt neu eithriad Treth Cyngor arall (e.e. disgownt person sengl, eithriad eiddo gwag sy'n cael ei adnewyddu, tai myfyrwyr)**.

## 2. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

2.1 Yn unol â *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (2013/3029)*, rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd (h.y. ar gyfer 2025/26) gan y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2024.

2.2 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

2.3 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

2.4 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2025/26 gan y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2024. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

## 3. CYNLLUN GOSTYNGIADAU 2026/27

3.1 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.

3.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirprwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a **rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.

3.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

3.4 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Gellir defnyddio disgresiwn i wneud yn elfennau hyn yn fwy hael na'r cynllun cenedlaethol, ond nid yn llai hael.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

3.5 Mae disgresiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Oherwydd hyn, mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2025/26. Ym mis Tachwedd 2025, roedd 11 o hawlwyr yn manteisio o'r disgresiwn yma (roedd 15 yn Tachwedd 2024).

Argymhellir fod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

3.6 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol i wneud hynny. Yn 2025/26 hyd at ganol Tachwedd, nid oedd unrhyw achos lle roedd "taliadau estynedig" o'r fath wedi eu caniatáu yn unol â'r Cynllun Rhagnodedig (roedd 6 achos yn yr un cyfnod yn 2024/25).

Argymhellir parhau i beidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

3.7 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £10,075 fydd cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis) yn 2025/26, a hyd at ganol Tachwedd mae 215 hawliad wedi cael peth elfen o ôl-ddyddio yn 2025/26. Yn yr un cyfnod yn 2024/25 roedd 71 hawliad o'r fath, gyda chost o £13,126.

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

**3.8 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2026/27 yn unol â threfniadau cyfredol 2025/26.**

**4. YMGYNGHORI**

4.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 3.5 i 3.7 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag "unrhyw un sydd â diddordeb".

4.2 Yn unol â Rheoliad 18(6), nid oes angen ymgynghori pellach gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni.

## 5. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

5.1 Fel nodir ym Rhan 4 o'r adroddiad yma, yng nghyd-destun y Cynllun Rhagnodedig sydd yn ei le ar gyfer holl hawlwyr Gostyngiad Treth Cyngor ar draws Cymru gyfan, cyfyngedig iawn yw'r disgresiwn lleol sydd ar gael i awdurdodau lleol i addasu'r cynllun cenedlaethol, ar wahân i dri maes penodol iawn.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y cynllun cenedlaethol, sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb. Cynhaliwyd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol yn 2013 pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, a bryd hynny gwnaethpwyd y penderfyniad i gyflwyno'r cynllun lleol tra'n cydnabod mai cynllun rhagnodedig yw hwn a'r baich yn disgyn ar yr holl grwpiau.

5.3 Mae'r Cyngor angen penderfynu, felly, yw os ydi'r penderfyniadau a geisir yn 2.1 a) – c) yn effeithio ar unrhyw un sydd ag un neu fwy o'r nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig mewn ffordd wahanol i'r boblogaeth gyfan. Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2025/26 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ers 2013. Mae asesiad a gynhaliwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn yn awgrymu fod casgliadau asesiad 2013 yn parhau'n ddilys ac na fydd y penderfyniadau cyfyngedig hyn a geisir yn effeithio unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig yn wahanol i'r boblogaeth gyfan.

## 6. ADNODDAU

6.1 Ar sail adolygiad refeniw diwedd Awst 2025, disgwylir y bydd y Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn costio oddeutu £11.8m yn ystod 2025/26. Mae hyn oddeutu £258,000 uwchlaw'r gyllideb a osodwyd.

6.2 Nid oes dewis ond wynebu cost parhaus y Cynllun, a bydd hyn wedi'i ystyried yn briodol wrth lunio cyllideb 2026/27.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **4 Rhagfyr, 2025** |
| **TEITL** | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad 2024/25** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad 2024/25** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Nia Jeffreys** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |

**1 Cefndir/Cyflwyniad**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch y cynnydd yn erbyn yr hyn a nodir yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn ystod 2024/25. Y bwriad yw darparu adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus. Nodir fod yr hunanasesiad yn ofyn statudol o dan **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

1.2 Mae adrodd yn rheolaidd yn ofyniad monitro hanfodol o fewn trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd mewn cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad Adrannol ac yn y gorffennol wedi cyflwyno adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol i gyfarfodydd o'r Cabinet ar gylch yn ystod y flwyddyn yn ogystal a llunio'r adroddiad hwn i werthuso cynnydd. Ers Mehefin 2025 mae adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol er mwyn bod yn fwy tryloyw a darparu her annibynnol i berfformiad yn gyhoeddus.

1.3 Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 **(Atodiad 1)** wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau Cynllun y Cyngor a'r gwaith dydd i ddydd tra mae'r ail ran yn cynnwys yr Hunanasesiad.

1.4 Fel yn 2023/24 mae'r adroddiad yn llawer mwy cryno nac yn y gorffennol a'r bwriad oedd ei gwneud yn ddogfen sy'n rhwyddach i'w darllen tra'n parhau i roi sicrwydd i'r darllenydd fod y Cyngor yn adrodd yn ystyrlon ar ei berfformiad.

1.5 Eleni rydym hefyd wedi paratoi crynodeb (**Atodiad 3**) sy'n amlinellu'r cynnydd o ran prif brosiectau Cynllun y Cyngor a'r gwaith dydd i ddydd. Mae'r crynodeb hefyd yn tynnu sylw at y prif faterion sydd angen sylw, fel y nodwyd yn yr hunanasesiad. Y nod yw cyflwyno'r wybodaeth fesul maes mewn ffordd sy'n glir ac yn hawdd i'w ddarllen ac fe fydd yn cael ei ddylunio cyn ei chyhoeddi.

1.6 Mae trefniadau adolygu ac adrodd ac asesu ar berfformiad y Cyngor wedi bod yn destun newid deddfwriaethol drwy drefniadau Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth

Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021. Mae hyn yn gofyn i'r Cyngor fesur ei berfformiad yn erbyn tair agwedd sef;

(a) Ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol
(b) Ei fod yn defnyddio adnoddau yn economaidd, effeithiol, effeithlon a
(c) Bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithlon yn cyflawni hyn.

1.7 Mae'r adroddiad yma yn ymateb i'r gofynion yma ac mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ac i gwblhau'r gwaith "cyn gynted ag bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi."

1.8 Nodir dyletswydd hefyd i ymgynghori o leiaf unwaith mewn blwyddyn ariannol gyda phobl leol, busnesau lleol, staff y Cyngor a'r undebau llafur. Dylid defnyddio'r ymgynghoriadau hyn i gael adborth ar y graddau y mae'r awdurdod yn cyflawni'r gofynion perfformiad. Mae'n ofyn statudol fod sylw yn cael ei roi i ganlyniadau'r ymgynghoriad wrth baratoi yr hunan asesiad a chadarnheir fod hyn wedi ei wneud a'i amlygu yn y ddogfen.

1.9 Dros y flwyddyn diwethaf bu i'r Cyngor gynnal arolygon gyda staff a thrigolion y Sir ac ymgynghori hefo undebau llafur ynghylch ei berfformiad. Ceir crynodeb o'r ymateb a dderbyniwyd i'r amrywiol ymgynghoriadau yr ydym wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ar dudalennau 52-54.

1.10 Y Grŵp Llywodraethu (sy'n cynnwys swyddogion megis y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ymysg eraill) sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r broses hyn o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

1.11 Nodir bod rhaid, yn ôl y Ddeddf, cyflwyno drafft o'r adroddiad hunanasesu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn iddo gael ei fabwysiadu yn derfynol er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r rhain pan fydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno yn ffurfiol i'r Cabinet a'r Cyngor. Os oes argymhellion i newid nad ydynt yn cael eu mabwysiadu rhaid adrodd y rhesymau am hyn yn ffurfiol.

1.12 Yn dilyn cais blaenorol gan aelodau'r Pwyllgor i gael eu cynnwys yn gynharach yn y broses, cyflwynwyd y prif faterion i'w cynnwys yn Hunanasesiad 2024/25 i gyfarfod ar 22 Mai. O ganlyniad, codwyd pum pwynt i'w hystyried: datblygiad gwasanaethau gofal ym Mhenrhos, ystyriaeth i'r A499 yn Strategaeth Llifogydd, parhad Cynllun ARFOR, effeithiau Erthygl 4, a threfniadau diogelu ysgolion.

1.13 Cyflwynwyd drafft o'r ddogfen Hunanasesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfod ar y 9fed o Hydref pryd y cytunwyd i dderbyn yr adroddiad drafft gan gynnig y sylwadau canlynol:

- Ystyried effaith gostyngiad mewn niferoedd pobl ifanc a chynnydd ym mhoblogaeth hŷn y Sir ar wasanaethau'r Cyngor

- Cyfeirio at waith sydd yn cael ei wneud i gynyddu ymatebion arolwg staff.
- Cynnwys esiamplau a thystiolaeth i roi sylwedd i rai brawddegau yn yr adroddiad

Mae sylw wedi ei roi i'r holl sylwadau a nodir uchod o fewn y fersiwn ddrafft o'rHunanasesiad.

1.14 Yn unol â gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 mae Atodiad 2 yn amlinellu sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

1.15 Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio ar sail ein hamcanion llesiant (y saith maes blaenoriaeth) gan amlinellu'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn y cyfnod dan sylw. Er hwylustod hefyd ceir tabl ar ddiwedd rhan gyntaf yr adroddiad yn nodi'r amcanion y mae'r prosiectau'n cyfrannu tuag atynt.

1.16 Fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun y Cyngor 2023-28 paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Cyfrifoldeb Arweinyddion Prosiect yw i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

1.17 Byddai peidio â chyhoeddi hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, fyddai hefo goblygiadau i enw da'r Cyngor.

**2 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad**

2.1 Yn unol a gofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Cyngor wedi trafod Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 ac wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ac argymhellion. Mae Cabinet y Cyngor wedi trafod yr adroddiadau a welir yn **Atodiad 1, 2 a 3** yn ei gyfarfod ar y 11 o Dachwedd, ac yn argymell bod y Cyngor ei fabwysiadu.

**3. Camau nesaf ac amserlen**

3.1 Yn unol a'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bydd y ddogfen yn cael ei chylchredeg i'r rhestr ganlynol o dderbynwyr o fewn y cyfnod o bedair wythnos yn dilyn y cyfarfod hwn:

i. Archwilydd Cyffredinol Cymru
ii. Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
iii. Gweinidogion Cymru.

3.2 Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy

argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25

## 5. Barn y Swyddogion Statudol

### 5.1 Barn y Swyddog Monitro

Fel y nodir mae cynnal yr hunan asesiad yma yn rhan o ddyletswyddau statudol ar y Cyngor ynglŷn ac asesu ac adrodd ar ei berfformiad. Mae sawl cam statudol yn ynghlwm â chyrraedd y pwynt yma a nodir yr rhain yn benodol yn yr adroddiad pen ac yn yr Adroddiad Perfformiad ac Hunan Asesiad ynghyd â sut mae'r Cyngor i roi sylw i'r elfennau yma. Mae rhain yn benodol ynglŷn ag ymgynghori â barn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad.

### 5.2 Barn y Pennaeth Cyllid

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Hunanasesiad yn ddogfen allweddol sydd erbyn hyn yn rhan greiddiol o arddangos priodoldeb trefniadau llywodraethu a pherfformiad y Cyngor. Rwyf yn fodlon fod cynnwys y ddogfen yn adlewyrchiad teg a chywir o sefyllfa Cyngor Gwynedd.

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 (Drafft)
Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024/25 (Drafft)
Atodiad 3 – Crynodeb hawdd i'w ddarllen o Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2024/25 (Drafft)

gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad

# 2024-25



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair yr Arweinydd | 03 |
| Cyflwyniad | 04 |
| Gwynedd Yfory | 06 |
| Gwynedd Lewyrchus | 11 |
| Gwynedd Glyd | 17 |
| Gwynedd Ofalgar | 23 |
| Gwynedd Gymraeg | 29 |
| Gwynedd Werdd | 33 |
| Gwynedd Effeithlon | 38 |
| Cyfraniad at y 5 Ffordd o Weithio | 44 |


DRAFFT

# Rhagair yr Arweinydd



Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2024-25 sy'n edrych ar waith y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma'r ail adroddiad perfformiad o Gynllun y Cyngor 2023-28.

Mae'n wyrthiol ein bod wedi llwyddo i gyflawni cymaint fel Cyngor wrth ystyried y bwlch ariannol anferthol roeddem yn ei wynebu o ganlyniad i'r setliad annigonol gan Lywodraeth Cymru, sy'n batrwm ers blynyddoedd. Rwy'n hynod falch ein bod wedi ymrwymo i warchod y mwyaf bregus yn ein plith wrth osod cyllideb ar gyfer y flwyddyn yma. Fedrai ddim peidio meddwl am yr holl bethau ychwanegol y bydden wedi medru eu cyflawni dros bobl Gwynedd petaent wedi derbyn cyllideb ddigonol a theg.

Wrth adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae cymaint o uchafbwyntiau y gallaf eu hadrodd. Rhaglen sy'n flaenoriaeth i mi yw'r rhaglen drawsadrannol Cefnogi Pobl sydd yn helpu'r rhai sy'n wynebu caledi parhaol. Mae'n braf gallu adrodd ar gynnydd y gwaith yma dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhaglen wedi datblygu tipyn ers ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw ac yn parhau i wneud gwaith gwych wrth ariannu a chefnogi hybiau cymunedol, cefnogi banciau bwyd y sir a gwaith i leihau effaith tlodi tanwydd ar drigolion Gwynedd.

Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn mynd o nerth i nerth gyda chymaint o drigolion y sir wedi elwa o gartrefi newydd a chefnogaeth ymarferol. Mae'r cynllun hwn wedi dod a nifer o dai gwag yn ôl i ddefnydd, sicrhau bod tai cymdeithasol wedi eu hadeiladu, datblygu tai Tŷ Gwynedd yn ogystal â gwaith i liniaru effeithiau digartrefedd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf agorwyd drysau Ysgol Treferthyr newydd yng Nghricieth, ysgol ecogyfeillgar fydd yn darparu amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf i blant Cricieth a'r cylch. Cafwyd hefyd buddsoddiadau sylweddol i ddwy ysgol gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i blant lleol yr ardal.

Rydym wedi llwyddo i ddenu ac elwa o nifer o grantiau yma yng Ngwynedd dros y flwyddyn, un sy'n sefyll allan yw'r £2 filiwn i gymunedau llechi Gwynedd i ariannu prosiect arloesol LleCHI LleNI dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd yr arian yma yn codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth llechi ardaloedd y Safle Treftadaeth y Byd ac yn dathlu pwysigrwydd y Gymraeg.

Testun balchder hefyd yw'r buddsoddi rydym yn ei wneud yn ein pobl ifanc. Roeddwn yn hynod falch o lansiad Academi Gofal sy'n mynd i'r afael â phrinder staff yn y sector Gofal drwy ddenu a datblygu unigolion i ddilyn gyrfa mewn awyrgylch Gymreig yn y maes hanfodol yma. Mae cynyddu defnydd y Gymraeg yn holl bwysig i mi ac mae'r gwaith arbennig o hybu ffyniant yr iaith yn parhau drwy brosiectau arwyddocaol.

Mae heriau pellach o'n blaenau, gyda'r sefyllfa ariannol yn ein gorfodi i wneud penderfyniadau anodd. Er hyn mae gen i bob ffydd y byddwn fel Cyngor yn parhau i wneud ein gorau dros bobl Gwynedd. Byddaf innau fel Arweinydd yn dal ati i leisio fy anfodlonrwydd a lobïo Llywodraeth Cymru a San Steffan am y diffyg buddsoddiad i Lywodraeth Leol yn enwedig ardaloedd gwledig fel Gwynedd gan geisio sicrhau cyllid ddigonol i'r dyfodol.

Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Arweinydd Cyngor Gwynedd



DRAFT



# Cyflwyniad

Mae 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28' yn cynnwys cyfres o brosiectau uchelgeisiol fydd yn ein galluogi i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau i drigolion y sir dros gyfnod o bum mlynedd. Daw'r prosiectau dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory**
  *Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc*
- **Gwynedd Lewyrchus**
  *Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng*
- **Gwynedd Glyd**
  *Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau*
- **Gwynedd Ofalgar**
  *Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau*
- **Gwynedd Gymraeg**
  *Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*
- **Gwynedd Werdd**
  *Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd*
- **Gwynedd Effeithlon**
  *Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon*

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod ail flwyddyn Cynllun y Cyngor. Mae'n arferiad cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun er mwyn sicrhau bod y prosiectau yn parhau yn addas, ac i roi cyfle i'r Cyngor eu haddasu yng ngoleuni datblygiadau lleol a chenedlaethol dros gyfnod y Cynllun. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar y cynllun fel a gytunwyd gan y Cyngor ar y 7fed o Fawrth, 2024.

Fel y llynedd, rhennir yr adroddiad i benodau sy'n adlewyrchu'r saith maes blaenoriaeth, gan ddisgrifio'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r prif gyflawniadau yng ngwaith dydd i ddydd ein hadrannau, er enghraifft gofal plant ac oedolion, yr economi, a thai.

DRAFT

Y Meysydd Blaenoriaeth o fewn y ddogfen hon yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr Amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r pum ffordd o weithio o fewn y Ddeddf trwy ystyried yr hirdymor, atal, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio sydd yn canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r tabl ar ddiwedd yr adroddiad yn  dangos cyfraniad pob prosiect blaenoriaeth tuag at y pum ffordd o weithio.

Ail ran yr adroddiad perfformiad ydi ein hunanasesiad ar gyfer y flwyddyn. Dyma ein pedwerydd hunanasesiad. Disgwylir i'r Cyngor gyflwyno hyn yn flynyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Eleni hefyd, atodir rhan ychwanegol sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol sy'n ofyn adrodd newydd o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Mae'r angen i wneud arbedion ariannol bron â bod yn her flynyddol i Lywodraeth Leol bellach, a doedd y llynedd ddim gwahanol. Mae cyfanswm o arbedion gwerth £43 miliwn wedi eu gwireddu ers 2015/16, gyda £5.6 miliwn o'r cyfanswm yna yn dod o'r flwyddyn ariannol 2024/25. Er gwaethaf yr heriau ariannol yma, mae'r Cyngor yn arloesi yn gyson gan geisio canfod ffyrdd gwell a mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau.

Fel rhan o'n trefniadau perfformiad, cynhelir cyfres o gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad adrannol yn rheolaidd er mwyn gweld sut gynnydd mae'r adrannau yn ei wneud gyda'u gwaith dydd i ddydd yn ogystal â phrosiectau Cynllun y Cyngor. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yma. Nid tynnu sylw at y pethau da yn unig yw bwriad yr  adroddiad, ond rhoi darlun teg a gonest o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn. Wrth wneud hynny, rydym yn gallu dathlu ein llwyddiannau a gweld pa agweddau o'n gwaith sydd angen sylw pellach, er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i drigolion y sir o fewn yr adnoddau sydd gennym.

Mae'r Adroddiad blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ac i gyfarfod y Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth.



DRAFT




# Gwynedd Yfory

DRAFT

**Ein huchelgais yw sicrhau fod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:**

- Eu trin yn gyfartal, eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.
- Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.
- Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.
- Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas hyd orau ein gallu.
- Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.
- Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol yn ddigost i gymaint o ddisgyblion â phosibl.
- Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol.
- Sicrhad fod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.

# Prosiectau

Gwynedd Yfory

Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir

Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd

Llunio  a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd

DRAFT

# Diweddariad ar y prosiectau

## Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Mae strategaeth newydd ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael ei gweithredu sy'n cynnwys gwaith i roi cefnogaeth i dadau, darparu cefnogaeth iechyd meddwl amenedigol, cynllun toiledu, a datblygu iaith a lleferydd.
- Ehangwyd y ddarpariaeth gofal plant dwy oed i nifer o ardaloedd newydd yn y sir, gan gynnwys Abermaw, Y Bala, Caernarfon, Porthmadog a Bangor.

## Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Dechreuwyd y gwaith adeiladu ar safle maes parcio Byw'n Iach Bangor er mwyn uwchraddio'r ardal a chreu mannau parcio ar gyfer staff Ysgol Hirael, fydd yn gwneud safle'r ysgol ei hun yn un di-geir. Bydd y gwaith adeiladu ar y gwelliannau i Ysgol Hirael ei hun yn cychwyn yn 2025-26.
- Mae adeilad hen Ysgol Glanadda wedi ei ddymchwel a'r gwaith adeiladu ar gyfer ysgol newydd Ein Harglwyddes wedi dechrau. Mae'r ffrâm ar gyfer yr ysgol newydd eisoes yn ei le, a bydd y gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf.
- Mae Achos Strategol Amlinellol wedi ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella cyflwr yr adeiladau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Tryfan, Bangor. Mae trafodaethau yn parhau er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Cwblhawyd y gwaith o adeiladu Ysgol Treferthyr yng Nghricieth, a bu i ysgol newydd ar gyfer 150 o ddysgwyr agor ei drysau ddechrau mis Medi 2024.
- Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer ysgol newydd ym Montnewydd fis Gorffennaf 2024. Mae'r gwaith o greu ysgol dros dro, fydd yn caniatáu lle i adeiladu'r ysgol newydd, yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o fod yn weithredol erbyn mis Medi 2025.



## Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Rhannwyd canfyddiadau ymchwil am y gost ariannol o fynychu ysgol gydag ysgolion.
- Lluniwyd rhaglen waith i ymateb i ganfyddiadau'r holiaduron, ac fel rhan o hyn bydd camau gweithredu yn cael eu llunio, sydd yn unigryw i bob ysgol, fydd yn arwain at leihau'r gost o anfon plant i'r ysgol.

DRAFT

## Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Casglwyd barn pobl ifanc ynglŷn â'r holl ddarpariaethau ieuenctid sydd ar gael. Bydd y bylchau yn derbyn sylw yn strategaeth newydd y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Byddwn yn adolygu'r cyfleusterau sydd ar gael yn y caeau chwarae delwedd uchel ac yn gwneud gwelliannau o fewn y cyllid sydd ar gael.

## Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Yn dilyn sefydlu Bwrdd Prosiect ym mis Mawrth 2024, cynhaliwyd gwaith i fapio anghenion ac ymchwilio i ddarpariaethau mewn siroedd eraill er mwyn canfod ymarfer da. Yn sgil y gwaith yma, cytunodd y Cabinet ym mis Ebrill 2025 i greu Uned (aml safle) ar gyfer darparu cefnogaeth i blant sydd â anawsterau ymddygiad ac ymgysylltu sylweddol. Cytunwyd ar gynllun ariannu gan ddirprwyo'r amserlen i weithredu a gwireddu'r cynllun i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Addysg. Mae prif leoliad y ddarpariaeth wedi ei leoli yn Llanwnda ar hen safle'r ysgol, gyda buddsoddiad o Grant Cyfalaf ADY wedi bod i sicrhau bod yr adeilad yn addas i bwrpas.

## Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Drafft o'r Strategaeth Addysg newydd wedi ei pharatoi a bwriedir ei chyflwyno yn fuan yn 2025-26.



DRAFT

# Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae trefn Byrddau Prosiect mewn lle i sicrhau bod rheolaeth prosiectau cyfalaf addysg yn gadarn. Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni'n ystod y flwyddyn i gwrdd â gofynion gwariant grantiau cyfalaf un tro yn ystod y flwyddyn megis y grant Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ysgolion bro, ac mae prosiectau cyfalaf y Rhaglen Dreigl yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl erbyn hyn.

- Ar gyfer mynediad i ysgolion Cynradd ac Uwchradd ym mis Medi 2024, cynigwyd 99.5% o ddewisiadau cyntaf rhieni.

- Rydym wedi llwyddo i gynnig hyfforddiant a gweithdai dilynol i bersonau dynodedig AMYSE (sef Anhawster Mynychu Ysgol ar Sail Emosiynol) a staff cefnogol mewn nifer o ysgolion uwchradd yn ystod 2024/25. Mynychodd 13 ysgol uwchradd y cyflwyniad cychwynnol a llwyddodd 10 ysgol uwchradd i fynychu y 3 gweithdy dilynol. Byddwn yn cynnig yr hyfforddiant i fwy o ysgolion uwchradd yn ystod 2025/26. Byddwn yn cynnig sesiynau goruchwyliaeth tymhorol i'r ysgolion yma a gobeithiwn hyfforddi mwy o staff yn y flwyddyn addysgol ddilynol.

- Mae prydau ysgol am ddim ar gael i bob plentyn o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6 ym mhob ysgol gynradd yng Ngwynedd.

- Rydym yn darparu cludiant addysg proffesiynol ac effeithlon ar gyfer dysgwyr cymwys yn unol â gofynion statudol Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso mynediad i bob safle addysgol yn y sir.

- Drwy leihau nifer y disgyblion yn y Canolfannau ABC ar yr un pryd â sicrhau bod pob disgybl yn rhannu lleoliad gyda'u hysgolion Prif lif, rydym wedi gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r cynllun yn ein galluogi i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar dargedau unigol ac ymateb yn briodol i'r anghenion yn y Canolfannau. Yn ogystal, mae'r trefniant o rannu lleoliad yn sicrhau bod ysgolion yn cael cyfle i adnabod y disgyblion, gan eu galluogi i gynllunio a pharatoi darpariaeth briodol ar gyfer blwyddyn Derbyn. O ganlyniad, gwelir gwelliannau mewn cynnydd datblygiadol yn gynt, a pharodrwydd y disgyblion dwys i drosglwyddo i addysg llawn amser.

- Mae 97% o bersonau dynodedig diogelu ysgolion wedi cwblhau hyfforddiant person dynodedig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod y canllaw cenedlaethol yn nodi na ddylid gadael cyfnod o fwy na thair blynedd rhwng hyfforddiant, rydym yn annog hyfforddiant gloywi bob dwy flynedd fel arfer dda. Nid yw'r ffigwr yn 100% gan fod tri aelod o staff newydd wedi dechrau yn eu rolau ac heb gwblhau'r hyfforddiant eto, ond wedi cofrestru i'w wneud.

- Bu'r Gwasanaeth Cynhwysiad yn canolbwyntio ar gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae hyn wedi cynnwys datblygu dulliau mwy systematig o adnabod anghenion yn gynnar, gan sicrhau bod ymyriadau'n cael eu darparu mewn modd amserol ac effeithiol. Bu cydweithio'n agos ag ysgolion a gwasanaethau eraill i gyd-gynllunio strategaeth newydd, gyda'r nod o sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir yn gynhwysol, yn gynaliadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Fel rhan o'r strategaeth, byddwn yn sefydlu canolfan newydd fydd yn weithredol o fis Medi 2025, gan gynnig ystod o wasanaethau wedi'u targedu i gefnogi disgyblion.

DRAFT

# Gwynedd Llewyrchus




**Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Ein huchelgais yw sicrhau:**

- Swyddi o safon.
- Cefnogaeth i fusnesau ffynnu.
- Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
- Cymunedau cryf a gwydn.
- Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm.

DRAFT

# Prosiectau

Gwynedd Lewyrchus

Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy

Adfywio cymunedau a chanol trefi

Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

Cadw'r Budd yn Lleol

DRAFT

# Diweddariad ar y prosiectau

## Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Cynhaliwyd uwch-gynhadledd Economi Ymweld Gynaliadwy gyda dros 100 yn mynychu.
- Adolygwyd ein trefniadau i gefnogi digwyddiadau yng Ngwynedd.
- Agorwyd pedwar Aros-fan ar draws Gwynedd ar gyfer ymwelwyr mewn cartrefi modur. Rydym yn monitro'r defnydd a wneir ohonynt, a byddwn yn paratoi adroddiad gwerthuso maes o law.
- Sefydlwyd strwythur i weithredu Cynllun Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035, ac mae cyllid wedi ei neilltuo i weithredu'r cynllun.
- Cefnogwyd cymunedau a busnesau Gwynedd i hyrwyddo a dathlu diwylliant yn lleol drwy'r prosiect 'Diwyllesiant'. Buddsoddwyd £715,553 er mwyn cefnogi 109 o sefydliadau a busnesau i gynnal gwahanol weithgareddau, a denodd hyn fuddsoddiad ychwanegol o £5.8m i'r Sir. Roedd llawer o weithgaredd wedi digwydd trwy Storiel, Byw'n Iach, Archifau, Llyfrgelloedd a Pharc Glynllifon.
- Cefnogwyd cymunedau Gwynedd i fanteisio ar ddynodiad treftadaeth byd y diwydiant llechi gan sicrhau arian Loteri Treftadaeth i brosiectau LleCHI LleNi, ac arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Mae sawl prosiect sylweddol ar y gweill gan gynnwys ail-ddatblygu'r Amgueddfa Lechi a Pharc Padarn yn Llanberis, a gwneud gwelliannau canol tref a gosod celf gyhoeddus mewn chwe thref. Yn ogystal, uwchraddiwyd Aelwyd yr Urdd a chwblhawyd gwaith ar lwybr cysylltiol ym Mlaenau Ffestiniog.



## Adfywio cymunedau a chanol trefi

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Cyhoeddwyd y Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn y sir ar wefan y Cyngor, a chynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau cydlynu lleol.
- Cynigiwyd grantiau gwerth £1.8m drwy Gronfa Allweddol Cefnogi Cymunedau i ystod o brosiectau adfywio lleol.
- Mae Cynlluniau Creu Lleoedd wedi eu cwblhau ar gyfer Porthmadog, Pwllheli, Y Bala, a Dolgellau.
- Buddsoddwyd £1.8m o arian grant Cronfa Ffyniant Gyffredin i uwchraddio canol trefi Gwynedd.
- Rhoddwyd grant Trawsnewid Trefi 2024/5 i nifer o brosiectau er mwyn gwella canol trefi, gan gynnwys Parc y Coleg, Bangor; eiddo gwag Galeri Cyf; Menter y Tŵr Pwllheli; Canolfan Bro Tegid, Y Bala; a Chanolfan Iechyd a Lles Bangor.

DRAFT




## Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Cafodd 600 o fusnesau a mentrau cymdeithasol gymorth gan y Cyngor drwy raglen ARFOR a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Cynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd fis Hydref, gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i fusnesau yn Nolgellau, Pwllheli a Bangor. Llwyddodd ymgyrch gan y Cyngor i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi busnesau lleol i gyrraedd 50,000 o gyfrifon.
- Rydym yn parhau i gefnogi cynlluniau Cais Twf Gogledd Cymru, gan roi sylw arbennig i'r cynlluniau sy'n cynnig y budd mwyaf i Wynedd, gan gynnwys Cynllun Parc Bryn Cegin sydd wedi ei gymeradwyo, ac mae trefniadau mewn lle i gychwyn gweithredu ar safle a Phrosiect Hwb Arloesi Glynllifon sy'n cael ei ailgynllunio.
- Rhoddwyd cefnogaeth i 221 o bobl i ddychwelyd i waith yn 2024/25 a chafodd 251 o bobl gymorth i gynyddu eu gallu i ennill cyflog da.

DRAFT

## Cadw'r Budd yn Lleol

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Lluniwyd strategaeth caffael newydd fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet yn fuan.
- Adolygwyd ein rheolau gweithdrefn caffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf Caffael newydd.
- Rydym wedi diweddaru'n gwefan a'n mewnrwyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rheoliadau newydd, technegau caffael a'r nod o gadw'r budd yn lleol maes o law.

# Rhai o'n prif gyflawniadau

## Datblygu'r economi ac adfywio cymunedau

Darparodd Cyngor Gwynedd amrywiaeth eang o gefnogaeth i gynnal a chynorthwyo busnesau i ffynnu yn ystod y flwyddyn a aeth heibio:

- Rhoddwyd cymorth i 176 o fusnesau gwahanol drwy gynlluniau cefnogi busnes dan reolaeth y Cyngor. Roedd y cymorth yn gyfuniad o help ariannol ar ffurf grant i alluogi busnesau i fuddsoddi er mwyn lleihau costau neu fanteisio ar gyfleoedd newydd, cefnogaeth ymarferol i helpu busnesau adolygu eu gweithgareddau a chynllunio i'r dyfodol, a chymorth i fusnesau wneud gwell defnydd o dechnoleg a'r cyfryngau digidol.

- Yn dilyn cefnogaeth gan dîm Gwaith Gwynedd, llwyddodd 221 o drigolion i gael swydd. Roedd hyn yn gynnydd o draean ar ganlyniad y llynedd.

- Yn sgil derbyn cynnig o gymorth ariannol gan y Cyngor yn ystod 2024/25, mae 54 o fusnesau wedi ymrwymo i dalu cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr ac i ddefnyddio mwy o Gymraeg.

- Cwblhau a chyhoeddi Cynlluniau Creu Lleoedd er mwyn gwella chwe thref o fewn y sir - Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau ac Y Bala.

- Mae Cist Gwynedd, y porth grantiau cymunedol, wedi dyrannu dros £1.6miliwn o grantiau i wahanol grwpiau a sefydliadau yn y sir.

- Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi sicrhau buddsoddiad gwerth £8.5m ar gyfer prosiectau canol trefi.

- Er mwyn gwella trefi'r sir, rhoddwyd cefnogaeth ariannol i ddod â 10 eiddo gwag mewn canol trefi yn ôl i ddefnydd, ac i adnewyddu a gwella 26 adeilad arall.

## Diwylliant a Hamdden

- Lansiwyd gwefan newydd i Barc Glynllifon www.parcglynllifon.cymru er mwyn hyrwyddo'r hyn sydd ar gael yno.

- Roedd cais gwerth £300,000 am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus. Yn sgil hyn bydd gwaith yn digwydd yn 2025-26 i ail wynebu'r maes parcio, gosod mannau gwefru ar gyfer ceir a beics, paneli solar a gwaith dehongli/arwyddion.

- Bu gwelliannau i isadeiledd canolfannau hamdden gan gynnwys ail wynebu'r cyrtiau tennis mewnol, a gosod cwrt Padel newydd - y cwrt cyhoeddus cyntaf yng Ngogledd Cymru - yng Nghanolfan Tennis Arfon, a throsi'r MUGA i fod yn gae 2G 7v7 yn Glan Wnion, Dolgellau.

- Agorwyd cae 3G newydd yng Nghaernarfon gan gyn bêl-droediwr Cymru a Lerpwl, Ian Rush.

- Gwnaethpwyd gwelliannau i harbwr Porthmadog gan gynnwys adnewyddu cadwyni angorfeydd yr harbwr er mwyn sicrhau diogelwch cychod, a gwella lloc allanol yr harbwr er mwyn darparu safle mwy ymarferol a diogel. Uwchraddiwyd system deledu cylch cyfyng harbwr Abermaw i wella diogelwch a chwblhawyd gwelliannau i Ffordd y Compownd.

- Yn dilyn gwaith uwchraddio gwerth £450,000 i'r maes parcio, treialwyd trefn newydd o godi ffioedd am barcio yn Ninas Dinlle.

- Buddsoddwyd £280,000 i foderneiddio'r arddangosfeydd yn Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy yn dilyn derbyn grant o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

- Mae'r ymgyrch Croeso Cynnes yn weithredol ymhob un o Lyfrgelloedd Gwynedd gyda chyfle i ymuno mewn gweithgareddau fel chwarae gwyddbwyll, gwneud jig-so a Chôr dementia. Mae sesiwn gwyddbwyll pnawn Iau Llyfrgell Caernarfon yn tyfu o nerth i nerth, gyda phlant, pobl ifanc a phobl hŷn yn cyd-chwarae yn rheolaidd.

DRAFT

# Rhai o'n prif gyflawniadau

- Uwchraddiwyd ein system Llyfrgelloedd (LMS) fis Rhagfyr 2024. Mae tîm LMS Cymru, a arweinir gan Gyngor Gwynedd, yn gweithio ar lansio ap newydd a chatalog llyfrau Cymru Gyfan.

- Datblygwyd rhaglen amrywiol yn Neuadd Dwyfor, gyda phwyslais ar nosweithiau cerddorol byw gan unigolion a bandiau yn Gymraeg, yn ychwanegol i'r cynnig ffilmiau a sioeau theatr arferol. Fel rhan o hyn, cyflwynwyd brand 'Gigs Town Hôl' sydd yn mynd o nerth i nerth.

- Rhoddwyd cefnogaeth ariannol gwerth £77,000 i gynnal 33 digwyddiad gwahanol yn y sir. Mynychodd 154,000 o bobl y digwyddiadau, a chyfrifwyd fod yr economi leol wedi cael budd o £4,069,561 o ganlyniad.

DRAFFT



# Gwynedd Glyd

**Ein huchelgais yw sicrhau bod gan bob person yng Ngwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella ansawdd eu bywydau . Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy osod uchelgais i:**

- Sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned.
- Sicrhau fod tai newydd yng Ngwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Sicrhau fod tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir.

# Prosiectau

Gwynedd Glyd

Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd

Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd

Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

DRAFT

# Diweddariad ar y prosiectau

## Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Cefnogwyd trigolion y sir i wneud y mwyaf o gynlluniau i leihau costau ynni fel ECO4, gyda 216 o geisiadau yn cael eu cymeradwyo.
- Sicrhau bod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o'r holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt trwy gydweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol.
- Rydym wedi dosbarthu 656 o dalebau ynni i drigolion anghenus sydd ar fesurydd rhag-dalu yn Ngwynedd gyda gwariant gwerth £24,719. Ers y cychwyn rydym wedi dosbarthu 5,671 o dalebau gwerth £236,055 - arian sydd wedi mynd yn uniongyrchol i drigolion mwyaf bregus y sir.
- Rydym wedi cyfeirio trigolion i gael cymorth ychwanegol gan sefydliadau fel y Banciau Bwyd, Canllaw, Teleofal, Grantiau Tai Gwag y Cyngor a Benthyciadau Cyngor, Gwaith Gwynedd, Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, Dŵr Cymru, Hybiau Cymunedol a hefyd cyfeirio at y gwasanaeth Mesuryddion Ynni Clyfar.
- Rhannwyd arbenigedd a gwybodaeth ddefnyddiol ar wefan Costau Byw Cyngor Gwynedd sydd ar gael i bawb.
- Cynhaliwyd clinigau cymunedol i gyfeirio pobl at y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael.

DRAFT



## Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Mae 386 o dai cymdeithasol bellach wedi'u codi ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai a bydd y rhain yn helpu bron i 1,300 o unigolion.
- Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar safleoedd yn Llanberis a Bangor i greu tai fforddiadwy dan gynllun Tŷ Gwynedd.
- Prynwyd 23 o dai trwy'r Cynllun Prynu i Osod (gan ddod â'r cyfanswm i 46 o dai), a bydd y rhain yn cael eu gosod ar lefelau rhent fforddiadwy.
- Daethpwyd â 108 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy gymorth grantiau i adnewyddu tai gwag ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai.
- Mae 62 o aelwydydd wedi prynu eu cartref trwy gymorth y Cynllun Prynu Cartref erbyn hyn.

Gwynedd Glyd

## Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Mae datblygiadau i roi llety i bobl ddigartref wedi eu cwblhau ym Mangor a Phwllheli, ac mae gwaith adeiladu yn parhau ar ddatblygiad arall ym Mangor.
- Cwblhawyd pryniant cyn swyddfeydd y Llywodraeth, Penrallt, Caernarfon, ac mae gwaith cefndirol sylweddol wedi digwydd ar gyfer cyflwyno cais cynllunio megis asesiadau strwythurol, dichonoldeb ac ati, ar gyfer ei drosi yn unedau i bobl leol sydd angen cartref.
- Denwyd 12 eiddo ychwanegol ar gyfer Cynllun Lesu Cymru sydd yn galluogi mwy o bobl i rentu'n breifat yng Ngwynedd, a'i wneud yn opsiwn mwy fforddiadwy. Byddwn yn parhau i drafod gyda landlordiaid a'r Llywodraeth i edrych am opsiynau i gynyddu'r cyfleoedd dros oes y cynllun. Hyd yma mae 28 eiddo wedi'i osod gan helpu 65 o unigolion.
- Mae ein 'Siop un Stop' bron yn barod i'w lansio. Adnodd newydd er mwyn ymateb i anghenion trigolion wrth iddynt gyflwyno ceisiadau yn ymwneud â thai mewn un lle canolog ydi'r 'Siop un Stop'.

## Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus penderfynwyd cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, er mwyn rheoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau. Mae hyn wedi ei weithredu ac mae bellach mewn lle ar draws y sir.
- Cynhaliwyd gwaith ymchwil i effaith y Premiwm Treth Cyngor o ran unrhyw newid defnydd o eiddo. Gwelwyd fod gostyngiad wedi bod yn nifer yr ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar, ond nid oedd digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i brofi bod hynny yn uniongyrchol o ganlyniad i'r Premiwm. Yn dilyn hyn, penderfynodd y Cyngor gadw'r Premiwm ar yr un lefel ar gyfer 2025-26.



# Rhai o'n prif gyflawniadau

- Gosodwyd uchelgais i greu 83 o unedau llety â chefnogaeth ar gyfer pobl ddigartref ein sir erbyn diwedd oes y Cynllun Gweithredu Tai, a hynny er mwyn ateb y galw cynyddol am y gwasanaeth. Ers 2021 mae 20 o unedau wedi eu creu, gyda 62 arall ar y rhaglen waith. Hyd yma mae o leiaf 30 o bobl wedi derbyn cefnogaeth yn yr unedau newydd, a byddwn yn parhau i gefnogi unigolion a theuluoedd dros y blynyddoedd nesaf.

- Ym mis Hydref 2024, agorodd Dôl Sadler – adeilad newydd sbon ar gyfer darparu llety â chefnogaeth i drigolion ein sir – ar safle hen Ysgol Glan Wnion yn Nolgellau. Cyrhaeddodd y datblygiad restr fer Gwobrau Inside Housing Development yn y categori Best Supported Housing Development: Rural/Suburban.

- Mae dau safle Tŷ Gwynedd yn y broses adeiladu – safleoedd Llanberis a Choed Mawr, Bangor. Bydd dau arall yn dechrau yn 2025/26, a mwy i ddilyn yn y blynyddoedd nesaf. Mae safleoedd eraill yn cael eu hystyried ar draws y sir i gyfarch anghenion lleol.

- Trwy'r Cynllun Prynu i Osod, mae'r Cyngor yn prynu tai oddi ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i drigolion sydd mewn angen tai. Mae'r Cyngor eisoes wedi prynu 46 o dai (sy'n rhagori ar yr uchelgais a osodwyd ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2024/25 sef 43). Mae'r Cyngor wedi gosod 16 tŷ ac yn cwblhau gwaith trwsio ac uwchraddio angenrheidiol ar 20 o dai eraill.

- Er mwyn dod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd, mae nifer o ymyraethau ar gael i bobl Gwynedd fanteisio arnynt. Trwy'r Cynllun Gweithredu Tai, mae'r Adran yn gallu cynnig eithriad o flwyddyn ychwanegol oddi ar dreth cyngor ar dai gwag, fel bod modd i deulu neu unigolion gwblhau gwaith adfer allweddol i ddod â'r tŷ i safon byw derbyniol. Hyd yma, mae 123 o eithriadau gwerth cyfanswm o £165,061 wedi'u rhoi i berchnogion tai gwag.

- Mae grantiau ar gael i berchnogion wneud gwaith uwchraddio angenrheidiol i dŷ fu'n arfer bod yn wag, a hyd yma mae 108 o'r grantiau hyn wedi'u dyrannu. Cyfanswm nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth gan y Cyngor yw 284. Mae hyn wrth gwrs yn golygu bod 284 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd trigolion lleol hefyd. Mae hyn yn cyrraedd a rhagori ar yr uchelgais a osodwyd sef dod â 250 o dai gwag yn ôl i ddefnydd.

- Mae'r adran Tai ac Eiddo yn cydweithio'n agos gyda'i bartneriaid tai ar ddatblygiadau tai cymdeithasol a chanolraddol er mwyn cyfarch y galw aruthrol sydd am dai yng Ngwynedd. Yn ystod 2024/25, codwyd 90 o dai fforddiadwy ar draws Gwynedd gan ddod â'r cyfanswm o dai newydd ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai i 386.

- Mae'r Adran wedi llwyddo i ddenu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy. Yn 2024/25, denwyd £8m yn ychwanegol fydd yn galluogi i'n partneriaid tai godi o leiaf 50 o unedau ychwanegol.

- Mae gwaith datblygu safle Penrhos, Pwllheli, ar ddechrau, wedi i'r Cyngor, mewn partneriaeth gyda chymdeithas dai Clwyd Alyn, sicrhau grant ychwanegol o tua £7.7m gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu dechrau gwedd 1 y datblygiad fydd yn creu 44 o gartrefi newydd.

- Mae'r Cynllun Prynu Cartref wedi llwyddo i helpu 62 o aelwydydd i brynu cartref oddi ar y farchnad agored yng Ngwynedd. Mae 25 arall yn y broses ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth gyda Pheilot Dwyfor, wedi llwyddo i ymestyn uchafswm gwerth eiddo cymwys mewn rhai ardaloedd o Ddwyfor er mwyn ymateb i'r sefyllfa leol, sy'n golygu y gall mwy o bobl elwa o'r Cynllun.

DRAFT

# Rhai o'n prif gyflawniadau

- Ers mis Hydref 2022, mae 753 o dai wedi derbyn cymorth grant i wella'u perfformiad ynni. Mae hyn wedi helpu nifer o drigolion Gwynedd i fyw mewn cartrefi mwy clyd ac i osgoi neu ddod allan o dlodi tanwydd trwy ddarparu cefnogaeth i insiwleiddio tai, derbyn offer gwresogi effeithiol ac uwchraddiadau ecogyfeillgar megis paneli solar a phympiau gwres sy'n defnyddio aer.

- Yn ystod Ebrill a Mai 2024, cynhaliwyd Tai ar Daith, sef y gyfres gyntaf o ddigwyddiadau galw-heibio ar gyfer helpu'r cyhoedd gyda materion tai. Ymwelwyd â thri lleoliad – Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau a derbyniwyd adborth cadarnhaol ym mhob safle gan y 158 o unigolion a alwodd heibio. Mae'r Adran wedi derbyn nifer o wahoddiadau i ymweld â lleoliadau eraill ac ymwelir â'r rhain yn y blynyddoedd i ddod.

DRAFFT



# Gwynedd Ofalgar

**Mae gofalu am unigolion bregus yn un o'n prif gyfrifoldebau a'n huchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau drwy: :**

- Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy'n agored i niwed.
- Cefnogi trigolion i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda'u cymunedau, ac i leihau tlodi a'i effeithiau.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion Gwynedd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
- Galluogi trigolion Gwynedd i fyw'n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl.
- Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Cefnogi ein cymunedau i sicrhau hygyrchedd ac i ddatblygu i fod yn sir Oed Gyfeillgar.

DRAFT

# Prosiectau

Gwynedd Ofalgar

Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol

Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal

Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned

Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth

Cynllun Awtistiaeth

Llechen Lân

Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

Cefnogi Llesiant Pobl

DRAFT

# Diweddariad ar y prosiectau

## Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Rydym wedi gorffen uwchraddio Hafod Mawddach a Chefn Rodyn.
- Mae unedau dementia ym Mryn Blodau wedi agor.
- Mae trafodaethau wedi cychwyn ar ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon.
- Rydym yn ymchwilio i weld os oes angen darpariaeth ychwanegol o Dai Gofal ar safle Penyberth, Pwllheli.

## Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Mae chwiliwr Dewis a system therapi galwedigaethol AskSara wedi'i integreiddio i dudalennau gwefan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosib i bobl gael gwybodaeth a chyngor addas ac amserol i'w helpu i aros yn annibynnol, a lleihau pwysau ar wasanaethau traddodiadol.
- Mae dewislen o ddyfeisiau teleofal wedi ei chreu ac mae'n cael ei hyrwyddo ar y wefan, yn y cyfryngau a thrwy'r timau gwaith cymdeithasol er mwyn helpu pobl i aros yn annibynnol. Bydd hefyd yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau traddodiadol.

DRAFT



## Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Sefydlwyd trefniadau cyfathrebu a chyfarfod rheolaidd er mwyn hyrwyddo cydweithio a galluogi'r timau oedolion i deimlo fwy fel un. Mae hyn yn lleihau dyblygu a gwella cyfathrebu sydd yn ei dro yn rhoi gwell gwasanaeth i'r unigolyn.
- Datblygwyd trefniadau cydweithio newydd i'r timau iechyd meddwl a chynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn.

Gwynedd Ofalgar

## Datblygu cyfleoedd hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Penodwyd Cydlynydd Cyfleon Gwaith a Swyddogion Cefnogi Cyflogaeth ychwanegol, a gwnaethpwyd gwaith i adnabod y math a'r nifer o gyfleoedd sydd eu hangen. Golygai hyn fod unigolion ag anabledd dysgu yn cael gwaith cyflogedig (gwir gyflog byw) a bod yr unigolyn a'r cyflogwr yn derbyn cefnogaeth gan swyddogion y Cyngor.

## Cynllun Awtistiaeth

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Penodwyd gweithiwr ataliol yn y tîm cefnogi teulu er mwyn cydweithio gyda phlant sydd ar y llwybr diagnosis neu wedi derbyn diagnosis. Mae'n gweithio yn agos iawn gyda'r tîm awtistiaeth, ac yn rhan o ddarparu ymyrraeth ar sail grŵp.
- Mae'r tîm yn datblygu rhaglenni cefnogi rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir gartref yn effeithiol a phriodol.
- Darparwyd amrywiaeth o hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr gan gynnwys hyfforddiant ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth, a hyfforddiant ynglŷn ag ymddygiad sy'n peri pryder.
- Mae'r tîm yn parhau i weithio ar brosiect Llwybrau Ni, fydd yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc ac egwyl i rieni a gofalwyr.

## Llechen Lân

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Cwblhawyd dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd, y galw am wasanaeth, ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion er mwyn deall ac amlygu'r galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.



## Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Agorwyd cartref grŵp bychan ym Morfa Bychan, a croesawyd dau blentyn i'r cartref. Yn ogystal, prynwyd dau eiddo ychwanegol ac mae gwaith paratoi ar y gweill i'w cofrestru.
- Mynychwyd cyfarfod yn yr ardal i drafod y cynllun.
- Datblygwyd Datganiad o Bwrpas a pholisïau ar gyfer y datblygiad gan y bydd eu hangen i gofrestru'r uned gydag Arolygaeth Gofal Cymru.

DRAFT

## Cefnogi Llesiant Pobl

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Penodwyd Hyrwyddwyr Lles a chynhaliwyd digwyddiadau costau byw, a sesiynau galw-heibio amrywiol.
- Sefydlwyd dau Hwb Cefnogi Pobl mewn dwy ardal newydd.
- Buom yn cydweithio gyda Cyngor Ar Bopeth i ddarparu cefnogaeth rhifedd a cyllidebu i drigolion.
- Rhoddwyd cymorth ymarferol i bobl ddysgu sut i fynd ar-lein a dosbarthwyd cyfarpar TG fel rhan o'r Prosiect Cynhwysiad Digidol.
- Sefydlwyd peilot y cynllun Gafael Llaw sy'n gynllun ar draws gwasanaethau cymdeithasol a Galw Gwynedd, sy'n ymestyn allan yn rhagweithiol i drigolion i wneud yn siŵr fod pawb yn gwybod lle i fynd am gymorth a pha help sydd ar gael.
- Sefydlwyd Cronfa Gyfalaf a Refeniw er mwyn cefnogi prosiectau bwydo yn y cymunedau, a darparwyd cyrsiau coginio yn yr hybiau mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.
- Cynhaliwyd sesiynau Bwyd a Hwyl yn ystod gwyliau'r haf ble darparwyd gweithgareddau i blant oedd yn cynnwys sesiynau addysgiadol, gweithgareddau corfforol ac addysg am fwyd a maeth. Cofrestrodd pedair ysgol i gymryd rhan.
- Darparwyd pecynnau i gefnogi toiledu plant oedd yn cynnwys clytiau go iawn y gellir eu hail ddefnyddio, poti a phecynnau gwybodaeth.
- Dosbarthwyd cannoedd o nwyddau mislif am ddim drwy'r llyfrgelloedd yn ystod 2024/25.
- Dosbarthwyd 5,575 o becynnau bwyd gan gynlluniau bwyd cymunedol drwy'r sir a darparwyd 11,601 o brydau bwyd.
- Mynychodd 3,478 o bobl sesiynau Croeso Cynnes ar draws 25 o gynlluniau ledled y sir ble darparwyd gweithdai lles megis gemau wythnosol a sesiynau creadigol yn ogystal â sesiynau galw mewn ar amryw faterion e.e. arian neu iechyd.

DRAFT

# Rhai o'n prif gyflawniadau

- Lansiwyd Academi Gofal, cynllun unigryw i bobl ddatblygu gyrfa yn y sector Gofal. Darperir profiadau ymarferol a chyfleoedd i staff feithrin a datblygu eu sgiliau i sicrhau gyrfa hir a llwyddiannus o fewn gwasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd.
- Mae bron i ddwy ran o dair (tynnu am 1000) o ddyfeisiau teleofal Gwynedd wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol bellach.
- Er y cynnydd yn y galw, llwyddwyd i leihau rhestrau aros am asesiad. Mae cyllid 'Her 50 Diwrnod' wedi ein galluogi i ariannu gwaith Therapydd Galwedigaethol i roi sylw i restrau aros, yn ogystal ag uwch-sgilio Ymarferwyr i gynnal asesiadau am offer.
- Yn dilyn newidiadau sy'n golygu bod staff yn gweithio rhan o'r wythnos yn yr ysbytai, gwelwyd fod unigolion yn cael asesiad ac ymateb amserol, ac mae hyn wedi arwain at leihad yn nifer yr unigolion sydd yn aros i ddychwelyd adref yn saff o'r ysbyty.
- Mae'r rhestr aros am ofal cartref wedi gostwng yn sylweddol dros y flwyddyn.
- Mae'r gyfradd llenwi cartrefi preswyl y Cyngor wedi codi ac wedi cyrraedd y lefel uchaf ers blynyddoedd sydd yn golygu bod llai o bobl yn aros yn ddiangen mewn ysbytai neu efo risg uchel yn y gymuned.
- Mae'r 'Cynllun cyfleodd gwaith anabledd dysgu' yn mynd o nerth i nerth. Mae'r cynllun cludo cadeiriau arbenigol wedi dechrau, sydd yn cyflogi unigolion ag anabledd dysgu, ac mae nifer o unigolion wedi cwblhau hyfforddiant profi offer trydanol gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth profi ar gyfer adrannau'r Cyngor.
- Cynigwyd 1183 noswaith o ofal egwyl fer i blant dros y flwyddyn (Ebrill 2024 – Mawrth 2025). Mae hyn yn caniatáu i'r plentyn dderbyn gofal a chefnogaeth, a chael cyfleoedd a phrofiadau i annog eu datblygiad a'u lles, tra mae rhieni yn medru mwynhau cyfnodau o seibiant o'i rôl gofalu.
- Cyhoeddwyd tudalen wybodaeth newydd ar wefan y Cyngor er mwyn hyrwyddo'r 12.5 awr o Ofal Plant am ddim sydd ar gael ar ôl i'r plentyn gael ei ben-blwydd yn 2 oed.

DRAFFT



# Gwynedd Gymraeg

**Fel arweinydd cenedlaethol byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Ein huchelgais yw:**

- Sicrhau fod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir a sicrhau fod cyfleoedd digonol i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.
- Cydweithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r gallu i drigolion Gwynedd gael mynediad at holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau fod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.
- Sicrhau mynediad at wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon.

DRAFT

# Prosiectau

## Gwynedd Gymraeg

Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg

DRAFFT

# Diweddariad ar y prosiectau



## Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Y gwaith i adeiladu Uned Iaith ar safle Ysgol Uwchradd Tywyn wedi ei gwblhau ac agorodd yr uned i ddysgwyr yn Ionawr, 2025.
- Mae'r gwaith i foderneiddio'r tair uned drochi Cynradd wedi ei gwblhau gyda gwelliannau wedi eu gwneud i unedau Cymerau, Dolgellau a Maesincla.
- Yn sgil derbyn grant pellach gan Lywodraeth Cymru, mae'r gwaith ar greu pentref rhithwir Aberwla ar gyfer dysgwyr Cymraeg wedi ei gwblhau.

## Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Datblygwyd nifer o brosiectau gwahanol fel rhan o'r Strategaeth Iaith 2023-33 gan gynnwys rhai i hyrwyddo cyfathrebu clir a'r Gymraeg mewn busnes.
- Cynhaliwyd gwerthusiad o brosiect Gwarchod Enwau Llefydd a sefydlwyd rhaglen waith ar gyfer 2025-26 er mwyn sicrhau bod yr enwau Cymraeg yn cael eu gwarchod ac yn parhau i gael eu defnyddio.
- Datblygwyd 'Prosiect 15' ymhellach er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc. Mae'r prosiect yn creu cynnwys digidol yn y Gymraeg ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac mewn gwahanol arddulliau, ac yn creu cyfleoedd newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Comisiynwyd cwmni i greu cynnwys a gweithgareddau ar gyfer 2025/2026 yn ogystal â chreu adroddiad am opsiynau ar gyfer y dyfodol.
- Cyfrannwyd at waith is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau sy'n ceisio ymateb i'r heriau o recriwtio gweithlu gyda sgiliau Cymraeg.
- Cydweithiwyd gyda Phrifysgol Bangor er mwyn ymchwilio i agwedd a defnydd iaith trigolion.

## Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu, cyflwynwyd Polisi Iaith drafft gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y 10fed o Ebrill, 2025. Bydd yn cael ystyriaeth bellach gan y Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Comisiynwyd Astudiaeth Effaith o'r Gyfundrefn Drochi a bydd yr adroddiad, fydd yn cynnwys argymhellion o'r prif ganfyddiadau a gwelliannau posib i'r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn yr hydref.

DRAFT

Gwynedd Gymraeg

# Rhai o'n prif gyflawniadau

- Rhoddwyd cymorth i Fenter Iaith Gwynedd sefydlu yn fenter iaith gynaliadwy a fydd yn hybu'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Gwynedd. Llwyddwyd i gadw at yr amserlen a chwblhau'r gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol gan gynnwys trosglwyddo staff i'r endid annibynnol erbyn 1 Ebrill 2025.
- Cydlynwyd Fforwm Iaith Gwynedd gan gynnwys prosiect ymgysylltu gyda phobl ifanc er mwyn deall mwy am eu hagwedd a defnydd o'r Gymraeg.
- Cynhaliwyd peilot o ran mesur defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd wrth ddefnyddio rhai o wasanaethau rheng flaen Cyngor Gwynedd gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, derbynfeydd a chanolfan alwadau.

DRAFFT



# Gwynedd Werdd

**Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, a'n nod yw i fod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Ein huchelgais yw i sicrhau:**

- Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd natur.
- Rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.
- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

DRAFT

# Prosiectau

Gwynedd Werdd

DRAFFT

- Gweithredu ar risgiau llifogydd
- Gwastraff ac ailgylchu
- Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Cymunedau Glân a Thaclus
- Cynllun Datblygu Lleol newydd

# Diweddariad ar y prosiectau




### Gweithredu ar risgiau llifogydd

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Mabwysiadwyd Strategaeth Llifogydd newydd ar gyfer y sir.
- Cwblhawyd prosiect gwerth bron i £6 miliwn fydd yn diogelu ardal Hirael ym Mangor rhag effeithiau llifogydd arfordirol ac yn gwella adnoddau hamdden lleol.
- Yn Abermaw, mae'r gwaith dylunio manwl ar gyfer Promenâd y Gogledd yn parhau ar y trywydd iawn ac yn symud yn unol â'r rhaglen. Mae model ffisegol o'r cynllun wedi'i adeiladu yng Ngholeg yr Imperial Llundain, a bydd yn cael ei ddefnyddio i asesu unrhyw newidiadau posibl i'r risg llifogydd yn sgil ein gwaith. Disgwylir i'r cam dylunio manwl gymryd tua dwy flynedd i'w gwblhau.

DRAFT

### Gwastraff ac ailgylchu

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Lluniwyd drafft o Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu fydd yn gosod cyfeiriad am y blynyddoedd i ddod gyda'r nod o uchafu lefelau ailgylchu a chamau penodol i drawsnewid y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Bydd hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2025.
- Rydym wedi bod yn cydweithio â Wrap Cymru i baratoi cynlluniau cychwynnol ar gyfer cyfleusterau trin a phrosesu gwastraff modern ac addas i bwrpas ar gyfer safleoedd Caergylchu (Caernarfon) a Ffridd Rasus (Harlech).
- Treialwyd cynllun i hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau ailgylchu penodol yn ardaloedd Tanygrisiau a Bangor, gyda'r bwriad i'w ymestyn i ardaloedd eraill yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Rhoddwyd sylw ychwanegol i reoli gwariant, gan roi ystyriaeth i'r cynlluniau arbedion yn ogystal ag anelu i osgoi gorwariant.

### Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Bellach mae 31% o geir a faniau fflyd yn gerbydau trydan
- Gosodwyd 60 pwynt gwefru mewn 13 lleoliad ar gyfer y fflyd
- Mae Partneriaeth Natur Gwynedd wedi denu gwerth £2.3milliwn i Wynedd ar gyfer gwaith cadwraeth yn y ddwy flynedd diwethaf, ac wedi derbyn £511,000 pellach am y ddwy flynedd nesaf, gan gyfrannu'n sylweddol at dargedau natur a bioamrywiaeth cenedlaethol.
- Llwyddwyd i ddenu'r grantiau canlynol yn y maes adeiladau ac ynni: £300,000 gan Ynni Cymru ar gyfer gosod batris yng Nghanolfannau Hamdden Plas Silyn a Plas Ffrancon, ac £1.7M gan Lywodraeth Cymru gyda'r Grant Gwres Carbon Isel ar gyfer Plas Ogwen Bethesda. Hwn yn gynllun cyffrous gyda'r her o ddod ag adeilad fel hyn i fod yn Passivhaus.

## Teithio Llesol

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Yn dilyn cyflwyno cynlluniau manwl i Lywodraeth Cymru am gynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, datblygwyd cynlluniau llwyddiannus yn Ffordd Penrhos Bangor (ail wedd), Ysgol Rhostryfan ac Ysgol Treferthyr, Cricieth. Bydd y prosiectau i gyd wedi eu cwblhau yn fuan yn 2025-26.
- Hyrwyddwyd y llwybrau cerdded a beicio i drigolion ac ymwelwyr i'r sir, gan dynnu sylw penodol at rwydwaith teithio llesol Gwynedd.

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Yn dilyn adolygiad, cyflwynwyd rhwydwaith bysiau cyhoeddus newydd ym Meirionnydd ac yn Arfon fydd yn gwella'r ddarpariaeth yn yr ardal. Bydd angen cynnal adolygiad pellach yn Nwyfor yn dilyn canlyniadau tendr diweddar.




## Cymunedau Glân a Thaclus

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Mae tîm tacluso Ardal Ni wedi delio gyda chynnydd sylweddol o geisiadau am waith gan gynnwys torri chwyn trefol a gordyfiant, golchi strydoedd a thynnu gwm, glanhau arwyddion ffyrdd/enwau strydoedd, a glanhau dodrefn stryd. Maent yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol iawn gan Aelodau, cynghorau cymuned a thref a thrigolion lleol.
- Bu gostyngiad o 21% yn yr achosion tipio anghyfreithlon ddaeth i sylw'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Cynhaliwyd ymgyrch i godi ymwybyddiaeth pobl i lanhau ar ôl eu cŵn, a gwelwyd lleihad yn nifer y cwynion gan y cyhoedd am y broblem.

## Cynllun Datblygu Lleol newydd

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Rydym wedi dechrau gweithredu'r Cytundeb Cyflawni er mwyn hwyluso'r trefniadau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i Wynedd. Derbyniodd y Cytundeb Cyflawni gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r camau cyntaf o gasglu tystiolaeth a galw am safleoedd datblygu wedi cychwyn. Bydd y gwaith yma yn parhau yn ystod 2025-26.

DRAFT

# Rhai o'n prif gyflawniadau

- Llwyddodd Safonau Masnach i gyrraedd y targed o archwilio 100% o fusnesau risg uchel yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo sydd wedi ei drwyddedu i werthu ffrwydron a thân gwyllt yn ogystal â rhai yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid.
- Llwyddodd 82% o siwrneiau bws lleol gyrraedd ar amser.
- Mae 38% o geir neu faniau'r Cyngor bellach yn rhai gwyrdd (trydan neu hybrid).
- Bu cynnydd o 0.98% yn nifer y litrau o danwydd a ddefnyddiodd y Cyngor o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Mae'r mwyafrif llethol (99%) o fusnesau bwyd sy'n cael eu harchwilio yn parhau i gyrraedd sgôr o 3+, a threfnir ail-ymweliad o fewn 3 mis ar gyfer y rhai sy'n cael sgôr is na hynny. Fodd bynnag mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi datgan nad yw'r Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol o ran amlder archwiliadau safonau bwyd a hylendid bwyd. Mae'r gwasanaeth yn y broses o gyfarch argymhellion yr ASB er mwyn gwella'r sefyllfa.
- Mae ein lefelau ailgylchu dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson 64%. Fodd bynnag, yn sgil y cynnydd yn y targed cenedlaethol i 70%, nid ydym bellach yn cyrraedd y targed statudol. Bydd y Strategaeth Wastraff yn manylu ar gynlluniau i fynd i'r afael â hyn.
- Bu gostyngiad sylweddol o 44% yn nifer y cwynion am fethu casglu gwastraff ac ailgylchu yn ystod y flwyddyn.

DRAFFT



# Gwynedd Effeithlon

DRAFT

**Er mwyn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau fod ein trefniadau gweithredu mewnol o'r safon uchaf bob amser. Ein huchelgais yw:**

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

# Prosiectau

Gwynedd Effeithlon

Cynllunio'r Gweithlu

Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch

Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

Datblygu diwylliant y Cyngor

Sicrhau tegwch i bawb

Merched mewn arweinyddiaeth

Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol

Cynllun Digidol

DRAFT

# Diweddariad ar y prosiectau




## Cynllunio'r Gweithlu

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Sefydlu cynllun profiadau gwaith, fel ffrwd arall i geisio denu pobl i ddod i weithio i'r Cyngor yn y dyfodol.
- Lluniwyd dashfwrdd sydd yn darparu gwybodaeth ar hyfforddiant mandadol staff.
- Sefydlwyd cynllun hyfforddi gweithlu penodol ar gyfer staff cyffredinol, i gydweddu a chefnogi cynlluniau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer rheolwyr ac arweinyddiaeth y Cyngor yn ehangach.
- Llwyddodd y Cyngor i gael achrediad Lefel 2 yn y cynllun 'Hyderus o Ran Anabledd'.
- Sefydlu fforwm / fforymau staff ar faterion cydraddoldeb.
- Penodwyd rhagor o brentisiaid a hyfforddeion proffesiynol. Ar gyfer 2025, mae cyfanswm o 21 o swyddi newydd ar gael, sef 13 swydd prentis ac 8 swydd i raddedigion.

## Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Dechrau'r gwaith o gyflwyno system TG newydd Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor.
- Llunio cynllun gweithredu ar gyfer Tîm Rheoli'r Cyngor ar sut i gyrraedd model integredig o reoli iechyd a diogelwch.

## Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Gwaith adolygu polisïau wedi ei gyflawni a thrafodaethau wedi'u cynnal gyda rhan helaeth o'r Adrannau.
- Mae'r gwaith o addasu'r gofodau adrannol o fewn y Pencadlys wedi'i gwblhau i alluogi adleoli staff o'r swyddfeydd ymylol.
- Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud er mwyn adnabod ein hangen ar gyfer gofod swyddfa yn Ffordd y Cob a Phenarlâg, ac ystyriwyd opsiynau i uchafu defnydd y safleoedd trwy gyfuno defnyddiau amgen.

DRAFT

## Datblygu diwylliant y Cyngor

### Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- "Ffordd Gwynedd" ydi'r enw ar y ffordd o weithio yr ydym wedi'i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Newid diwylliant, ymddygiadau a meddylfryd sydd wrth wraidd hyn, ac mae'n digwydd ar draws pob rhan o weithgaredd y Cyngor.
- Ail-sefydlwyd y Grŵp Ymarferwyr fel Grŵp Arbrofi a Gwella, gyda'r bwriad o ysgogi mwy o rannu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd.
- Cynhaliwyd adolygiadau o systemau a phrosesau mewn unedau gwasanaeth ymhob adran yn y Cyngor.
- Cynhaliwyd dwy gyfres o'r Rhwydwaith Rheolwyr ac Arweinyddion Tîm i ddelio gydag eitemau fel cydweithio traws-adrannol, strategaeth llesiant, dathlu llwyddiant, deall a gwella perfformiad, rheoli absenoldebau a'r arfer o gynnal adolygiadau o systemau gwaith.
- Sefydlwyd Fforwm Penaethiaid Cynorthwyol am y tro cyntaf o fewn y Cyngor, a hynny o ganlyniad i adnabod bwlch yn y cyfleoedd i'r garfan hon o uwch-reolwyr rannu profiadau a chyfrannu at ddatblygiad y sefydliad.
- Mae Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd wedi'i lawnsio gyda'r rhaglen am y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar hyfforddiant sylfaenol fel rheolaeth cyllid, llesiant a sgiliau digidol.
- Cyflwynwyd Strategaeth Llesiant newydd. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar dri sylfaen, sef arwain a rheoli, cefnogaeth gynaliadwy ac amgylchedd gwaith gyda llesiant meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol yn ganolbwynt i'r hyn a geisir ei gyflawni.

## Sicrhau tegwch i bawb

### Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Bu gwaith casglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata yn ymwneud ag ysgolion. Yn benodol, achosion o fwlio a throseddau casineb, y gwir gost ariannol ac emosiynol o fynychu'r ysgol ynghyd â phresenoldeb, prydlondeb a chyrhaeddiad grwpiau amrywiol o ddisgyblion. Mae gwaith wedi dechrau ar adnabod anghenion hyfforddiant i staff ysgolion ac o gydweithio gyda swyddogion lles, gwasanaeth ieuenctid, yr heddlu ac asiantaethau i allu gweithredu ar y data.
- Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael yn y dashfwrdd data cenedlaethol gan Data Cymru, gan benderfynu creu dashfwrdd tebyg yn fewnol sy'n edrych yn benodol ar Wynedd.
- Parhau gyda'r fframwaith hyfforddiant gan sicrhau ei fod yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion cydraddoldeb / pynciau eang, er mwyn rhoi'r adnoddau a'r hyder i'n staff ar bob lefel o fewn y Cyngor i barchu amrywiaeth a delio ag ystod o anghenion yn addas. Mae'r cwrs hyfforddiant LHDTC+ yn weithredol ac ar gael i'r holl staff ers cychwyn 2025.
- Yn dilyn cyflwyno'r drefn asesu effaith newydd, rydym wedi cael siawns i'w wella yn sgil cyfnod peilot. Rydym hefyd wedi edrych ar godi ymwybyddiaeth staff o'r drefn newydd a rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant i sicrhau safon y gwaith.
- Sefydlu fforwm / fforymau staff er mwyn trafod materion cydraddoldeb, fel bod ein gweithwyr yn gallu cyfrannu i'r maes o fewn y Cyngor.

DRAFT

## Merched mewn arweinyddiaeth

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Cynhaliwyd rhagor o weithgareddau sy'n sylfaen i waith y prosiect megis y Rhaglen Datblygu Potensial a'r Sgyrsiau dros Baned.
- Hyrwyddwyd a chodwyd ymwybyddiaeth o faterion rhagfarn heb wybod a hunan ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr a staff.
- Cynhaliwyd digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion.
- Parhau i ystyried beth mae Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn ei wneud i annog merched i ymgeisio am swyddi uwch er mwyn adnabod a rhannu arfer da.
- Parhau i roi sylw i gyfansoddiad pwyllgorau a grwpiau er sicrhau bod cydbwysedd o ran cynrychiolaeth fenywaidd a gwrywaidd.



## Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Cyfanswm o arbedion gwerth £43 miliwn wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 93% o'r £46.6m gofynnol dros y cyfnod. Mae gwerth £5.6 miliwn o gyfanswm yr arbedion yn berthnasol i arbedion y flwyddyn ariannol 2024/25.
- Monitro bod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol.
- Cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau ar gynlluniau arbedion a thoriadau 2025/26, gan edrych ar ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau.

## Cynllun Digidol

**Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:**

- Rydym yn dilyn rhaglen waith fanwl er mwyn gwireddu'r Cynllun Digidol, ac mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn cadw trosolwg ar ein cynnydd.
- Er mwyn cefnogi trefn newydd y Cyngor "Gweithio i'r dyfodol" datblygwyd system gyfrifiadurol newydd i alluogi staff neilltuo desgiau.
- Gwaith yn digwydd i ail-ddylunio gwefan y Cyngor. Bydd yn cael ei brofi gyda'r cyhoedd yn ystod 2025-26.
- Mae gwelliannau yn digwydd i ddarpariaeth ffôn y Cyngor, gyda bron i 1000 o staff ar y system newydd bellach, gan gynnwys y Ganolfan Gyswllt a rhai ysgolion, ac mae rhaglen gynhwysfawr wedi ei pharatoi ar gyfer cwblhau'r ddarpariaeth.
- Gwaith wedi ei gynnal er mwyn dod i gasgliad ar ein hopsiynau ar gyfer systemau rheoli'r sefydliad i'r dyfodol.

DRAFT

# Rhai o'n prif gyflawniadau

- Yn ystod 2024-25, cyhoeddwyd 89 o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a wnaeth arwain at 469 o eitemau newyddion, sydd yn cymharu'n ffafriol â'r flwyddyn flaenorol. Dros yr un cyfnod, fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd ddelio gyda 510 o ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau.
- Roedd 2,790,297 ymweliad â gwefan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Cyflwynwyd 261,549 cais am wasanaeth ar-lein yn 2024-25 sef 4,472 cais yn fwy nac yn 2023-24.
- Lansiwyd cyfrif newydd gan y Cyngor ar gyfrwng cymdeithasol Bluesky.
- Ar gyfartaledd mae'r tîm cyfieithu wedi cyfieithu bron i 400,000 o eiriau bob mis, ynghyd â chyfieithu ar y pryd mewn bron i 60 o gyfarfodydd bob mis.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn ystod y flwyddyn, ac mae'r canlyniadau yn cael eu defnyddio i adnabod anghenion ein gweithwyr a sut gall y Cyngor wella ymhellach.
- Cyflwynwyd adolygiad er mwyn gwella'r gyfradd casglu Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r mannau pleidleisio yn y sir er mwyn asesu addasrwydd ein gorsafoedd ac ystyried os oes lleoliadau mwy addas ar gael.

DRAFFT

DRAFT

| | *Hirdymor* | *Atal* | *Integreiddio* | *Cydweithio* | *Cynnwys* |
|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD YFORY | | | | | |
| *Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant I'r ysgol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd.* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| GWYNEDD LEWYRCHUS | | | | | |
| *Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld cynaliadwy* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Adfywio cymunedau a chanol trefi* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd i mewn i waith* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Cadw'r Budd yn Lleol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| GWYNEDD GLYD | | | | | |
| *Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| *Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd* | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| *Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd* | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| *Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD OFALGAR | | | | | |
| *Moderneiddio ein hadnoddau gofal I gwrdd ag anghenion y dyfodol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Cynllun Awtistiaeth* | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| *Llechen Lân* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Cefnogi Llesiant Pobl* | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| GWYNEDD GYMRAEG | | | | | |
| *Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant* | ✓ | ✓ | | | |
| *Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD WERDD | | | | | |
| *Gweithredu ar risgiau llifogydd* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Gwastraff ac ailgylchu* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Teithio Llesol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Trafnidiaeth Gyhoeddus* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Cynllun Datblygu Lleol newydd* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Cymunedau Glân a Thaclus* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| GWYNEDD EFFEITHLON | | | | | |
| *Cynllunio'r Gweithlu* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Datblygu diwylliant y Cyngor* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Sicrhau tegwch i bawb* | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| *Merched mewn arweinyddiaeth* | | | | ✓ | |
| *Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Cynllun Digidol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| *Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru

DRAFT

# Cydnabyddiaethau

Mae'r delweddau ar y tudalenau canlynol wedi'u credydu i ac wedi'u darparu gan © Hawlfraint y Goron / © Crown copyright (2025) Cymru Wales: 1, 4, 5, 6, 8, 9, 13, 14, 25, 31

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2024/25

## Cefndir a Chyflwyniad

Dyma'r pedwerydd hunanasesiad i Gyngor Gwynedd ei gynnal dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-

i. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad i. a ii.

Eleni, am y tro cyntaf, rydym yn ystyried y tri chwestiwn yma yng nghyd destun cryfderau a gwendidau pob un o'r meysydd yng Nghynllun y Cyngor. Pwrpas y Cynllun 5 mlynedd hwn yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028, felly mae ystyried y tri chwestiwn uchod wrth fanylu ar ein prif gryfderau a gwendidau yn ddull addas ac effeithiol o daflu golau ar berfformiad y Cyngor.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun fe ystyriwyd ystod eang o faterion i'w blaenoriaethu a bu i ni ymgysylltu ac ymgynghori gyda phobl leol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a phartneriaid. Un rhan o waith oedd yn allweddol yn natblygiad Cynllun y Cyngor oedd gwaith *Ardal Ni* sy'n amlinellu'r hyn sy'n dda am yr ardal, yr hyn sydd ddim cystal, a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn creu gwell ardal erbyn 2035.

Bwriad y broses hunanasesu yw annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu'r Cyngor. Er bod y ddyletswydd hon yn un eithaf newydd, mae'r Cyngor eisoes yn paratoi nifer o ddogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Y Grŵp Llywodraethu, sy'n cynnwys swyddogion megis y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ymysg eraill, sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r gwaith hyn o fewn y Cyngor. Bwriad hyn yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

Mae'n fwriad gan y Cyngor i gynnal Asesiad Perfformiad Panel, fydd yn cynnwys aelodau annibynnol. Yn wreiddiol bwriadwyd gwneud hyn fis Tachwedd y llynedd, ond oherwydd y newidiadau gwleidyddol fu yn y Cyngor newidiwyd hyn i fis Mawrth 2026. Mae angen cynnal Asesiad Panel o leiaf unwaith o fewn cylch etholiadol ac mae'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad gyda'r dogfennau hyn yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth.

Mae ein trefniadau herio a chefnogi perfformiad wedi bod yn eu lle ers sawl blwyddyn bellach. Cynhelir y cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yma ar lefel Adrannol bob yn ail fis, a maent yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau Cynllun y Cyngor, perfformiad gwasanaethau (sef y gwaith 'dydd i ddydd'), a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynir gan bob Aelod Cabinet yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ceir copi o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar wefan y Cyngor yma: Mesur Perfformiad. Er mwyn cryfhau hyn ymhellach yn y dyfodol, bydd addasiadau i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad o Ebrill 2025 ymlaen gyda threfn i adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgorau Craffu, fydd yn arwain at mwy o fewnbwn i'r broses gan aelodau.

Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'n trefniadau llywodraethu gan ymateb i'r 3 gofyniad perfformiad y disgwylir i Gynghorau ymateb iddynt fel rhan o'r hunanasesiad. Rydym hefyd wedi ystyried y fethodoleg ddrafft a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Asesiadau Panel wrth baratoi'r hunanasesiad ar gyfer 2024/25 gan ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?
- Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni wneud er mwyn gwella, a sut?

Yr hunanasesiad ar gyfer 2021-22 oedd ein hasesiad cyntaf a rhoddwyd camau mewn lle er mwyn cyfarch y gwelliannau oedd wedi eu hadnabod. Gwelwyd bod rhai o'r gwelliannau hynny yn parhau yn asesiad 2022-23 ac yn 2023-24 gan eu bod yn faterion hirdymor, ond ategwyd nifer o bwyntiau ychwanegol hefyd. Eleni, gwelir y patrwm yn parhau, gyda'r materion hirdymor yn ail-ymddangos ond gydag ystyriaethau newydd yn cael eu hychwanegu yn ogystal.

Mae'r ddogfen hon felly yn grynodeb lefel uchel o berfformiad y Cyngor yn ystod 2024/25, wedi ei gategoreiddio fel cyfres o Gryfderau a Risgiau dan bob maes blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a welir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yng Nghynllun y Cyngor.

Mae'r Cryfderau yn seiliedig ar:

- uchafbwyntiau yr adroddiad perfformiad blynyddol
- adborth sydd wedi ei dderbyn gan gyrff archwilio allanol (e.e. Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn etc.)
- materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol

Mae'r Risgiau yn seiliedig ar:

- ein prif risgiau fel a nodir yn y gofrestr risg corfforaethol
- materion wedi eu hadnabod gan gyrff archwilio allanol
- materion eraill yr ydym wedi eu hadnabod a'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor
- materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol

Mae'n bwysig nodi fod nifer fawr o'n cryfderau wedi eu cynnwys yn rhannau eraill yr adroddiad blynyddol, yn enwedig ble mae nhw'n ymwneud â phrosiectau Cynllun y Cyngor

a’n gwaith dydd-i-ddydd. Er mwyn osgoi ail-adrodd, nid ydym (gan amlaf) yn eu rhestru yn yr Hunanasesiad hefyd. I’r darllenydd, bydd ystyried y ddwy ddogfen (yr Adroddiad Blynyddol a’r Hunanasesiad) gyda’i gilydd yn rhoi darlun llawnach o berfformiad y Cyngor dros y cyfnod dan sylw.

Er bod nifer o’r blaenoriaethau yn cynnwys cyfrifoldebau traws-adrannol, dylid nodi fod ‘Gwynedd Effeithlon’ yn llawer mwy corfforaethol ei natur gan fod nifer o’r cryfderau a’r gwendidau sydd i’w gweld yma yn rhai sefydliadol. Mae’r flaenoriaeth yma ychydig yn wahanol i’r gweddill felly, sy’n fwy tueddol o adlewyrchu cryfderau a gwendidau adrannol.

## Gwynedd Effeithlon

### Cryfderau

- Mae’r Cyngor wedi llwyddo i ddygymod gyda chyfnodau o lymder/diffyg arian yn effeithiol, ond mae’r sefyllfa yn dod yn gynyddol anoddach wrth i’r cyllid a ddarperir gan y Llywodraeth leihau. Mae’r Cyngor yn pryderu yn fawr am y pwysau mae hyn yn ei roi ar drigolion y sir i gwrdd â’r cynnydd yn y Dreth Cyngor, ynghyd â gallu’r Cyngor i ddarparu gwasanaethau digonol i boblogaeth Gwynedd o fewn ein cyllideb.
- Trefniadau Llywodraethu corfforaethol da. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni’n swyddogaethau yn effeithiol, rydym yn gosod mesurau perfformiad mewn lle er mwyn herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau. Rydym yn adolygu’r mesurau hyn o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, ac rydym yn ymwybodol o’r angen i herio ein hunain yn barhaus a gosod mesurau sydd yn ystyrlon er mwyn ein caniatáu ni i wella yn gyson. Rydym yn cydnabod fod gennym le i wella o safbwynt y gwaith o flaengynllunio llif gwaith manwl dros gyfnod Cynllun y Cyngor 2023-28, ac o ganlyniad rydym wedi cyflwyno cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer pob un o’r prosiectau er mwyn caniatáu i ni fesur cynnydd yn ogystal â chynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol. Mae’r gwaith i wella hyn ymhellach yn parhau.
- Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae Canllaw i’r Cyfansoddiad yn cael ei ddarparu er mwyn atgyfnerthu hyn. Mae’r Grŵp Llywodraethu yn cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae’r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a’r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- Mae’r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy’n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a’u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government.
- Mae gan y Cyngor broses i reoli risgiau drwy gael Cofrestr Risg Corfforaethol yn ei lle.
- Cynhelir gweithdy blynyddol ar sicrwydd a risgiau gydag archwilwyr allanol (Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn).
- Pan gyhoeddir argymhellion gan gyrff archwilio allanol, bydd ymateb sefydliadol yn cael ei baratoi ar ran y Cyngor ac mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am adolygu ac asesu’r ymateb ynghyd â’r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

- Ceir trefniadau priodol hefyd i ymateb i unrhyw adroddiadau gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).
- Mae prif risgiau llywodraethu wedi eu sgorio yn gorfforaethol ac ar lefel Adran gan fod lefel y risg yn amrywio. Mae’r Grŵp Llywodraethu mewnol gyda throsolwg ac yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd o fewn Cyngor Gwynedd.
- Mae’r Cyngor wedi comisiynu *Local Partnerships* i gynnal adolygiad o’n trefniadau llywodraethu, gyda’r bwriad o roi her annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor yn ogystal â chynnig unrhyw argymhellion i wella. Bydd yn rhoi sylw penodol i:
    i. Gynnal adolygiad trwyadl o’n trefniadau presennol gan gynnwys ein trefniadau llywodraethiant a threfniadau ariannol.
    ii. Adolygu ein trefniadau llywodraethiant yng nghyd-destun y Cyfansoddiad presennol er mwyn asesu os yw’n addas i bwrpas.
    iii. Asesu os yw’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cyflawni ei bwrpas.
    iv. Adnabod sut rydym yn cyrraedd yr ystod llawn o ofynion statudol wrth wneud penderfyniadau, e.e. Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, Y Gymraeg.
    v. Gwerthuso’r modd yr ydym yn adnabod ac asesu risgiau ac yn eu hadolygu a‘u monitro.
    vi. Gwerthuso’r modd yr ydym yn monitro a chyflawni argymhellion i wella gan reoleiddwyr allanol a mewnol gan ddysgu gwersi ar draws y sefydliad.
    vii. Adnabod beth allwn ei wneud er mwyn cryfhau ein trefniadau llywodraethiant i'r dyfodol.
- Rydym yn ymwybodol fod angen parhau i adolygu’r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio. Fel rhan o’r gwaith yma byddwn yn gwella’r hyfforddiant sy’n cael ei gynnig i reolwyr ar reoli risg. Yn ychwanegol, rydym am adolygu i ba raddau y mae’r mesurau penodol sy’n cael eu cyflwyno er mwyn cyfarch y risg yn llwyddo i leihau risgiau yn effeithiol. Byddwn hefyd yn ystyried os y dylem ychwanegu cofnod o’r sgôr sy’n cymryd i ystyriaeth unrhyw gamau lliniaru (mitigation), yn ogystal â’r sgôr risg presennol (sy’n ganlyniad i’r *effaith x tebygolrwydd* yn unig). Bydd gwaith Archwilio Cymru i gynnal Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg y Cyngor yn ystod 2025 yn bwydo i’r gwaith yma, ynghyd ag argymhellion adolygiad *Local Partnerships*.
- Y Pennaeth Cyllid sydd i baratoi a hybu datganiad polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod. Mae’r strategaeth i reoli risgiau wedi’i berchnogi ar lefel gorfforaethol drwy’r Grŵp Llywodraethu y cyfeirir tuag ato uchod, gyda’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn herio’r sgoriau risg llywodraethu.
- Fel rhan o’i drefniadau parhad gwasanaeth, mae’r Cyngor wedi categoreiddio Gwasanaethau o 1 i 4 ar sail blaenoriaeth adfer ar ôl trychineb. Bu i hyn alluogi’r sefydliad flaenoriaethu yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 gan sicrhau parhad gwasanaethau ‘hanfodol’. Mae gwersi sydd wedi eu dysgu wrth ddelio ag argyfwng Covid-19 wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcráin.
- Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i’r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae trefniadau newydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ceisio safoni a cheisio cysoni y sgoriau ar gyfer risgiau uchel iawn. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol bob 3 mis. Yn ystod 2025/26 byddwn hefyd yn adrodd ar y risgiau hyn

i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth ddwywaith y flwyddyn (mis Medi a Chwefror).

- Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2024/25, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- Mae Gwynedd yn awdurdod lletya i nifer o bartneriaethau gwahanol, ac mae'n darparu cefnogaeth effeithiol ar eu cyfer.
- Mae trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, gyda 97% o Gynghorwyr Gwynedd yn adrodd bod y gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/dda iawn. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac yn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn a mae'r asesiad cyfredol yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar draws pob un o'r safonau. Yn 2025, rydym wedi comisiynu CIPFA i ymgymryd â gwiriad annibynnol o'r hunanasesiad, a bydd canlyniad y gwaith hwnnw yn cael ei ystyried wrth ddylunio gwasanaeth cefnogaeth gyllidol ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i **81** o brentisiaid ers 2019 (sy'n un o'r niferoedd uchaf yng Nghymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill). Mae nifer o enghreifftiau o lwyddiant y Cynllun, gydag amryw o unigolion sydd wedi cychwyn ar y Cynllun Prentisiaethau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor. Yn yr un modd mae'r Cynllun Graddedigion (sef Cynllun Yfory) wedi rhoi cyfle i **37** hyfforddai proffesiynol ers 2017 gyda nifer ohonynt wedi cael cynnig swydd gyda'r Cyngor. Ar gyfer 2025, mae cyfanswm o 21 o swyddi newydd ar gael, sef 13 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion. Mae meysydd y swyddi yn amrywio – o feysydd newydd fel Ynni a gweithio gyda Chynghorwyr, i rhai sefydlog megis Peirianneg Meddalwedd, Cyllid a Phensiynau a Mecanic, i enwi dim ond rhai.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff 2024 yn ystod cyfnod heriol oedd yn cynnwys ansicrwydd cyllidol, newidiadau gwleidyddol yn y Cyngor, a chyfnod o gyflwyno newidiadau pellach i'n trefniadau gwaith 'gweithio i'r dyfodol' yn dilyn y pandemig. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad bychan yn lefel bodlonrwydd staff mewn ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau, ond mae'r lefel bodlonrwydd yn parhau yn uchel ar gyfer rhai o'r prif ddangosyddion e.e. y sgôr ar gyfer y datganiad 'mae'r Cyngor yn lle da i weithio' yn 80%, ac yn 87% ar gyfer "Rydw i wedi fy ysgogi i wneud fy ngorau yn fy swydd er lles pobl Gwynedd." Fel ag yn arolwg y llynedd, roedd 4 rhan i'r arolwg eleni – Fi a'm Llesiant, Fi a'm swydd, Fi a'm gwasanaeth a Fi a'm Cyflogwr. Gwelwyd fod rhai o'r themâu ddaeth i'r amlwg y llynedd yn cael eu hailadrodd, yn enwedig materion yn ymwneud â derbyn gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth, ac mae'r rhain yn parhau yn bwyntiau i'w gwella. Mae mwy o staff hefyd yn mynegi pryder am bwysau gwaith, sydd o bosib yn ganlyniad i'r wasgfa ariannol sydd wedi wynebu'r cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn hefyd yn derbyn sylw pellach.

Cwblhaodd 1,330 o staff yr holiadur Llais Staff, sef tua 21.8% o'r staff gafodd gyfle i ateb yr arolwg. Nododd **50.6%** eu bod yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.**
Roedd **40.9%** yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo**, ac roedd **48.6%** yn cytuno neu cytuno'n gryf **fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio yn effeithiol.**

I'r dyfodol bydd cyfarfodydd codi ymwybyddiaeth ar gyfer yr Arolwg Llais Staff yn cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr o bob adran, gyda'r nod pennaf o gynyddu nifer y staff sy'n cymryd rhan. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Penaethiaid Adrannau i annog cyfranogiad drwy gyfathrebu cyson a rhannu niferoedd wythnosol o'r rhai sydd wedi cwblhau'r Arolwg.

- Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur gan ofyn iddynt am adborth ar y meysydd canlynol:
    - Sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd i'w gwella
        - A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol?
        - A yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo?
        - A oes gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio'n effeithiol?
    - Awgrymiadau ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles staff

Ymhlith yr ymatebion, nodwyd fod lle i wella'r cyfathrebu gydag undebau ynglŷn a materion staffio mewn rhai adrannau, ac roedd cydnabyddiaeth fod gennym rywfaint o ffordd i fynd o ran Partneriaeth Gymdeithasol (pan mae grwpiau fel llywodraeth leol, busnesau ac undebau llafur yn cydweithio i wneud penderfyniadau), gan fod hon yn broses o ddysgu.

- Mae'r Cyngor yn casglu barn pobl y sir mewn sawl ffordd wahanol er mwyn gwella gwasanaethau a hefyd er mwyn cwrdd y gofyniad cyfreithiol sydd ar gynghorau i ymgysylltu â phreswylwyr dan wahanol ddeddfau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Eleni, roedd Gwynedd yn rhan o'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, y cyntaf o'i fath i'w gynnal yng Nghymru. Er ein bod yn sylweddoli cyfyngderau arolwg o'r fath, mae'n fodd ychwanegol o gasglu barn a byddwn yn triongli'r canfyddiadau gyda data a gwybodaeth eraill a gesglir gennym er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol. Un fantais benodol gyda'r arolwg hwn yw ei fod yn caniatáu i ni gymharu ein canlyniadau gyda chynghorau eraill, rhywbeth na fu'n bosib gydag arolygon mewnol yn unig. Cafwyd 3,094 o ymatebion i'r arolwg ac mae'r canlyniadau yn cynnwys:

    i. Canran yr ymatebwyr sy'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar sut mae'r Cyngor yn rhedeg pethau:

    Gwynedd: 31%  (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

    ii. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

    Gwynedd: 55% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

iii. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n cynrychioli gwerth da am arian (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 43% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

O ran canlyniadau eraill a welir yn yr arolwg mae:

iv. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn cymryd barn preswylwyr i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 27% (2il allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

v. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn gweithredu ar bryderon preswylwyr lleol (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 30% (2il allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

vi. Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ychydig neu'n gryf bod cysylltu a'r cyngor yn syml:

Gwynedd: 50% (1af yng Nghymru o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

vii. Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ychydig neu'n gryf bod cael gafael ar wybodaeth gyfredol am wasanaethau'r cyngor yn hawdd

Gwynedd: 45% (1af yng Nghymru o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

viii. Canran yr ymatebwyr sy'n ymddiried yn y cyngor cryn dipyn neu'n fawr iawn

Gwynedd: 37% (cyd 3ydd o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

- Rydym hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol am gwynion, ac yn addasu ein gwasanaethau yn barhaus pan fydd sylwadau neu gwynion yn awgrymu gwelliannau. Mae'r nifer o Gwynion Ffurfiol Dilys wedi gostwng eleni o'i gymharu a llynedd, ond mae'r rhai sydd wedi mynd at yr Ombwdsmon wedi cynyddu. Rydym yn dal i weithio ar leihau'r amser a gymerir i ymateb i gwynion, ac yn anelu i'r Siarter Cyswllt Cwsmer newydd sydd yn cael ei datblygu gael effaith bositif ar hyn.
- Rydym yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus i osgoi 'blinder ymgynghori' ('consultation fatigue') gan ein bod eisoes yn gofyn barn ein trigolion am nifer o bynciau a chynlluniau amrywiol, ac o ganlyniad mae gennym Grŵp Ymgysylltu traws adrannol sy'n cyfarfod i gasglu gwybodaeth am ymgynghoriadau arfaethedig, ac i rannu canlyniadau ac arfer dda. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod digon o amser i gynllunio ymgynghoriadau ac yn osgoi dyblygu.
- Mae'r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn dilyn rheoliadau ac ymarfer orau yn y maes caffael. Nod y tîm yw galluogi'r Cyngor i gyflawni gwerth am arian, cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi'r farchnad leol. Mae yna hefyd drefniadau Rheolaeth Categori yn ei le, ble mae tri Tîm Categori (Amgylchedd, Corfforaethol a Phobl) yn gyfrifol am bryniant mewn meysydd penodol gan edrych ar gaffael yn strategol, rhoi pwyslais ar gydweithio, a cynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad i geisio sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian.
- Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy

fabwysiadu'r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei chael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y Sir.

- Yn 2024/25 mi ddaru'r Cyngor gyrraedd rhestr fer gwobr caffael Cymru (GO Awards). Mae'r enwebiad am ein hymdrechion i geisio ennill gwerth cymdeithasol wrth gaffael ein darpariaeth bwyd ar draws y Sir.
- Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer y Rheoliadau Caffael Cenedlaethol Newydd, sef y Ddeddf Caffael 2023. Mae'r Tîm Caffael Canolig a'r Tîm Categori wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y trefniadau a systemau gwaith newydd. Mae yna ddisgwyl bydd y Ddeddfwriaeth caffael newydd yn annog sefydliadau cyhoeddus i rannu'r hyn maent yn bwriadu caffael i'r dyfodol agos gan hefyd ddilyn trefniadau caffael fwy syml a thryloyw.
- Mae gwaith parhaus yn digwydd i gefnogi busnesau i ymateb i ofynion mewn tendrau yn sgil unrhyw ddatblygiadau yn y maes, fel ennill achrediadau neu ymateb i ofynion y Ddeddfwriaeth newydd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i asesu'r effaith amgylcheddol a cheisio lleihau ôl-troed carbon, bydd helpu busnesau gyda'r trefniadau caffael newydd yn flaenoriaeth flwyddyn nesaf.
- Mae cryn waith wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn i sicrhau/cadarnhau dealltwriaeth ymhlith ein rheolwyr mai'r naw ffrwd gwaith sydd o fewn cynllun Ffordd Gwynedd yw mewn gwirionedd ein cynllun datblygu sefydliad. Dyma'r cynllun sydd yn gweithio tuag at sicrhau fod gennym weithlu bodlon ac iach, sydd yn cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol i'n galluogi i ddatblygu'r diwylliant i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Rydym wedi bod yn gweithio ar gyrsiau / e-fodiwlau y gall rheolwyr eu defnyddio gyda'u timau i sicrhau eu dealltwriaeth hwythau o'r diwylliant a geisir, ac i'w cefnogi trwy y broses o gynnal adolygiadau gwasanaeth Ffordd Gwynedd. Rydym eisoes wedi cychwyn treialu rhai o'r cyrsiau gyda grwpiau bach o staff ac wedi derbyn adborth positif.
- Dyma'n gryno y cynnydd amlycaf yn ystod ail flwyddyn Cynllun Ffordd Gwynedd.

  **Dysgu, Arbrofi a Gweithredu i Wella** - Mae'r pwyslais yn y Cynllun cyfredol ar gynnal adolygiadau ar ddarnau llai o systemau gwaith, yn ogystal a chynnal adolygiadau ar systemau cyfan, wedi dwyn ffrwyth ac mae pob Adran yn y Cyngor yn gallu darparu enghreifftiau o adolygiadau sydd wedi arwain at welliannau yn ystod y flwyddyn.

  **Arweinyddiaeth** - Mae rhaglen hyfforddiant Ffordd Gwynedd ar ei newydd wedd wedi'i hail-gyflwyno ar gyfer rheolwyr yn ystod y flwyddyn tra bo'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr yn mynd o nerth i nerth gyda'r adborth cadarnhaol gan fynychwyr.

  **Cefnogi a Datblygu** - Mae Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd wedi'i lawnsio gyda'r rhaglen am y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar hyfforddiant sylfaenol fel rheolaeth cyllid, llesiant a sgiliau digidol. Mae'r Rhaglen Uwch Arweinyddiaeth, Rhaglen Datblygu Rheolwyr a'r Rhaglen Merched mewn Arweinyddiaeth yn parhau i arddangos eu gwerth gyda nifer fawr o swyddogion yn awyddus i gofrestru ar bob achlysur pan fo cyfres newydd yn cael ei chyhoeddi.

**Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent** - Mae saith ffrwd gwaith wedi'u hadnabod ar gyfer gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen. Maent yn amrywio o fod yn cynnal ymarferiad "Ffordd Gwynedd" ar yr holl broses o ddenu staff i weithio i'r Cyngor, i'r angen am sefydlu cynlluniau hyfforddi penodol sydd yn cyfarch sgiliau ac arbenigeddau prin, yn ogystal a'r ymddygiadau priodol, sydd yn angenrheidiol i barhad gwasanaeth yn y dyfodol.

**Gweithlu Bodlon ac Iach** - Cymeradwywyd Strategaeth Llesiant newydd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar yr 17 o Ragfyr, 2024. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar dair sylfaen, sef arwain a rheoli, cefnogaeth gynaliadwy, ac amgylchedd gwaith gyda llesiant meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol yn ganolbwynt i'r hyn a geisir ei gyflawni.

**Cyswllt a'r Cwsmer -** Sefydlwyd Grŵp traws-adrannol i lunio Siarter a Safonau Cyswllt Cwsmer. Bydd y Siarter hwnnw, yn ei ffurf drafft terfynol, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w fabwysiadu ar yr 8 o Orffennaf, 2025. Bu ymgynghori cynhwysfawr ar gynnwys y Siarter ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac mae yma enghraifft dda o geisio barn ar ddatblygiadau gyda staff.

- O safbwynt gweithgareddau mewnol y Cyngor, mae gennym drefniadau ymgysylltu a chyfathrebu da yn eu lle gyda negeseuon pwysig yn cael eu rhannu'n ganolog efo staff mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys bwletin staff wythnosol, Grŵp Facebook staff, y mewnrwyd, hunanwasanaeth staff, cylchgrawn Gair o Gyngor, ymweliadau staff rheng flaen a sesiynau cwestiwn ac ateb gyda'r Prif Weithredwr. Yn ychwanegol at hyn, mae gweithgareddau cyfathrebu adrannol a rheolaethol yn digwydd yn rheolaidd.
- Darparwyd rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod 2024/25 oedd yn cynnwys hyfforddiant craidd mewn saith maes penodol:
    i. Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol
    ii. Cod Ymddygiad
    iii. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
    iv. Diogelu Plant ac Oedolion
    v. Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb
    vi. Eich Cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol
    vii. Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi
- Yn ogystal â hyn roedd hyfforddiant yn cael ei gynnig mewn sawl maes arall ynghyd â chyfle i bob Cynghorydd dderbyn cyfweliad datblygiad personol er mwyn adnabod meysydd datblygol penodol. Mae cynnig i gynghorwyr gael sesiynau penodol cyn iddynt ymgymryd â rolau ar wahanol bwyllgorau e.e. Aelodau Cabinet, a nifer o bwyllgorau eraill megis Cynllunio, Trwyddedu, a Llywodraethu ac Archwilio. Ymhellach, cynhelir sesiynau briffio i'r aelodau hefyd, sy'n gyfle i gyflwyno diweddariad ar faterion o bwys e.e. pan fo newidiadau mewn deddfwriaeth ayyb.
- Rydym fel Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd i arloesi a gwreiddio technoleg ddigidol i wella bywydau ein trigolion, i gydweithio yn well â phartneriaid, a chryfhau a gwella ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. I'n cynorthwyo gyda hyn, yn 2023 cymeradwywyd Cynllun Digidol newydd Cyngor Gwynedd ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2023-28. Mae cyfnod y Cynllun hwn yn cyd-

redeg efo cyfnod Cynllun y Cyngor (yn yr un modd ag y mae cyfnod Cynllun Ffordd Gwynedd). Mae cyllid wedi'i sicrhau er mwyn gyrru rhaglen waith dwy flynedd cyntaf y Cynllun Digidol a sawl blaenoriaeth bellach ar waith.

- Atgyfnerthwyd y tîm seibr drwy ddyrchafu prentis i rôl barhaol gyda'r Cyngor, cefnogwyd dau brentis gradd gwyddor data, a gwnaethpwyd datblygiadau helaeth ar y prosiectau system ffôn integredig, system rheoli'r sefydliad ac uwchraddio llinellau analog i ddigidol yn ystod 2024/25. Bydd nifer o'r prosiectau hyn yn cael eu cwblhau yn ystod 2025/26, gyda'r system ffôn integredig yn brysur ddatblygu ac wedi ei chyflwyno mewn amryw fan yn barod. Prosiect arall fydd yn gweld twf sylweddol eleni yw'r system rheoli sefydliad a disgwylir y bydd system newydd yn ei lle ar gyfer talu cyflogau a gweinyddu materion Adnoddau Dynol yn ystod 2026/27. Gwelir datblygiad cyson a pharhaus gydag uwchraddio ein llinellau analog a bydd hyn yn parhau hyd ddiwedd 2026 a gobeithiwn groesawu Hyfforddai Trawsnewid Digidol newydd i'r Cyngor yn ystod yr haf a hynny drwy raglen hyfforddai a phrentisiaethau'r Cyngor.

**Risgiau**

- Mae gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 25/26 yn sialens, yn enwedig yn sgil yr angen i sicrhau bod cyllidebau adrannol yn ddigonol er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o wasanaethau i bobl Gwynedd, ac i osgoi gorwariant fel a welwyd yn 2024/25. Bryd hynny gwelwyd gorwariant adrannol o £6.6m gyda gorwariant sylweddol yn Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Priffyrdd, Peirianneg ac YGC ac Amgylchedd.
- Cyflwynwyd rhaglen arbed newydd fel un o brif flaenoriaethau'r Cyngor wrth ymateb i'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a chytunodd y Cyngor ar raglen arbedion gwerth £650,000 wrth osod cyllideb 2025/26 yn ychwanegol i arbedion o £6.4miliwn wrth osod cyllideb 2023/24, ac arbedion pellach o £5.2miliwn wrth osod cyllideb 2024/25. Cymeradwyodd y Cabinet 'Cynllun Ariannol Tymor Canolig' ar gyfer Cyngor Gwynedd hyd at flwyddyn ariannol 2027/28 ym mis Mai 2024. Fel rhan o'r Cynllun yma, sefydlwyd ystod o fesurau a phecynnau gwaith i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yng nghyllideb y Cyngor dros y tair mlynedd nesaf, o dan arweiniad y Prif Weithredwr. Cyflwynwyd fersiwn wedi ei ddiweddaru o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2028/29) i'r Cabinet ar y 16eg o Fedi 2025.
- Yn ystod 2024, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor gan gynnwys ffocws ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau yn y cyllid ac ymdrin â phwysau ariannol dros y tymor canolig. Canfuwyd bod cynnydd sylweddol yn nifer yr adrannau yn y Cyngor a orwariodd yn y ddwy flynedd ariannol diwethaf, a bod y Cyngor wedi datblygu trefniadau i adolygu ei gyllidebau.
- Mae adolygiad mewnol ar y gweill i wella'n trefniadau casglu Treth Cyngor, ac mae camau gweithredu wedi eu cyflwyno er mwyn cynyddu'r cyfraddau casglu yn y dyfodol. Bydd y gwaith yma yn parhau i dderbyn sylw dros y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau fod materion fel hyn yn derbyn sylw cynnar yn y dyfodol, a byddwn yn edrych i adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd.

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu newidiadau yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor, gyda sawl Aelod Cabinet newydd yn ymgymryd â chyfrifoldebau ar draws amryw feysydd. Yn ogystal, disgwylir penodiadau i swyddi uwch swyddogion dros y misoedd nesaf. Gall y newidiadau hyn beri heriau o ran arweinyddiaeth gyson ac achosi oedi wrth wneud penderfyniadau strategol, ond rydym yn cydnabod hyn ac yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater yn briodol.
- Mae trafferthion recriwtio i swyddi mewn rhai meysydd allweddol fel gofal cymdeithasol ac addysg yn gallu peryglu parhad gwasanaeth. Mae'r pryder am hyn wedi arwain at greu prosiect arbennig yng Nghynllun y Cyngor - 'Cynllunio'r Gweithlu' - fydd yn mynd i'r afael â'r her ac yn cynnig amrywiaeth o ddatrysiadau. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi nodi yn y gorffennol y dylid ystyried rhoi cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol fel meysydd posib i'r Asesiad Perfformiad Panel. Wedi ail-drefnu'r dyddiad ar gyfer yr Asesiad gan Banel, mae'n debygol y bydd hyn yn derbyn ystyriaeth bellach cyn eu hymweliad fis Mawrth 2026. Yn ogystal, bydd Archwilio Cymru yn cynnal astudiaeth ar 'Ymateb i bwysau ar y gweithlu mewn llywodraeth leol' yn ystod 2025/26.
- Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o bartneriaethau lleol a rhanbarthol megis Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Teg fyddai nodi bod effeithiolrwydd y partneriaethau hyn yn amrywio ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i weithio er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn elwa o'r trefniadau hyn. Yn yr un modd mae ein perthynas gyda'r trydydd sector yn parhau i esblygu a byddwn, gyda chefnogaeth Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector, yn edrych ar hyn eto yn ystod 2025/26.
- Mae'r gwaith o sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd yn parhau. Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 er mwyn rhoi fframwaith i wella tegwch o fewn y Cyngor, a sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl eu hanghenion, ac mae'r gwaith yma yn parhau.
- Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn ystod 2023. Mae'r Cynllun yn un uchelgeisiol a hynny mewn hinsawdd gyllidol heriol tu hwnt. Er bod ystyriaeth wedi ei roi i'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r hyn sydd o fewn y Cynllun wrth iddo gael ei ddatblygu, mae'r sefyllfa gyllidol wedi newid yn sylweddol ers hynny, ac os yw'r wasgfa ariannol yn parhau, gall olygu y bydd rhaid i'r Cyngor addasu neu leihau ein gweledigaeth ac o ganlyniad nifer y prosiectau y byddwn yn medru eu cwblhau yn llawn o fewn y cyfnod.
- Mae'r Adran Gyllid, mewn cyswllt agos â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cynnal adolygiadau parhaus o ragolygon ariannol y Cyngor dros y tair mlynedd nesaf, gan ddiweddaru'r model yn rheolaidd pan dderbynnir gwybodaeth newydd ac adrodd yn rheolaidd i aelodau'r Cabinet ac i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid adran). Mae'r cylch cynllunio corfforaethol yn cyd-fynd â chylch statudol cynllunio'r gyllideb ac rydym yn anelu i gyflwyno diweddariad blynyddol Cynllun y Cyngor i'r un cyfarfod o'r Cyngor Llawn â'r gyllideb.
- Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn paratoi Strategaeth Ariannol ac yn gosod Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o'r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dangos ei wariant blynyddol. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro

fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau’r Cyngor, yn sicrhau bod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn gynharach, mae’r pwysau cynyddol ar gyllideb y Cyngor yn ei gwneud hi’n anoddach i adrannau gynnal yr un lefel o wasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir, a mae hynny yn arwain at risg o orwariant.

- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Cytunwyd ar brotocol a meini prawf ar gyfer asesu cyflawniad y ddyletswydd mewn gweithdy rhwng aelodau’r Pwyllgor a’r Arweinyddion. Mabwysiadwyd y rhain gan y Pwyllgor Safonau a byddent yn cyfrannu at baratoi adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae’r gwaith yma wedi ei gefnogi gan gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd gyda’r Swyddog Monitro.

## Gwynedd Ofalgar

### Cryfderau

- Adolygiadau Statudol amserol o ansawdd da yn cael eu cynnal i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn parhau i fod yn briodol.
- Gwelliant mewn canlyniadau i bobl sy’n cael gofal cartref o ganlyniad i ddefnydd o dechnoleg a dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth. Mae bron i ddwy ran o dair o ddyfeisiadau teleofal Gwynedd wedi eu trosglwyddo i ddyfeisiadau newydd digidol bellach.
- Datblygiadau cynllunio strategol - Llechen Lân wedi ei gyhoeddi ac i-Lechen ar waith.
- Fel rhan o’r Rhaglen Waith Gofal Cartref mae sylw penodol ar ddatblygu systemau gwybodaeth a data addas a phriodol, a sicrhau perchnogaeth a rheolaeth i'r rolau mwyaf perthnasol a gweithredol yn y maes/system gofal cartref.
- Yn dilyn yr Ymweliad Gwiriad Gwella a gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru yn Hydref 2024, nodwyd: “Mae gweithlu proffesiynol cyfan y gwasanaeth o ran gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol wedi'i gyflogi gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu nad yw'n dibynnu ar staff asiantaeth ac yn cynnig gwasanaeth mwy cyson i bobl. Mae pobl hefyd yn cael budd o weithlu proffesiynol sy'n gallu cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.”
- Rydym yn cyflogi ymarferydd penodol i gefnogi a hyfforddi pobl i sefydlu busnesau micro, a mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn nodi bod hyn yn arfer da, gan ychwanegu: “Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i waith i hyrwyddo'r opsiynau gofal a chymorth sydd ar gael gan gynnwys nifer y micro-ofalwyr sydd ar gael, yn unol â'i ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol.”
- Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu Hymweliad Gwiriad Gwella (Hydref 2024):
    - Mae'r arweinwyr yn brofiadol ac yn darparu arweinyddiaeth sefydlog, a dywed yr ymarferwyr eu bod yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt.
    - Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi ymroddiad yr ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn ymrwymedig ac yn rhagori ar y disgwyliadau o ran cefnogi pobl. Mae'n amlwg eu bod yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda iawn.

- Yn gadarnhaol, fel y nodwyd yn yr arolygiad gwerthuso perfformiad diwethaf, mae'r ymarferwyr yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Nododd 94% o'r ymarferwyr a gwblhaodd ein harolwg eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u harweinwyr.

- Adolygwyd cyllidebau adrannol er mwyn cymryd i ystyriaeth yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn cwblhau unrhyw gynlluniau gweithredu, ac i ddelio gyda diffygion cyllidebol hanesyddol mewn rhai adrannau (e.g. gwasanaethau cymdeithasol). Bwriad hyn yw sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gallu cael eu darparu oddi mewn i'r gyllideb sylfaenol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Bydd gwaith o adolygu darpariaethau mewn cyllidebau yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf wrth baratoi cyllideb 2026/27.

**Risgiau**

- Os nad oes darpariaeth gofal cartref, cartrefi preswyl a nyrsio digonol ac effeithiol, gallai hynny arwain at niwed, mwy o anghenion a chostau ychwanegol. Ymysg y camau rydym yn eu cymryd i ddelio efo hyn, mae prosiect newydd yng Nghynllun y Cyngor – Llechen Lân – sydd wedi dadansoddi demograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth; ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion er mwyn deall ac amlygu y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.
- Er mwyn sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf a rheoli costau'n effeithiol mae angen i'r timau gydweithio yn amlddisgyblaethol gyda phartneriaid fel iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, a darparwyr gofal. Mae camau eisoes wedi eu cymryd i gryfhau'r partneriaethau yma er fod gwaith pellach i'w wneud, er enghraifft er mwyn datblygu'r berthynas cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ymhellach.
- Os na ellir recriwtio digon o staff, mae perygl na ellir darparu'r gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd. Rydym felly wedi adolygu cyflogau a chyflwyno prosiect Llechen Lân yn ddiweddar, yn ogystal â chyflwyno Academi Gofal er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa ac rydym yn bwriadu cymryd camau ychwanegol cyn bo hir hefyd.
- Os nad yw gwasanaethau Busnes a Chomisiynu Gofal yn effeithiol ac effeithlon, mae risg i ddiogelwch unigolion a staff, yn ogystal â risg nad ydym yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion Gwynedd. Mae sawl cam wedi ei gymryd er mwyn ymateb i hyn, gan gynnwys cyflwyno system gofnodi gwasanaethau cymdeithasol newydd. Fodd bynnag, er ein bod yn cyflwyno system newydd, bydd rhaid gweithio gyda'r system bresennol heb gefnogaeth am gyfnod o sawl mis. Mae hyn yn risg uchel iawn, ond yn fater cenedlaethol, ac mae gwaith yn mynd ymlaen i liniaru'r risg.
- Mewn rhai amgylchiadau penodol, gall y Cyngor awdurdodi DoLS (Deprivation of Liberty Safeguards) er mwyn amddiffyn person sydd heb allu meddyliol i dderbyn ofal neu driniaeth er mwyn eu cadw yn ddiogel rhag niwed. Mae gan y Cyngor restr aros ar gyfer asesiadau DoLS gan fod angen swyddog efo cymhwyster penodol i'w cwblhau, a bod angen eu hadolygu yn gyson. Mae risg gyfreithiol ac ariannol ynghlwm â methu gwneud yr asesiadau yn amserol, ac mae'r Cyngor yn ymwybodol o hyn ac yn cymryd camau i wella'r sefyllfa.
- Gallai perthynas  wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol arwain at fethu darparu gwasanaethau o safon i bobl Gwynedd. Mae camau yn cael eu cymryd er mwyn

sicrhau perthynas dda rhwng sefydliadau, ynghyd â cheisio symleiddio'r berthynas waith sy'n gallu bod yn or-gymhleth oherwydd rhwystrau deddfwriaethol.

- Byddai methu cael asesiadau iechyd meddwl y tu allan i oriau gwaith yn gadael unigolion mewn perygl ac yn wynebu trallod iechyd meddwl heb gefnogaeth briodol.
- Mae cynnydd yn y galw am wasanaethau ynghyd â chynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion, yn arwain at bwysau cyllidebol a risg o orwariant.
- Rhagamcanir y bydd poblogaeth Cyngor Gwynedd yn cynyddu 5% rhwng 2024 a 2043 o 125,900 i 132,200, gan gynnwys cynnydd a ragwelir o 3% yn nifer y plant, cynnydd o 1% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 16% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd.
- Angen gwella'r data a gesglir am asesiadau a chymorth i ofalwyr di-dâl, fel y nododd Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu Hymweliad Gwiriad Gwella (Hydref 2024): "Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i asesu a oes angen gofal a chymorth ar ofalwr (neu a yw'n debygol y bydd angen gofal a chymorth arno yn y dyfodol) ac os felly, pa anghenion sy'n debygol o fod ganddo."

## Gwynedd Yfory

### Cryfderau

- Mae deilliannau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd yn gryf yn gyffredinol.
- Cymorth o ran bodloni anghenion dysgwyr/darpariaeth y Gymraeg – gan gynnwys y gyfundrefn Addysg Drochi.
- Yn dilyn arolwg Estyn yn 2023, canfuwyd fod yr awdurdod yn hyrwyddo a chefnogi lles disgyblion yn gadarn. Cadarnhawyd hyn ymhellach mewn cyfarfodydd Sicrwydd ac Asesu Risg yn 2024 a 2025.
- Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir, ac yn benodol ardal Bangor, Cricieth a Bontnewydd ac rydym wedi cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd. Mae adeilad a champws newydd ar gyfer Ysgol Treferthyr yng Nghricieth wedi agor ei drysau i ddysgwyr ddechrau mis Medi 2024. Mae hyn yn dilyn blynyddoedd o waith, a buddsoddiad o dros £8m er sicrhau amgylchedd dysgu ac adnoddau o'r radd flaenaf i hyd at 150 o ddysgwyr yr ardal. Yn ogystal, mae darpariaeth gofal plant ar y safle, ynghyd ag Uned ABC.

### Risgiau

- Mae newidiadau yn nemograffeg y sir yn effeithio hyfywdra'r gyfundrefn ysgolion presennol, ac yn cynyddu'r diffyg tegwch sy'n bodoli oherwydd yr amrywiaeth sylweddol yng nghost y pen fesul disgybl.
- Mae angen gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion. Mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn bryder yn dilyn y cwymp fu yn sgil y pandemig. Mae presenoldeb hefyd yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth ac Estyn. Byddwn yn cyflwyno Strategaeth Presenoldeb yn 2025 ac rydym wedi cryfhau ein prosesau drwy wella'r systemau ar gyfer targedu presenoldeb. Rydym hefyd

wedi gwneud defnydd o grantiau Llywodraeth Cymru i wella capasiti ac ymgyrch i wella presenoldeb.

- Rydym am gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno. Rydym wedi creu cynllun newydd ar gyfer Medi 2025, sef creu Uned Cyfeirio Disgyblion aml safle i roi cefnogaeth lefel uchel i rai disgyblion a chryfhau'r gefnogaeth ar gyfer y dysgwyr hyn yn ein hysgolion.
- Newid sylfaenol yn y gefnogaeth gwella ysgolion yn sgil dod â GwE i ben. Gyda newid mor fawr mae'n anorfod y gall effeithio ar ansawdd y gefnogaeth o ran gwella ysgolion ac i safonau.
- Darparu cefnogaeth o safon i ysgolion sydd mewn categori dilynol yn dilyn archwiliadau Estyn.
- Yn ystod y flwyddyn, cafwyd achosion difrifol o droseddu yn erbyn plant, gan gynnwys achos amlwg lle cafodd cyn-bennaeth Ysgol Friars, Neil Foden, ei arestio a'i ddedfrydu i 17 mlynedd o garchar am droseddau rhywiol yn erbyn disgyblion. Mae'r achos hwn wedi amlygu methiannau sylweddol yn systemau diogelu'r cyngor dros gyfnod o flynyddoedd.
- Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu, comisiynu adolygiadau annibynnol, a chyfrannu at Adolygiad Ymarfer Plant rhanbarthol dan arweiniad cadeirydd annibynnol. Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg hefyd wedi lansio adolygiad o drefniadau diogelu mewn ysgolion ledled Gwynedd, gyda'r nod o wella safonau a sicrhau diogelwch plant. Disgwylir i'r adolygiad ffurfiol gyflwyno gwersi ac argymhellion yn ystod hydref 2025.
- Mae risg sylweddol y gall methu â sicrhau bod trefniadau diogelu mewn ysgolion yn bodloni'r safonau uchaf, neu fethu â gweithredu gwersi'r adolygiad, arwain at fethiannau parhaus mewn diogelu, niwed i blant a phobl ifanc, colli ymddiriedaeth y cyhoedd, canlyniadau cyfreithiol, a straen ar adnoddau'r cyngor.

## Gwynedd Lewyrchus

### Cryfderau

- Fel rhan o Fframwaith Adfywio newydd, mae Cynllun Adfywio Lleol wedi'i baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn y Sir. Mae'r cynlluniau yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol amlygwyd yn ystod ymgynghoriad 'Ardal Ni' gyda thrigolion Gwynedd. Mae'r Cynlluniau Adfywio Lleol yn ymgorffori prosiectau sydd yn cael eu datblygu gan ystod eang o sefydliadau a grwpiau sydd yn weithredol yn yr ardal ac yn cyfrannu at wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg.
- Datblygwyd 'Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035' ar y cyd gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hwn yn gynllun sy'n torri tir newydd ac yn cyflwyno ffordd newydd o weithredu, cefnogi a mesur effaith yr economi ymweld yn ei gyfanrwydd ar yr ardal.
- Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid sylweddol o ffynonellau megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac ARFOR i gryfhau economi Gwynedd. Gyda'n partneriaid rydym wedi

dyrannu £24.4 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gynlluniau sydd wedi cyfrannu tuag at gryfhau economi Gwynedd, gwella sgiliau a chreu balchder yn ein cymunedau. Mae dros 960 o fusnesau, mentrau a sefydliadau wedi derbyn cymorth gan greu neu warchod bron i 300 o swyddi, ac mae dros 700 o bobl wedi cael cymhwyster newydd.
- Mae Cynlluniau Canol Tref wedi eu creu ar gyfer sawl tref yng Ngwynedd. Pwrpas y rhain ydi adnabod a chytuno ar gynlluniau gweithredu a gosod blaenoriaethau ar gyfer trefi unigol. Mae'r Cynlluniau Canol Tref yn rhoi sylw penodol i ardaloedd stryd fawr, gyda'r bwriad o'u gwneud yn lleoedd mwy deniadol i ymweld â nhw ac i weithio, ac i annog pobl i dreulio eu hamser a'u harian yno.
- Mae Grŵp Eiddo Gwag Traws-Adrannol wedi ei sefydlu er mwyn cyd-lynu ymdrechion gwahanol Wasanaethau'r Cyngor sydd yn delio gydag eiddo gwag. Mae'r Grŵp wedi mabwysiadu amrediad o ymyraethau – yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor technegol, cymorth ariannol, ynghyd â threfniadau gorfodaeth. Ein bwriad yw datblygu'r gwaith yma ymhellach dros y flwyddyn nesaf.
- Ers ennill statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn 2021, mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y dynodiad. Mae hyn yn cynnwys prosiect Llewyrch o'r Llechi a LleCHI LleNI - cynlluniau gwerth dros £30m ac a gefnogir trwy Gyngor Gwynedd, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Amgueddfa Cymru a nifer o bartneriaid eraill - sydd eisoes ar waith i wella dealltwriaeth, balchder a chyfleoedd economaidd a chymdeithasol yn ein dyffrynnoedd llechi a ledled yr ardal.

**Risgiau**

- Daeth rhaglen ARFOR i ben ddiwedd Mawrth 2025 ac er bod rhaglen SPF wedi ei hymestyn am y flwyddyn 2025-26, mae hynny ar raddfa llai na'r hyn a welwyd yn y gorffennol. Mae ansicrwydd sylweddol yn bodoli ynghylch cyllid a gweinyddiaeth unrhyw raglenni datblygu'r economi i'r dyfodol.
- Mae risg y gallwn golli cyfle i sicrhau'r budd economaidd gorau i Wynedd drwy'r Cynllun Twf (Uchelgais Gogledd Cymru).

## Gwynedd Glyd

**Cryfderau**

- Mae'r adran Tai ac Eiddo yn cydweithio'n agos gyda'i phartneriaid tai ar ddatblygiadau tai cymdeithasol a chanolraddol er mwyn cyfarch y galw aruthrol sydd am dai yng Ngwynedd.
- Trwy'r Cynllun Prynu i Osod, mae'r Cyngor yn prynu tai oddi ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i drigolion sydd mewn angen tai.
- Er mwyn dod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd, mae nifer o ymyraethau ar gael i bobl Gwynedd fanteisio arnynt.

- Mae’r Adran wedi llwyddo i ddenu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy.
- Mae gwaith datblygu safle Penrhos, Pwllheli, ar ddechrau, wedi i’r Cyngor, mewn partneriaeth gyda chymdeithas dai Clwyd-Alyn, sicrhau grant ychwanegol o tua £7.7m gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu dechrau gwedd 1 y datblygiad.
- Mae’r Cyngor yn helpu nifer o drigolion y sir i osgoi neu ddod allan o dlodi tanwydd trwy ddarparu cefnogaeth i insiwleiddio tai, derbyn offer gwresogi effeithiol ac uwchraddiadau eco-gyfeillgar megis paneli solar a phympiau gwres sy’n defnyddio aer.

**Risgiau**

- Mae digartrefedd yn parhau yn her er i nifer o ymyraethau newydd gael eu cyflwyno yn ddiweddar. Byddwn yn parhau i weithredu nifer o gynlluniau uchelgeisiol gan gynnwys datblygu sawl safle ychwanegol ar draws y sir.
- Er bod llawer i’w groesawu yn y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), gallai fod angen llawer o adnoddau ychwanegol i’w weithredu.
- Mae pryder nad oes gan y cyhoedd fynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai. Fel rhan o’r Cynllun Gweithredu Tai byddwn yn lansio ‘Siop Un Stop’ Tai yn fuan er mwyn cefnogi trigolion gyda’u hymholiadau.
- Cefnogaeth i geisiadau cynllunio ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol.

## Gwynedd Werdd

**Cryfderau**

- Yn gyson wedi llwyddo i gwrdd â thargedau ailgylchu statudol yn y gorffennol.
- Wedi gosod uchelgais o fod yn garbon-sero net erbyn 2030 ac wedi mabwysiadu ‘Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur’ er mwyn cwrdd â’r uchelgais.
- Strategaeth Llifogydd wedi ei mabwysiadu sy’n amlygu’r peryglon presennol ac i’r dyfodol o lifogydd ac erydu arfordirol yn y Sir a sut y bydd y risgiau yn cael eu rheoli.
- Canran yr ymatebwyr i’r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol sy'n ei chael yn eithaf hawdd neu’n hawdd iawn bwcio’r ganolfan ailgylchu a gwastraff yng Ngwynedd yn 89% (1af yng Nghymru o’r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg).
- Cynllun ar gyfer darparu cymorth grant er mwyn gwella perfformiad defnydd ynni mewn tai yn y sir yn cael effaith gadarnhaol.
- Wedi denu grantiau sylweddol gan y Llywodraeth i ariannu cynlluniau ynni adnewyddadwy, fflyd cerbydau trydan a phwyntiau gwefru cyhoeddus ac i’r fflyd.
- Parodrwydd i arbrofi ac arloesi - bydd grantiau Llywodraeth Cymru a chyfalaf gan y Cyngor yn ariannu prosiect peilot i drosi cartref gofal i safon Passivhaus, gan anelu i ostwng allyriadau carbon o 94%.
- Cydweithio â phartneriaid allanol – y Cyngor yn arwain Partneriaeth Natur Gwynedd.

- Yn unol â Chynllun Fflyd Werdd y Cyngor, pan fo cerbydau angen eu hadnewyddu rydym wedi bod yn trosi i gerbydau trydan ble mae hynny'n bosibl. Mae 48% o geir a faniau bychan y Cyngor bellach yn gerbydau trydan.

**Risgiau**

- Er mwyn cyrraedd y targed ailgylchu cenedlaethol o 70% ac osgoi dirwy ariannol, mae angen newid ymddygiadau trigolion fel eu bod yn ailgylchu mwy ac yn lleihau y gwastraff gweddilliol sydd angen ei gasglu.
- Mae angen moderneiddio safleoedd trin gwastraff ynghyd â gwneud gwelliannau i'n canolfannau ailgylchu.
- Mae risg sylweddol yn bodoli o lifogydd o'r môr allai gael effaith niweidiol ar nifer o gymunedau megis Fairbourne.
- Methu cyflawni targedau amlder mewn perthynas ag arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd.
- Mae 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30' y Cyngor yn gosod uchelgais sy'n nodi y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad eang o brosiectau i leihau allyriadau carbon ac i amsugno carbon ar draws nifer o feysydd: adeiladau ac ynni, symud a thrafnidiaeth, gwastraff, caffael, llywodraethu, defnydd tir, ecoleg. Rydym yn cydnabod mai gwaith hirdymor yw cyrraedd sero net, ond mae'r cynllun hwn yn gosod nifer o gerrig milltir penodol er mwyn i ni fesur ein cynnydd bob blwyddyn hyd at 2030. Mae yna gymaint o ffactorau polisi, deddfwriaethol a chyllidol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, ac yn cael dylanwad enfawr ar allu'r Cyngor i wireddu nifer o'n prosiectau, megis cyflenwadau rhwydwaith grid trydan neu buddsoddiad mewn ynni a gwresogi adeiladau. Er hynny, mae'r Cyngor wedi dewis gwario cyllid sylweddol o'n coffrau er mwyn gwireddu nifer o'r prosiectau yn ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac fe neilltuwyd £3M ar gyfer y gwaith. Er gwaethaf y buddsoddiad fodd bynnag, mae'r ansicrwydd o safbwynt y ffactorau allanol yn golygu fod cwrdd â'r uchelgais i fod yn ...'garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030' yn parhau i fod yn risg ymarferol a chyllidol i'r Cyngor.
- Er bod y Cyngor wedi buddsoddi £3M o'i gyllid ei hun ers 2022, sy'n barhad o fuddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau arbed carbon ers 2010, mae risg gwirioneddol i beidio bod â chyllid nag adnoddau dynol i gyflawni'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ei gyfanrwydd.
- Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynion statudol eraill yn integreiddio'n llawn o fewn ein fframweithiau cynllunio corfforaethol, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog ei natur. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, cyflwynwyd templed newydd ar gyfer llunio adroddiadau i'r Cabinet, sy'n arwain swyddogion i gyfeirio at y gwahanol ofynion statudol gan gynnwys y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth baratoi eu hadroddiadau.

## Gwynedd Gymraeg

### Cryfderau

- Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd. Cymraeg yw prif iaith weinyddol y Cyngor, sy'n golygu ein bod yn un o gyflogwyr mwyaf y wlad sydd yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle.
- Rydym yn cynnig cyfleon i staff ddatblygu eu sgiliau ieithyddol gan gynnwys hyfforddiant i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymhellach, a hynny ar draws pob lefel.
- Mae'r Cyngor wedi moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant, ac mae'n bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir ymhellach.

### Risgiau

- Efallai bod canfyddiad gan rai bod angen Cymraeg o 'safon Prifysgol' i weithio i'r Cyngor, ac er nad yw hynny'n gywir, gall effeithio ar recriwtio i rai swyddi.
- Pobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn mudo.

| Gwelliannau ychwanegol wedi eu hadnabod ar gyfer 2025-26 |
|---|
| • Mewn ymateb i argymhellion astudiaeth gan Archwilio Cymru byddwn yn edrych i wella'n trefniadau comisiynu gwasanaethau. |
| • Rheoli effaith y newidiadau sylweddol sydd wedi bod yn ddiweddar yn arweinyddiaeth gwleidyddol y Cyngor ac ymysg Penaethiaid Adran. |
| • Gwella hyfforddiant ar adnabod a rheoli risg. |
| • Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn adroddiad Local Partnerships. |
| • Ystyried sut y gallwn adeiladu ar yr arolwg preswylwyr a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Data Cymru a chael mwy o wybodaeth/tystiolaeth er mwyn ein galluogi i wella gwasanaethau. |
| • Rhoi camau pellach yn eu lle er mwyn gwella cydymffurfiaeth gyda'r Ddyletswydd Partneriaeth Cymdeithasol. |
| • Gweithredu ar ganfyddiadau Arolwg Llais Staff, gan gynnwys gwerthfawrogiad a llesiant. |

## Gwelliannau sydd wedi eu hadnabod o fewn Hunanasesiadau yn y gorffennol ac a fydd yn parhau i 2025/26.

| Gwelliant | |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | **Ein cynnydd hyd yma** |
| • Adolygu'r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio. | • Dros y misoedd diwethaf mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol wedi bod yn edrych yn benodol ar y risgiau uchel iawn. Y bwriad yw i sicrhau bod y risgiau cywir wedi eu cynnwys yn y rhestr ac hefyd i geisio sicrhau cysondeb yn y modd y maent yn cael eu sgorio. |
| • Parhau gyda'r gwaith o gryfhau ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau bod gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth yn elfen greiddiol ac wedi eu hintegreiddio'n well hefo ein gwaith cynllunio corfforaethol. | • Yn ystod 2024/25 roedd bwriad i gynnal sesiwn efo'r Tîm Arweinyddiaeth ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ei arwain gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghyd â chynnal sesiynau hyfforddiant pellach i weddill yr aelodau. Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddiant i aelodau yn yr Hydref.<br>• Yn wreiddiol bwriadwyd cynnal sesiwn gyda'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd, ond oherwydd y newidiadau gwleidyddol fu yn y Cyngor ni fu'n bosibl cynnal y sesiwn. |

| | |
|---|---|
| | • Yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf 2025 bydd Local Partnerships yn edrych ar drefniadau llywodraethu o fewn y Cyngor ac fel rhan o'r gwaith byddant yn edrych ar sut yr ydym yn gweithredu yn y maes hwn ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella (os oes angen). |
| • Parhau hefo gwaith o adolygu Cynllun Asedau'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol yn sgil profiadau a datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf. | • Mae llunio Cynllun Rheoli Asedau newydd yn brosiect yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28.<br>• Gwaith o adolygu polisïau wedi ei gyflawni a thrafodaethau wedi'u cynnal gyda rhan helaeth o'r Adrannau. Drafft o Gynllun Asedau mewn lle ond angen addasiadau a phenderfyniad i'w fabwysiadu.<br>• Pan gymeradwyir y Strategaeth Reoli Eiddo Corfforaethol gellir symud ymlaen at baratoi Cynllun Gweithredu Asedau Eiddo (amserlen hynny yn amodol ar y Strategaeth Corfforaethol). |
| • Edrych i ddatblygu ffordd o fesur gwerth am arian (effeithlonrwydd) ar lefel gwasanaeth fel rhan o'n trefniadau herio perfformiad. | • Byddwn yn cydweithio gyda chyfoedion mewn cynghorau eraill a chyrff proffesiynol fel CIPFA er mwyn datblygu fframwaith i allu adnabod gwerth am arian. Mae'r gwaith yma wedi cychwyn yn 2023/24 a bu iddo barhau yn 2024/25. Yn ystod 2025/26 byddwn yn pwyso a mesur yr opsiynau sydd ar gael i sefydlu trefniadau meincnodi cost-effeithiol gydag awdurdodau eraill. |
| • Parhau i weithredu prosiect er mwyn mynd i'r afael â'r problemau recriwtio staff presennol y mae'r Cyngor yn ei brofi. | • Mae Prosiect 'Cynllunio'r Gweithlu', sy'n rhan o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, yn mynd i'r afael â hwn.<br>• Gwaith o greu matrics o swyddi allweddol, wedi'u hasesu ar sail risg i barhad gwasanaethau allweddol y Cyngor (yn enwedig ym meysydd gofal ac addysg) wedi cychwyn ond gwaith pellach i'w wneud.<br>• Mae bwriad i gynnal adolygiad o'r broses gyfan o ddenu staff i weithio i'r Cyngor, gyda'r nod o barhau i wella'r broses ar gyfer pawb sy'n rhan ohoni – yn enwedig ymgeiswyr am swyddi. |

**Gwelliannau o 2024/25 sydd wedi eu cwblhau**

| **Gwelliant** | |
|---|---|
| **Byddwn yn:** | **Datrysiad** |

| | |
|---|---|
| • Gwella ein blaengynllunio dros gyfnod Cynllun y Cyngor 2023-28, drwy osod cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer y gwahanol brosiectau yng Nghynllun y Cyngor. | • Ar ddechrau 2024/25 darparwyd cerrig milltir gan yr Arweinyddion Prosiect ar gyfer pob prosiect o fewn Cynllun y Cyngor. Aseswyd y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir hyn yn y cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yn ystod y flwyddyn. |
| • Cymryd rhan mewn arolwg cenedlaethol a drefnir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn cael gwybodaeth ddefnyddiol gan drigolion y Sir ar ein perfformiad. | • Bu i'r Cyngor gymryd rhan yn yr arolwg preswylwyr cenedlaethol a drefnir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Data Cymru ym mis Chwefror/Mawrth 2025 gyda dros 3,000 o drigolion yn ymateb. |
| • Cwblhau'r camau gweithredu i wella effeithlonrwydd craffu mewn ymateb i argymhellion adroddiad Archwilio Cymru. | • Yr holl gamau gweithredu wedi eu cyflawni yn dilyn cyflwyno'r trefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad i'r Pwyllgorau Craffu ar ddechrau 2025/26. |
| • Cyfathrebu gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau, a'r Cyngor yn gyffredinol, yn fwy effeithiol i drigolion. | • Dros y flwyddyn diwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar drefn newydd i adrodd ar berfformiad lle bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn hytrach na chyfarfodydd y Cabinet. Mae'r trefniadau hyn yn weithredol o Fehefin 2025 ac erbyn hyn fe gyhoeddir holl fesurau perfformiad y Cyngor yn hytrach na chrynodeb o'r prif rai fel yn y gorffennol. |
| • Gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o feysydd gwaith y Cyngor ymysg trigolion y Sir. | • Gwaith cyfathrebu sylweddol yn cael ei wneud ar godi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor gan gynnwys datganiadau i'r wasg, eitemau ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal darperir ymatebion manwl i ymholiadau gan y cyfryngau am waith y Cyngor a/neu adroddiadau pwyllgor. Dengys ymateb i'r arolwg preswylwyr cenedlaethol fod angen parhau gyda'r gwaith hyn. Mae hyn yn waith parhaus fydd yn parhau i dderbyn sylw'r Cyngor. |
| • Cynnal arolwg llais staff (fel y cynhaliwyd yn y gorffennol) er mwyn cynnal trafodaeth gyson gyda'r gweithlu a darparu cyfle iddynt ddweud beth sy'n gweithio'n dda a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. | • Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn ystod Tachwedd / Rhagfyr 2024, gan gymharu'r canlyniadau gyda'r flwyddyn flaenorol.<br>• Bydd y prif ganfyddiadau yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol, a gyda'r timau rheoli ymhob Adran unigol. Bydd y cynllun gwaith corfforaethol ar gyfer gweithredu ar y prif ganfyddiadau yn cael ei fonitro fel rhan o waith grŵp Swyddogion Ffordd Gwynedd. |

| | |
|---|---|
| • Cynnal arfarniad o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn sefydlu a yw’n effeithiol. | • Mae’r Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad yn Ebrill 2024 a chamau gweithredu wedi eu hadnabod a gweithredu arnynt. |
| • Parhau i weithredu ar y camau sydd eisoes wedi eu rhoi yn eu lle mewn ymateb i archwiliad o drefniadau herio perfformiad a wnaed gan Archwilio Cymru a pharhau i edrych ar lwyddiant y trefniadau hynny gan adolygu os oes angen. | • Erbyn diwedd 2024/25 byddwn wedi gweithredu ar yr holl argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn eu harchwiliad o drefniadau herio perfformiad.<br>• Y cam olaf yn yr ymateb hyn fydd cyflwyno adroddiadau perfformiad i’r pwyllgorau craffu yn hytrach na’r cabinet. Bydd hyn yn weithredol o gylch Mehefin 2025 o’r pwyllgorau craffu. |
| • Gweithredu Rhaglen Waith Cynllun Ffordd Gwynedd 2023-28 er mwyn parhau i wella perfformiad a darparu'r gwasanaethau gorau posib ar gyfer trigolion y Sir. | • Dengys adroddiad blynyddol y Cynllun Ffordd Gwynedd ar gyfer 2024/25 fod y Cyngor yn symud i’r cyfeiriad cywir o ran diwylliant a dulliau gweithio. Nodir hefyd bod:<br>  ◦ rhai adrannau’n dangos arweiniad da, ond mae’r cynnydd yn anghyson ar draws y sefydliad.<br>  ◦ technoleg a deallusrwydd artiffisial yn allweddol i wella gwasanaethau.<br>  ◦ angen ehangu hyfforddiant a chryfhau gwerthuso parhaus.<br>  ◦ lleihau absenoldebau a chynyddu perchnogaeth o berfformiad yn flaenoriaethau.<br>  ◦ cynlluniau datblygu talent yn gadarnhaol, ond mae cynllunio’r gweithlu yn dal i fod yn her.<br>  ◦ y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau o safon yn glir – y flaenoriaeth nawr yw cyflymu’r gwaith ym mhob adran.<br>Bydd y gwaith ar y Cynllun 5 mlynedd yn parhau. |

**Tystiolaeth bellach i'n canfyddiadau:**

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-28

Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd

Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2023-24

Adroddiad Blynyddol 2023-24 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Adroddiad Blynyddol 2024-25 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Strategaeth Cyfranogiad 2023

Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 - 28

Cofrestr Risg Corfforaethol

Gweithdy blynyddol gyda'r Rheoleiddwyr a'r Aelodau Cabinet

Adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol

Datganiad o'r Cyfrifon 2024-25

Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019/20 – 2028/29

Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2024

Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd

Arolygon staff

Arolygon preswylwyr

Adroddiad Blynyddol 2024-25 Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd

Cyfrifon Terfynol 2024/25 – Alldro Refeniw

Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2024-25

Adroddiadau Archwilio Cymru

Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru

Adroddiadau Estyn

Datganiad Llywodraethu 2024/25

Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2024-25

Cyngor Gwynedd

# Adroddiad Blynyddol ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25

Draft - Dim i'w gylchredeg

## 1. Cyflwyniad

Nod yr adroddiad yw dangos sut mae Cyngor Gwynedd wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bartneriaeth Gymdeithasol.

Mae **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** (y "Ddeddf SPPP"), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys **Cyngor Gwynedd**, lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r **Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol** a sefydlwyd gan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol geisio **consensws neu gyfaddawd** gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, pan fyddant:

i. yn pennu eu **hamcanion llesiant**; a
ii. yn gwneud **penderfyniadau strategol** ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae **Adran 16(2)** o'r Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â hwy wrth "geisio consensws neu gyfaddawd".

Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y broses o bennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):

a) ymgynghori â hwy ar **gyfnod cynnar** o'r broses, a
b) eu cynnwys drwy gydol y broses drwy:
   i. ddarparu **digon o wybodaeth** iddynt i allu ystyried yn briodol yr hyn a gynigir, a
   ii. darparu **digon o amser** iddynt i ystyried yr hyn a gynigir ac ymateb yn briodol.

Yn ôl **Adran 18** o'r Ddeddf:

1. Rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.
2. Rhaid i'r adroddiad gael ei **gytuno gyda'r undebau llafur cydnabyddedig** neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chafodd ei gytuno.

3. Rhaid i'r corff cyhoeddus **gyhoeddi'r adroddiad**, a'i gyflwyno i'r **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol**, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## 2. Cefndir

Yn ogystal a dyletswyddau o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) mae gofynion o fewn Deddfau eraill megis Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau i fod yn ymgynghori hefo gwahanol garfannau (gan gynnwys staff).

Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Grŵp Cyswllt rhwng y Cyngor a'r undebau llafur ers nifer o flynyddoedd, i atgyfnerthu'r berthynas iach sydd yn bodoli ar y cyfan ers degawd a mwy. Mae'r fforwm hwn yn cyfarfod oddeutu bob 6 wythnos. Bwriad y grŵp hwn yw rhoi pwyslais ar gynnal perthnasau gweithio da rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur, gan drafod a datrys materion cyflogaeth cynhennus yn rhagweithiol, yn ogystal â trin a thrafod datblygiad yr amodau gwaith lleol a mentrau cyflogaeth eraill. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor (Rheolwr y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, Rheolwr Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, swyddogion adnoddau dynol) a chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur (GMB, UNISON ac Unite).

Yr undebau llafur a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd yw:

- GMB
- UNISON
- Unite

## 3. Sut y bu i ni gwrdd/cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Er ein bod fel arfer yn cynnal adolygiad blynyddol o Gynllun y Cyngor, dim ond adolygiad ysgafn a gynhaliwyd yn ystod 2024/25, gyda dim ond un prosiect newydd yn cael ei ychwanegu at y Cynllun. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ehangach gan y Cyngor y tu hwnt i Aelodau Etholedig (drwy gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor Llawn) wrth wneud y penderfyniad hwn.

Fel rhan o'r broses o lunio Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2024/25, cynhaliwyd ymgynghoriad â'r undebau llafur cydnabyddedig, gan ofyn am eu hadborth a'u sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd posibl i'w gwella. Yn benodol, gofynnwyd:

- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol?

Draft - Dim i'w gylchredeg

- A yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael?
- A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau perfformiad effeithiol?
- Pa awgrymiadau sydd ganddynt ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles staff?

Ymhlith yr ymatebion, nodwyd bod lle i wella'r cyfathrebu â'r undebau ar faterion staffio mewn rhai adrannau. Hefyd, cydnabuwyd bod angen datblygu ymhellach ein dull o Bartneriaeth Gymdeithasol gan ei bod yn parhau i fod yn broses o ddysgu ac esblygu. Er bod y berthynas gorfforaethol yn iach ar y cyfan, a bod yna gysylltiadau cadarnhaol o fewn rhai adrannau o'r Cyngor hefyd, cydnabyddir mai'r cam nesaf ydi mynd ymhellach a sefydlu perthynas adeiladol rhwng yr undebau llafur a phob un o adrannau'r Cyngor. Bydd hynny yn ddatblygiad rhagweithiol a chadarnhaol pellach.

Fel y sonnir uchod mae'r Grŵp Cyswllt corfforaethol rhwng y Cyngor a'r undebau llafur yn cyfarfod oddeutu bob 6 wythnos er mwyn trafod materion cyflogaeth. Er bod rhywfaint o sylw wedi ei roi i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y gorffennol byddwn yn sicrhau ei fod wedi ei gynnwys fel eitem safonol ar agenda pob cyfarfod i'r dyfodol.

Yn ystod 2024/25 bu i'r grwp cyswllt corfforaethol gyfarfod oddeutu bob 6 wythnos. Dyma rai o'r materion a dderbyniodd sylw yn ystod y flwyddyn:

1. Cyflwyno polisi profi alcohol a chyffuriau o'r newydd.
2. Datblygu a chyflwyno polisi a system reoli absenoldebau salwch staff o'r newydd.
3. Y posibilrwydd o fabwysiadu siarter iaith Gymraeg y TUC.
4. Ymdrin â newid o fewn gwasanaethau / adrannau, mewn modd cydymdeimladol sydd yn rhoi cefnogaeth i staff.

Un enghraifft o'r bartneriaeth yn gweithio mewn modd adeiladol ydi datblygiad y polisi o'r newydd ar gynnal profion cyffuriau ac alcohol ymysg y gweithlu, a chyflwyno'r polisi a'r system rheoli absenoldebau salwch o'r newydd. Mae llwyddiant y ddau enghraifft yma wedi eu seilio ar gynnwys a chydweithio gyda'r undebau o'r dechrau un - o adnabod y 'broblem' i lunio datrysiadau. Mae'r ddau bwnc yn gallu bod yn gynhennus ac wedi golygu cryn newid mewn polisi, ond trwy gydweithio o'r dechrau llwyddwyd i gyrraedd datrysiad sydd yn dderbyniol gan y ddwy ochr.

O Ebrill 2025 bydd y Cyngor yn cymryd camau pendant i hwyluso cyfranogiad cynrychiolwyr lleol yn eu dyletswyddau undebol, gan gynnwys adnabod a neilltuo cyllideb benodol i gefnogi'r broses hon a rhyddhau cynrychiolwyr o'u swyddi parhaol.

Drafft - Dim i'w gylchredeg

Yn hanesyddol, nid ydym wedi ceisio’n benodol sicrhau consensws gyda’r undebau llafur wrth wneud penderfyniadau strategol nac wrth osod ein hamcanion llesiant. Mae’r diffyg hwn wedi cael ei gydnabod fel gwendid yn y broses, ac wrth edrych tua’r dyfodol, byddwn yn gweithredu camau pendant i sicrhau bod digon o amser yn cael ei glustnodi yn y broses gynllunio, er mwyn galluogi cydweithio ystyrlon a chynhyrchiol gyda’r undebau.

Ein nod yw gwreiddio’r egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Fel rhan o’r ymrwymiad hyn yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn rhoi camau yn eu lle er mwyn cryfhau ein cyfraniad, gan gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o’r gofynion sy’n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru a Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a chyflwyno awgrym o ran sut i gwrdd â’r gofyn.
- Cyflwyno drafft o Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 fel bod cyfle i’r undebau gyflwyno unrhyw argymhellion neu sylwadau cyn i’r ddogfen dderbyn ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cabinet a’r Cyngor Llawn. (Gorffennaf 2025)
- Trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb gyda’r undebau i drafod ein hamcanion llesiant presennol a’r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023–28. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt rannu eu barn yn uniongyrchol ac yn rhagweithiol, gan sicrhau bod eu sylwadau’n cael eu hystyried fel rhan o’r broses adolygu. (Rhagfyr 2025)
- Cynnwys yr undebau’n weithredol yn y broses ddrafftio o adolygiad Cynllun Cyngor Gwynedd 2023–28, gan rannu drafft gyda nhw a’u galluogi i gyflwyno argymhellion a sylwadau cyn i’r drafft fynd gerbron y Cabinet/Cyngor Llawn. (Ionawr 2026)

Drafft - Dim i'w gylchredeg

# Crynodeb Gweithredol - Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2024-25

## Gwynedd Yfory - *Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc*

### ✅ Beth rydym wedi'i gyflawni?

🌱**Cefnogaeth i deuluoedd a phlant bach -** Strategaeth newydd ar gyfer blynyddoedd cynnar wedi arwain at fwy o gymorth i rieni, yn enwedig tadau, a gwell mynediad i ofal plant mewn ardaloedd fel Abermaw, Y Bala, Caernarfon, Porthmadog a Bangor. Mae hyn yn helpu plant y Sir i gael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod mewn addysg.

🏫 **Gwella Ysgolion -** Agorodd Ysgol Treferthyr yng Nghricieth ym Medi 2024. Mae gwelliannau ar y gweill mewn ysgolion eraill gan gynnwys Ysgol Hirael, Ein Harglwyddes a Tryfan ym Mangor, ac Ysgol Bontnewydd. Mae hyn yn darparu amgylchedd dysgu mwy modern, diogel ac addas i blant Gwynedd.

💸 **Llai o gostau i deuluoedd -** Gwaith wedi'i wneud i ddeall costau ysgol i deuluoedd, gyda chynlluniau wedi'u datblygu i leihau'r baich ariannol, gan gynnwys cynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn cynradd. Mae hyn yn lleihau pwysau ariannol ar deuluoedd.

🤝 **Mwy o gyfleoedd cymdeithasol -** Casglwyd barn pobl ifanc am wasanaethau ieuenctid a bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau chwarae lle bo modd.

📘 **Addysg sy'n edrych tua'r dyfodol -** Strategaeth 10 mlynedd ar y gweill i sicrhau bod addysg Gwynedd yn parhau i wella ac yn diwallu anghenion trigolion.

🧠 **Cefnogaeth i blant ag anghenion ychwanegol –** Rydym wedi cryfhau'r gefnogaeth i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol drwy gydweithio ag ysgolion, adnabod anghenion yn gynnar, a chynllunio canolfan newydd fydd yn cynnig cymorth wedi'i deilwra o Fedi 2025, gan sicrhau cyfle teg i bob plentyn lwyddo.

🛡️ **Staff ysgolion wedi'u hyfforddi -** Mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar faterion diogelu ac anghenion emosiynol, gan wella'r gofal a'r gefnogaeth i blant.

### ⚠️ Materion sydd angen sylw

📉 **Presenoldeb disgyblion yn isel -** Llawer o blant yn absennol o'r ysgol ers y pandemig, sy'n gallu effeithio ar eu dysgu a'u datblygiad.

🛡️ **Pryderon am ddiogelu plant -** Bu achosion difrifol yn ymwneud â diogelwch disgyblion. Mae angen sicrhau bod trefniadau diogelu ysgolion yn gryf ac yn cael eu gwella'n barhaus.

⚖️ **Diffyg tegwch rhwng ysgolion -** Mae amrywiaeth sylweddol yng nghostau fesul disgybl ar draws ysgolion, sy'n gallu arwain at anghydraddoldebau.

🧠 **Angen mwy o gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol -** Angen cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd â phroblemau cymdeithasol ac ymddygiadol, gan sicrhau bod y cymorth yn effeithiol ac ar gael yn brydlon.

## **Gwynedd Lewyrchus -** *Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng*

### ✅ Beth rydym wedi'i gyflawni?

🎭 **Hyrwyddo Diwylliant ac Economi Ymweld -** Cynhaliwyd uwch-gynhadledd i drafod twristiaeth gynaliadwy, gyda dros 100 o bobl yn bresennol. Agorwyd pedwar lle newydd i aros dros nos mewn cartrefi modur. Cafodd 109 o brosiectau diwylliannol gymorth, a buddsoddwyd mewn safleoedd treftadaeth fel Amgueddfa Lechi a Pharc Padarn.

🏘️ **Adfywio Cymunedau a Threfi -** Cyhoeddwyd Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 ardal, gyda buddsoddiad o £1.8 miliwn mewn prosiectau lleol. Cwblhawyd Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer Porthmadog, Pwllheli, Y Bala a Dolgellau, a rhoddwyd grantiau Trawsnewid Trefi i brosiectau allweddol fel Parc y Coleg a Galeri Cyf.

💼 **Cefnogi Busnesau a Gwaith -** Cafodd dros 600 o fusnesau gymorth drwy raglenni fel ARFOR a Chronfa Ffyniant Gyffredin, a chynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd. Rhoddwyd cymorth i 221 o bobl i ddod o hyd i waith, a 251 i wella eu sgiliau, gyda chefnogaeth hefyd i brosiectau strategol fel Parc Bryn Cegin a Hwb Arloesi Glynllifon.

📍 **Cadw'r Budd yn Lleol -** Lluniwyd strategaeth gaffael newydd i gadw mwy o arian yn lleol a rydym wedi gwneud gwaith i godi ymwybyddiaeth am y rheolau newydd ymhlith staff a chyflenwyr.

💼 **Cefnogi Busnesau a'r Economi -** Cefnogwyd 176 o fusnesau gyda grantiau a chyngor ymarferol, ac mae 54 ohonynt wedi ymrwymo i dalu cyflog byw gwirioneddol ac i ddefnyddio mwy o Gymraeg.

🏘️ **Cefnogi Cymunedau -** Dros £1.6 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu i grwpiau cymunedol drwy Gist Gwynedd. Buddsoddwyd £8.5 miliwn i wella canol trefi, gan adnewyddu 26 adeilad a dod â 10 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

🎭 **Diwylliant, Hamdden a Dysgu -** Gwnaed buddsoddiadau sylweddol er mwyn gwella cyfleusterau ar draws Gwynedd gan gynnwys Glynllifon, canolfannau hamdden, harbyrau, Dinas Dinlle, ac Amgueddfa Lloyd George. Cynhaliwyd digwyddiadau poblogaidd ledled y sir, gan ddenu miloedd o bobl a chynyddu budd i'r economi leol.

### ⚠️ Materion sydd angen sylw

📉 **Llai o gyllid ar gael -** Rhaglenni ariannu pwysig wedi dod i ben, ac mae'r cymorth sydd ar gael bellach yn llai. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut y byddwn yn gallu parhau i gefnogi datblygiad economaidd yn y dyfodol.

📌 **Risg o golli cyfleoedd -** Mae perygl y bydd Gwynedd yn colli cyfle i elwa'n llawn o gynlluniau rhanbarthol, os nad yw'r trefniadau'n gweithio'n dda.

## **Gwynedd Glyd –** *Sicrhau cartrefi addas, fforddiadwy a chynaliadwy i bobl Gwynedd*

✅ **Beth rydym wedi'i gyflawni?**

🏠 **Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol -** Ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai, mae 386 o dai cymdeithasol wedi'u codi, gan helpu tua 1,300 o bobl. Yn 2024/25, prynwyd 23 o dai i'w gosod ar rent fforddiadwy, adferwyd 108 o dai gwag, a chodi 90 o dai fforddiadwy. Cafwyd £8 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiadau pellach, gyda safleoedd newydd ar y gweill yn Llanberis a Bangor.

💡 **Tlodi tanwydd a chostau byw -** Trigolion Gwynedd wedi cael cymorth i leihau costau ynni, gyda dros 5,600 o dalebau wedi'u dosbarthu a chymorth ar gael trwy'r wefan Costau Byw a chlinigau cymunedol. Hefyd, cafodd 753 o dai gymorth i wella eu perfformiad ynni, a chafodd pobl eu cyfeirio at wasanaethau fel banciau bwyd a grantiau tai i'w helpu ymhellach.

🛏️ **Digartrefedd -** Cwblhawyd llety newydd i bobl ddigartref ym Mangor a Phwllheli, ac mae mwy ar y gweill. Mae 65 o bobl wedi cael cartrefi trwy gynllun rhentu fforddiadwy, ac mae'r Cyngor yn paratoi i agor 'Siop Un Stop' i helpu pobl gyda materion tai.

🏡 **Ail gartrefi a llety gwyliau** - Mae'r Cyngor wedi gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli ail gartrefi a llety gwyliau. Er bod gostyngiad wedi bod yn nifer yr eiddo hyn, nid oes digon o dystiolaeth eto i brofi'r effaith uniongyrchol.

⚠️ **Materion sydd angen sylw**

📉 **Digartrefedd yn parhau'n her -** Mae digartrefedd yn dal i fod yn her fawr yng Ngwynedd, gyda galw uchel am lety. Mae angen datblygu mwy o safleoedd ar draws y sir i ateb y galw hwn.

📋 **Heriau wrth weithredu deddfwriaeth newydd -** Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn gofyn am fwy o adnoddau i'w weithredu'n iawn.

❓ **Mynediad at wasanaethau tai -** Mae pryder nad yw pobl yn cael cyngor hawdd ar faterion tai, ond mae 'Siop Un Stop' ar y gweill i helpu gyda hyn.

## **Gwynedd Ofalgar –** *Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau*

☑️ **Beth rydym wedi'i gyflawni?**

🏥 **Moderneiddio gofal -** Rydym wedi gwella dau gartref gofal – Hafod Mawddach a Chefn Rodyn – ac wedi agor unedau dementia newydd ym Mryn Blodau. Mae trafodaethau ar y gweill i greu llety gofal ychwanegol yng Nghaernarfon ac ym Mhenyberth, Pwllheli.

📱 **Technoleg -** Mae gwybodaeth a chyngor am ofal bellach ar gael ar-lein trwy chwiliwr Dewis ac AskSara a rydym hefyd wedi creu rhestr o ddyfeisiadau teleofal (fel larwm personol neu synwyryddion). Mae hyn yn helpu pobl i fyw'n annibynnol ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau gofal.

🤝 **Cydweithio efo Iechyd -** Mae trefniadau cyfathrebu a chyfarfodydd rheolaidd wedi'u sefydlu i wella cydweithio y Cyngor a'r Gwasanaeth Iechyd, gan leihau dyblygu a gwella'r gwasanaeth i unigolion.

🧑‍🏫 **Cyfleoedd gwaith -** Penodwyd staff ychwanegol i gefnogi pobl ag anabledd dysgu i gael gwaith cyflogedig gyda gwir gyflog byw. Mae'r Cyngor yn cynnig cefnogaeth i'r unigolion a'r cyflogwyr i sicrhau bod y trefniadau'n llwyddiannus.

📊 **Llechen Lân -** Cwblhawyd dadansoddiad o boblogaeth Gwynedd, y galw am wasanaethau, a'r arferion gorau er mwyn deall beth fydd ei angen dros y 20 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn ein helpu i gynllunio adnoddau a gwasanaethau'n well ar gyfer y dyfodol.

🌱 **Cefnogi Llesiant Pobl -** Cafodd Hyrwyddwyr Lles eu penodi a chynhaliwyd digwyddiadau costau byw a sesiynau galw-heibio i gefnogi trigolion. Bu cydweithio gyda Chyngor Ar Bopeth i gynnig cymorth gyda rhifedd a chyllidebu, ac roedd cymorth ymarferol ar gael i bobl ddysgu defnyddio technoleg, gan gynnwys dosbarthu cyfarpar TG. Sefydlwyd cronfa i gefnogi prosiectau bwydo yn y gymuned, gyda chyrsiau coginio wedi'u trefnu mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd.

🧩 **Cynllun Awtistiaeth** – Penodwyd gweithiwr ataliol er mwyn cefnogi plant ar y llwybr diagnosis. Mae'r tîm hefyd yn datblygu rhaglenni i gefnogi rhieni a gofalwyr, ac wedi cynnig hyfforddiant ar awtistiaeth ac ymddygiad sy'n peri pryder. Rydym yn parhau i weithio ar brosiect Llwybrau Ni, sy'n cynnig cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc ac egwyl i rieni.

🏡 **Darpariaeth breswyl i blant –** Cartref grŵp bychan wedi agor ym Morfa Bychan gyda staff wedi'u penodi a dau blentyn wedi'u croesawu i'r cartref. Prynwyd dau eiddo ychwanegol ac mae gwaith paratoi ar y gweill i'w cofrestru.

💡 **Arloesi a Chyfleoedd Newydd -** Academi Gofal wedi'i lansio i helpu pobl ddechrau gyrfa yn y maes gofal. Mae bron i 1,000 o ddyfeisiau teleofal wedi'u diweddaru i rai digidol, gan helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi.

🏥 **Gofal Gwell i Bobl Gwynedd -** Er bod mwy o alw am wasanaethau, mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau'r rhestrau aros am asesiadau a gofal cartref. Mae lleoli staff yn yr ysbyty hefyd wedi lleihau'r oedi i gleifion sy'n aros i ddychwelyd adref o'r ysbyty.

### ⚠️ Materion sydd angen sylw

🏠 **Diffyg Darpariaeth Gofal Digonol -** Gall diffyg darpariaeth gofal arwain at niwed i unigolion a chostau ychwanegol i'r Cyngor, gan gynyddu'r galw am wasanaethau. Mae prosiect Llechen Lân yn helpu i ddeall y galw a'r adnoddau sydd eu hangen, er mwyn cynllunio'n well i'r dyfodol a lleihau'r risgiau.

👥 **Heriau Recriwtio a Chadw Staff -** Mae prinder staff yn gallu effeithio ar ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau fel sefydlu Academi Gofal ac adolygu cyflogau i wella'r sefyllfa.

🤝 **Cydweithio â Phartneriaid Allanol -** Gall diffyg cydweithio gyda sefydliadau fel y Bwrdd Iechyd, yr heddlu a'r trydydd sector arwain at wasanaethau o safon is. Mae'r Cyngor eisoes yn cymryd camau i i gryfhau'r berthynas a symleiddio'r ffordd mae sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd.

📈 **Pwysau cynyddol ar Gyllidebau a Gwasanaethau -** Galw cynyddol a mwy o anghenion yn rhoi pwysau ar gyllidebau gyda'r boblogaeth hŷn yn tyfu ar raddfa lawer yn uwch na' r boblogaeth oed gwaith.

## Gwynedd Gymraeg – *Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n triolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*

### ✅ Beth rydym wedi'i gyflawni?

🏫 **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi -** Agorwyd uned newydd yn Ysgol Uwchradd Tywyn i helpu plant ddysgu Cymraeg a gwnaed gwelliannau i dri safle arall – Cymerau, Dolgellau a Maesincla. Hefyd, crëwyd pentref rhithwir o'r enw Aberwla i helpu dysgwyr Cymraeg ar-lein.

🗣️ **Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd -** Datblygwyd prosiectau i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith a'u cymunedau, gan gynnwys cynnwys digidol ar gyfer pobl ifanc. Yn ogystal, bu gwaith yn digwydd i warchod enwau llefydd Cymraeg ac i fynd i'r afael â phrinder staff sy'n siarad Cymraeg o fewn rhai sefydliadau.

### ⚠️ Materion sydd angen sylw

🔍 Mae rhai'n meddwl bod angen Cymraeg o safon uchel i weithio i'r Cyngor, ac er nad yw hynny'n wir, gall y camargraff hwn wneud recriwtio'n anoddach.

🚶 Mae pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn gadael Gwynedd, sy'n gallu lleihau defnydd y Gymraeg yn y gymuned.

## **Gwynedd Werdd** - *Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd*

☑️ **Beth rydym wedi'i gyflawni?**

🌊 **Llifogydd -** Mabwysiadwyd Strategaeth Llifogydd newydd ar gyfer y sir, a cwblhawyd prosiect gwerth bron i £6 miliwn yn Hirael, Bangor i leihau risg llifogydd ac i wella hamdden. Bu cynnydd da gyda'r dyluniad manwl ar gyfer Promenâd y Gogledd yn Abermaw hefyd.

♻️ **Gwastraff ac Ailgylchu -** Lluniwyd Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2025, ac mae cynlluniau ar y gweill i foderneiddio'r cyfleusterau trin gwastraff yn Harlech a Chaernarfon.

🌍 **Argyfwng Hinsawdd a Natur – G**osodwyd 60 pwynt gwefru mewn 13 lleoliad ar gyfer fflyd y Cyngor, ac mae 31% o'r fflyd bellach yn gerbydau trydan.

🚶 **Teithio Llesol –** datblygwyd cynlluniau llwyddiannus ar gyfer Ffordd Penrhos Bangor, Ysgol Rhostryfan, Ysgol Treferthyr, Cricieth.

🧹 **Cymunedau Glân a Thaclus –** mae tîm Ardal Ni wedi ymateb i gynnydd sylweddol mewn ceisiadau am waith glanhau, ac maent yn derbyn canmoliaeth am eu gwaith ledled y sir.

⚠️ **Materion sydd angen sylw**

♻️ **Cynyddu ailgylchu** – mae'n lefel ailgylchu yn gyson ar 64%, sydd bellach dan y targed cenedlaethol newydd o 70%. Bydd y Strategaeth Wastraff yn manylu ar gynlluniau i fynd i'r afael â hyn.

⛽ **Tanwydd** - bu cynnydd o 0.98% yn nifer y litrau o danwydd a ddefnyddiodd y Cyngor o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

🧪 **Archwiliadau safonau bwyd a hylendid bwyd** - mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi datgan nad yw'r Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol o ran amlder archwiliadau safonau bwyd a hylendid bwyd. Mae'r gwasanaeth yn y broses o gyfarch argymhellion yr ASB er mwyn gwella'r sefyllfa.

## Gwynedd Effeithlon

*Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon*

☑ **Beth rydym wedi'i gyflawni?**

🎓**Dysgu a Datblygu Staff** – lansiwyd Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd gyda'r rhaglen hyfforddi am y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar faterion fel rheolaeth cyllid, llesiant a sgiliau digidol. Yn ogystal cyflwynwyd Strategaeth Llesiant newydd gyda ffocws ar lles meddyliol, corfforol, cymdeithasol ac ariannol.

👩‍💼**Rhaglen Merched mewn Arweinyddiaeth -** Cynhaliwyd rhagor o weithgareddau sy'n sylfaen i waith y prosiect megis y Rhaglen Datblygu Potensial, annog merched i ymgeisio am swyddi uwch, a rhoi sylw i gydbwysedd cynrychiolaeth mewn pwyllgorau a grwpiau.

💷**Rheoli Effaith Toriadau Cyllidol -** gwireddwyd £43 miliwn o arbedion ers 2015/16 (93% o'r targed).

💻 **Cynllun Digidol -** rhaglen fanwl wedi ei chreu ar gyfer gwella'n gwasanaethau drwy ein Cynllun Digidol. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i system ffôn y Cyngor.

⚠ **Materion sydd angen sylw**

💰**Arbedion** – angen sicrhau fod adrannau yn gwireddu'r arbedion ariannol sydd wedi eu hadnabod.

📃**Casglu trethi** – mae adolygiad ar y gweill er mwyn gwella'n cyfradd casglu Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig.

🗳**Gorsafoedd pleidleisio** – mae adolygiad o fannau pleidleisio wedi ei gynnal er mwyn asesu addasrwydd y gorsafoedd ac ystyried os oes lleoliadau mwy addas ar gael.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod :** | Cyngor |
| **Dyddiad :** | 4 Tachwedd 2025 |
| **Teitl :** | Trefn Datrys Mewnol |
| **Awdur :** | Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |
| **Pwrpas :** | Er argymell Trefn Datrys Mewnol diwygiedig i’w fabwysiadu gan y Cyngor |

**Cefndir**

1.O ddeutu  2013 mabwysiadodd pob prif gyngor yng Nghymru drefn  datrys lleol (“TDLl”).  Y bwriad oedd creu proses anffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion lefel isel heb yr angen am gŵyn ffurfiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Crëwyd cwpl o fodelau gwahanol ar gyfer TDLl ar y pryd a mabwysiadodd  Gwynedd drefn.  Mae'r TDLl  hwnnw wedi'i fireinio wedyn ond yn ar y cyfan wedi aros  yr un peth. .

2. Adolygodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yr holl brotocolau datrys lleol yng Nghymru y llynedd.  Cymerodd gyngor gan gwnsel  ar broblemau a ganfyddwyd  gydag un neu fwy o'r protocolau hynny .Canfyddwyd hefyd fod TDlL Gwynedd ymhlith y rhai oedd wedi eu hadnabod yn  cynnwys esiamplau o ymarfer da. Fodd bynnag o ystyried y farn gyfreithiol roedd angen adolygu y trefniadau datrys. Roedd hyn o amgylch dau fater penodol yn achos trefniadau Gwynedd.

(a) Nid oes sail gyfreithiol glir ar gyfer rôl y Pwyllgor Safonau yn y weithdrefn. Y mater cyntaf yw absenoldeb pŵer cyfreithiol y Pwyllgor Safonau i orfodi penderfyniad drwy brosesau a fabwysiadwyd yn lleol. Yn ail, nid yw'r weithdrefn yn eithrio cwyn bosibl i'r Ombwdsmon ar unrhyw adeg. Yn y senario hwnnw byddai'r Pwyllgor Safonau eisoes wedi bod yn rhan o'r mater ac ni allai eistedd fel tribiwnlys annibynnol .

(b) Mae'r trefniadau yn anffurfiol a dylent fod yn ymwneud â chwynion lefel isel sy'n ymwneud â materion "mewnol".

Roedd y cyntaf o arwyddocâd penodol ac yn gyffredin i fwyafrif o drefniadau TRLl. Roedd yr 2il yn bwynt o eglurdeb ynglŷn a ffiniau y broses. Dylwn ychwanegu nad oes gennym gofnod o un achlysur o broses datrys yn mynd i’r 3ydd cam Pwyllgor Safonau

3. Mewn ymateb i hyn adolygwyd  y TDLl a chynnig diwygiadau i’r Pwyllgor Safonau ystyried  (Atodiad 1)  Rhoesant ystyriaeth i’r adroddiad  ar y 3ydd o Dachwedd ac argymell fod y Cyngor Llawn yn mabwysiadau y newidiadau.

**Penderfyniad a Geisir**

**Fod y Cyngor yn cymeradwyo y diwygiadau i'r Drefn Datrys Lleol fel y nodir yn Atodiad 1.**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

**Prif Swyddog Cyllid**

"Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir a nid oes gennyf sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

**ATODIAD 1**

**TREFN DATRYS LEOL CYNGOR GWYNEDD**
**TREFN AR GYFER YMDRIN Â HONIADAU FOD AELOD WEDI TORRI'R PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG NEU SAFON GWYNEDD**

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog yn arf bwysig i hybu cydweithrediad da rhwng aelodau a swyddogion o fewn y Cyngor a thrwy hynny caniatáu i'r cyngor gyflawni ei ddyletswyddau yn y modd mwyaf effeithiol a phroffesiynol. Yn yr un modd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safon Gwynedd er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau. Mae'n bwysig felly bod modd ymdrin yn gyflym ac effeithiol gydag unrhyw honiad yn erbyn aelod ei fod wedi torri'r protocol neu'r Safon. Diben y drefn leol hon yw cyflwyno dull syml a hawdd i'w deall i ymdrin â honiadau o'r fath.

   1.1 Nod y weithdrefn hon yw ceisio datrys cwynion ynghylch aelodau yn gyflym ac yn effeithiol a chyrraedd datrysiad i gwyn lefel isel drwy consensws. Nid oes unrhyw beth yn y weithdrefn hon yn atal unrhyw un rhag cyflwyno cwyn i ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus Cymru bod aelod wedi torri cod ymddygiad yr aelodau. Gallai'r ombwdsmon gyfeirio'r mater at y pwyllgor safonau neu banel dyfarnu Cymru sydd â'r pŵer i anghymhwyso aelodau am hyd at 5 mlynedd.

   1.2 Nid yw'r weithdrefn hon yn addas ar gyfer honiadau sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn honni torri difrifol i'r Cod Ymddygiad. Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori ar addasrwydd y broses hon yn seiliedig ar ffeithiau/amgylchiadau pob achos. Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ystyried yn doriadau difrifol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i);

   - p'un a oedd yr aelod yn ceisio budd personol iddyn nhw eu hunain neu berson arall ar draul y cyhoedd a yw amgylchiadau'r toriad
   - yn y fath fodd fel bod aelod wedi camddefnyddio swydd ymddiriedaeth neu awdurdod ac wedi achosi niwed i berson
   - p'un a oedd y toriad wedi'i ysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd y dioddefwr
   - honni torri dro ar ôl tro o'r cod ymddygiad

2. Mae'r broses yn gyfrinachol a dim ond y tu allan i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses, trwy gytundeb, y bydd gwybodaeth yn cael ei rannu, ar wahân i ddata ystadegol a ddarperir i'r Pwyllgor Safonau ar gyfer ei Adroddiad Blynyddol. Ar bob cam bydd llythyr canlyniad cyfrinachol a fydd yn cofnodi'n gryno'r hyn a drafodwyd ac unrhyw gamau y cytunwyd arnynt.

3. Mae'r broses yn gydsyniol ac mae'n rhaid i bob parti gytuno i'w ddefnyddio, ac i symud ymlaen o Gam 1 i Gam 2.

**CAM 1 O'R DREFN**

4. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno honiad dan y drefn hon anfon ei gwyn

(achos swyddog yn dilyn ymgynghoriad gyda'i Bennaeth Adran) at y Swyddog Monitro. Yn dilyn derbyn cwyn bydd y Swyddog Monitro yn gweithredu fel a ganlyn

5. Yn y lle cyntaf cynhelir ymchwiliad rhagarweiniol byr i sefydlu'r ffeithiau (lle'n bosib) a'r meysydd anghytundeb. Anfonir copi o'r gwyn i'r aelod o fewn 7 diwrnod gwaith o dderbyn y gwyn gyflawn. Mewn achos cwyn rhwng aelodau etholedig bydd y Swyddog Monitro yn anfon copi o'r gwyn i Arweinydd Grŵp Gwleidyddol yr aelod y cwynir yn eu herbyn (os ydynt yn aelod o Grŵp). Trafodir datrysiadau posib gyda'r achwynydd a'r aelod y gwneir yr honiad yn ei erbyn i sefydlu a oes modd cael datrysiad cyflym. Gyda cytundeb y cwynydd a'r sawl a gwynir yn eu herbyn gellir dwyn yr Arweinyddion Grwpiau perthnasol i'r drefn ar y pwynt yma i gefnogi y broses. Ar y cam yma rhoddir cyngor i'r achwynydd a fyddai ffordd arall o weithredu (e.e. cyfeirio i'r Ombwdsmon) yn fwy addas. Gall y cam yma gael ei drin gan y Swyddog Monitro yn bersonol neu gan swyddog arall a benodir ganddo.

6. Os yn dilyn y cam cyntaf y bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen gyda honiad dan y drefn hon, gellir cyfeirio'r mater, ~~naill a'i~~ i gyfarfod cymodi dan Gam 2 ~~neu i wrandawiad gan y Pwyllgor Safonau dan Gam 3.~~

**<u>CAM 2 O'R DREFN</u>**

7. Yng ngham 2 cynhelir cyfarfod rhwng y sawl sy'n cwyno, yr aelod y gwneir yr honiad yn ei erbyn, y Swyddog Monitro ac (os ystyrir yn briodol) personau eraill a wahoddir gan y Swyddog Monitro. Gall personau o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y Prif Weithredwr ac Arweinydd Grŵp y grŵp(iau) gwleidyddol perthnasol. Mae modd i swyddog gael cydweithiwr neu uwch swyddog o'r adran yn bresennol gydag ef/hi. Mae hefyd yn bosib ymdrin â'r mater yn absenoldeb swyddog mewn achosion eithriadol. Bwriad y cyfarfod yma fydd ceisio datrys y mater heb fynd ymhellach.

~~**<u>CAM 3 O'R DREFN</u>**~~

~~8. Y trydydd cam yw gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Gofynnir i'r sawl sy'n cwyno gyflwyno sylwedd ei gŵyn yn ysgrifenedig a gofynnir am ymateb ysgrifenedig gan yr aelod dan sylw. Bydd y papurau hyn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarperir gan y naill ochr neu'r llall yn cael eu dosbarthu i aelodau y Pwyllgor Safonau.~~

~~9. Bydd gan y sawl sy'n cwyno a'r aelod sy'n destun y gwyn yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau ac i gyflwyno tystiolaeth gan dystion. Ni dderbynnir tystiolaeth ysgrifenedig yn unig gan dyst heb gytundeb yr ochr arall. Bydd gan y ddau hawl i gael cynrychiolydd neu gydweithiwr yn bresennol. Ni fydd y Cyngor yn talu cost cynrychiolwyr.~~

10. ~~Pe byddai'r naill ochr neu'r llall yn dymuno peidio bod yn bresennol, neu yn methu ymddangos, gellir cynnal y gwrandawiad yn eu habsenoldeb.~~

~~11. Wedi i'r dystiolaeth gael ei chlywed gofynnir i'r ddwy ochor a'u cynrychiolwyr adael yr ystafell a bydd y Pwyllgor Safonau yn dod i benderfyniad ar yr honiad. Bydd y Swyddog Monitro wrth law i gynghori'r Pwyllgor.~~

~~12. Gall y Pwyllgor ddod i un o dri penderfyniad, sef :-~~

| | |
|---|---|
| ~~a)~~ | ~~Nad oes sail i'r honiad;~~ |
| ~~b)~~ | ~~Bod sail i'r honiad, ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach;~~ |
| ~~c)~~ | ~~Bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r Aelod.~~ |

Yn ychwanegol fe all y Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â newid unrhyw gyfundrefnau neu gymryd unrhyw gam pellach.

**MATERION ATODOL**

13. Ni roddir cyhoeddusrwydd i enwau y partïon oni bai y penderfynir bod sail i'r honiad. Bydd y gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Safonau yn eithriedig.

14. Nid oes raid dilyn camau 2 a 3 mewn trefn. Er bod modd i achwynydd sydd yn parhau yn anfodlon wedi y cyfarfod cymodi ofyn am i'r mater gael ei gyfeirio i wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn bosib i fater fynd yn syth gerbron Pwyllgor Safonau heb fynd i gyfarfod cymodi yn gyntaf. Mae'n bosib i aelod gynnig ymddiheuriad unrhyw adeg hyd at y gwrandawiad ond pe byddai'r gwrandawiad wedi ei drefnu a bod yr achwynydd yn dymuno peidio parhau â'i gwyn bydd angen cydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i ddiddymu'r gwrandawiad.

15. Nod y drefn hon yw ceisio datrys cwynion am aelodau yn gyflym ac yn effeithiol. Nid oes dim yn y drefn yn atal hawl unrhyw un rhag cyflwyno cwyn i ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus cymru fod aelod wedi torri y côd ymddygiad. Fe allai'r ombwdsmon, os yw o'r farn fod achos i'w ateb, gyfeirio'r mater at y pwyllgor safonau, neu at banel dyfarnu cymru, sydd â'r hawl i ddiarddel aelod am gyfnod o hyd at 5 mlynedd .

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref AS
Ein cyf/Our ref KSNWT/01683/25

Y Cynghorydd Ioan Thomas
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

annession@gwynedd.llyw.cymru

23 Hydref 2025

Annwyl Gynghorydd Thomas,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 09 Hydref ynglŷn â chynnig Cyngor Gwynedd i alw ar Lywodraeth Cymru i fynnu bod Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymru wedi'i ddatganoli'n llawn.

Mewn ymateb i'ch sylwadau am *East West Rail* (y rheilffordd rhwng Rhydychen a Chaergrawnt), gallaf gadarnhau bod pob cynllun rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Piblinell Gwella'r Rhwydwaith Rheilffyrdd. Hyd yn hyn, mae *East West Rail* wedi'i nodi fel llinell reilffordd gymaradwy yn y Datganiad o Bolisi Ariannu.

Yn y cyfnod ers 2 Mehefin, rydym yn deall bod Trysorlys EF wedi nodi dosbarthiad *East West Rail* fel camgymeriad posibl ac rydym wrthi'n trafod hyn gyda'r Adran Drafnidiaeth. Bydd Trysorlys Ei Fawrhydi yn ystyried sut mae hyn oll yn effeithio ar gymhariaeth gyffredinol ond maent wedi cadarnhau bod gennym yr un ffactorau cymhariaeth ag a ddefnyddiwyd yng Nghyllideb yr Hydref yn yr Adolygiad Gwariant.

Mae'r enghraifft hon yn dangos yr heriau a hefyd ddiffygion system bresennol Barnett a pham yr ydym yn ceisio diwygio'n sylfaenol fodel gweithredu rheilffyrdd Cymru, gan gynnwys sefydlu Uned Fusnes Cymru a'r Gororau grymus o fewn Rheilffyrdd Prydain Fawr a fyddai'n atebol i Weinidogion Cymru ac yn sicrhau mwy o lais o ran gwasanaethau rheilffyrdd sy'n gweithredu i mewn i Gymru ac oddi yno.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae datganoli llawn o seilwaith rheilffyrdd ochr yn ochr â setliad cyllido teg yn parhau i fod yn uchelgais hirdymor i ni ond rydym yn cydnabod bod hon yn broses i'w chyflawni trwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU i gyflawni diwygiadau y mae gwir eu hangen i'r diwydiant rheilffyrdd.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Eich cyf/Your ref AS
Ein cyf/Our ref MDFWL/00468/25

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Cynghorydd Ioan Thomas
Cadeirydd y Cyngor

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

24 Hydref 2025

Annwyl Gynghorydd Ioan Thomas,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Hydref ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad ac argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Rydym wedi derbyn nifer helaeth o argymhellion y Comisiwn ac yn gweithio ar draws y Llywodraeth i weithredu'r argymhellion hynny. Rydym hefyd wedi derbyn mewn egwyddor yr argymhellion i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac rwyf yn cydnabod rôl allweddol awdurdodau lleol yn y gwaith hwn. Yn ddiweddar mynychais gyfarfod gyda aelodau Cabinet y Gymraeg, Awdurdodau Lleol i drafod yr argymhellion oedd yn ymwneud yn benodol â dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch a sut gall hynny weithio'n ymarferol.

Yn ystod y cyfarfod cytunodd swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gydlynu ymateb ar ran yr awdurdodau lleol a byddaf yn rhoi sylw i'r ymateb pan fyddaf wedi'i dderbyn.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.